# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 04/11/2014

Cynnwys Contents


[Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister]

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement]

[Datganiad: Diwygio Cymwysterau
Statement: Qualifications Reform]

[Datganiad: Perfformiad o ran Ailgylchu
Statement: Performance on Recycling]

[Datganiad: Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb a Darparu yn y Dyfodol
Statement: Hate Crime Awareness Week and Future Delivery]

[Datganiad: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2013-14
Statement: The Chief Medical Officer's Annual Report 2013-14]

[Adroddiad Blynyddol 2013-14 Comisiynydd y Gymraeg
The Welsh Language Commissioner's Annual Report 2013-14]


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

# Cwestiynau i'r Prif Weinidog

# Questions to the First Minister

### Cyflog ac Amodau Athrawon

### Teachers' Pay and Conditions

13:30

## Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â datganoli pwerau dros gyflog ac amodau athrawon? OAQ(4)1927(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement regarding the devolution of powers over teachers' pay and conditions? OAQ(4)1927(FM)*

13:30

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n croesawu argymhellion comisiwn Silk ar y cyfan i ddatganoli pwerau dros gyflog ac amodau athrawon. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi bwysleisio bod yn rhaid i unrhyw broses i drosglwyddo pwerau gynnwys hefyd neilltuo adnoddau priodol.

I broadly welcome the recommendation of the Silk commission to devolve powers over teachers' pay and conditions. However, I must stress that any such transfer of powers must include an appropriate allocation of resources.

13:30 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. Mewn cyfarfod ymylol yng nghynhadledd Plaid Cymru yn Llangollen wythnos yn ôl, roedd dwy o undebau Cymru wedi'u cynrychioli ac yn trafod y mater yma. Er bod gwahaniaeth barn, mae'n rhaid dweud, roedd y ddwy yn unfrydol ei bod yn well ein bod yn sefydlu proses 'nawr ar y lefel genedlaethol Gymraeg i drafod y materion hyn yn hytrach nag aros i San Steffan benderfynu a mynnu datganoli heb, o reidrwydd, yr adnoddau i gyflawni hynny wrth gwrs. Felly, a wnewch chi, fel Llywodraeth, sefydlu'r broses yma o drafod gydag athrawon a'r undebau fel bod modd inni edrych ar y math o system genedlaethol dros gyflog ac amodau gwaith athrawon y gallem ni ei chael yng Nghymru?

Thank you, First Minister. At a fringe meeting of the Plaid Cymru conference in Llangollen a week ago, two of the Welsh unions were represented and were discussing this issue. Although there was a difference of opinion, it must be said that both were agreed that it would be better to establish a process now at the national Welsh level to discuss these issues rather than waiting for Westminster to decide and to insist upon devolution without providing adequate resources. So, will you, as a Government, put in train this process of discussing with teachers and the unions so that we can look at the kind of national system for teachers' pay and conditions that we could establish in Wales?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Gweinidog wedi'i godi 'nawr ac yn y man gyda'r undebau. Mae gwahaniaethau rhwng yr undebau ynglŷn â pha un a ydyn nhw'n cefnogi'r syniad ai peidio, ond, fel Llywodraeth, gallwn weld bod manteision i gael system i Gymru, fel y mae system i'r Alban, ond beth sy'n hollbwysig yw sicrhau bod digon o arian ac adnoddau ar gael er mwyn gallu gweithredu unrhyw system newydd.

This is something that the Minister has raised from time to time with the unions. There are differences of opinion among the unions as to whether they support the idea or not, but, as a Government, we can see that there would be benefits to having such a system for Wales, as there is in Scotland. However, what is crucially important is ensuring that sufficient funding and resources are available so that we can implement any new system.

13:32 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y llynedd, darganfu ymchwiliad fod athrawon cyflenwi yn cael eu talu yn llawer llai pan y'u cyflogwyd drwy asiantaeth yn hytrach na chan yr ysgol yn uniongyrchol. O ystyried bod 5,000 o athrawon cyflenwi yma yng Nghymru, a bod tua 40 o asiantaethau yn recriwtio, a allwch chi ddweud wrthym ba drafodaethau y mae eich Llywodraeth chi wedi eu cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig am y mater penodol hwn?

Last year, an inquiry found that supply teachers are paid far less when they are employed through agencies rather than directly by schools. Given that there are 5,000 supply teachers here in Wales and that there are around 40 agencies recruiting these teachers, can you tell us what discussions your Government has had with the UK Government on this specific issue?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn bersonol, nid wyf wedi cael trafodaethau ar hynny, ond mae modd delio gyda hyn, sef drwy sicrhau bod y pwerau ynglŷn ag amodau a thâl yma yn y Cynulliad a gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fe wnaf i ofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch chi gydag unrhyw fanylion sydd gydag ef.

Personally, I have had no such discussions, but there is a means of dealing with this, namely by ensuring that the powers over teachers' pay and conditions reside here in the Assembly and with the Welsh Government. However, I will ask the Minister to write to you with any details that he may have.

13:32 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae'n siŵr bod pob un ohonom yn credu y dylai adnoddau digonol gael eu trosglwyddo ar yr un adeg, ond a oes gan y Llywodraeth unrhyw fwriad i wneud unrhyw waith paratoadol ar gyfer hyn ac asesu yn union beth yw eich gofynion, wrth ystyried, wrth gwrs, y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd?

First Minister, I am sure that each and every one of us would agree that adequate resources should be transferred with the powers, but does the Government have any intention to do any preparatory work in this area and to assess exactly what your requirements would be, given, of course, the negotiations currently ongoing?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hyn wedi cael ei wneud o'r blaen ac mae cynigion wedi cael eu rhoi i'r Llywodraeth yn y gorffennol i gymryd hyn drosodd, ond heb yr adnoddau priodol. Fodd bynnag, mae gwaith wedi cael ei wneud ynglŷn â faint o bobl ychwanegol a fyddai'n gorfod cael eu cyflogi er mwyn gallu gweithredu'r system, ac, ar ben hynny, byddai hi lan i bob plaid wleidyddol i sicrhau eu bod nhw'n penderfynu ym mha ffordd y byddent am ddefnyddio'r pwerau newydd a fyddai'n dod i Gymru, ac rwy'n siŵr y bydd hynny'n rhywbeth i'r maniffestos ymhen dwy flynedd.

This has been done previously, and proposals have been put to the Government in the past to take on these powers, but without the appropriate resources. However, some work has been done as to how many additional people would have to be employed in order put this system in train, and, on top of that, it would be up to every political party to ensure that they decide how they would use the new powers provided to Wales, and I am sure that that will be something for the manifestos in two years' time.

## Menter Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin

## Western Valley Regeneration Area Initiative

13:33 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn a gyflawnwyd gan fenter Ardal Adfywio Cymoedd y Gorllewin yng Nghastell-nedd? OAQ(4)1932(FM)*

*2. Will the First Minister outline the achievements of the Western Valley Regeneration Area initiative in Neath? OAQ(4)1932(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The area has provided almost £2.6 million to facilitate various projects in Neath supporting employment, leisure, businesses, improved access and transport, and it has, in fact, drawn down over £10 million in match funding.

Mae'r ardal wedi darparu bron i £2.6 miliwn i hwyluso gwahanol brosiectau yng Nghastell-nedd gan gefnogi cyflogaeth, hamdden, busnesau, gwell mynediad a thrafnidiaeth ac mae, mewn gwirionedd, wedi sicrhau dros £10 miliwn o arian cyfatebol.

13:34 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response. In my constituency, Glynneath has benefited from £360,000 of funding that has vastly improved the town centre and this vital valley hub. The local labour councillor described the regeneration scheme as absolutely first-class. Now that the heavy lifting is complete, what we would like to see is targeted support to maintain the momentum of improvement. First Minister, is the Welsh Government undertaking to focus the Support Your High Street campaign and Small Business Saturday, and other such programmes, on towns like Glynneath, so that we can build on the successes of the western valleys initiative?

Diolch am yr ymateb yna. Yn fy etholaeth i, mae Glyn-nedd wedi elwa o £360,000 o gyllid sydd wedi gwella canol y dref a'r canolbwynt hollbwysig hwn yn y cwm. Dywedodd y cynghorydd Llafur lleol bod y cynllun adfywio o'r radd flaenaf. Gan fod y codi trwm wedi ei gwblhau erbyn hyn, yr hyn y byddem yn hoffi ei weld yw cymorth wedi ei dargedu er mwyn cynnal momentwm y gwelliant. Brif Weinidog, a yw Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ganolbwyntio ymgyrch Cefnogwch Eich Stryd Fawr a Dydd Sadwrn y Busnes Bach, a rhaglenni eraill o'r fath, ar drefi fel Glyn-nedd, fel y gallwn adeiladu ar lwyddiant menter cymoedd y gorllewin?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to say that the high street campaign last September was a success, with activities across Wales, including in the town of Neath. It is important to build on the successes that we have seen in Glynneath, and, of course, in Neath, further down the valley. We are supporting Neath to establish a business improvement district, which will be important for all those who live in the Neath and Dulais valleys. I can also say that Neath was successful in its town centre partnership application; it will receive £40,000 over the next two years to enhance its marketing and promotion, and to develop digital technology, such as a smartphone app and an events programme, to build of course on its existing food and drink festival. This is the sort of creative thinking that we want to see across the whole of Wales.

Rwy'n falch o ddweud bod ymgyrch y stryd fawr fis Medi diwethaf yn llwyddiant, gyda gweithgareddau ledled Cymru, gan gynnwys yn nhref Castell-nedd. Mae'n bwysig adeiladu ar y llwyddiannau yr ydym ni wedi eu gweld yng Nglyn-nedd, ac, wrth gwrs, yng Nghastell-nedd, ymhellach i lawr y cwm. Rydym ni'n cefnogi Castell-nedd i sefydlu ardal gwella busnes, a fydd yn bwysig i bawb sy'n byw yng nghymoedd Nedd a Dulais. Gallaf hefyd ddweud bod Castell-nedd wedi bod yn llwyddiannus o ran ei gais partneriaeth canol y dref; bydd yn derbyn £40,000 dros y ddwy flynedd nesaf i wella ei waith marchnata a hyrwyddo, ac i ddatblygu technoleg ddigidol, fel ap ffôn clyfar a rhaglen o ddigwyddiadau, i adeiladu, wrth gwrs, ar ei gŵyl fwyd a diod sy'n bodoli eisoes. Dyma'r math o feddwl creadigol yr ydym ni eisiau ei weld ar draws Cymru gyfan.

13:35 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your vision for the western valleys is that, by 2015, the western valleys will embrace a network of distinctive, vibrant, sustainable communities, that are confident and secure in themselves, and with their relationship to the wider world. Now, Neath Port Talbot council seems determined to cut itself off from the wider world, having axed all its funding for tourism. Is that a responsible decision for a local council, when tourism is a key economic driver, and will the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, as drafted, secure a more considered approach to tourism from councils that have access to this kind of money?

Brif Weinidog, eich gweledigaeth ar gyfer cymoedd y gorllewin yw, erbyn 2015, y bydd cymoedd y gorllewin yn croesawu rhwydwaith o gymunedau unigryw, bywiog a chynaliadwy, sy'n hyderus ac yn sicr o'u hunain, ac yn eu perthynas â'r byd ehangach. Nawr, mae'n ymddangos bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn benderfynol o ynysu ei hun oddi wrth y byd ehangach, ar ôl diddymu ei holl gyllid ar gyfer twristiaeth. A yw hwnnw'n benderfyniad cyfrifol i gyngor lleol, pan fo twristiaeth yn sbardun economaidd allweddol, ac a fydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel y'i drafftiwyd, yn sicrhau agwedd fwy ystyriol at dwristiaeth gan gynghorau sydd â mynediad at y math hwn o arian?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, these are matters, of course, for Neath Port Talbot council. However, what it has done is to secure loan funding of £13 million from the Government's regeneration investment fund for Wales, to deliver a new retail-led development in Neath town centre. I do not think that Neath Port Talbot council can be accused of sitting on the fence.

Wel, materion i Gyngor Castell-nedd Port Talbot yw'r rhain, wrth gwrs. Fodd bynnag, yr hyn y mae wedi ei wneud yw sicrhau cyllid benthyciad, o £13 miliwn o gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio y Llywodraeth, i ddarparu datblygiad newydd a arweinir gan fanwerthu yng nghanol tref Castell-nedd. Nid wyf yn credu y gellir cyhuddo Cyngor Castell-nedd Port Talbot o eistedd ar y ffens.

13:36 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fel rhywun sy'n byw yn agos i Lyn-nedd, rwy'n croesawu'r ffaith ei fod yn edrych yn dda, 'nawr fod y datblygiadau wedi digwydd. Fodd bynnag, yr hyn sydd yn fy mhoeni i yw bod y datganiad y mae Suzy Davies wedi datgan yn defnyddio'r gair 'cynaliadwy'. Fel yr ydych yn gwybod, mae lot o geisiadau ar gyfer glo brig yn ardal Glyn-nedd. Sut ydych chi fel Llywodraeth yn mynd i sicrhau bod pobl yn mynd i fod eisiau dod i mewn i weithio yn y sector dwristiaeth tra bod datblygiadau sy'n mynd yn erbyn yr agenda gynaliadwy yn yr ardal honno?

As someone who lives close to Glynneath, I welcome the fact that things have been regenerated, given that developments have now taken place. However, what concerns me is that the statement that Suzy Davies referred to uses the word 'sustainable'. As you know, there are a number of opencast planning applications in the Glynneath area. How will you, as a Government, ensure that people will want to come to work in the tourism sector while there are developments that run contrary to the sustainable agenda in that area?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Byddwn i'n erfyn, wrth gwrs, i unrhyw geisiadau cynllunio ynglŷn â glo i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ar hyn o bryd ac sydd yn eithaf sicr ynglŷn â phryd a ble y dylai unrhyw ddatblygiadau gael eu hystyried.

I would expect, of course, for any planning applications relating to coal to follow the guidance that is in place at present and which is quite robust in terms of when and where any developments should be considered.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn gyntaf, arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

I first call the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, today in the Public Accounts Committee, a letter was submitted to the Chairman, and Members, around the escalation status that three of the health boards have found themselves in here in Wales. Betsi Cadwaladr, in particular, was identified as being in the highest category of escalation status. This involves interference, if you like, in the running of the health board by the Welsh Government, because you do not believe that the health board is in a suitable place to be able to deliver the services that you have charged it to deliver in that area. Is not the British Medical Association's assertion that the Welsh NHS is facing imminent meltdown now becoming a reality, when such letters are being delivered to the Public Accounts Committee about local health boards in escalated status?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus heddiw, cyflwynwyd llythyr i'r Cadeirydd, a'r Aelodau, yn ymwneud â'r statws uwchgyfeirio y mae tri o'r byrddau iechyd wedi canfod eu hunain ynddo yma yng Nghymru. Nodwyd bod Betsi Cadwaladr yn benodol yn y categori uchaf o statws uwchgyfeirio. Mae hyn yn cynnwys ymyrraeth, os mynnwch chi, yn y gwaith o redeg y bwrdd iechyd gan Lywodraeth Cymru, gan nad ydych chi'n credu bod y bwrdd iechyd mewn sefyllfa briodol i allu darparu'r gwasanaethau yr ydych chi wedi ei wneud yn gyfrifol am eu darparu yn yr ardal honno. Onid yw honiad Cymdeithas Feddygol Prydain bod y GIG yng Nghymru ar fin wynebu argyfwng yn dod yn wir erbyn hyn, pan fo llythyrau o'r fath yn cael eu hanfon i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am fyrddau iechyd lleol yn y statws uwchgyfeirio?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

You see, this is the main difference between us and him: when we see a problem, we deal with it; he sits back and wants an inquiry, and to do absolutely nothing about it at all—sit back and spend a few years navel gazing, in my view. The difference is this: when we see a problem, we deal with it. This is what has happened with Betsi Cadwaladr—that is why it is having this extra help. We would not want, would we, our hospitals to be like Hereford County Hospital, under his party, which is in special measures and which has been described as inadequate and unsafe? Yet, he does not call for an inquiry into the English NHS—I wonder why.

Dyma'r prif wahaniaeth rhyngom ni a fe: pan fyddwn ni'n gweld problem, rydym ni'n ei datrys; mae e'n eistedd yn ôl ac eisiau ymchwiliad, a gwneud dim byd o gwbl am y peth —eistedd yn ôl a threulio ychydig o flynyddoedd o syllu ar ei fogail, yn fy nhyb i. Y gwahaniaeth yw hyn: pan fyddwn ni'n gweld problem, rydym ni'n ei datrys. Dyna sydd wedi digwydd gyda Betsi Cadwaladr—dyna pam mae'n cael y cymorth ychwanegol hwn. Ni fyddem yn dymuno, oni fyddem, i'n hysbytai fod fel Ysbyty Sirol Henffordd, dan ei blaid ef, sydd mewn mesurau arbennig ac sydd wedi ei ddisgrifio fel bod yn annigonol ac anniogel? Eto i gyd, nid yw'n galw am ymchwiliad i'r GIG yn Lloegr— pam tybed.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

What a remarkable answer. At the end of the day, if we take—

Am ateb rhyfeddol. Yn y pen draw, os cymerwn ni—

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. [Laughter.]

Diolch. [Chwerthin.]

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is remarkable for its flippancy, to be honest with you, First Minister.

Mae'n rhyfeddol oherwydd ei ysmaldod, a bod yn onest gyda chi, Brif Weinidog.

If we take one example in Betsi Cadwaladr's area, that of urology, a report was published recently, and which was in the board minutes—so this is not a confidential document that I am quoting from—which said that urology patients were facing the most difficult waiting times in the United Kingdom, that there was a lack of grip and that there was a significant lack of understanding around the issues that led to these waiting times. It also said that there were hundreds—hundreds—of bladder cancer cases waiting for an appointment time. It went on to say that the outcomes were very negative for resolving this issue within the health board. When you talk about imminent collapse, when we talk about difficulties within the health service, what do those hundreds of urology patients feel when they see a report that has been drafted by that particular health board and, in particular, the director of the cancer networks about the service that they can expect in Wales and the lack of action from you and your Government?

Os cymerwn ni un enghraifft yn ardal Betsi Cadwaladr, sef wroleg, cyhoeddwyd adroddiad yn ddiweddar, ac a oedd yng nghofnodion y bwrdd—felly nid yw hon yn ddogfen gyfrinachol rwy'n dyfynnu ohoni—a oedd yn dweud bod cleifion wroleg yn wynebu'r amseroedd aros anoddaf yn y Deyrnas Unedig, bod yna ddiffyg gafael, a bod yna ddiffyg dealltwriaeth sylweddol o'r materion a arweiniodd at yr amseroedd aros hyn. Dywedodd hefyd fod cannoedd—cannoedd—o achosion canser y bledren yn aros am amser apwyntiad. Aeth ymlaen i ddweud bod y canlyniadau'n negyddol iawn ar gyfer datrys y mater hwn yn y bwrdd iechyd. Pan eich bod yn siarad am argyfwng sydd ar fin digwydd, pan rydym ni'n sôn am anawsterau yn y gwasanaeth iechyd, beth mae'r cannoedd o gleifion wroleg hynny'n ei deimlo pan fyddant yn gweld adroddiad wedi ei ddrafftio gan y bwrdd iechyd arbennig hwnnw ac, yn benodol, cyfarwyddwr y rhwydweithiau canser am y gwasanaeth y gallant eu disgwyl yng Nghymru a'r diffyg gweithredu gennych chi a'ch Llywodraeth?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

What I would say to them is this: cancer treatment times are better in Wales in every regard. We spend more on cancer treatment in Wales per head than is the case in England. Let us be quite clear that the issue that he has referred to in Betsi Cadwaladr is a particular issue that has been caused by the retirement of one consultant and the sudden death of another. That has caused a difficulty, which is short term, but it is a difficulty for the health board in order to cover the services that it provides, and it is, at present, looking to recruit, given the fact that, through those unforeseen circumstances, it has lost two consultants. It is working with neighbouring urology providers in England to ensure that patients are treated in order of clinical priority until replacement consultants are appointed. It is important that people get access to the treatment that they require. They get that in Wales when it comes to cancer treatment, but there will be occasions, because of retirement and a sudden death, unfortunately, where there are short-term problems that need to be resolved, but we are confident that they are being resolved.

Yw hyn y byddwn yn ei ddweud wrthynt yw hyn: mae amseroedd trin canser yn well yng Nghymru ym mhob ffordd. Rydym ni'n gwario mwy ar driniaeth canser yng Nghymru fesul pen na'r hyn sy'n wir yn Lloegr. Gadewch i ni fod yn gwbl eglur bod y mater y mae wedi cyfeirio ato yn Betsi Cadwaladr yn fater penodol a achoswyd gan ymddeoliad un meddyg ymgynghorol a marwolaeth sydyn un arall. Mae hynny wedi achosi anhawster, sy'n fyrdymor, ond mae'n anhawster i'r bwrdd iechyd o ran y cymorth wrth gefn sydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau y mae'n eu darparu, ac, ar hyn o bryd, mae'n bwriadu recriwtio, o ystyried y ffaith, drwy'r amgylchiadau annisgwyl hynny, ei fod wedi colli dau feddyg ymgynghorol. Mae'n gweithio gyda darparwyr wroleg cyfagos yn Lloegr i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn nhrefn eu blaenoriaeth glinigol tan i feddygon ymgynghorol newydd gael eu penodi. Mae'n bwysig bod pobl yn cael mynediad at y driniaeth sydd ei hangen arnynt. Maen nhw'n cael hynny yng Nghymru pan ddaw i drin canser, ond bydd achlysuron, oherwydd ymddeoliad a marwolaeth sydyn, yn anffodus, pryd y ceir problemau byrdymor y mae angen eu datrys, ond rydym yn hyderus eu bod yn cael eu datrys.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, when a tragedy like a death happens, that is truly a tragedy that no-one can foresee, but, ultimately, when you look at this report, which the board itself has considered, and which has pointed not to tens of people waiting on these waiting lists, but hundreds, there is something far more deep-seated about the issues that are going on in the north Wales health board. Ultimately, First Minister, you can rant and rave as much as you want here, but when a letter is delivered—[Interruption.] When a letter is delivered that says that three of the seven health boards in Wales are facing escalation status, and one of those health boards is at the most severe status in the grid that you have put forward, there is something very seriously wrong with the health service in Wales. However, as you want to stand there week in, week out and deny that there is anything wrong, will you commit to the Organisation for Economic Co-operation and Development coming over and comparing the Welsh NHS against all the other health services in England, Scotland and Northern Ireland, so that we can see, genuinely, who is on the right side of this argument? Is it the doctors and the British Medical Association or is it the Labour politicians sitting around that failed Cabinet table?

Brif Weinidog, pan fydd trasiedi fel marwolaeth yn digwydd, mae hynny wir yn drasiedi na all unrhyw un ei ragweld, ond, yn y pen draw, pan edrychwch chi ar yr adroddiad hwn, y mae'r bwrdd ei hun wedi ei ystyried, ac sydd wedi nodi nid degau o bobl yn aros ar y rhestrau aros hyn, ond cannoedd, mae rhywbeth llawer mwy dwfn ynglŷn â'r problemau sy'n bodoli ym mwrdd iechyd y gogledd. Yn y pen draw, Brif Weinidog, gallwch refru a rafio gymaint ag y mynnwch yma, ond pan fydd llythyr yn cael ei ddanfon—[Torri ar draws.] Pan fydd llythyr yn cael ei ddanfon sy'n dweud bod tri o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn wynebu statws uwchgyfeirio, a bod un o'r byrddau iechyd hynny ar y statws mwyaf difrifol yn y grid yr ydych chi wedi ei gyflwyno, mae rhywbeth difrifol iawn o'i le ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Fodd bynnag, gan eich bod chi eisiau sefyll yn y fan yna wythnos ar ôl wythnos a gwadu bod unrhyw beth o'i le, a wnewch chi ymrwymo i'r Sefydliad ar gyfer Economaidd Cydweithrediad a Datblygiad ddod draw a chymharu'r GIG yng Nghymru â'r holl wasanaethau iechyd eraill yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fel y gallwn ni weld, mewn gwirionedd, pwy sydd ar yr ochr iawn yn y ddadl hon? Ai'r meddygon a Chymdeithas Feddygol Prydain neu'r gwleidyddion Llafur sy'n eistedd o gwmpas y bwrdd Cabinet yna sydd wedi methu?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can guarantee him that if I spoke to most doctors in Wales—and I tread on difficult ground again—they would prefer to be in Wales than under his party in the NHS in England. That much I can promise him. The other thing that he must understand—when he talks about 'ranting and raving', he has had an irony transplant yet again—is that he did not know the circumstances in urology in Betsi Cadwaladr, did he? He did not understand that it was a short-term problem; he just leapt in, a bull at a gate as ever, without checking the circumstances. If he looks at his party's handling of the NHS in England, he will see hospitals in England in special measures, he will see trusts that are bankrupt, he will see cancer treatment times that are worse than those in Wales, but does he call for an inquiry in England? No, he does not. We all see this for what it is: a politically inspired attack on the NHS in Wales and NHS staff in Wales.

Gallaf ei sicrhau pe bawn i'n siarad â'r rhan fwyaf o feddygon yng Nghymru—ac rwy'n troedio tir anodd eto—y byddai'n well ganddynt fod yng Nghymru nag o dan ei blaid ef yn y GIG yn Lloegr. Gallaf addo cymaint â hynny iddo. Y peth arall y mae'n rhaid iddo ei ddeall—pan fo'n sôn am 'refru a rafio', mae wedi cael trawsblaniad o eironi unwaith eto—yw nad oedd yn gwybod yr amgylchiadau o ran wroleg yn Betsi Cadwaladr, oedd e? Nid oedd yn deall mai problem fyrdymor oedd hi; y cwbl wnaeth ef oedd neidio i mewn, gan ruthro i siarad, fel bob amser, heb edrych ar yr amgylchiadau. Pe byddai'n edrych ar driniaeth ei blaid ef o'r GIG yn Lloegr, bydd yn gweld ysbytai yn Lloegr sy'n destun mesurau arbennig, bydd yn gweld ymddiriedolaethau sy'n fethdalwyr, bydd yn gweld amseroedd trin canser sy'n waeth na'r rhai yng Nghymru, ond a yw'n galw am ymchwiliad yn Lloegr? Nac ydy siŵr iawn. Rydym ni i gyd yn gweld hyn am yr hyn ydyw: ymosodiad wedi ei ysbrydoli gan wleidyddiaeth ar y GIG yng Nghymru ac aelodau staff y GIG yng Nghymru.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nesaf, arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Next is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:43 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, I think that we share concerns about the dangers to Wales that would come about from an European Union exit. Just last week, it was confirmed that this country will receive another £2 billion of EU investment up to 2020, and you will be aware that many businesses have expressed concerns about their future in the event of an EU exit. Has the Welsh Government undertaken an assessment of the impact on Wales of a UK withdrawal from the European Union?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, rwy'n meddwl ein bod ni'n rhannu pryderon am y peryglon i Gymru a fyddai'n deillio o adael yr Undeb Ewropeaidd. Dim ond yr wythnos diwethaf, cadarnhawyd y bydd y wlad hon yn derbyn £2 biliwn arall o fuddsoddiad gan yr UE hyd at 2020, a byddwch yn ymwybodol bod llawer o fusnesau wedi mynegi pryderon am eu dyfodol pe byddem yn gadael yr UE. A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r effaith ar Gymru pe byddai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, we have. It would leave us worse off; at the very minimum, we would be £150 million worse off in terms of spending. That is the bare minimum. About 150,000 jobs in Wales depend on our free access to the European market. Farming, of course, gets £200 million a year from the European Union, without which farming in Wales would collapse; it would not exist. It is absolutely essential for us to remain part of that larger market. I was in India, as Members will know, last week, and the Minister for economy was in Japan, and one of the main questions that we were asked was, 'What's happening with the UK's membership of the EU?'. Not being part of that larger market would be exceptionally difficult—and that is an underestimate—for the Welsh economy to cope with. It is absolutely essential that Wales remains part of the EU.

Ydym. Byddai'n ein gadael ni'n waeth ein byd; o edrych ar y sefyllfa orau bosibl, byddem ni £150 miliwn yn waeth ein byd o ran gwario. Dyna'r sefyllfa orau bosibl. Mae tua 150,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar ein mynediad rhydd at y farchnad Ewropeaidd. Mae ffermio, wrth gwrs, yn cael £200 miliwn y flwyddyn gan yr Undeb Ewropeaidd, a heb hynny byddai ffermio yng Nghymru yn chwalu; ni fyddai'n bodoli. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn parhau i fod yn rhan o'r farchnad fwy honno. Roeddwn i yn India, fel y gŵyr yr Aelodau, yr wythnos diwethaf, ac roedd Gweinidog yr economi yn Japan, ac yn un o'r prif gwestiynau a ofynnwyd i ni oedd, 'Beth sy'n digwydd gydag aelodaeth y DU o'r UE?'. Byddai peidio â bod yn rhan o'r farchnad fwy honno yn eithriadol o anodd—a dweud y lleiaf—i economi Cymru ymdopi ag ef. Mae'n gwbl hanfodol bod Cymru'n parhau i fod yn rhan o'r UE.

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister. The German Chancellor has described the Prime Minister's statements on this as getting to the point of no return—or so it is reported, anyway. I am sure that the First Minister will agree with me that it would be wholly unacceptable for Wales to be dragged out of the European Union against the will of the people of Wales. If he does agree with me on that point, will his Government and his party support a clause in legislation requiring a majority in each nation of the UK before withdrawal from the EU can be triggered?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae Canghellor yr Almaen wedi disgrifio datganiadau Prif Weinidog y DU ar hyn fel cyrraedd y pwynt lle nad oes troi'n ôl—neu felly yr adroddwyd, beth bynnag. Rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn cytuno â mi y byddai'n gwbl annerbyniol i Gymru gael ei llusgo allan o'r Undeb Ewropeaidd yn groes i ewyllys pobl Cymru. Os yw'n cytuno â mi ar y pwynt hwnnw, a wnaiff ei Lywodraeth a'i blaid gefnogi cymal yn y ddeddfwriaeth sy'n gofyn am fwyafrif ym mhob un o wledydd y DU cyn y gellir rhoi penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd ar waith?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that that is worth considering. I do not think that the UK will leave the EU. Given the opinion polling that we have seen recently, it is unlikely. When people are not sure of something, they tend to stick with the status quo. We have had more referenda in Wales since 1961 than in Switzerland, probably, and we have experience of this. If the UK leaves the EU on the basis of English votes, it would trigger a constitutional crisis the likes of which we have not seen. I think that, in Scotland, it would lead to demands for another referendum because, in Scotland, one of the issues that caused people to vote 'no' was uncertainty over EU membership. If that is removed, I have no doubt that that will be the dynamic in Scotland. In Northern Ireland, where EU membership is an exceptionally important part of the peace process, let us remember that the UK has a large, open land border with the Republic of Ireland. It is impossible to count people in and out, because that border has a motorway running across it—unless you want to build a Berlin wall around it to keep people out. The reality is that that will become, according to some in the Conservative Party and UKIP, the border between the UK and the EU. So, there are much wider dimensions here. I think that it is exceptionally important that the UK remains in the EU. However, if English votes take the UK out, it creates immense problems in Scotland, Wales and Northern Ireland.

Rwy'n meddwl ei bod yn werth ystyried hynny. Nid wyf yn credu y bydd y DU yn gadael yr UE. O ystyried y polau piniwn yr ydym ni wedi eu gweld yn ddiweddar, mae'n annhebygol. Pan nad yw pobl yn sicr o rywbeth, maen nhw'n tueddu i gadw at y sefyllfa bresennol. Rydym ni wedi cael mwy o refferenda yng Nghymru ers 1961 nag yn y Swistir, yn ôl pob tebyg, ac mae gennym brofiad o hyn. Pe byddai'r DU yn gadael yr UE ar sail pleidleisiau Lloegr, byddai'n sbarduno argyfwng cyfansoddiadol o fath nad ydym wedi ei weld o'r blaen. Rwy'n credu, yn yr Alban, y byddai'n arwain at alwadau am refferendwm arall oherwydd, yn yr Alban, un o'r materion a achosodd pobl i bleidleisio 'na' oedd ansicrwydd ynghylch aelodaeth o'r UE. Pe byddai hynny'n diflannu, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth mai dyna fydd y deinamig yn yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, lle mae aelodaeth o'r UE yn rhan eithriadol o bwysig o'r broses heddwch, gadewch i ni gofio bod gan y DU ffin fawr, agored ar y tir gyda Gweriniaeth Iwerddon. Mae'n amhosibl cyfrif pobl i mewn ac allan, gan fod traffordd yn rhedeg ar draws y ffin honno—oni bai eich bod eisiau adeiladu wal Berlin o'i chwmpas i gadw pobl allan. Y gwir amdani yw, yn ôl rhai yn y Blaid Geidwadol ac UKIP, y bydd yn troi'n ffin rhwng y DU a'r UE. Felly, ceir ystyriaethau llawer ehangach yma. Rwy'n credu ei bod yn eithriadol o bwysig bod y DU yn aros yn yr UE. Fodd bynnag, os bydd pleidleisiau Lloegr yn tynnu'r DU allan, mae'n creu problemau enfawr yn yr Alban, yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon.

13:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the First Minister's response. I would ask him, therefore, to join me in exploring the possibility of a cross-party, all-Wales position on this question. Would he agree with me, therefore, that if we can get to speak as one strong voice in the interests of Wales on this question, we could avoid Wales being dragged out of the EU against the will of the people here?

Rwy'n croesawu ymateb y Prif Weinidog. Byddwn yn gofyn iddo, felly, i ymuno â mi i archwilio'r posibilrwydd o safbwynt trawsbleidiol, Cymru gyfan ar y cwestiwn hwn. A fyddai'n cytuno â mi, felly, pe gallwn siarad fel un llais cryf er budd Cymru ar y cwestiwn hwn, y gallem atal Cymru rhag cael ei llusgo allan o'r UE yn groes i ewyllys y bobl sydd yma?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The leader of Plaid Cymru makes the assumption that the Conservatives will win with a majority in May. [Interruption.] It is an assumption. I do not know whether that was a yawn or a roar of approval from the leader of the opposition; it sounded like a bit of both. [Laughter.] I will take it as the latter, to be generous to him. I do not accept that that will be the outcome of the general election. We have to see, first of all, whether there will be a referendum, but I think that it will be important for all who believe that Wales is stronger within the EU to get together and articulate that position very clearly if such a referendum is called.

Mae arweinydd Plaid Cymru yn rhagdybio y bydd y Ceidwadwyr yn ennill gyda mwyafrif ym mis Mai. [Torri ar draws.] Rhagdybiaeth yw hynny. Nid wyf yn gwybod ai dylyfu gên neu floeddio ei gymeradwyaeth oedd arweinydd yr wrthblaid; roedd yn swnio fel ychydig o'r ddau. [Chwerthin.] Byddaf yn ei gymryd fel yr olaf, i fod yn hael wrtho. Nid wyf yn derbyn mai dyna fydd canlyniad yr etholiad cyffredinol. Mae'n rhaid i ni weld, yn gyntaf oll, pa un a fydd refferendwm, ond credaf y bydd yn bwysig i bawb sy'n credu bod Cymru'n gryfach yn yr UE i ddod at ei gilydd a mynegi'r safbwynt hwnnw'n eglur iawn os gelwir refferendwm o'r fath.

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ac yn olaf, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Finally, the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last year the Welsh Government received over £8.5 million as a result of the pharmaceutical price regulation scheme. Could you tell us what that money was spent on?

Brif Weinidog, y llynedd, derbyniodd Llywodraeth Cymru dros £8.5 miliwn o ganlyniad i'r cynllun rheoleiddio prisiau fferyllol. A allech chi ddweud wrthym ar beth y gwariwyd yr arian hwnnw?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That money, of course, as with all moneys, goes into the block grant. Then, of course, it is a matter for the Assembly to decide, via the budget process, how that money is spent.

Mae'r arian hwnnw, wrth gwrs, fel pob arian, yn mynd i mewn i'r grant bloc. Yna, wrth gwrs, mater i'r Cynulliad yw penderfynu, trwy broses y gyllideb, sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, your Government says that new medicines should be available within three months of approval from the National Institute for Health and Clinical Excellence or from the all Wales medicines strategy group. Could you outline to the Chamber what you are doing to ensure that those medicines are not simply listed on formulary by local health boards, but are actually available for clinicians to prescribe to their patients? Would you consider using the moneys from PPRS to prioritise the uptake of new medicines that have been approved by NICE and the all Wales medicines strategy group?

Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth yn dweud y dylai meddyginiaethau newydd fod ar gael o fewn tri mis o dderbyn cymeradwyaeth gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol neu gan grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan. A allech chi amlinellu i'r Siambr beth yr ydych chi'n ei wneud i sicrhau nad yw'r meddyginiaethau hynny ddim ond yn cael eu rhestru ar y fformiwlari gan fyrddau iechyd lleol, ond eu bod ar gael mewn gwirionedd i glinigwyr i'w rhoi ar bresgripsiwn i gleifion? A fyddech chi'n ystyried defnyddio'r arian o'r Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol i flaenoriaethu'r defnydd o feddyginiaethau newydd sydd wedi eu cymeradwyo gan NICE a grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

If there is no bar on GPs prescribing a particular medicine, they are able to do it. That is my understanding of it. For example, as of this month, the all Wales medicines strategy group had appraised and recommended 19 new cancer medicines for use in the NHS in Wales. Of course, they are now routinely available to eligible patients. If they are routinely available and have been approved, there is no reason why they should not be prescribed.

Os nad oes cyfyngiad ar feddygon teulu o ran rhagnodi meddyginiaeth arbennig, gallant wneud hynny. Dyna fy nealltwriaeth i o hyn. Er enghraifft, erbyn y mis hwn, roedd grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan wedi gwerthuso ac argymell 19 o feddyginiaethau canser newydd i'w defnyddio yn y GIG yng Nghymru. Wrth gwrs, maen nhw ar gael fel mater o drefn i gleifion cymwys erbyn hyn. Os ydynt ar gael fel mater o drefn ac wedi eu cymeradwyo, nid oes unrhyw reswm pam na ddylen nhw gael eu rhagnodi.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that there is a world of difference between technically being able to prescribe and the reality on the ground for clinicians and for their patients. Academic evidence from the Centre for Health Economics and Medicines Evaluation at Bangor University has highlighted issues in the prescribing of new drugs—for instance, the new generation of oral anticoagulants. Despite being approved for usage, the report found that they are being introduced in a more constrained manner because, and I quote the report, if they introduce the guidance to its fullest extent, that would have a crippling effect on the finances of the local health board. I ask you again: what will your Government do to ensure that your guidance is implemented by local health boards and that patients and clinicians are able to use drugs that have been approved and they want to use for their patients?

Rwy'n credu bod byd o wahaniaeth rhwng gallu rhagnodi'n dechnegol a'r gwirionedd ar lawr gwlad i glinigwyr a'u cleifion. Mae tystiolaeth academaidd gan y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau ym Mhrifysgol Bangor wedi tynnu sylw at faterion o ran rhagnodi cyffuriau newydd—er enghraifft, y genhedlaeth newydd o foddion gwrthgeulo trwy'r geg. Er gwaethaf cael eu cymeradwyo i'w defnyddio, canfu'r adroddiad eu bod yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fwy cyfyngedig oherwydd, a dyfynnaf yr adroddiad, pe byddent yn cyflwyno'r canllawiau yn llawn, byddai hynny'n cael effaith andwyol ar gyllid y bwrdd iechyd lleol. Gofynnaf ichi eto: beth fydd eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod eich canllawiau yn cael eu rhoi ar waith gan fyrddau iechyd lleol ac y gall cleifion a chlinigwyr ddefnyddio cyffuriau sydd wedi eu cymeradwyo ac y maen nhw eisiau eu defnyddio ar gyfer eu cleifion?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I am not aware of the study that she mentions, but, as I say, we would expect that, where drugs are approved and where guidance is issued, those drugs should be available. I remember being told this by Dr Brian Gibbons when he was here that, as a GP, he could prescribe anything unless it was specifically not allowed. I remember that he said to me that it was technically possible for doctors to prescribe, in the past anyway, things like Oxo, and that it is a question not of what you are able to prescribe but of what you are not able to prescribe. On that basis, then, I would expect those drugs that are available through the usual processes, whether it is through NICE or through the AWMSG, to be then made available to the general public via prescribing physicians. If there is evidence that that is not happening, I would be grateful to see it.

Nid wyf yn ymwybodol o'r astudiaeth y mae hi'n sôn amdani, ond, fel y dywedais, byddem yn disgwyl, pan fo cyffuriau wedi eu cymeradwyo a phan fo canllawiau wedi eu cyflwyno, y dylai'r cyffuriau hynny fod ar gael. Rwy'n cofio Dr Brian Gibbons, pan roedd ef yma, yn dweud wrthyf y gallai ef, fel meddyg teulu, ragnodi unrhyw beth oni bai na chaniatawyd hynny'n benodol. Rwy'n cofio iddo ddweud wrthyf ei bod yn dechnegol bosibl i feddygon ragnodi, yn y gorffennol beth bynnag, pethau fel Oxo, ac mae hynny'n gwestiwn nid am yr hyn y cewch ei ragnodi, ond yr hyn na chewch ei ragnodi. Ar y sail honno, felly, byddwn yn disgwyl i'r cyffuriau hynny sydd ar gael drwy'r prosesau arferol, boed hynny drwy NICE neu drwy'r AWMSG, i gael eu rhoi ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol wedyn trwy gyfrwng meddygon sy'n rhagnodi. Os oes tystiolaeth nad yw hynny'n digwydd, byddwn yn ddiolchgar o gael ei g weld.

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move back to questions on the agenda and question 3 is from Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn ôl nawr at gwestiynau ar yr agenda a daw cwestiwn 3 gan Janet Finch-Saunders.

### Cynlluniau Sifil Wrth Gefn a Chynllunio ar gyfer Argyfyngau

### Civil Contingency and Emergency Planning

13:51 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynlluniau sifil wrth gefn a chynllunio ar gyfer argyfyngau yng Nghymru? OAQ(4)1935(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on civil contingency and emergency planning in Wales? OAQ(4)1935(FM)*

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We provide de facto national leadership in civil contingency and emergency planning, although much of it, of course, de jure is not devolved.

Gwnaf. Rydym yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol de facto mewn argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfwng, er nad yw llawer ohono, wrth gwrs, wedi ei ddatganoli de jure.

13:51 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. According to the Wales Audit Office environmental health services are becoming unstable in Wales, with spending down to less than 0.5%, shrinking budgets since 2011, combined with further cuts to communicable disease budgets. It maintains that our authorities will be unable to complete their statutory duties. Against this is the backdrop of previous E. coli cases, the norovirus and now the potentially life-threatening Ebola pandemic. As the First Minister, you are charged with the ultimate responsibility for our public safety here in Wales. Given the threat of Ebola against a backdrop of such cuts, what assurances can you give me today that this is not a disaster waiting to happen and that all contingency plans will not be adversely affected by these cuts?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Yn ôl Swyddfa Archwilio Cymru, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn mynd yn ansefydlog yng Nghymru, gyda gwario i lawr i lai na 0.5%, cyllidebau'n crebachu ers 2011, ynghyd â thoriadau pellach i gyllidebau clefydau trosglwyddadwy. Mae'n dadlau na fydd ein hawdurdodau yn gallu cwblhau eu dyletswyddau statudol. Yn erbyn hyn, ceir y cefndir o achosion E. coli blaenorol, y norofirws a'r pandemig Ebola nawr a allai fygwth bywydau. Fel y Prif Weinidog, chi sy'n bennaf gyfrifol am ein diogelwch cyhoeddus yma yng Nghymru. O ystyried bygythiad Ebola yn erbyn cefndir o doriadau o'r fath, pa sicrwydd allwch chi ei roi i mi heddiw nad yw hwn yn argyfwng sydd ar fin digwydd ac na fydd pob cynllun wrth gefn yn cael e effeithio'n andwyol gan y toriadau hyn?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am quite stunned by that question—the way it was phrased. She will know that, some two weeks ago, I gave a very full answer in terms of our preparations for Ebola. It is something ultimately for Public Health Wales, not for local authorities; they are charged with environmental health and with trading standards. Public health is not a matter that they would deal with. That is a matter for Public Health Wales, funded through the Government. She will know, of course, that there is a public health Bill that the Minister will seek to promote through this Assembly in due course. There is no evidence to suggest that the preparations for communicable diseases, and she mentioned Ebola particularly, are anything other than utterly robust, and that is the case, I have to say, not just in Wales but across the rest of the UK as well.

Mae'r cwestiwn yna'n fy syfrdanu'n llwyr—y ffordd y cafodd ei eirio. Bydd hi'n gwybod, tua pythefnos yn ôl, i mi roi ateb llawn iawn o ran ein paratoadau ar gyfer Ebola. Mater i Iechyd Cyhoeddus Cymru yw hwn yn y pen draw, nid i awdurdodau lleol; nhw sy'n gyfrifol am iechyd yr amgylchedd a safonau masnach. Nid yw iechyd y cyhoedd yn fater y byddent yn ymdrin ag ef. Mater i Iechyd Cyhoeddus Cymru yw hwnnw, wedi ei ariannu drwy'r Llywodraeth. Bydd hi'n gwybod, wrth gwrs, bod yna Fil iechyd y cyhoedd y bydd y Gweinidog yn ceisio ei hyrwyddo drwy'r Cynulliad hwn maes o law. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y paratoadau ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, a soniodd am Ebola yn benodol, yn unrhyw beth heblaw hollol gadarn, a dyna yw'r gwirionedd, mae'n rhaid i mi ddweud, nid yn unig yng Nghymru ond ar draws gweddill y DU hefyd.

13:53 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the fire service is an integral part of any civil contingency system and any emergency planning across Wales. Therefore, may I say thanks, on behalf of communities across Wales, to those fire services that remained working over the last weekend, unlike those in England that have had to go out on strike action because of the inactions of the Tory Government over the ongoing dispute with the Fire Brigades Union? May I pay tribute to you and to your Government Ministers for the way in which they opened negotiations with the Fire Brigades Union to avert that strike action here in Wales? Will you join me in saying thank you to the fire service, in the run-up to bonfire night, which is one of their busiest times, but also throughout the years, year in year out, because we know that we can rely on the fire service here in Wales, under your leadership as a Welsh Government? Will you talk to the England Government, to the Department for Communities and Local Government, to get it round the table as well?

Brif Weinidog, mae'r gwasanaeth tân yn rhan annatod o unrhyw system wrth gefn sifil ac unrhyw gynllunio brys ledled Cymru. Felly, a gaf i ddweud diolch, ar ran cymunedau ledled Cymru, i'r gwasanaethau tân hynny a barhaodd i weithio dros y penwythnos diwethaf, yn wahanol i'r rhai yn Lloegr sydd wedi gorfod mynd allan ar streic oherwydd diffyg gweithrediad y Llywodraeth Dorïaidd dros yr anghydfod parhaus gydag Undeb y Brigadau Tân? A gaf i dalu teyrnged i chi a Gweinidogion eich Llywodraeth am y ffordd maen nhw wedi agor trafodaethau gydag Undeb y Brigadau Tân i osgoi streic yma yng Nghymru? A wnewch chi ymuno â mi i ddweud diolch wrth y gwasanaeth tân, yn y cyfnod yn arwain at noson tân gwyllt, sy'n un o'i amseroedd prysuraf, ond hefyd ar hyd y blynyddoedd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan ein bod yn gwybod y gallwn ddibynnu ar y gwasanaeth tân yma yng Nghymru, dan eich arweiniad chi fel Llywodraeth Cymru? A wnewch chi siarad â Llywodraeth Lloegr, â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, i'w chael o amgylch y bwrdd hefyd?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I have to be careful with the last point. If someone was invited in the House of Commons to get the UK Government to talk to the Welsh Government, the answer might be quite short. So, I will leave that as a matter for DCLG. However, I welcome her comments. We have bonfire night, which is tomorrow night, of course, and we know that there are often great calls on the fire service at that time of year. Our room for manoeuvre with regard to this issue has been quite limited due to the funding structure that we have in place for the fire service, but, nevertheless, we are pleased with the fact that the fire service and the FBU representatives feel that there is much to discuss. We will continue those discussions.

Wel, mae'n rhaid i mi fod yn ofalus gyda'r pwynt olaf. Pe byddai rhywun yn cael ei wahodd yn Nhŷ'r Cyffredin i gael Llywodraeth y DU i siarad â Llywodraeth Cymru, gallai'r ateb fod yn eithaf cryno. Felly, gadawaf hynny fel mater i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, croesawaf ei sylwadau. Mae noson tân gwyllt, gennym nos yfory, wrth gwrs, a gwyddom fod galw mawr yn aml ar y gwasanaeth tân ar yr adeg honno o'r flwyddyn. Mae ein hyblygrwydd o ran y mater hwn wedi bod braidd yn gyfyngedig oherwydd y strwythur ariannu sydd gennym ar waith ar gyfer y gwasanaeth tân, ond, serch hynny, rydym ni'n falch o'r ffaith bod y gwasanaeth tân a chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân yn teimlo bod llawer i'w drafod. Byddwn yn parhau â'r trafodaethau hynny.

13:54 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, with winter approaching, we will soon be marking the first anniversary of last year's storms, which hit our coastline with such devastating consequences. In that context, in the clean-up efforts in towns such as Aberystwyth, it became evermore clear how important the role is of local champions in co-ordinating the response, but also, in the longer term, in encouraging continued investment in flood defence—sometimes measures as simple as shutters within properties facing the coast. In that context, First Minister, and given that we are likely to experience further storms in the time to come, what specific actions have the Welsh Government and Natural Resources Wales taken during the course of the last 12 months to enhance community resilience in the face of the threats that we will face in the future?

Brif Weinidog, â'r gaeaf yn nesáu, bydd blwyddyn wedi mynd heibio ers stormydd y llynedd, a darodd ein harfordir gyda chanlyniadau mor ddinistriol. Yn y cyd-destun hwnnw, yn yr ymdrechion glanhau mewn trefi fel Aberystwyth, daeth yn fwyfwy eglur pa mor bwysig yw swyddogaeth hyrwyddwyr lleol o ran cydgysylltu'r ymateb, ond hefyd, yn y tymor hwy, o ran annog buddsoddiad parhaus mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd—mesurau mor syml â chaeadau ar adeiladau sy'n wynebu'r arfordir weithiau. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, ac o gofio ein bod yn debygol o ddioddef stormydd pellach yn y cyfnod i ddod, pa gamau penodol mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella cydnerthu cymunedol yn wyneb y bygythiadau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, of course, we provided over £10 million to local authorities and NRW to repair the damages of last winter. There has been investment, of course, in property level protection by Natural Resources Wales, but the key to flood management in terms of the coastline is via shoreline management plans. Local authorities, NRW and other bodies are involved in that process. Those plans, as with plans for flooding inland, have to be reviewed periodically, given climate change. I remember introducing technical advice note 15, if I remember, in this Chamber in 2005 or 2006, and it was seen as an extreme response: that we were going too far in terms of prohibiting building on flood plains that were subject to what was then regarded as a one in 1,000 year flood risk. Now, that is seen as having been surpassed, given the events that we have seen last year and in years gone by. So, the shoreline management plans, the work that NRW has done, and the investment that it has made in flood prevention: all of these things will help us to be as secure as we can be with the winter coming.

Yn gyntaf oll, wrth gwrs, darparwyd dros £10 miliwn gennym i awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru i drwsio difrod y gaeaf diwethaf. Cafwyd buddsoddiad, wrth gwrs, o ran amddiffyn lefel eiddo trwy Cyfoeth Naturiol Cymru, ond yr hyn sy’n allweddol i reoli llifogydd o ran yr arfordir yw trwy gyfrwng cynlluniau rheoli’r draethlin. Mae awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff eraill yn rhan o’r broses honno. Mae’n rhaid adolygu’r cynlluniau hynny, yn yr un modd â chynlluniau ar gyfer llifogydd mewndirol, o bryd i'w gilydd, o ystyried y newid yn yr hinsawdd. Rwy’n cofio cyflwyno nodyn cyngor technegol 15, os cofiaf yn iawn, yn y Siambr hon yn 2005 neu 2006, ac fe’i hystyriwyd yn ymateb eithafol: ein bod ni’n mynd yn rhy bell o ran gwahardd adeiladu ar orlifdiroedd a oedd yn destun yr hyn a ystyriwyd ar y pryd yn berygl llifogydd yn ystod un flwyddyn mewn 1,000. Erbyn hyn, ystyrir ein bod wedi mynd y tu hwnt i hynny, o ystyried y digwyddiadau i ni eu gweld y llynedd ac yn y blynyddoedd cynt. Felly, mae'r cynlluniau rheoli’r draethlin, y gwaith mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei wneud, a'r buddsoddiad y mae wedi ei wneud mewn atal llifogydd: bydd yr holl bethau hyn yn ein helpu i fod mor ddiogel ag y gallwn fod â'r gaeaf yn nesáu.

### Cyfleoedd Cyfartal

### Equality of Opportunity

13:57 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar effaith strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau mwy o gyfleoedd cyfartal yng Nghymru? OAQ(4)1925(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the impact of the Welsh Government's strategy to deliver greater equality of opportunity in Wales? OAQ(4)1925(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. Our strategic equality plan is focused on tackling inequality and achieving greater fairness through delivering on eight outcome-focused equality objectives. We will publish the next annual report in March of next year.

Gwnaf. Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau mwy o degwch trwy gyflawni wyth o amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol nesaf ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

13:57 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the Labour movement is about social justice and equality of opportunity and outcome. Will you agree with me that the living wage campaign will further these objectives, if realised, and that employers have much to gain in terms of better staff retention and a more productive and committed workforce, for example? Will you commit the Welsh Government to working with the campaign, with the Living Wage Foundation, the trade unions, employers and civic society to make Wales a living wage nation? Also, would you agree that the UK Government needs to recognise and reward employers who become living wage employers, understanding that the UK Government will pay less in benefits and receive more in taxation as a result?

Brif Weinidog, diben y mudiad Llafur yw sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chyfle a chanlyniad cyfartal. A wnewch chi gytuno â mi y bydd yr ymgyrch cyflog byw yn hyrwyddo'r amcanion hyn, os caiff ei wireddu, a bod gan gyflogwyr lawer i'w ennill o ran cadw aelodau staff yn well a sicrhau gweithlu mwy cynhyrchiol ac ymroddedig, er enghraifft? A wnewch chi ymrwymo Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r ymgyrch, gyda'r Sefydliad Cyflog Byw, yr undebau llafur, cyflogwyr a chymdeithas ddinesig i wneud Cymru yn genedl cyflog byw? Hefyd, a fyddech chi’n cytuno bod angen i Lywodraeth y DU gydnabod a gwobrwyo cyflogwyr sy'n dod yn gyflogwyr cyflog byw, gan ddeall y bydd Llywodraeth y DU yn talu llai mewn budd-daliadau ac yn derbyn mwy mewn trethi o ganlyniad?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Very true, and the Member, of course, summarises what we stand for on these benches, particularly. I can say that our programme for government does set out a commitment to work with trade unions, employers and other stakeholders to explore ways of ensuring a living wage for every worker in Wales. We remain committed to that approach. The workforce partnership council is, in my view, the right platform for these discussions to take place, and that is where we will continue in our quest to make sure, with the minimum wage having been won, that the next challenge of the living wage is faced and met.

Gwir iawn, ac mae'r Aelod, wrth gwrs, yn crynhoi'r hyn yr ydym ni'n sefyll drosto ar y meinciau hyn, yn arbennig. Gallaf ddweud bod ein rhaglen lywodraethu yn nodi ymrwymiad i weithio gydag undebau llafur, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i archwilio ffyrdd o sicrhau cyflog byw i bob gweithiwr yng Nghymru. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i'r dull gweithredu hwnnw. Cyngor partneriaeth y gweithlu, yn fy marn i, yw'r platfform cywir ar gyfer cynnal y trafodaethau hyn, a dyna ble y byddwn yn parhau â'n hymgais i wneud yn siŵr, wedi sicrhau'r isafswm cyflog, bod her nesaf y cyflog byw yn cael ei hwynebu a'i bodloni.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

First Minister, in November last year, I called on the Welsh Government to consider introducing a fund like the one introduced by the UK Government to provide greater opportunity for disabled people to stand in elections—local council elections, Assembly elections and UK Parliament elections. Will the First Minister advise what consideration has been given to this and what plan his Government has to make it easier for disabled people to stand for election in Wales?

Brif Weinidog, ym mis Tachwedd y llynedd, galwais ar Lywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno cronfa debyg i'r un a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i roi mwy o gyfle i bobl anabl sefyll mewn etholiadau—etholiadau cynghorau lleol, etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau Senedd y DU. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym pa ystyriaeth a roddwyd i hyn a pha gynllun sydd gan ei Lywodraeth i'w gwneud yn haws i bobl anabl sefyll mewn etholiadau yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, these are matters for political parties, in my view. It is important that we all, as parties, strive to be as inclusive and as diverse as we possibly can be. We all have work to do—none of us is in a perfect position when it comes to equality—but I think that it is not a question of public funds being made available to encourage people to stand, but of their being made to feel welcome and supported by political parties as well. That is a challenge for us all.

Wel, materion i bleidiau gwleidyddol yw'r rhain, yn fy marn i. Mae'n bwysig ein bod ni i gyd, fel pleidiau, yn ymdrechu i fod mor gynhwysol ac mor amrywiol ag y gallwn fod. Mae gan bob un ohonom waith i'w wneud—nid oes yr un ohonom mewn sefyllfa berffaith pan ddaw i gydraddoldeb—ond nid wyf yn meddwl ei fod yn fater o arian cyhoeddus yn cael ei roi ar gael i annog pobl i sefyll, ond o'u gwneud i deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu cefnogi gan bleidiau gwleidyddol hefyd. Mae hynny'n her i ni i gyd.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

What action is the Welsh Government taking to create an equitable distribution of apprenticeships, so that opportunities for apprenticeships are equally available across Wales, and not just in the A55 and M4 corridors?

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i greu dosbarthiad teg o brentisiaethau, fel bod cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau ar gael yn gyfartal ledled Cymru, ac nid yng nghoridorau'r A55 a'r M4 yn unig?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If you look at Jobs Growth Wales, you will see that apprenticeships are reasonably widely distributed. It is, of course, one of the most successful schemes, if not the most successful scheme, in terms of the creation of jobs in Europe, and sustainable jobs as well. We want to make sure, of course, that it is the case that people are able to access apprenticeships, as they can across the whole of Wales.

Os edrychwch chi ar Twf Swyddi Cymru, byddwch yn gweld bod prentisiaethau wedi eu dosbarthu'n weddol eang. Dyma un o'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus, os nad y cynllun mwyaf llwyddiannus, o ran creu swyddi yn Ewrop, wrth gwrs, a'r rheini'n swyddi cynaliadwy hefyd. Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr, wrth gwrs, y gall pobl gael mynediad at brentisiaethau, fel y gallant ledled Cymru gyfan.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The cross-party women in the economy group recently heard from Professor Alan Felstead that while women in full-time employment are likely to be in skilled work, women part-timers stand a greater chance of being in low-skilled jobs and of being unable to use the skills and qualifications they possess. Do you agree, First Minister, that there is a cultural issue here to do with part-time work not being valued as much as full-time-equivalent work, which has serious repercussions for equality of opportunity? First Minister, while the Welsh Government has a good record as an employer in this area, what can it do to tackle this attitude more widely in Welsh society?

Yn ddiweddar, clywodd y grŵp menywod yn yr economi trawsbleidiol gan yr Athro Alan Felstead, er bod menywod mewn cyflogaeth llawn amser yn debygol o fod mewn gwaith medrus, bod mwy o siawns y bydd menywod rhan-amser mewn swyddi sgiliau isel a heb fod yn gallu defnyddio'r sgiliau a'r cymwysterau sydd ganddynt. A ydych chi'n cytuno, Brif Weinidog, bod problem ddiwylliannol yma yn ymwneud â'r ffaith nad yw gwaith rhan-amser yn cael ei werthfawrogi cymaint â gwaith cyfwerth ag amser llawn, sy'n arwain at effeithiau difrifol i gyfle cyfartal? Brif Weinidog, er bod gan Lywodraeth Cymru hanes da fel cyflogwr yn y maes hwn, beth y mae'n gallu ei wneud i fynd i'r afael â'r agwedd hon yn ehangach yng nghymdeithas Cymru?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that the Member is right. We know that women are more likely than men to take on part-time work, and it is undoubtedly correct that much of that part-time work is low paid. We know that from the figures that we have seen. The question that is asked is: what can we do about it as a Government? Well, we have clear strategic goals that are linked to the programme for government to increase the participation, progression and retention of women in the economy, focusing on key need and impact. We are a small nation; we cannot afford to see talent wasted, and it is important that we maximise that talent. Of course, it is also important that we seek to encourage—although this is not something that we have direct control over—more flexible and more sustainable working practices, to enable people to work full time, where they want to and are able to do that, and then to make sure that there is no indirect discrimination because of working practices, and to increase further flexibility in the workforce.

Credaf fod yr Aelod yn iawn. Rydym ni'n gwybod bod menywod yn fwy tebygol o wneud gwaith rhan-amser na dynion, ac mae'n sicr yn gywir bod cyflogau'n isel mewn llawer o'r gwaith rhan-amser. Rydym yn gwybod hynny o'r ffigurau yr ydym ni wedi eu gweld. Y cwestiwn a ofynnir yw: beth allwn ni ei wneud am y peth fel Llywodraeth? Wel, mae gennym ni nodau strategol eglur sy'n gysylltiedig â'r rhaglen lywodraethu i gynyddu cyfranogiad, cynnydd a chadw menywod yn yr economi, gan ganolbwyntio ar angen ac effaith allweddol. Cenedl fechan ydym ni; ni allwn fforddio gweld talent yn cael ei wastraffu, ac mae'n bwysig ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y dalent honno. Wrth gwrs, mae hefyd yn bwysig ein bod yn ceisio annog—er nad yw hyn yn rhywbeth y mae gennym reolaeth uniongyrchol drosto—arferion gwaith mwy hyblyg a mwy cynaliadwy, i alluogi pobl i weithio'n llawn amser, pan eu bod yn dymuno ac yn gallu gwneud hynny, ac yna gwneud yn siŵr nad oes unrhyw wahaniaethu anuniongyrchol oherwydd arferion gwaith, a chynyddu hyblygrwydd yn y gweithlu ymhellach.

We are also committed to increasing the number of women starting and growing businesses and, of course, there is the great challenge of improving access to high-quality childcare. That is something that we continue to consider, and I have no doubt that it will be a live election issue, both next year and the year after.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gynyddu nifer y menywod sy'n dechrau a thyfu busnesau ac, wrth gwrs, ceir yr her fawr o wella mynediad at ofal plant o ansawdd uchel. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n parhau i'w ystyried, ac nid oes gennyf amheuaeth y bydd hynny'n fater byw yn yr etholiad, y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn.

### Dileu Tlodi Plant

### Eradicating Child Poverty

14:02 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2020? OAQ(4)1930(FM)*

*5. What progress in being made towards eradicating child poverty in Wales by the year 2020? OAQ(4)1930(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It has to be said that the levels of child poverty remain stubbornly high—one in three children is affected. We are committed still to the ambition of eradicating child poverty, but there is a great challenge in the light of UK Government welfare reforms and reducing budgets, as well as the squeeze on people's incomes that many people have felt. We are, though, investing in early years and prevention to affect the longer term outcomes. One example of that, of course, is Flying Start.

Mae'n rhaid dweud bod y lefelau tlodi plant yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel—mae un o bob tri o blant yn cael ei effeithio. Rydym ni wedi ymrwymo o hyd i'r uchelgais o ddileu tlodi plant, ond ceir her fawr yng ngoleuni diwygiadau lles Llywodraeth y DU a lleihau cyllidebau, yn ogystal â'r wasgfa ar incwm pobl, y mae llawer o bobl wedi ei theimlo. Rydym ni, fodd bynnag, yn buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar ac atal er mwyn effeithio ar y canlyniadau yn y tymor hwy. Un enghraifft o hynny, wrth gwrs, yw Dechrau'n Deg.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, thank you for your answer; I do not disagree with much of what you say. However, of the five worst areas in Wales with regard to child poverty, four of them are in the south-east region that I and other colleagues here represent. What action is the Welsh Government taking to work with the four local authorities in particular, and other public bodies, in order to reduce that child poverty?

Brif Weinidog, diolch i chi am eich ateb; nid wyf yn anghytuno â llawer o'r hyn a ddywedwch. Fodd bynnag, o'r pum ardal waethaf yng Nghymru o ran tlodi plant, mae pedair ohonynt yn rhanbarth y de-ddwyrain yr wyf fi a chydweithwyr eraill yma yn ei chynrychioli. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i weithio gyda'r pedwar awdurdod lleol yn arbennig, a chyrff cyhoeddus eraill, i leihau'r tlodi plant hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Let me give five examples. First of all, Communities First is a long-established programme that has done so much for many communities and has restored their confidence. Families First, Flying Start and Supporting People are making a real difference to the lives of children in our poorest communities. Also, of course, there is the pupil deprivation grant. That certainly has provided, in the past, £918 per eligible pupil, up to £1,050, and in 2016-17 it will increase to £1,150 per eligible child. There are five programmes there that make a real difference to family and child poverty, but of course we need the UK Government to do its bit as well.

Gadewch i mi roi pum enghraifft. Yn gyntaf oll, mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen hir-sefydledig sydd wedi gwneud cymaint i lawer o gymunedau ac wedi adennill eu hyder. Mae Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant yn ein cymunedau tlotaf. Hefyd, wrth gwrs, ceir y grant amddifadedd disgyblion. Mae hwnnw'n sicr wedi darparu, yn y gorffennol, £918 fesul disgybl cymwys, hyd at £1,050, a bydd yn cynyddu i £1,150 i bob plentyn cymwys yn 2016-17. Ceir pum rhaglen yna sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i dlodi teuluoedd a phlant, ond wrth gwrs, mae angen i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

First Minister, you will be aware of the report commissioned by the coalition Government some time ago, chaired by Alan Milburn, that made quite a number of positive comments about the progress being made in Wales as a result of Welsh Government policies to eradicate child poverty. Of course, the pressure as a result of austerity measures on funding has had its impact. Do you agree with me that it is still fundamental as a priority for Welsh Government that access to early years education is a cornerstone of removing and eliminating child poverty?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r adroddiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth glymblaid beth amser yn ôl, wedi ei gadeirio gan Alan Milburn, a wnaeth cryn dipyn o sylwadau cadarnhaol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru o ganlyniad i bolisïau Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant. Wrth gwrs, mae'r pwysau o ganlyniad i fesurau cyni cyllidol wedi cael eu heffaith. A ydych chi'n cytuno â mi ei bod yn dal i fod yn flaenoriaeth sylfaenol i Lywodraeth Cymru bod mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar yn gonglfaen i gael gwared ar dlodi plant a'i ddileu?

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely, and the earlier we can get children into some form of education, the better. I have been quite shocked that, in one or two schools in my constituency, they often have three-year-olds coming in who cannot speak, because, at home, it is the television or it is a computer, and they are not able to articulate sentences. Of course, unless there is early intervention, they will forever be behind their peers. That is why early years education is so important, in order to give the opportunity and fairness that we all want to see for young children, particularly those at the youngest end of the scale.

Yn sicr, a gorau po gyntaf y gallwn gael plant i mewn i ryw fath o addysg. Rwyf wedi cael fy syfrdanu braidd, yn un neu ddwy o ysgolion yn fy etholaeth i, bod ganddynt blant tair blwydd oed yn dod i mewn yn aml nad ydynt yn gallu siarad, oherwydd, gartref, y teledu neu gyfrifiadur yw hi, ac nid ydynt yn gallu ynganu brawddegau. Wrth gwrs, os nad oes ymyrraeth gynnar, byddant y tu ôl i'w cyfoedion am byth. Dyna pam mae addysg y blynyddoedd cynnar mor bwysig, er mwyn rhoi'r cyfle a'r tegwch yr ydym ni i gyd eisiau eu gweld i blant ifanc, yn enwedig y rhai ar ben ieuengaf y raddfa.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Children's Commissioner for Wales, back in 2012, raised concerns about the direction that the Welsh Government was taking regarding eradicating child poverty. You have listed a whole pile of schemes there that have been in existence for quite a few years now. He also followed up his remarks by saying that the Welsh Government's strategies lack vision and leadership. Irrespective of the size of the budget and initiatives, if you do not have leadership and vision, they will not go anywhere. What effort has the Welsh Government undertaken to address the children's commissioner's remarks and, in particular, to allay his fears or to address his concerns and change the direction?

Yn ôl yn 2012, cododd Comisiynydd Plant Cymru bryderon am y trywydd yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn o ran dileu tlodi plant. Rydych chi wedi rhestru pentwr o gynlluniau yn y fan yna sydd wedi bod mewn bodolaeth ers rhai blynyddoedd bellach. Dilynodd ei sylwadau hefyd gan ddweud bod strategaethau Llywodraeth Cymru yn brin o weledigaeth ac arweinyddiaeth. Heb ystyried maint y gyllideb a mentrau, os nad oes gennych arweinyddiaeth a gweledigaeth, ni fyddant yn mynd i unrhyw le. Pa ymdrech mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud i fynd i'r afael â sylwadau'r comisiynydd plant, ac, yn benodol, i dawelu ei ofnau neu i fynd i'r afael â'i bryderon a newid y cyfeiriad?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I would take that more seriously if I knew what his proposals actually were to deal with child poverty. There was much criticism, but not much in terms of policy development. However, he asked the question and I will answer it. We have the tackling poverty action plan, which is where we outline how we will deal with child poverty. There are targets for reducing the number of babies born with a low birth weight, improving the educational attainment of pupils eligible for free school meals and reducing the number of young people who are not in education, employment or training, among other things. Therefore, we are doing our bit. I would love to know what his party's plans are for dealing with child poverty, beyond cutting benefits.

Byddwn yn cymryd hynny fwy o ddifrif pe bawn i'n gwybod beth yn union oedd ei gynigion i ymdrin â thlodi plant. Roedd llawer o feirniadaeth, ond dim llawer o ran datblygu polisi. Fodd bynnag, gofynnodd y cwestiwn a byddaf yn ei ateb. Mae gennym y cynllun gweithredu ar drechu tlodi, a dyna lle'r ydym ni'n amlinellu sut y byddwn yn ymdrin â thlodi plant. Ceir targedau ar gyfer lleihau nifer y babanod a enir â phwysau geni isel, gwella cyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ymhlith pethau eraill. Felly, rydym ni'n chwarae ein rhan. Byddwn wrth fy modd clywed beth yw cynlluniau ei blaid ef ar gyfer ymdrin â thlodi plant, y tu hwnt i dorri budd-daliadau.

14:06 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you mentioned the impact of welfare reform as a difficulty that we have to face in terms of tackling child poverty. Do you agree with me that our independent research, which shows that each working-age adult in Wales will lose about £500 per annum, totalling a £900 million loss to the Welsh economy, is an absolute condemnation of the welfare reform plans of the UK Government?

Brif Weinidog, soniasoch am effaith diwygio lles fel anhawster y mae'n rhaid i ni ei wynebu o ran mynd i'r afael â thlodi plant. A ydych chi'n cytuno â mi bod ein gwaith ymchwil annibynnol, sy'n dangos y bydd pob oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru yn colli tua £500 y flwyddyn, colled sy'n gyfanswm o £900 miliwn i economi Cymru, yn gondemniad llwyr o gynlluniau diwygio lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The injustice of it all is that the targets of the benefit cuts have been, by and large, working families—people who are in low-paid work who are now seeing their incomes squeezed; people who are working very hard. If you look at the bedroom tax, you see once again people who are working sometimes being forced to move and to leave the areas where they live and work because they cannot afford to stay in properties that are judged to be too big for them. The leader of the opposition can sigh as much as he wants to; this not a problem for him. He has no conception of the way in which this works for ordinary people on the ground. However, what I can say to him is this: he has no right to preach about child poverty or about the difficulties that people have in terms of making ends meet when he sits there and supports the removal of support for hard-working, low-paid families. If he stood up and did something for them, perhaps more people would listen to him.

Anghyfiawnder y cyfan yw mai targedau'r toriadau i fudd-daliadau, ar y cyfan, fu teuluoedd sy'n gweithio—pobl sydd mewn gwaith cyflog isel sydd bellach yn gweld eu hincwm yn cael ei wasgu; pobl sy'n gweithio'n galed iawn. Os edrychwch chi ar y dreth ystafell wely, rydych chi'n gweld unwaith eto pobl sy'n gweithio weithiau'n cael eu gorfodi i symud a gadael yr ardaloedd lle maen nhw'n byw ac yn gweithio gan nad ydynt yn gallu fforddio aros mewn cartrefi yr ystyrir eu bod yn rhy fawr iddynt. Gall arweinydd yr wrthblaid ocheneidio cymaint ag y mae eisiau; nid yw hyn yn broblem iddo ef. Nid oes ganddo syniad o'r ffordd y mae hyn yn gweithio i bobl gyffredin ar lawr gwlad. Fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud wrtho yw hyn: nid oes ganddo unrhyw hawl i bregethu am dlodi plant nac am yr anawsterau sydd gan bobl o ran dod â dau ben llinyn ynghyd pan fo'n eistedd yn y fan yna ac yn cefnogi cael gwared ar gefnogaeth i deuluoedd ar gyflog isel sy'n gweithio'n galed. Efallai y byddai mwy o bobl yn gwrando arno pe byddai'n sefyll i fyny ac yn gwneud rhywbeth drostynt.

## Colli Arian drwy Dwyll

## The Loss of Money through Fraud

14:07 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn colli arian drwy dwyll? OAQ(4)1934(FM)*

*6. What action is the Welsh Government taking to make sure that local authorities do not lose money through fraud? OAQ(4)1934(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Responsibility rests with individual local authorities for ensuring that appropriate counter-fraud measures are in place. However, they are mandated as well to take part in the national fraud initiative, which uses data matching across public sector bodies to identify potentially fraudulent transactions.

Awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am sicrhau bod mesurau gwrth-dwyll priodol ar waith. Fodd bynnag, mae hefyd yn orfodol iddynt gymryd rhan yn y fenter twyll genedlaethol, sy'n defnyddio paru data ar draws cyrff sector cyhoeddus i nodi trafodion a allai fod yn dwyllodrus.

14:08 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a recent response to a request under the Freedom of Information Act 2000 by me to Welsh councils indicates that, in the last three and a half years, over £16 million has been wrongly paid out in housing benefit payments that were made because of fraud. I am sure that you agree that, in times of tightening local authority budgets, this is not a very satisfactory position and that this money would be much better spent on front-line services. What will you do to encourage Welsh local authorities to make sure that they minimise any housing benefit fraud that happens in their areas and that they recover money from the fraudsters, because, often, council tax fraud goes hand in hand with housing benefit fraud?

Brif Weinidog, mae ymateb diweddar i gais gennyf i dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i gynghorau Cymru yn dangos, yn y tair blynedd a hanner diwethaf, bod dros £16 miliwn wedi cael ei dalu'n anghywir mewn taliadau budd-dal tai a wnaed oherwydd twyll. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno, ar adegau o dynhau cyllidebau awdurdodau lleol, nad yw hon yn sefyllfa foddhaol iawn ac y byddai'n llawer gwell gwario'r arian hwn ar wasanaethau rheng flaen. Beth fyddwch chi'n ei wneud i annog awdurdodau lleol Cymru i wneud yn siŵr eu bod yn lleihau unrhyw dwyll budd-dal tai sy'n digwydd yn eu hardaloedd a'u bod yn adennill arian gan y twyllwyr, oherwydd, yn aml, mae twyll treth gyngor yn mynd law yn llaw â thwyll budd-dal tai?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I would think that there would be an in-built incentive for local authorities to recover money that has been paid out fraudulently. It is a matter for them, of course, to do that, but it is absolutely right that benefits are made available to those who are eligible for those benefits and, where they are paid fraudulently, it is for local authorities to recover the money.

Byddwn yn meddwl y byddai cymhelliad wedi ei ymgorffori i awdurdodau lleol adennill arian sydd wedi ei dalu allan trwy dwyll. Mater iddyn nhw, wrth gwrs, yw gwneud hynny, ond mae'n gwbl gywir bod budd-daliadau'n cael eu rhoi ar gael i'r rhai sy'n gymwys i dderbyn y budd-daliadau hynny a, phan eu bod nhw'n cael eu talu'n dwyllodrus, mater i awdurdodau lleol yw adennill yr arian.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, mae'r archwilydd ar gyfer llywodraeth leol wedi datgan yn glir iawn yng nghyd-destun yr hyn sy'n digwydd yn sir Benfro ar hyn o bryd na ddylid talu unrhyw daliadau i brif swyddogion neu uchel swyddogion sy'n gadael llywodraeth leol sy'n gysylltiedig â thaliadau a wnaed yn groes i'r ddeddf. A yw hynny'n wers ac yn rhybudd i lywodraeth leol ar draws Cymru na ddylid gwneud y math daliadau wrth i rai o'r prif swyddogion hyn adael eu swyddi?

First Minister, the local government auditor has declared very clearly in the context of what is happening in Pembrokeshire at present that no payments should be made to chief officers or senior officers who depart from local authorities that are linked to payments made contrary to the law. Is that a warning and a lesson to local government throughout Wales that they should not make such payments as these chief officers leave their posts?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt teg iawn. Mae'n anodd dros ben i amddiffyn beth sydd wedi digwydd mewn rhai awdurdodau i'r cyhoedd. Mae'n bwysig dros ben bod awdurdodau lleol, pan maen nhw'n cyflogi rhywun mewn swydd uchel, yn sicrhau nad ydynt mewn sefyllfa lle, os oes rhaid i'r person hwnnw adael, eu bod yn gorfod talu cannoedd o filoedd o bunnoedd iddyn nhw. Nid wyf yn credu y byddai'r cyhoedd yn erfyn iddyn nhw i wneud hynny ac mae'n wers i bob awdurdod lleol yng Nghymru ynglŷn â sicrhau eu bod yn gwneud pethau yn iawn ac nad ydynt yn gwneud taliadau sy'n amhosibl i'w hamddiffyn yn gyhoeddus.

I think that that is a fair point. It is very difficult to defend what has happened in certain local authorities to the public. It is extremely important that local authorities, when they employ someone in a senior position, ensure that they do not find themselves in a position where, if that person has to leave, they have to pay them hundreds of thousands of pounds. I do not think that the public would expect them to do that and it is a lesson to each and every local authority in Wales in terms of ensuring that they do things properly and do not make these payments that are indefensible in the minds of the public.

Senedd.tv Fideo Video

### Atyniadau Twristaidd

### Tourist Attractions

14:10 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y niferoedd sy'n ymweld ag atyniadau twristaidd yng Nghymru? OAQ(4)1926(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on attendance at tourist attractions in Wales? OAQ(4)1926(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

According to a Visit Wales survey almost 13 million visits were made to attractions in Wales in 2013. Of course, we know that there has been a substantial increase in the last six months in the numbers of visitors from abroad.

Yn ôl arolwg gan Croeso Cymru, gwnaed bron i 13 miliwn o ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru yn 2013. Wrth gwrs, rydym yn gwybod y bu cynnydd sylweddol i nifer yr ymwelwyr o dramor yn ystod y chwe mis diwethaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that answer. In August, the Welsh Government included Cwmcarn forest drive in my constituency in a list of the top-10 most popular free attractions in Wales. I recently attended a public meeting hosted by the friends of Cwmcarn forest drive. Many constituents raised concerns that the felling of the diseased larch trees could have an effect on the attendance at the resort. Will the First Minister join me in publicising the fact that the bike and walking trails, the play areas and the visitors centre at Cwmcarn forest drive will remain open for business as usual while this work takes place?

Diolch i chi am yr ateb yna. Ym mis Awst, cafodd taith yrru coedwig Cwmcarn yn fy etholaeth i ei chynnwys mewn rhestr o'r 10 atyniad am ddim mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Yn ddiweddar, bûm mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gan gyfeillion taith yrru coedwig Cwmcarn. Cododd nifer o etholwyr bryderon y gallai torri'r coed llarwydd afiach gael effaith ar bresenoldeb yn y gyrchfan. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith y bydd y llwybrau beicio a cherdded, y mannau chwarae a'r ganolfan ymwelwyr yn nhaith yrru coedwig Cwmcarn yn dal i fod ar agor ar gyfer busnes fel arfer tra bod y gwaith hwn yn cael ei wneud?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. It is important to say that. Unfortunately, there is no alternative other than to take the diseased larch trees down. The route will be closed for at least two years in order for that to happen. While the forest drive itself, which I am familiar with, will be closing, I want to emphasise that all footpaths and mountain bike routes will remain open as will the visitors centre, which I know is run by the council. The campsite, which includes 10 glamping pods, will also remain open, as will the play area, the gift shop and Ravens cafe. It is far from the case that Cwmcarn forest is somehow closed for business.

Gwnaf. Mae'n bwysig dweud hynny. Yn anffodus, nid oes unrhyw ddewis ond tynnu’r coed llarwydd afiach i lawr. Bydd y llwybr ar gau am o leiaf dwy flynedd er mwyn i hynny ddigwydd. Er y bydd y daith yrru ei hun, yr wyf yn gyfarwydd â hi, yn cau, hoffwn bwysleisio y bydd yr holl lwybrau troed a llwybrau beicio mynydd yn parhau ar agor, ac felly hefyd y ganolfan ymwelwyr, y gwn sy’n cael ei rhedeg gan y cyngor. Bydd y maes pebyll, sy'n cynnwys 10 pod ‘glampio’, yn aros ar agor hefyd, ac felly hefyd y man chwarae, y siop anrhegion a chaffi Ravens. Mae'n bell o fod yn wir bod coedwig Cwmcarn ar gau ar gyfer busnes rywsut.

14:12 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The latest published Welsh Government statistics for visits to tourist attractions in Wales, for 2013, show that eight of the 10 top free attractions had a decline in attendance. One of the two attractions with increased visitors was the Cwmcarn forest drive. I accept the assurances that the First Minister has given this afternoon, but he has not told us that the actual drive element will reopen.

Mae’r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ymweliadau ag atyniadau twristiaeth yng Nghymru, ar gyfer 2013, yn dangos y bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr mewn wyth o'r 10 o atyniadau am ddim mwyaf poblogaidd. Un o'r ddau atyniad â mwy o ymwelwyr oedd taith yrru coedwig Cwmcarn. Rwy’n derbyn y sicrwydd y mae'r Prif Weinidog wedi ei roi y prynhawn yma, ond nid yw wedi dweud wrthym y bydd y daith yrru ei hun yn ailagor.

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It is not for Natural Resources Wales to decide that. At the moment I sense that it does not want to give the impression that the drive will open by a particular time and then find that it cannot be opened by that time. We all understand the importance of the drive and, of course, it is for NRW to make sure that the disease is dealt with and then give consideration to reopening it. I suspect that it is concerned about giving a particular date only to find, perhaps, that there is more disease than originally thought or there are greater difficulties in terms of the logistics. Let us put it this way: the Government understands how important the forest drive is to the area.

Nid cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw penderfynu hynny. Ar hyn o bryd, rwy’n synhwyro nad yw'n awyddus i roi'r argraff y bydd y daith yrru yn agor erbyn rhyw amser penodol cyn canfod na ellir ei hagor erbyn hynny. Rydym ni i gyd yn deall pwysigrwydd y daith yrru ac, wrth gwrs, mater i Cyfoeth Naturiol Cymru yw gwneud yn siŵr yr ymdrinnir â'r clefyd, ac yna rhoi ystyriaeth i’w hailagor. Rwy’n amau ei fod yn pryderu am roi dyddiad penodol dim ond i ganfod, efallai, bod mwy o’r clefyd na’r hyn a feddyliwyd yn wreiddiol neu bod mwy o anawsterau o ran y logisteg. Gadewch i ni ei rhoi hi fel hyn: mae'r Llywodraeth yn deall pa mor bwysig yw taith yrru’r goedwig i’r ardal.

14:13 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae cynyddu niferoedd ymwelwyr i atyniadau yng Nghymru yn bwysig iawn. Mae ymestyn y tymor yn bwysig iawn hefyd ac rwy'n sicr yn llongyfarch y busnesau hynny yn f'etholaeth ac aelodau o Gymdeithas Twristiaeth Ynys Môn sy'n gweithio'n galed i wireddu hynny. A ydy'r Prif Weinidog yn rhannu fy mhryder i a llawer o'r rheiny na fydd Cymru mewn difrif yn gallu cyrraedd ei photensial nes bod y Llywodraeth yn penderfynu gwario'n sylweddol fwy ar farchnata'r hyn sydd gennym i'w gynnig o ran twristiaeth yng Nghymru?

Increasing the number of visitors to attractions in Wales is extremely important. Extending the season is also important and I certainly congratulate those businesses in my constituency, and members of the Anglesey Tourism Association, who work very hard in order to achieve that. Does the First Minister share my concern and that of many members of the association that Wales will not be able to reach its potential until the Government spends significantly more on marketing what we have to offer in terms of tourism in Wales?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rhaid inni gofio wrth gwrs bod marchnata yn cael ei wneud gan UKTI. Rwyf wedi gweld marchnata Cymru yn digwydd. Mae'n flin gennyf, VisitBritain rwy'n ei feddwl nid UKTI. VisitBritain sy'n hybu a chefnogi Cymru hefyd. A gaf i ddweud, er enghraifft, ein bod yn gwybod bod nifer yr ymwelwyr o dramor wedi cynyddu 21% yn hanner cyntaf y flwyddyn hon, sy'n fwy na'r Deyrnas Unedig yn gyfan gwbl o bell ffordd? Rydym yn gwybod bod mwy o bobl yn dod mewn i Gymru, ond mae'r penderfyniad gan Visit Wales i ganolbwyntio ar rai marchnadoedd, sef Iwerddon, yr Almaen a'r Unol Daleithiau, wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod twf yn y marchnadoedd hynny. Ond, wrth gwrs, mae gwaith yn cael ei wneud hefyd gan Visit Britain.

We have to bear in mind too that marketing is undertaken by UKTI. I have seen the marketing of Wales take place. I am sorry, but it was VisitBritain that I meant rather than UKTI. VisitBritain promotes and supports Wales also. May I say, for example, that we know that the number of foreign visitors has increased by 21% in the first half of this year, which is way more than the UK as a whole? We know that there are more people coming in to Wales now, but the decision taken by Visit Wales to concentrate on certain markets, namely Ireland, Germany and the United States, was taken in order to ensure that there is growth in those markets. But, of course, work is also being done by Visit Britain.

14:14 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One way that we can drive up visitor numbers without spending hugely more money is through joint promotion and joint ticketing schemes for attractions. However, while many private attractions are collaborating in that way, the Welsh Government body tasked with promoting Wales's heritage as a whole still only promotes its own venues. Therefore, even Cardiff Castle is missing from Cadw's website, would you believe? Will you instruct Cadw to do more to promote the Welsh heritage sites it does not directly manage by, for example, including them on the 'days out' section of its website where, as I say, many of them are missing, and by providing information on other local attractions to visitors who do attend its sites?

Un ffordd y gallwn gynyddu nifer yr ymwelwyr heb wario llawer iawn mwy o arian yw trwy hyrwyddo ar y cyd a chynlluniau tocynnau ar y cyd ar gyfer atyniadau. Fodd bynnag, er bod llawer o atyniadau preifat yn cydweithio felly, mae'r corff Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hyrwyddo treftadaeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn dal i hyrwyddo ei leoliadau ei hun yn unig. Felly, nid yw hyd yn oed Castell Caerdydd ar wefan Cadw, coeliwch neu beidio? A wnewch chi gyfarwyddo Cadw i wneud mwy i hyrwyddo'r safleoedd treftadaeth yng Nghymru nad yw'n eu rheoli'n uniongyrchol trwy, er enghraifft, eu cynnwys ar adran 'diwrnodau allan' ei wefan lle, fel y dywedais, mae llawer ohonynt nad ydynt yno, a thrwy ddarparu gwybodaeth am atyniadau lleol eraill i ymwelwyr sydd yn mynychu ei safleoedd?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, Cadw does not run Cardiff castle, of course. It is a matter for the city—it was given to the city after the war. I do not think that is the point, in fairness to the Member, that she is making. That was my original impression, but she then went on to say that Cardiff castle is not part of Cadw's promotion and perhaps should be. Cadw's role, of course, primarily is not to promote other attractions. Its role is to safeguard the sites that it has, to enhance them, and to promote visitors to its sites. Visit Wales, however, and, indeed, local authorities to an extent, do have the responsibility to promote attractions more widely. Does that mean that leaflets should not be available in different places? No. I think it is important that all those sites that attract visitors, whether they are public or private, should work together to maximise benefit for the local community.

Wel, nid yw Cadw'n rhedeg castell Caerdydd, wrth gwrs. Mater i'r ddinas yw hynny—fe'i rhoddwyd i'r ddinas ar ôl y rhyfel. Nid wyf yn credu mai dyna'r pwynt, er tegwch i'r Aelod, y mae hi'n ei wneud. Dyna oedd fy argraff wreiddiol, ond yna aeth ymlaen i ddweud nad yw castell Caerdydd yn rhan o gyfrifoldeb hyrwyddo Cadw, ac efallai y dylai fod. Nid hyrwyddo atyniadau eraill yw swyddogaeth Cadw yn bennaf, wrth gwrs. Ei swyddogaeth yw diogelu'r safleoedd sydd ganddo, eu gwella, a hyrwyddo ymwelwyr i'w safleoedd. Fodd bynnag, mae Croeso Cymru, ac, yn wir, awdurdodau lleol i ryw raddau, yn gyfrifol am hyrwyddo atyniadau'n ehangach. A yw hynny'n golygu na ddylai taflenni fod ar gael mewn gwahanol fannau? Nac ydy. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod yr holl safleoedd hynny sy'n denu ymwelwyr, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r gymuned leol.

14:16 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sometimes, Wales's best attractions are those that just pass through, such as the migrant birds that we get this time of year, and the superpod of dolphins in Pembrokeshire waters more recently. However, it is the permanent fixtures that are tremendously important to the local economies. According to the Welsh Association of Visitor Attractions, there are around 18 million visits to Welsh attractions every year, employing 7,500 people. So, First Minister, when you next meet with Visit Wales, will you press upon it the economic importance of Wales's attractions and the need to promote them both here at home and abroad?

Weithiau, atyniadau gorau Cymru yw'r rhai sydd ddim ond yn pasio drwyddi, fel yr adar mudol yr ydym ni'n eu cael yr adeg hon o'r flwyddyn, a'r ysgol enfawr o ddolffiniaid yn nyfroedd Sir Benfro yn fwy diweddar. Fodd bynnag, yr atyniadau parhaol sy'n aruthrol o bwysig i'r economïau lleol. Yn ôl Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru, ceir tua 18 miliwn o ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru bob blwyddyn, gan gyflogi 7,500 o bobl. Felly, Brif Weinidog, pan fyddwch chi'n cyfarfod nesaf â Croeso Cymru, a wnewch chi bwysleisio iddo bwysigrwydd economaidd atyniadau Cymru a'r angen i'w hyrwyddo yma yng Nghymru a thramor?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, indeed, it knows that. It is our biggest industry. We know that it employs many thousands of people. We also know that the number of overnight trips made by GB residents to Wales was up by 7.8% in the first six months of this year; I have already mentioned the international figures. The amount spent while in Wales was also up by 2.1%, by all visitors. So, we know that Wales is more and more on the map, and, of course, I have no doubt that the NATO conference will also have helped, particularly the unsolicited but welcome endorsement of the US president.

Wel, yn wir, mae'n gwybod hynny. Dyna ein diwydiant mwyaf. Rydym ni'n gwybod ei fod yn cyflogi miloedd lawer o bobl. Rydym hefyd yn gwybod bod nifer y teithiau dros nos a wnaed gan drigolion Prydain Fawr i Gymru 7.8% yn uwch yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn hon; rwyf eisoes wedi sôn am y ffigurau rhyngwladol. Roedd y swm a wariwyd tra yng Nghymru wedi codi o 2.1% hefyd, gan yr holl ymwelwyr. Felly, rydym ni'n gwybod bod Cymru fwyfwy ar y map, ac, wrth gwrs, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd cynhadledd NATO wedi helpu hefyd, yn enwedig y gymeradwyaeth ddigymell ond i'w chroesawu gan arlywydd yr Unol Daleithiau.

## Trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru

## Transport in North Wales

14:17 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y caiff y ddarpariaeth o drafnidiaeth ei datblygu yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1922(FM)*

*8. Will the First Minister outline the future development of transport provision in North Wales? OAQ(4)1922(FM)*

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We recognise the importance of an effective transport system across the north and the north Wales transport taskforce will be providing recommendations for further improvements.

Gwnaf. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd system drafnidiaeth effeithiol ar draws y gogledd a bydd tasglu trafnidiaeth gogledd Cymru yn cynnig argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach.

14:17 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Speaking at Wrexham's business dinner 12 days ago, Wrexham's Labour MP described the region's rail system as 'deficient'. He added that the Welsh Government

Diolch. Wrth siarad yng nghinio busnes Wrecsam 12 diwrnod yn ôl, dywedodd AS Llafur Wrecsam bod system reilffyrdd y rhanbarth yn 'ddiffygiol'. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru

'invested tens of millions in introducing the Valleys and Vale of Glamorgan Lines. It is investing the whole of the 2014-9 Wales rail budget in electrification of the South Wales Main Line and Valleys Lines. It has recently announced an intention to invest £1 billion in the M4 motorway. It must recognise that investment in infrastructure in Wales' most important industrial region, that of Wrexham and Flintshire, is required urgently. If not, there are fears that the 'jewel in the Crown' could be lost to Wales.'

wedi buddsoddi degau o filiynau mewn cyflwyno Rheilffyrdd y Cymoedd a Bro Morgannwg. Mae'n buddsoddi holl gyllideb rheilffyrdd 2014-9 Cymru mewn trydaneiddio Prif Reilffordd De Cymru a Rheilffyrdd y Cymoedd. Mae wedi cyhoeddi bwriad i fuddsoddi £1 biliwn yn nhraffordd yr M4 yn ddiweddar. Mae'n rhaid iddi gydnabod bod angen buddsoddi yn seilwaith rhanbarth ddiwydiannol bwysicaf Cymru, sef Wrecsam a Sir y Fflint, ar frys. Os na wnaiff hynny, ceir ofnau y gallai'r 'em yn y Goron' gael ei cholli i Gymru.

My response is to agree with him. What is yours?

Fy ymateb i yw cytuno ag ef. Beth yw eich un chi?

14:18

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are not paying for the electrification of the south Wales main line. Despite the disputes that have taken place between us and the UK Government, it has accepted that that is not a matter for us, so to say that we have committed money to that is obviously wrong. We are, of course, paying for the upgrade of the Wrexham to Saltney Junction section of the line, which will enable there to be better working of the line. There was, of course, the bypass, if I remember rightly, of Wrexham industrial estate. That was financed by Government. If you look more generally across the north, you see the improvements to the A470 from Dolwyddelan to Pont-yr-Afanc and Maes yr Helmau to Cross Foxes, the Porthmadog bypass, the Caernarfon and Bontnewydd bypasses—these are all investments in the north. There is also the £10 million that forms part of the budget agreement with the Liberal Democrats, on which discussions are ongoing as to how best to use that money.

Nid ydym ni'n yn talu am drydaneiddio prif reilffordd de Cymru. Er gwaethaf yr anghydfod a fu rhyngom ni a Llywodraeth y DU, mae wedi derbyn nad yw hynny'n fater i ni, felly mae dweud ein bod wedi ymrwymo arian i hynny yn amlwg yn anghywir. Rydym ni, wrth gwrs, yn talu am uwchraddio'r rhan o'r rheilffordd o Wrecsam i Gyffordd Saltney, a fydd yn galluogi'r rheilffordd i weithio'n well. Cafwyd, wrth gwrs, y ffordd osgoi, os cofiaf yn iawn, ar gyfer ystâd ddiwydiannol Wrecsam. Ariannwyd honno gan y Llywodraeth. Os edrychwch chi'n fwy cyffredinol ar draws y gogledd, byddwch yn gweld y gwelliannau i'r A470 o Ddolwyddelan i Bont-yr-Afanc a Maes yr Helmau i Cross Foxes, ffordd osgoi Porthmadog, ffyrdd osgoi Caernarfon a'r Bontnewydd—mae'r rhain i gyd yn fuddsoddiadau yn y gogledd. Ceir y £10 miliwn hefyd sy'n rhan o'r cytundeb cyllideb gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, ac y mae trafodaethau'n parhau o ran y ffordd orau o ddefnyddio'r arian hwnnw.

14:19

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Onid yw datganiadau'r wythnos diwethaf ynglŷn â buddsoddiad yn economi gogledd Lloegr o bwysigrwydd allweddol i seilwaith newydd gogledd Cymru? Rwy'n meddwl am yr HS2 yn cyrraedd Crewe—gobeithio y byddaf yn fyw i weld y diwrnod; pe bai'n digwydd chwe blynedd ynghynt efallai y byddai gen i fwy o gyfle. Yn dilyn hynny, onid yw'n allweddol fod gennym trydaneiddio wedi digwydd ar draws y gogledd erbyn hynny?

Are not the statements made last week on investment in the economy of the north of England crucially important to the new infrastructure of north Wales? I am thinking of HS2 reaching Crewe—I hope that I will live to see that day; if it were to happen six years earlier perhaps I would have a better chance. Following that, is not crucially important that we have electrification across north Wales by that point?

14:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, fy marn i yw y dylai trydaneiddio ddigwydd yn y gogledd hefyd, yn enwedig ar y rheilffordd sy'n dod mewn o Gaer i Gaergybi. Mae'n wir i ddweud mai rheilffordd y de fydd yn cael ei thrydaneiddio yn gyntaf, ond, wrth gwrs, rydym yn mo'yn sicrhau bod trydaneiddio yn digwydd dros Gymru yn gyfan gwbl mewn amser. Nid oes rheswm pam —. Mae'n wir i ddweud bod y cyn Ysgrifennydd Gwladol, David Jones, wedi bod yn bencampwr mawr o sicrhau trydaneiddio yn y gogledd, a gobeithio y byddem yn gweld hyn o Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

Well, my view is that electrification should happen in north Wales too, particularly of the line that comes in from Chester to Holyhead. It is true to say that it will be the south Wales line that will be electrified first, but, of course, we want to ensure that electrification happens throughout the whole of Wales in time. There is no reason why—. It is true to say that the former Secretary of State for Wales, David Jones, was a great champion of ensuring electrification in north Wales, and we hope that this will come from the UK Government in future.

14:20

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae'r datganiad wythnos diwethaf—. Hefyd, mae'r tasglu gweinidogol a chynghorau'r gogledd wedi derbyn adroddiad gan Greengauge 21, sydd yn atgyfnerthu'r achos dros drydaneiddio yn y gogledd, ond mae un achos yn seiliedig ar ymestyn gwasanaethau trawsffiniol i Fanceinion a Lerpwl. Mae amserlen drafft Arriva Trains Wales yn cwtogi ar y gwasanaethau hynny. Felly, a wnewch chi fel Llywodraeth yn ei wneud yn hollol blaen i Arriva Trains Wales nad ydych yn fodlon gweld gostyngiad yn y gwasanaethau rhwng gogledd-ddwyrain a gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, fel y mae'n bwriadu ar hyn o bryd?

First Minister, the statement made last week—. Also, the ministerial taskforce and north Wales councils have received a report from Greengauge 21, which reinforces the case for electrification in north Wales, but one case is based on the extension of cross-border services to Manchester and Liverpool. The draft Arriva Trains Wales timetable cuts the number of those services available. So, will you as a Government make it entirely clear to Arriva Trains Wales that you are not content to see a reduction in the services between north-east Wales and north Wales more generally and the north-west of England, as it currently intends to put in place?

14:21

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n bwysig dros ben ei bod yn ystyried pwysigrwydd y cysylltiadau hynny. Rwy'n gwybod ei bod yn gwrando, achos rwy'n cofio o'r blaen bod cynlluniau i greu mwy na llai system o reilffyrdd oedd ond tu fewn i sir Benfro, gyda bach iawn o gysylltiadau tu fas i sir Benfro, a chafodd hynny ei newid. Felly, mae'n bwysig dros ben bod pobl yn rhoi eu barn iddi. Wrth gwrs, mae yna fater ynglŷn â'r Halton 'curve', sydd yn bwysig er mwyn sicrhau bod trenau yn gallu rhedeg o Wrecsam I Lerpwl drwy Benbedw. Mae hynny'n bwysig i'r dyfodol er mwyn creu'r cysylltiadau hynny. Fodd bynnag, na, byddaf yn mo'yn sicrhau bod Wrecsam fel tref yn cael y cysylltiadau gorau, fel sydd wedi cael eu creu I Gaerdydd, ac, wrth gwrs, eu bod yn dal yno I Fanceinion a Lerpwl.

It is extremely important that it considers the importance of those connections. I know that it is listening, because I remember before that there were schemes to create a railway system that, more or less, was just within Pembrokeshire, with very few connections outwith Pembrokeshire, and that was then amended. So, it is very important that people express their views to it. Of course, there is an issue with the Halton 'curve', which is important in order to ensure that trains can run from Wrexham to Liverpool through Birkenhead. That is important for the future in order to create those connections. However, no, I would wish to ensure that Wrexham as a town has the best connections, as have been created, to Cardiff, as well as to Liverpool and Manchester.

14:21

# Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# Business Statement and Announcement

Y

Senedd.tv
Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Minister, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:22

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, there are two changes to report to this week's business. I have agreed to a request at Business Committee to extend the time allocated to this afternoon's oral statement on qualifications reform to 45 minutes. As no questions have been tabled for answer by the Assembly Commission this week, timings for tomorrow have been adjusted accordingly. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, mae dau newid i fusnes yr wythnos hon. Rwyf wedi cytuno i gais yn y Pwyllgor Busnes i estyn yr amser a neilltuwyd i'r datganiad llafar y prynhawn yma ar ddiwygio cymwysterau i 45 munud. Gan nad oes dim cwestiynau wedi'u cyflwyno i'w hateb gan Gomisiwn y Cynulliad yr wythnos hon, mae amseroedd yfory wedi eu haddasu yn unol â hynny. Mae busnes y tair wythnos nesaf i'w weld ar y datganiad a chyhoeddiad busnes sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:22

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, may I ask you to ask the Minister for Health and Social Services whether he would consider making a statement on the unique 35-year Caerphilly cohort? This was a study that followed four or five health steps with particular individuals, including exercise, a balanced diet, not smoking, maintaining a healthy body weight and low alcohol. This meant that they were 70% less likely to develop diabetes, 60% less likely to have heart attacks or strokes, 40% less likely to have cancers, and 60% less likely to suffer from dementia. May I ask that that statement be made? This is a very unique cohort and it gives wonderful examples for all of us in Wales.

Weinidog, a gaf fi ofyn ichi ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fyddai'n ystyried gwneud datganiad am garfan 35-mlwydd unigryw Caerffili? Roedd yr astudiaeth hon yn dilyn pedwar neu bum cam iechyd gydag unigolion penodol, gan gynnwys ymarfer corff, deiet cytbwys, peidio ag ysmygu, cynnal pwysau corff iach a lefel isel o alcohol. Roedd hyn yn golygu eu bod 70% yn llai tebygol o ddatblygu diabetes, 60% yn llai tebygol o gael trawiad ar y galon neu strôc, 40% yn llai tebygol o gael canser, a 60% yn llai tebygol o ddioddef o ddementia. A gaf fi ofyn am y datganiad hwn? Mae hon yn garfan unigryw iawn ac mae'n rhoi esiamplau gwych i bob un ohonom yng Nghymru.

14:23

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank William Graham for that question. Indeed, I heard an interview with Professor Aylward on the work that he has undertaken. I recall when I was Minister for health also meeting with him. I know that the Minister for Health and Social Services shares that view and will be happy, I am sure, to come forward with a statement.

Diolch i William Graham am y cwestiwn hwnnw. Yn wir, clywais gyfweliad â'r Athro Aylward ar y gwaith y mae wedi'i wneud. Cofiaf gwrdd ag ef pan oeddwn yn Weinidog iechyd. Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r un farn ac y bydd yn fodlon, rwyf yn siŵr, cyflwyno datganiad.

14:23 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Today is Equal Pay Day, and we mark the fact that, because of the gender pay gap, some women in the UK and in Wales are, in effect, working for free until the end of the year. In Wales, the pay gap is slightly better than in the UK as a whole, but it is still increasing. I think that women managers in Wales earn £4,000 less than male managers. So, could we have a debate about the situation to see what more can be done to reduce the pay gap?

Mae'n Ddiwrnod Cyflog Cyfartal heddiw, ac rydym yn nodi'r ffaith fod rhai menywod yn y DU ac yng Nghymru, oherwydd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, i bob pwrpas yn gweithio am ddim tan ddiwedd y flwyddyn. Mae'r bwlch cyflog ychydig yn well yng Nghymru nag yn y DU gyfan, ond mae'n dal i dyfu. Credaf fod menywod sy'n rheolwyr yng Nghymru yn ennill £4,000 yn llai na'r dynion sy'n rheolwyr. Felly, a gawn ni ddadl ynglŷn â'r sefyllfa i weld beth arall y mae modd ei wneud i leihau'r bwlch cyflog?

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan for that question and for drawing attention in the Chamber and the Senedd today to Equal Pay Day. It is appalling that women are, in fact, working for nothing until the end of the year as a result of that gender pay gap. Unfortunately, the gender pay gap is widening, particularly as a result of UK Government policies. However, here in Wales, we do have a very robust public sector equal pay duty in terms of our delivery of those specific equality duties. I am sure that the Minister will agree that it would be appropriate to have a debate on equal pay, in the context particularly of our strategic equality plan.

Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn ac am dynnu sylw yn y Siambr a'r Senedd heddiw at Ddiwrnod Cyflog Cyfartal. Mae'n ofnadwy bod merched, mewn gwirionedd, yn gweithio am ddim tan ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Yn anffodus, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn lledu, o ganlyniad i bolisïau Llywodraeth y DU yn benodol. Fodd bynnag, yma yng Nghymru, mae gennym ddyletswydd cyflog cyfartal sector cyhoeddus gadarn iawn o ran cyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hynny. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno y byddai'n briodol cael dadl ar gyflog cyfartal, yng nghyd-destun ein cynllun cydraddoldeb strategol yn benodol.

14:25 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, today marks the one hundred and seventy-fifth anniversary of the Chartist rising in Newport. Brave men across the Valleys marched to the town to fight for justice for ordinary people and, as we know, many perished. Would you agree to a debate in the Assembly on a modern charter for people who live in Wales today? This being Living Wage Week, I am sure that you would agree that it is an appropriate opportunity to address the injustices that ordinary people face in Wales 175 years on from the Chartist rising.

Weinidog, heddiw mae hi'n gant saith deg a phump o flynyddoedd ers gwrthryfel y Siartwyr yng Nghasnewydd. Bu dynion dewr o bob cwr o'r Cymoedd yn gorymdeithio i'r dref i ymladd dros gyfiawnder i bobl gyffredin ac, fel y gwyddom, bu farw llawer ohonynt. A wnewch chi gytuno i gynnal dadl yn y Cynulliad ar siarter fodern i bobl sy'n byw yng Nghymru heddiw? A hithau'n Wythnos Cyflog Byw, rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod hwn yn gyfle priodol i ymdrin â'r anghyfiawnderau y mae pobl gyffredin yn eu hwynebu yng Nghymru 175 mlynedd ar ôl gwrthryfel y Siartwyr.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is another important day to acknowledge in terms of commemoration and remembering the Chartist rally. I think that it is important that we recognise it today—I think that Mick Antoniw, and others across the Chamber, I am sure, attended the living wage event—and look at ways in which we can modernise our approach to the strong important message that came through from that Chartist rally and reflect it through the debates. Indeed, I will discuss that with my colleagues.

Mae hwnnw'n ddiwrnod pwysig arall i'w gydnabod o ran coffáu a chofio rali'r Siartwyr. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn ei gydnabod heddiw—credaf fod Mick Antoniw, ac eraill ar draws y Siambr rwyf yn siŵr, wedi bod yn bresennol yn y digwyddiad cyflog byw—ac yn edrych ar ffyrdd o foderneiddio ein hymagwedd tuag at y neges bwysig, gref a ddaeth o rali'r Siartwyr ac yn cyfleu hynny drwy'r dadleuon. Yn wir, byddaf yn trafod hynny â'm cydweithwyr.

14:26 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, you would have seen the story regarding the threat to the ancient oak tree at Tregaer in Erwood. It highlighted once again the need for greater recognition and protection of Wales's ancient trees. In April 2013, the then Minister, following the loss of Wales's oldest oak tree at Pontfadog, established a task and finish group to look at establishing a register of such trees. That group has met once since April 2013. I wonder whether you could impress upon the new Minister to restart the work on this important issue to look to establish a register of such trees to offer them the protection and recognition that all of us, I am sure, think that they deserve.

Weinidog, mae'n debyg eich bod wedi gweld y stori ynglŷn â'r bygythiad i'r goeden dderw hynafol yn Nhregaer yn Erwyd yr wythnos diwethaf. Mae'n tynnu sylw unwaith eto at yr angen i roi mwy o gydnabyddiaeth a diogelwch i goed hynafol Cymru. Ym mis Ebrill 2013, ar ôl colli derwen hynaf Cymru ym Mhontfadog sefydlodd y Gweinidog ar y pryd grŵp gorchwyl a gorffen i drafod sefydlu cofrestr o goed o'r fath. Unwaith y mae'r grŵp hwnnw wedi cyfarfod ers mis Ebrill 2013. Tybed a allech bwyso ar y Gweinidog newydd i ailddechrau'r gwaith ar y mater pwysig hwn er mwyn ystyried sefydlu cofrestr o goed o'r fath. Byddai hynny'n cynnig y diogelwch a'r gydnabyddiaeth yr ydym i gyd, rwyf yn siŵr, yn credu eu bod yn eu haeddu.

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think, Kirsty Williams, that we have all, or many of us have, driven past that tree in Erwood and I think the important thing, of course, is that the predecessor Minister set up that working group and I will certainly draw it to his attention. [Interruption.] Right. I think it is an important point in terms of not just recognising this one ancient tree in your constituency, but those ancient trees across Wales.

Wel, Kirsty Williams, credaf ein bod i gyd, neu bod llawer ohonom, wedi gyrru heibio i'r goeden honno yn Erwyd a chredaf mai'r hyn sy'n bwysig, wrth gwrs, yw bod y Gweinidog blaenorol wedi sefydlu'r gweithgor hwnnw a byddaf yn sicr yn dwyn hyn i'w sylw.[Torri ar draws.] Iawn. Credaf ei fod yn bwynt pwysig, nid yn unig o ran cydnabod yr un goeden hynafol hon yn eich etholaeth, ond y coed hynafol hynny ledled Cymru.

14:27 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you have already been asked this afternoon about the Chartists and their fight for justice. One ongoing injustice in Wales today is the inability of Welsh patients in the NHS to access equitable cancer treatment, as they would if they were living across the border in England. Tomorrow lunch time, this Assembly will receive a petition signed by 98,000 people in Wales calling for equitable access to cancer treatment in Wales. Failing the Welsh Government being there to accept this petition along with me, could we have a statement from the Welsh Government as soon as possible regarding the Welsh Government's position, addressing the concerns of my constituents, your constituents and the constituents of all Assembly Members here today, to make sure that, moving forward, we get that equitable cancer treatment here and that people in Wales do not feel that they have to sell their homes and move across the border to get access to the drugs that they deserve?

Weinidog, rydych eisoes wedi'ch holi y prynhawn yma ynglŷn â'r Siartwyr a'u brwydr dros gyfiawnder. Un anghyfiawnder sy'n parhau yng Nghymru heddiw yw analluedd cleifion o Gymru yn y GIG i gael triniaeth deg am ganser yn yr un modd â phe byddent yn byw dros y ffin yn Lloegr. Amser cinio yfory, bydd deiseb wedi'i llofnodi gan 98,000 o bobl yng Nghymru yn dod i'r Cynulliad hwn yn galw am fynediad teg i driniaeth canser yng Nghymru. Os na fydd Llywodraeth Cymru yno i dderbyn y ddeiseb hon gyda mi, a gawn ni ddatganiad gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo modd o ran safbwynt Llywodraeth Cymru, i ymdrin â phryderon fy etholwyr i, eich etholwyr chi ac etholwyr pob un o Aelodau'r Cynulliad sydd yma heddiw, er mwyn sicrhau, wrth symud ymlaen, ein bod yn cael y driniaeth deg hon ar gyfer canser ac er mwyn sicrhau nad yw pobl yng Nghymru'n teimlo bod yn rhaid iddynt werthu eu cartrefi a symud dros y ffin i gael y cyffuriau y maent yn eu haeddu?

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is useful when we are asked these questions: the First Minister earlier on today, and I as the Minister for Government business, and the Minister for health tomorrow, have an opportunity to put the record straight in terms of the spend and commitment that we have in terms of accessing important cancer drugs.

Mae'n ddefnyddiol pan ofynnir y cwestiynau hyn inni: cafodd y Prif Weinidog gyfle'n gynharach heddiw, mae cyfle i mi fel Gweinidog Busnes y Llywodraeth, ac i'r Gweinidog Iechyd yfory, i egluro'r sefyllfa o ran y gwariant a'n hymrwymiad o ran cael cyffuriau canser pwysig.

I will make just one point. As of October, last month, the All Wales Medicines Strategy Group had appraised and recommended 19 new cancer medicines for use in the NHS in Wales. These 19 cancer medicines cover 23 clinical indications; all are routinely available to eligible patients, but, Nick Ramsay, only nine of these medicines are available in England via the cancer drugs fund. The Minister for Health and Social Services ratified the decision to make the new chemotherapy drug, Abraxane, available to eligible patients with advanced pancreatic cancer in September 2014. Wales is the only country in the UK where this cancer drug is routinely available on the NHS.

Dim ond un pwynt yr wyf am ei wneud. Hyd at fis Hydref, y mis diwethaf, roedd Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan wedi gwerthuso ac argymell 19 o feddyginiaethau canser newydd i'w defnyddio yn y GIG yng Nghymru. Mae'r 19 o feddyginiaethau canser hyn yn cwmpasu 23 o fynegiannau clinigol; mae pob un ar gael fel mater o drefn i gleifion cymwys, ond, Nick Ramsay, dim ond naw o'r meddyginiaethau hyn sydd ar gael yn Lloegr drwy'r gronfa cyffuriau canser. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y penderfyniad i gynnig y cyffur cemotherapi newydd, Abraxane, i gleifion cymwys sydd â chanser pancreatig datblygedig ym mis Medi 2014. Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle mae'r cyffur canser hwn ar gael fel mater o drefn ar y GIG.

14:29

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Leader of the house, could I respectfully ask you to ask the Minister for Public Services to make a statement on the circumstances that surround the severance due for the chief executive of Pembrokeshire County Council? Bryn Parry-Jones's pay-off deal looks set to go ahead after the Wales Audit Office agreed changes to that deal and a bid to block it through the courts failed last Friday. Even so, I believe that the case contains important lessons, especially as we move towards a restructured model of local government in Wales, not least about the scale of the pay at the top of the system in most local authorities, while at the same, those people at the bottom of the pay scale are being asked yet again to suffer a freeze or a minimum pay rise.

Arweinydd y tŷ, a gaf fi ofyn yn barchus ichi ofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wneud datganiad ar amgylchiadau'r tâl diswyddo sy'n ddyledus i brif weithredwr Cyngor Sir Penfro? Mae'n ymddangos y bydd cynnig taliad olaf Bryn Parry-Jones yn mynd yn ei flaen ar ôl i Swyddfa Archwilio Cymru gytuno ar newidiadau i'r cynnig hwnnw ac ar ôl i ymgais i'w rwystro drwy'r llysoedd fethu ddydd Gwener diwethaf. Er hynny, credaf fod gwersi pwysig yn deillio o'r achos, yn enwedig wrth inni symud tuag at fodel llywodraeth leol wedi'i ad-drefnu yng Nghymru, ac yn benodol ynghylch graddfa'r cyflogau ar frig y system yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol. Ar yr un pryd, gofynnir i'r bobl hynny ar waelod y raddfa gyflog unwaith eto ddioddef rhewi eu cyflogau neu gael y codiad cyflog lleiaf posibl.

14:30

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This is an important issue. Of course, it is entirely a matter for Pembrokeshire County Council. I know that Members across the Chamber will be aware of the circumstances and the situations that have arisen in terms of the former chief executive and the severance package. I think that it is important to know that the Minister for Public Services intends to write to the Auditor General for Wales to seek his advice on how we can ensure that the kind of situation that has arisen will not be repeated in the future, in terms of the management of that package by that local authority.

Mae hwn yn fater pwysig. Wrth gwrs, mater i Gyngor Sir Penfro ydyw. Gwn y bydd Aelodau ar draws y Siambr yn ymwybodol o'r amgylchiadau a'r sefyllfaoedd sydd wedi codi ynghylch y cyn-brif weithredwr a'r pecyn diswyddo. Credaf ei bod yn bwysig ichi wybod bod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru i geisio cyngor ynghylch sut y gallwn sicrhau na fydd yr un math o sefyllfa â hon yn digwydd eto yn y dyfodol, o ran rheoli'r pecyn hwnnw gan yr awdurdod lleol hwnnw.

14:31

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Daeth llythyr y bore yma at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn datgan bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i osod ar drydydd gris yr 'escalation status', beth bynnag ydy hynny yn Gymraeg, am fod pryderon am dri maes: yn gyntaf, gorwario, gyda rhagrybudd y bydd £27 miliwn dros ei gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn yma; yn ail, pryderon am gynlluniau cyfalaf, ac yn drydydd, pryderon am amserau aros. Roeddwn yn gwrando ar y Prif Weinidog yn gynt y prynhawn yma, a'r unig beth y gallaf ei ddweud wrthoch chi yw bod cyfarwyddwr y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn dweud yn glir bore yma fod amserau aros yng ngogledd Cymru yn achos pryder i'r Llywodraeth yma. A gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog yn adrodd ar y sefyllfa yn ardal bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr er mwyn manylu ar y pryderon sy'n bodoli ac esbonio'r hyn sydd yn digwydd i fynd i'r afael â'r sefyllfa? Diolch.

This morning, a letter was given to the Chair of the Public Accounts Committee stating that Betsi Cadwaladr University Local Health Board had been placed on the third stage of the escalation status grid, as there were concerns about three particular areas: first, overspending, with the advance warning that it will be £27 million over budget by the end of this year; secondly, concerns about capital projects, and thirdly, concerns about waiting times. I listened to the First Minister earlier this afternoon, and all I can tell you is that the director of the health service in Wales said quite clearly this morning that waiting times in north Wales are a cause of concern to the Government here. May I therefore ask for a statement from the Minister reporting on the position in the Betsi Cadwaladr health board area so that we can get some details on the concerns that exist and an explanation of what is happening, to tackle the situation? Thanks.

14:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the First Minister answered this question earlier fully in terms of his opportunities, but I would say to Alun Ffred Jones that this is a routine part of performance management of NHS organisations, in terms of escalation and intervention arrangements. Of course, the Public Accounts Committee did have this opportunity this morning to discuss this at length, and also to ensure that it could ask questions of the NHS Wales chief executive, deputy chief executive and chief medical officer.

Credaf fod y Prif Weinidog wedi ateb y cwestiwn hwn yn llawn eisoes o ran ei gyfleoedd, ond dywedaf wrth Alun Ffred Jones fod hyn yn rhan arferol o reoli perfformiad sefydliadau'r GIG, o ran trefniadau dwysáu ac ymyrryd. Wrth gwrs, cafodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y cyfle hwnnw fore heddiw i drafod hyn yn fanwl, ac i sicrhau hefyd y gallai ofyn cwestiynau i brif weithredwr GIG Cymru, i'r dirprwy brif weithredwr ac i'r prif swyddog meddygol.

14:33 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to ask for two things, if I may. Firstly, I note that Arriva Trains Wales was forced to apologise to passengers over the previous weekend following the cancellation and reduced capacity of several services. One of the reasons cited was problems with rolling stock across Wales. It is becoming more and more clearer as time goes on that we have a crisis in terms of the rolling stock that we have in Wales. I wonder whether I could request a statement, please, on bringing forward a rolling stock strategy to take us from now to the electrification of the Valleys lines, as planned.

Hoffwn ofyn am ddau beth, os caf. Yn gyntaf, nodaf fod Trenau Arriva Cymru wedi eu gorfodi i ymddiheuro i deithwyr dros y penwythnos diwethaf oherwydd i sawl gwasanaeth gael ei ganslo neu ei leihau. Un o'r rhesymau a nodwyd oedd problemau â cherbydau ledled Cymru. Mae'n dod yn fwyfwy amlwg wrth i amser fynd heibio fod gennym argyfwng o ran y cerbydau sydd gennym yng Nghymru. A gaf fi ofyn am ddatganiad ar gyflwyno strategaeth cerbydau i fynd â ni o'r pwynt hwn hyd at drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, fel y cynlluniwyd?

Secondly, I wonder whether I could request a statement on the Welsh Government’s response to the recommendations of the expert review of public libraries in Wales, which was published just a few weeks ago. The issue is pressing, of course, as there are live consultations ongoing at the moment on downgrading library services in your own constituency and in my region. I met this week with campaigners, in fact, who are hoping to save Rhoose library. Given the proposals to downgrade their local service, they are particularly keen to hear the Welsh Government’s response to recommendation 8, which is that community-managed libraries should not be considered as part of statutory library provision at the present time—in other words, that those downgrades should not be considered part of the statutory service. So, could I ask when the Welsh Government is likely to give an answer to campaigners like those in Rhoose, please?

Yn ail, a gaf fi ofyn am ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adolygiad arbenigol o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, a gyhoeddwyd ychydig wythnosau yn ôl. Mae hwn yn fater pwysig, wrth gwrs, gan fod ymgynghoriadau byw wrthi'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ynglŷn ag israddio gwasanaethau llyfrgell yn eich etholaeth chi ac yn fy rhanbarth innau. Cyfarfûm yr wythnos hon ag ymgyrchwyr sy'n gobeithio achub llyfrgell y Rhws. O ystyried y cynigion i israddio eu gwasanaeth lleol, maent yn arbennig o awyddus i glywed ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 8, sef na ddylai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gael eu hystyried yn rhan o ddarpariaeth llyfrgell statudol ar hyn o bryd—mewn geiriau eraill, na ddylid ystyried yr israddiadau hynny fel rhan o'r gwasanaeth statudol. Felly, a gaf fi ofyn pryd y mae Llywodraeth Cymru'n debygol o roi ateb i ymgyrchwyr fel y rhai yn y Rhws?

14:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On Eluned Parrott’s first question, within the context of our powers, clearly rolling stock is an issue that needs to be addressed, and of course, the importance of ensuring that we get the right kind of franchise and the powers that we need to deliver on that franchise is crucial in terms of the prospects for improving our rail system, including rolling stock.

O ran cwestiwn cyntaf Eluned Parrott, yng nghyd-destun ein pwerau, yn amlwg mae cerbydau’n fater y mae angen rhoi sylw iddo, ac wrth gwrs, mae pwysigrwydd sicrhau ein bod yn cael y math iawn o fasnachfraint a'r pwerau sydd eu hangen arnom i roi’r fasnachfraint ar waith yn hollbwysig o ran y rhagolygon ar gyfer gwella ein system reilffyrdd, gan gynnwys cerbydau.

On your second point, I am also engaging in what is, I have to say—and this of course refers to consultations around the whole of Wales, and I am sure that many local authorities are looking at the future of their public libraries—a consultation that is being undertaken in the Vale of Glamorgan. It certainly has not been completed yet, so I know that constituents will be feeding into that. The expert review of public libraries in Wales is an important way in which the Minister is enabling local authorities to work together and learn from each other, in terms of the opportunities to safeguard and develop our public library service.

O ran eich ail bwynt, rwyf hefyd yn ymgysylltu ag ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ym Mro Morgannwg—ac mae hyn wrth gwrs yn cyfeirio at ymgynghoriadau ledled Cymru, ac rwyf yn siŵr bod llawer o awdurdodau lleol yn edrych ar ddyfodol eu llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn sicr nid yw wedi ei gwblhau eto, felly gwn y bydd etholwyr yn bwydo i mewn i hynny. Mae’r adolygiad arbenigol o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru’n ffordd bwysig y mae'r Gweinidog yn galluogi awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd, o ran y cyfleoedd i ddiogelu a datblygu ein gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus.

14:35 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Two matters, leader of the house. First, can I echo the calls from Kirsty Williams in relation to veteran trees? I am sure that you will be aware of the Llangernyw yew, which is some 4,000 years old, and which is up in north Wales. It is an incredibly special tree, and is perhaps one of the oldest living things in Wales. So, I would urge action on the points that she raised with you.

Dau fater, arweinydd y tŷ. Yn gyntaf, a gaf fi adleisio galwadau Kirsty Williams ynglŷn â choed hynafol? Rwyf yn siŵr y byddwch yn gwybod am ywen Llangernyw, sydd tua 4,000 o flynyddoedd oed, ac sydd i fyny yng ngogledd Cymru. Mae'n goeden hynod arbennig, ac efallai mai dyma un o'r pethau byw hynaf yng Nghymru. Felly, byddwn yn galw am weithredu ar fyrder ar y pwyntiau a godwyd ganddi gyda chi.

Secondly, Minister, I do not know whether a statement surrounding the sale of Welsh Government-owned forestry land should be from you or from the Minister for Natural Resources. I am sure that you agree with me that land that Welsh Government holds on behalf of not only this generation but future generations, and which relates to the Forestry Commission and the forestry estate here in Wales is land that should not be sold without at least some public consultation. I am sure that you are aware of the stance that your colleagues took in England when there was a suggestion of the privatisation of the forestry estate in England, and the heavy criticism that took place there. I understand that 277 ha of Welsh land owned by, or belonging to, the Forestry Commission is being offered for sale. It seems surprising when the Government is so far behind on its target of 100,000 ha of forestry to be planted that Welsh Government has done this without any announcement or statement in this Chamber, without any consultation with the public, and that public assets are being sold in this way, without any statement from the relevant Ministers.

Yn ail, Weinidog, nid wyf yn gwybod a ddylai datganiad ynglŷn â gwerthu tir coedwigaeth sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ddod gennych chi neu gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Rwyf yn siŵr y cytunwch â mi fod tir sy'n cael ei ddal gan Lywodraeth Cymru ar ran y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol, ac sy'n ymwneud â'r Comisiwn Coedwigaeth a'r ystâd goedwigaeth yma yng Nghymru, yn dir na ddylid ei werthu heb o leiaf rywfaint o ymgynghori â'r cyhoedd. Rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod beth oedd safbwynt eich cydweithwyr yn Lloegr pan fu awgrym ynghylch preifateiddio'r ystâd goedwigaeth yn Lloegr, a'r feirniadaeth hallt a fu yno. Deallaf fod 277 hectar o dir Cymru sy'n eiddo neu'n perthyn i'r Comisiwn Coedwigaeth ar werth. Mae'n rhyfedd o beth, pan fo'r Llywodraeth mor bell ar ei hôl hi o ran ei tharged o 100,000 hectar o goedwigaeth i'w phlannu, fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud hyn heb yr un cyhoeddiad neu ddatganiad yn y Siambr hon, heb ddim ymgynghori â'r cyhoedd, a bod asedau cyhoeddus yn cael eu gwerthu fel hyn, heb yr un datganiad gan y Gweinidogion perthnasol.

14:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I note your follow-up question regarding ancient trees. I am sure that we all have ancient trees—practically all of us, if not all of us, perhaps—across Wales, in our constituencies. It is important, of course, that we look to the work that is being undertaken by the Minister for Natural Resources. I will have to explore with the Minister the issue about Natural Resources Wales. I am not aware of the developments, and I will of course draw this to his attention for a response.

Nodaf eich cwestiwn dilynol ynghylch coed hynafol. Rwyf yn siŵr bod gennym i gyd—bron pob un ohonom os nad pawb ohonom—goed hynafol yn ein hetholaethau ar draws Cymru. Mae'n bwysig, wrth gwrs, ein bod yn edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Bydd yn rhaid imi drafod y mater ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru â'r Gweinidog. Nid wyf yn gwybod am y datblygiadau, a byddaf wrth gwrs yn tynnu ei sylw at hyn er mwyn iddo ymateb.

14:38 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, mae'n rhaid i mi ategu cais Alun Ffred Jones am ddatganiad gan y Llywodraeth ar y llythyr a dderbyniodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma. Nid wyf yn meddwl bod ymateb y Prif Weinidog yn dangos difrifoldeb y sefyllfa. Wrth gwrs, efallai fod y pedwar ohonom, fel Aelodau o'r gogledd, wedi cael atebion, ond hwyrach nid yw'r Aelodau eraill yn y gogledd wedi cael atebion, ac, yn bendant, nid oedd yr un ohonom yn ymwybodol bod y problemau hyn mor ddifrifol o fewn y bwrdd iechyd. Felly, a gaf fi ofyn i chi ystyried yn ddwys, fel Llywodraeth, a oes angen i chi wneud datganiad o fewn y lle hwn?

Minister, I must endorse Alun Ffred Jones's request for a statement from the Government on the letter that the Public Accounts Committee received this morning. I do not think that the First Minister's response reflects the gravity of the situation. Of course, perhaps the four of us, as Members from north Wales, received answers, but the other members for north Wales have not received answers, and, certainly, not one of us was aware that these problems were so serious within the health board. So, may I please ask you to think very carefully, as a Government, as to whether you need to make a statement in this place?

14:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, Aled Roberts, that I have responded, as did the First Minister, to this question, and, indeed, the Public Accounts Committee had full opportunity this morning, in terms of considering this issue in relation to one health board. It is, as I have said, a routine process of performance management of NHS organisations. I think that Dr Andrew Goodall had also written to the Chair of the Public Accounts Committee to inform him of the decision ahead of appearance at the committee. I think that there is nothing further to add to that letter at this stage.

Credaf, Aled Roberts, fy mod i, fel y gwnaeth y Prif Weinidog, wedi ymateb i'r cwestiwn hwn ac, yn wir, cafodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyfle llawn y bore yma i ystyried y mater hwn mewn perthynas ag un bwrdd iechyd. Fel y dywedais, dyma'r broses arferol wrth reoli perfformiad sefydliadau'r GIG. Credaf fod Dr Andrew Goodall hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i roi gwybod iddo am y penderfyniad cyn iddo ymddangos yn y pwyllgor. Nid wyf yn credu bod dim byd arall i'w ychwanegu at y llythyr hwnnw ar hyn o bryd.

14:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, could we have a statement on the proposed improvements that the Government is sponsoring to Five Mile Lane in the Vale of Glamorgan? I understand that the Vale of Glamorgan Council is charged with working up the workings around these improvements but, to date, there has been a very little public information campaign, albeit that many rumours are spreading around of significant changes to the current road layout. I think that everyone supports the principle of improving this dreadful piece of road, which has had, sadly, many fatalities on it, but there is a question mark over whether this actually calls for a completely new road or whether it just means upgrading the existing road. Therefore, is it possible to have a statement from the Minister for Economy, Science and Transport, whose department I believe is sponsoring these developments, as to the Government's intentions about this piece of road and, indeed, what budget it is making available and, importantly, what time frame it is working to over the consultation and advertising of such changes around the Five Mile Lane?

Arweinydd y tŷ, a gawn ni ddatganiad ynglŷn â'r gwelliannau arfaethedig y mae'r Llywodraeth yn eu noddi i Five Mile Lane ym Mro Morgannwg? Rwyf ar ddeall mai Cyngor Bro Morgannwg sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gwaith sy'n ymwneud â'r gwelliannau hyn, ond, hyd yma, ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus fechan iawn sydd wedi bod, er bod llawer o sibrydion yn lledaenu ynghylch newidiadau sylweddol i gynllun y ffordd fel ag y mae. Credaf fod pawb yn cefnogi'r egwyddor o wella'r darn ofnadwy hwn o'r ffordd, lle mae sawl un wedi ei ladd, yn anffodus, ond mae marc cwestiwn ynghylch a oes galw am ffordd gwbl newydd, neu a yw'n golygu uwchraddio'r ffordd bresennol. Felly, a gawn ni ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, y mae ei hadran, rwyf yn meddwl, yn noddi'r datblygiadau hyn, ynglŷn â bwriad y Llywodraeth o ran y darn hwn o ffordd a pha gyllideb a fydd ar gael ac, yn bwysicach, beth yw ei hamserlen ar gyfer ymgynghori a hysbysebu newidiadau o'r fath o gwmpas Five Mile Lane?

14:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not think that anyone would disagree with Andrew R.T. Davies about the need to address the safety issues in relation to Five Mile Lane. Of course, work has been done and proposals have been brought forward. I will ensure that the Minister for Economy, Science and Transport comes forward with the information. Of course, it will also involve the Vale of Glamorgan Council.

Nid wyf yn credu y byddai neb yn anghytuno ag Andrew R.T. Davies ynghylch yr angen i fynd i'r afael â'r materion diogelwch mewn perthynas â Five Mile Lane. Wrth gwrs, mae gwaith wedi ei wneud a chynigion wedi eu dwyn ymlaen. Byddaf yn sicrhau bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyflwyno'r wybodaeth. Wrth gwrs, bydd hefyd yn cynnwys Cyngor Bro Morgannwg.

14:41 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I ask for an urgent statement from the Minister for Health and Social Services on the efforts being made to tackle the urology problems in north Wales? You will be aware from some of the exchange during the First Minister's questions that concerns have been raised by the director of the cancer network in north Wales regarding urology. He said that he could not give an assurance that the urology service is fit for purpose and drew attention to the fact that the access times to radiotherapy in north Wales remained the worst in the UK. That is a very serious situation. It is not one of the things referred to this morning in the Public Accounts Committee as being something that the Welsh Government has been actively monitoring. I would appreciate an urgent statement to know what the Welsh Government is doing to support Betsi Cadwaladr in turning that situation around, so that patients can be confident that they are getting access to the services that they need.

Weinidog, a gaf fi ofyn am ddatganiad brys gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â'r ymdrechion i fynd i'r afael â'r problemau wroleg yn y gogledd? Byddwch yn gwybod o glywed rhai o'r sylwadau yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog fod pryderon wedi eu codi gan gyfarwyddwr y rhwydwaith canser yn y gogledd ynghylch wroleg. Dywedodd na allai roi sicrwydd fod y gwasanaeth wroleg yn addas at y diben a thynnodd sylw at y ffaith mai amseroedd mynediad i radiotherapi gogledd Cymru yw'r gwaethaf yn y DU o hyd. Mae hon yn sefyllfa ddifrifol iawn. Nid yw'n un o'r pethau y cyfeiriwyd atynt fore heddiw yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fel rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei fonitro'n weithredol. Byddwn yn gwerthfawrogi datganiad brys er mwyn cael gwybod beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gynorthwyo Betsi Cadwaladr i weddnewid y sefyllfa, er mwyn rhoi hyder i gleifion bod y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar gael iddynt.

14:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the First Minister, again, fully replied to a question on this earlier on this afternoon. Of course, we are aware of pressures on urology services in north Wales but also urology is a specialty that trusts across the UK are experiencing recruitment difficulties with. As you are aware, because the First Minister confirmed it, the health board is working with neighbouring urology providers in England to ensure that patients are treated in order of clinical priority until replacement consultants are appointed. The only thing I would add is that the majority of cancer patients are treated within their treatment time. According to the latest available data, 87% of patients on the 62-day pathway were treated within the standard, and 99% of patients on the 31-day pathway were treated within the standard.

Credaf fod y Prif Weinidog, unwaith eto, wedi rhoi ateb llawn i gwestiwn ynglŷn â hyn yn gynharach y prynhawn yma. Wrth gwrs, rydym yn gwybod am y pwysau ar wasanaethau wroleg gogledd Cymru, ond mae wroleg hefyd yn arbenigedd y mae ymddiriedolaethau ledled y DU yn ei chael yn anodd recriwtio iddo. Fel y gwyddoch, oherwydd cadarnhaodd y Prif Weinidog hynny, mae'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda darparwyr wroleg cyfagos yn Lloegr i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin yn nhrefn eu blaenoriaeth glinigol hyd nes y penodir ymgynghorwyr newydd. Yr unig beth y byddwn yn ei ychwanegu yw bod y rhan fwyaf o gleifion canser yn cael eu trin o fewn eu hamser trin. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, cafodd 87% o'r cleifion ar y llwybr 62-diwrnod eu trin yn unol â'r safon, a chafodd 99% o'r cleifion ar y llwybr 31-diwrnod eu trin yn unol â'r safon.

14:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

14:43

## Datganiad: Diwygio Cymwysterau

## Statement: Qualifications Reform

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog, Huw Lewis.

14:43 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Presiding Officer, we have reached an important milestone in our journey of qualifications reform, with the publication of our new Welsh baccalaureate and GCSEs. These qualifications have been designed in Wales for Wales, in line with the strategic direction of the review of qualifications.

Lywydd, rydym wedi cyrraedd carreg filltir bwysig yn ein taith i ddiwygio cymwysterau, gyda chyhoeddi bagloriaeth Cymru a'r cymwysterau TGAU ar eu newydd wedd. Cynlluniwyd y cymwysterau hyn yng Nghymru ar gyfer Cymru, yn unol â chyfeiriad strategol yr adolygiad o gymwysterau.

Accepting the review's recommendations in 2013, the Deputy Minister for Skills at the time described them as

Wrth dderbyn argymhellion yr adolygiad yn 2013, disgrifiodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd hwy fel

'a strong and sustainable basis for developing a world-class qualifications system for Wales'.

sylfaen gadarn a chynaliadwy ar gyfer datblygu system gymwysterau gyda'r gorau yn y byd i Gymru.

He said that the programme of change would take four or five years. Less than two years on, I can report excellent progress towards implementing the recommendations and achieving the review's vision:

Dywedodd y byddai'r rhaglen newid yn cymryd pedair neu bum mlynedd. Lai na dwy flynedd yn ddiweddarach, gallaf adrodd bod cynnydd rhagorol yn cael ei wneud tuag at weithredu'r argymhellion a chyflawni gweledigaeth yr adolygiad:

'qualifications that are understood and valued and meet the needs of our young people and the Welsh economy'.

'cymwysterau gwerthfawr a dealladwy sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru.'

In October, we accredited the new Welsh baccalaureate and the new and revised GCSEs in English, Welsh and maths to be taught from next September. The specifications and sample assessment materials are now available, enabling detailed preparation in schools and colleges to begin.

Ym mis Hydref, achredwyd bagloriaeth newydd Cymru a'r cymwysterau TGAU newydd, diwygiedig mewn Mathemateg, Saesneg a Chymraeg sydd i'w dysgu o fis Medi nesaf. Mae'r manylebau a'r deunyddiau asesu enghreifftiol bellach ar gael, a gall ysgolion a cholegau ddechrau paratoadau manwl.

Continuing professional development, support and advice is being provided by the Welsh Joint Education Committee, the regional educational consortia, ColegauCymru and Welsh Government, to ensure that every school and college in Wales is ready for the new qualifications. The consortia have committed to deliver support to every school to ensure that they are ready to start teaching the new GCSEs by September.

Mae datblygiad proffesiynol parhaus, cefnogaeth a chyngor yn cael eu darparu gan Gyd-bwyllgor Addysg Cymru, y consortia addysg rhanbarthol, Colegau Cymru a Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod pob ysgol a choleg yng Nghymru'n barod ar gyfer y cymwysterau newydd. Mae'r consortia wedi ymrwymo i ddarparu cymorth i bob ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn barod i ddechrau dysgu'r cymwysterau TGAU newydd erbyn mis Medi.

They have employed dedicated subject specialists to work with schools to develop classroom materials. They have identified schools and departments where there is good practice to undertake school-to-school support to build capacity. This work is under way, and materials developed will be shared on Hwb over the coming months. We have also commissioned additional sample assessment materials and sample teaching materials.

Maent wedi cyflogi arbenigwyr pwnc penodedig i weithio gydag ysgolion i ddatblygu deunyddiau ar gyfer yr ystafell ddosbarth. Maent wedi nodi ysgolion ac adrannau lle ceir arfer da i gynnig cymorth ysgol-i-ysgol i feithrin gallu. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, a bydd deunyddiau a ddatblygwyd yn cael eu rhannu ar Hwb dros y misoedd nesaf. Rydym hefyd wedi comisiynu deunyddiau asesu enghreifftiol a deunyddiau addysgu enghreifftiol ychwanegol.

The success of the new qualifications will depend fundamentally on teachers and lecturers delivering them to a high standard. It will require changes to the way that aspects of the subjects are taught. I have confidence that our professional and committed teaching workforce in Wales will rise to the challenge, and we are providing support to help them do just that.

Bydd llwyddiant y cymwysterau newydd yn dibynnu yn y bôn ar i athrawon a darlithwyr eu cyflwyno i safon uchel. Bydd angen gwneud newidiadau i'r ffordd y mae rhai agweddau ar y pynciau'n cael eu dysgu. Rwyf yn ffyddiog y bydd ein gweithlu dysgu proffesiynol ac ymroddedig yng Nghymru'n ymateb i'r her, ac rydym yn darparu cymorth i'w helpu i wneud hynny.

We saw encouraging progress in GCSE and A-level achievements this summer. Our reforms build on the acknowledged strengths of those qualifications and the progress already being made in our schools and colleges. The new language GCSEs will focus more on literacy and on the fundamental aspects of language. GCSE mathematics-numeracy will focus on the maths needed for everyday work and life. These GCSEs reflect and support the improvements that will result from the national literacy and numeracy framework.

Gwelsom gynnydd calonogol o ran cyflawniadau TGAU a Safon Uwch yr haf hwn. Mae ein rhaglen ddiwygio'n adeiladu ar gryfderau cydnabyddedig y cymwysterau hynny a'r cynnydd sydd eisoes yn digwydd yn ein hysgolion a'n colegau. Bydd y cymwysterau TGAU iaith newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar lythrennedd ac ar agweddau sylfaenol ar iaith. Bydd TGAU mathemateg-rhifedd yn canolbwyntio ar y fathemateg sydd ei hangen ar gyfer gwaith a bywyd bob dydd. Mae'r cymwysterau TGAU hyn yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r gwelliannau a fydd yn deillio o'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.

GCSE mathematics will extend to other aspects of mathematics, including those needed for progression to scientific, technical or further mathematical study. Having two maths GCSEs reflects the importance of the subject for progression and employment. I expect most learners to take both maths GCSEs, and I expect learners who have not achieved at least a C grade in GCSE English or Welsh language and mathematics-numeracy by 16 to continue to work towards these or other appropriate qualifications.

Bydd TGAU mathemateg yn cynnwys agweddau eraill ar fathemateg, gan gynnwys y rhai sydd eu hangen ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau gwyddonol, technegol neu i astudio mathemateg ymhellach. Mae cael dau TGAU mewn mathemateg yn adlewyrchu pwysigrwydd y pwnc o ran cynnydd a chyflogaeth. Rwyf yn disgwyl i'r rhan fwyaf o ddysgwyr gymryd y ddau TGAU mathemateg, a disgwyliaf i ddysgwyr nad ydynt wedi cael gradd C o leiaf yn y TGAU iaith Saesneg neu Gymraeg a mathemateg-rhifedd erbyn eu bod yn 16 oed barhau i weithio tuag at y rhain neu tuag at gymwysterau priodol eraill.

Several AS and A-level qualifications are also being revised for 2015. We are developing these in step with changes in England, to minimise disruption for centres and learners in Wales. A-levels in Wales and England will be the same in size, scope and level of demand and will share the same content as far as possible, although there may be some cases where slightly different content is appropriate—for instance, to reflect a Welsh perspective in history. We are retaining AS-level qualifications as a coupled part of A-levels in Wales. Stakeholders, including, crucially, the universities, have been clear that they support us in our approach.

Mae nifer o gymwysterau UG a Safon Uwch hefyd yn cael eu hadolygu ar gyfer 2015. Rydym yn datblygu'r rhain gam am gam â'r newidiadau yn Lloegr, er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ganolfannau a dysgwyr yng Nghymru. Bydd cymwysterau Safon Uwch yng Nghymru a Lloegr yr un fath o ran maint, cwmpas a lefel y galw a byddant yn rhannu'r un cynnwys cyhyd ag y bo modd, er y gall fod rhai achosion lle mae cynnwys ychydig yn wahanol yn briodol—er enghraifft, er mwyn adlewyrchu safbwynt Cymreig mewn hanes. Rydym yn cadw cymwysterau safon UG yn rhan gysylltiedig o'r Safon Uwch yng Nghymru. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys, yn allweddol, y prifysgolion, wedi nodi'n glir eu bod yn cefnogi ein hymagwedd.

Yesterday, I visited St Richard Gwyn high school in Barry, one of the schools helping to pilot our new Welsh baccalaureate. There, I saw young people engaged in the enterprise and employability challenge, creating products to sell at their Christmas fair. These young entrepreneurs had already faced a gruelling 'Dragons' Den'-style panel with local employers to ensure that they had a good knowledge of their product and their business plan.

Ddoe, bûm yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Richard Gwyn Sant yn y Barri, un o'r ysgolion sy'n helpu i dreialu bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd. Yno, gwelais bobl ifanc yn cymryd rhan yn yr her menter a chyflogadwyedd, gan greu cynnyrch i'w werthu yn eu ffair Nadolig. Roedd yr entrepreneuriaid ifanc hyn eisoes wedi wynebu panel llym ar batrwm 'Dragons' Den', gyda chyflogwyr lleol er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am eu cynnyrch a'u cynllun busnes.

The Welsh baccalaureate is about essential skills: literacy and numeracy, of course, but also digital literacy, planning and organisation, innovation and creativity, critical thinking and problem solving and personal effectiveness. These are skills that are valued worldwide by employers and by higher education. These are developed and assessed through three challenges and a substantial individual project based on independent research.

Mae bagloriaeth Cymru'n ymwneud â sgiliau hanfodol: llythrennedd a rhifedd, wrth gwrs, ond hefyd llythrennedd digidol, cynllunio a threfnu, arloesedd a chreadigrwydd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau ac effeithiolrwydd personol. Mae'r rhain yn sgiliau y mae addysg uwch a chyflogwyr ledled y byd yn rhoi pwys arnynt. Cânt eu datblygu a'u hasesu drwy gyfrwng tair her a phrosiect unigol sylweddol sy'n seiliedig ar ymchwil annibynnol.

The Welsh baccalaureate is already highly valued for entry into higher education, but the introduction of grading at advanced level from next summer will increase its currency. In attaining the new advanced Welsh baccalaureate, learners gain a qualification that is the same size as an A-level and graded in the same way. The Universities and Colleges Admissions Service expects to allocate the same tariff points as for an A-level.

Rhoddir bri mawr eisoes ar fagloriaeth Cymru o ran mynediad i addysg uwch, ond bydd cyflwyno graddio ar lefel Safon Uwch o'r haf nesaf ymlaen yn cynyddu ei gwerth. Wrth lwyddo ym magloriaeth newydd, uwch Cymru, mae dysgwyr yn ennill cymhwyster sydd yr un maint â Safon Uwch ac sydd wedi ei raddio yn yr un modd. Mae Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn disgwyl dyrannu'r un pwyntiau tariff ag ar gyfer Safon Uwch.

Vocational qualifications are changing too. We have categorised all vocational qualifications as either IVETs or CVETs—that is, initial or continuing vocational education and training—according to European conventions. Since September, only IVETs have been available to learners up to the age of 16, so, younger learners have access to qualifications appropriate for their age, providing a broad introduction to a sector and allowing for progression. Those over the age of 16 can take IVETs or CVETs, which focus more on competence in specific roles. New stakeholder panels, involving employers and others, are being introduced to take a strategic view of vocational qualifications within each sector.

Mae cymwysterau galwedigaethol yn newid hefyd. Rydym wedi categoreiddio pob cymhwyster galwedigaethol fel naill ai IVET neu CVET—hynny yw, addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol neu barhaus—yn unol â chonfensiynau Ewropeaidd. Ers mis Medi, dim ond IVET sydd wedi bod ar gael i ddysgwyr hyd at 16 oed, felly bydd cymwysterau ar gael i ddysgwyr iau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran, ac yn cynnig cyflwyniad eang i sector penodol ac yn caniatáu dilyniant. Caiff y rhai dros 16 oed gymryd IVET neu CVET, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gymhwysedd mewn rolau penodol. Mae paneli rhanddeiliaid newydd, sy'n cynnwys cyflogwyr ac eraill, yn cael eu cyflwyno i gymryd golwg strategol ar gymwysterau galwedigaethol ym mhob sector.

Qualifications in Wales must be understood and respected worldwide to ensure portability and to enable our learners to study and work wherever is best for them. Confidence in the new qualifications is vital. Our work with employers and universities across the UK is already proving to be effective. I am now launching the next stage of the campaign, providing information packs and web-based resources for schools, colleges and training providers and materials for them to use in explaining and promoting the changes to learners and parents.

Mae'n rhaid sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru'n cael eu deall a'u parchu ledled y byd er mwyn sicrhau eu bod yn gludadwy ac er mwyn galluogi ein dysgwyr i astudio a gweithio ble bynnag sydd orau iddynt. Mae ffydd yn y cymwysterau newydd yn hanfodol. Mae ein gwaith gyda chyflogwyr a phrifysgolion ar draws y DU eisoes yn effeithiol. Rwyf yn awr yn lansio cam nesaf yr ymgyrch, sef darparu pecynnau gwybodaeth ac adnoddau ar y we i ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant, a deunyddiau iddynt eu defnyddio wrth egluro a hyrwyddo'r newidiadau i ddysgwyr a rhieni.

The role of building confidence in our qualifications system and regulating and assuring the effectiveness of our qualifications will, subject to legislation that I will shortly be introducing, pass to Qualifications Wales. This will be an independent, expert body focused on ensuring that our qualifications meet the needs of our learners and are recognised and valued internationally. It will work closely with stakeholders to shape and simplify our qualifications system and strengthen regulation.

Bydd y gwaith o feithrin hyder yn ein system gymwysterau a rheoleiddio a sicrhau effeithiolrwydd ein cymwysterau yn cael ei drosglwyddo i Cymwysterau Cymru, yn amodol ar ddeddfwriaeth y byddaf yn ei chyflwyno cyn hir. Bydd hwn yn gorff annibynnol, arbenigol sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod ein cymwysterau'n bodloni anghenion ein dysgwyr ac yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi yn rhyngwladol. Bydd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i lunio a symleiddio ein system gymwysterau ac i gryfhau rheoleiddio.

We are making excellent progress in building a high-quality, robust, distinctive national qualifications system that can compete and compare with the best in the world.

Rydym yn gwneud cynnydd rhagorol o ran adeiladu system gymwysterau genedlaethol gadarn, o safon uchel, â’i nodweddion arbennig ei hun, sy'n gallu cystadlu a chymharu â'r gorau yn y byd.

14:51

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement this afternoon. This is certainly an interesting time for the education sector in Wales, with the introduction of the new GCSEs and the Welsh baccalaureate. May I say at the outset that we are broadly supportive of much of the work that has been detailed in this statement today?

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Mae hwn yn sicr yn gyfnod diddorol i’r sector addysg yng Nghymru, gyda chyflwyno’r cymwysterau TGAU a bagloriaeth Cymru ar eu newydd wedd. A gaf fi ddweud ar y cychwyn ein bod at ei gilydd yn cefnogi llawer o'r gwaith a nodir yn y datganiad hwn heddiw?

The Minister notes the excellent progress made in light of the recommendations in the review of qualifications for 14 to 19-year-olds, which is, of course, good to hear. Given that there were 42 recommendations in the review of qualifications, perhaps the Minister can expand on what he means by ‘excellent progress’. How exactly does that translate to the number of recommendations that have already been implemented?

Mae'r Gweinidog yn nodi’r cynnydd rhagorol a wnaed yn sgil argymhellion yr adolygiad o gymwysterau i ddysgwyr 14 i 19 oed, ac mae’n dda clywed hynny, wrth gwrs. O ystyried bod 42 o argymhellion yn yr adolygiad o gymwysterau, efallai y gallai’r Gweinidog ymhelaethu ar yr hyn y mae'n ei olygu wrth 'gynnydd rhagorol'. Beth yw union berthynas hyn â nifer yr argymhellion sydd eisoes wedi eu rhoi ar waith?

One of the many recommendations in that review was to set up a substantial UK-wide communication strategy to explain and raise the profile of qualifications in Wales. In light of the review, I would be grateful if the Minister could outline what work the Welsh Government has already done in this area, and what more work it plans to do in the future. We must also recognise the role of parents, who have an influence on the qualifications that their children study for. Could the Minister also update us on the work that the Welsh Government has done to communicate its direction of travel to parents across Wales?

Roedd sefydlu strategaeth gyfathrebu sylweddol ledled y DU i egluro a chodi proffil cymwysterau yng Nghymru’n un o nifer o argymhellion yn yr adolygiad hwnnw. Yn sgil yr adolygiad, byddwn yn ddiolchgar pe bai’r Gweinidog yn amlinellu pa waith y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn, a pha waith arall y mae'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol. Rhaid inni gydnabod hefyd rôl rhieni, sydd â dylanwad ar y cymwysterau y mae eu plant yn astudio ar eu cyfer. A wnaiff y Gweinidog hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ynglŷn â’r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i gyfathrebu â rhieni ledled Cymru ynglŷn â’i chyfeiriad teithio?

The Minister’s statement also notes the important contributions that awarding organisations, such as the WJEC, make to the provision of continuing professional development opportunities for teachers. Perhaps, in his response, the Minister could clarify how, in the future, the new Qualifications Wales body, awarding organisations and the Welsh Government will specifically work together when it comes to continuing professional development?

Mae datganiad y Gweinidog hefyd yn nodi’r cyfraniadau pwysig y mae’r sefydliadau dyfarnu, megis CBAC, yn eu gwneud o ran darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i athrawon. Efallai, yn ei ymateb, y gallai’r Gweinidog egluro’n benodol sut, yn y dyfodol, y bydd y corff newydd, Cymwysterau Cymru, sefydliadau dyfarnu a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd yn benodol o ran datblygiad proffesiynol parhaus?

In his statement, the Minister makes it clear that the consortia have identified schools where there is good practice and that there will be school-to-school support to build capacity. While I would welcome this step, there will undoubtedly be challenges in how this school-to-school support will work in practice. Perhaps the Minister could clarify a bit further what he means by building capacity through school-to-school support.

Yn ei ddatganiad, mae'r Gweinidog yn ei gwneud yn glir bod y consortia wedi nodi ysgolion lle ceir arfer da ac y bydd cymorth ysgol-i-ysgol ar gael i feithrin gallu. Er y byddwn yn croesawu’r cam hwn, mae’n anochel y bydd heriau o ran sut y bydd y cymorth ysgol-i-ysgol hwn yn gweithio'n ymarferol. Efallai y gallai'r Gweinidog egluro ychydig ymhellach yr hyn y mae'n ei olygu wrth feithrin gallu drwy gymorth ysgol-i-ysgol.

I am pleased to read from the statement that teachers will be given more support to rise to these new challenges, but I would be interested to understand what that actually means. In the circumstances, could the Minister outline what additional resources are being and will be made available to teachers to provide that additional support?

Rwyf yn falch o ddarllen yn y datganiad y bydd athrawon yn cael mwy o gymorth i ymateb i'r heriau newydd hyn, ond hoffwn ddeall yr hyn y mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd. Yn yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog amlinellu pa adnoddau ychwanegol sydd ar gael, ac a fydd ar gael, i athrawon i ddarparu'r cymorth ychwanegol hwnnw?

The Minister's statement recognises the importance of developing entrepreneurial skills among our young people, and I note that he recently visited St Richard Gwyn high school in Barry, which has been creating products to sell at its Christmas fair. He will be aware, of course, that this is something that I have campaigned for for many years, and so I very much welcome steps to develop entrepreneurial skills in young people at an earlier age and to promote these skills through the education system. In light of seeing the enterprise and employability challenge in action, perhaps the Minister will commit himself to seriously considering establishing social enterprises in all secondary schools in Wales, not just for those studying the Welsh baccalaureate.

Mae datganiad y Gweinidog yn cydnabod pwysigrwydd datblygu sgiliau entrepreneuraidd ymysg ein pobl ifanc, a nodaf ei fod wedi ymweld yn ddiweddar ag Ysgol Uwchradd Richard Gwyn Sant yn y Barri, sydd wedi bod yn creu cynnyrch i'w werthu yn ei ffair Nadolig. Bydd yn gwybod, wrth gwrs, fod hyn yn rhywbeth yr wyf wedi bod yn ymgyrchu drosto ers blynyddoedd lawer, ac felly rwyf yn croesawu'n fawr iawn y camau i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd ymhlith pobl ifanc yn gynharach ac i hybu'r sgiliau hynny drwy'r system addysg. Wedi gweld yr her menter a chyflogadwyedd ar waith, efallai y gwnaiff y Gweinidog ymrwymo i ystyried o ddifrif sefydlu mentrau cymdeithasol ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru, nid dim ond i'r rhai sy'n astudio bagloriaeth Cymru.

Today's statement also highlights changes that are coming to vocational qualifications. It is, of course, crucial to recognise the importance of vocational education alongside more traditional academic education. I note that new stakeholder panels have been established, involving employers among others, to take a strategic view of vocational education. Perhaps the Minister could tell us more about these panels, such as, for example, their format and how often they meet.

Mae'r datganiad heddiw hefyd yn tynnu sylw at newidiadau sydd ar y gweill i gymwysterau galwedigaethol. Mae'n hollbwysig, wrth gwrs, cydnabod pwysigrwydd addysg alwedigaethol ochr yn ochr ag addysg academaidd fwy traddodiadol. Nodaf fod paneli rhanddeiliaid newydd wedi'u sefydlu, sy'n cynnwys cyflogwyr ymhlith eraill, i gymryd golwg strategol ar addysg alwedigaethol. Efallai y gallai'r Gweinidog ddweud mwy wrthym am y paneli hyn, megis, er enghraifft, beth yw eu ffurf a pha mor aml y maent yn cyfarfod.

The statement also notes that legislation will be forthcoming regarding the establishment of an independent body to regulate qualifications in Wales, which I support. Can the Minister tell us more about the timetable for this legislation and can he confirm that we are likely to see the introduction of this legislation before the end of this Assembly term?

Mae'r datganiad hefyd yn nodi bod deddfwriaeth ar ddod ynglŷn â sefydlu corff annibynnol i reoleiddio cymwysterau yng Nghymru, ac rwyf yn cefnogi hynny. A wnaiff y Gweinidog ddweud mwy wrthym am yr amserlen ar gyfer y ddeddfwriaeth hon ac a all gadarnhau ein bod yn debygol o weld cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn?

I very much share the Minister's ambition to remove the current regulatory responsibility for qualifications from Welsh Ministers, thereby creating a body independent of Government, and it is important that that independence is protected. It has been suggested that the monitoring of Qualifications Wales will be done directly by the National Assembly, and that is something that I welcome. Therefore, will the Minister tell us whether we are likely to see a Qualifications Wales annual report brought to the Assembly that can be scrutinised by all Members, as is already the case with Estyn's chief inspector's annual report, when the body is up and running? Given that the Minister has committed to creating an independent body at arm's length from Government that is responsible for the regulation and quality assurance of qualifications in Wales, it is therefore essential that the monitoring of this new body is as transparent as possible, and the production of an annual report to be debated in the Chamber is one way of doing just that.

Rwyf yn rhannu uchelgais y Gweinidog i dynnu'r cyfrifoldeb am reoleiddio cymwysterau oddi wrth Weinidogion Cymru, a thrwy hynny greu corff sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, ac mae'n bwysig gwarchod yr annibyniaeth honno. Awgrymwyd y bydd y gwaith o fonitro Cymwysterau Cymru'n cael ei wneud yn uniongyrchol gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn ei groesawu. Felly, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym a ydym yn debygol o weld adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru'n dod i'r Cynulliad er mwyn i'r Aelodau i gyd gael craffu arno, fel sydd eisoes yn digwydd gydag adroddiad blynyddol prif arolygydd Estyn, pan fydd y corff wedi'i sefydlu ac ar waith? Ac ystyried bod y Gweinidog wedi ymrwymo i greu corff annibynnol hyd braich oddi wrth y Llywodraeth sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau yng Nghymru, mae'n hanfodol bod y gwaith o fonitro'r corff newydd mor dryloyw â phosibl, ac mae cynhyrchu adroddiad blynyddol i'w drafod yn y Siambr yn un ffordd o wneud hynny.

Therefore, in closing, Presiding Officer, any qualifications that our pupils achieve in Wales must be meaningful and provide young people with cast-iron guarantees that their results will be recognised across the UK and further afield. I therefore hope that today's statement and the ongoing reforms will result in building a high-quality qualifications system here in Wales. I look forward to further scrutinising the Minister regarding these ongoing reforms in the future.

Felly, i gloi, Lywydd, rhaid i unrhyw gymwysterau y mae ein disgyblion yn eu hennill yng Nghymru fod yn ystyrlon a chynnig sicrwydd llwyr i bobl ifanc y bydd eu canlyniadau'n cael eu cydnabod ledled y DU a thu hwnt. Rwyf yn gobeithio felly y bydd y datganiad heddiw a'r diwygiadau parhaus yn golygu y gellir adeiladu system gymwysterau o safon uchel yma yng Nghymru. Rwyf yn edrych ymlaen at graffu ar y Gweinidog ymhellach ynglŷn â'r diwygiadau parhaus hyn yn y dyfodol.

14:57 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I thank Paul Davies for his broad support for today's statement and its content? He asks a number of questions and I will attempt to field them as best I can in the time available.

Diolch i Paul Davies am ei gefnogaeth gyffredinol i'r datganiad heddiw a'i gynnwys. Mae'n gofyn nifer o gwestiynau a cheisiaf eu hateb cystal ag y gallaf yn yr amser sydd ar gael.

On communications, Paul Davies will be aware that, yesterday, I launched our communications plan for parents and teachers. For those people who want a broad overview of what that entails, the best thing to do is to go to the website, which is 'qualifiedforlife.org.uk', and, hopefully, all the information that any parent or teacher could want will be summarised in that location.

O ran cyfathrebu, bydd Paul Davies yn gwybod fy mod wedi lansio ein cynllun cyfathrebu ar gyfer rhieni ac athrawon ddoe. I'r bobl hynny sydd am gael trosolwg eang o'r hyn y mae hynny'n ei olygu, y peth gorau i'w wneud yw mynd i'r wefan, sef 'cymwysamoes.org.uk', ac rwyf yn gobeithio y bydd yr holl wybodaeth y gallai unrhyw riant neu athro ddymuno ei chael wedi'i chrynhoi yno.

In addition to that, of course, there is the groundwork around stakeholders. Over the last nine months, officials from my department have met senior management in every university in Wales and those in England that take significant numbers of learners from Wales. They have also visited a number of Welsh anchor companies and key employer representative groups to explain the reform programme and to ensure that our qualifications meet the needs of business. Feedback has been very positive. A Welsh qualifications engagement officer has recently been appointed to co-ordinate a further communications effort to advise higher education institutions of the changes made to our qualifications system. This communications strategy will unfold over time.

Yn ogystal â hynny, wrth gwrs, mae'r sylfeini ynghylch rhanddeiliaid. Dros y naw mis diwethaf, mae swyddogion o'm hadran wedi cwrdd ag uwch reolwyr ym mhob prifysgol yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr sy'n derbyn niferoedd sylweddol o ddysgwyr o Gymru. Maent hefyd wedi ymweld â nifer o gwmnïau angori Cymru a grwpiau allweddol sy'n cynrychioli cyflogwyr i esbonio'r rhaglen ddiwygio ac i sicrhau bod ein cymwysterau'n diwallu anghenion busnesau. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn. Penodwyd swyddog ymgysylltu cymwysterau i Gymru'n ddiweddar i gydlynu ymdrech gyfathrebu bellach i roi gwybod i sefydliadau addysg uwch am y newidiadau a wnaed i'n system gymwysterau. Bydd y strategaeth gyfathrebu hon yn datblygu dros amser.

In terms of Qualifications Wales, well, yes, there is overlap here with the continuing professional development of teachers and my announcements surrounding the new deal for teachers. I would expect close working between the Welsh Government and other partner agencies in terms of how that is constructed over time. We do already have school-to-school support developing apace out there on the ground, and our educational consortia are driving those efforts.

O ran Cymwysterau Cymru, wel, oes, mae gorgyffwrdd yma o ran datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a'm cyhoeddiad ynglŷn â'r fargen newydd i athrawon. Byddwn yn disgwyl cydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner eraill o ran y ffordd y caiff hynny ei saernïo dros amser. Mae cymorth ysgol-i-ysgol eisoes yn datblygu'n gyflym ar lawr gwlad, ac mae ein consortia addysg yn gyrru'r ymdrechion hynny.

He also asks, in terms of support for teachers and the generality of professional development, what resources are available. Well, £3 million has been allocated to support that effort—a not inconsiderable chunk of resource dedicated to making sure that our teachers have everything that they need.

Mae hefyd yn gofyn, o ran cymorth i athrawon a datblygiad proffesiynol yn gyffredinol, pa adnoddau sydd ar gael. Wel, mae £3 miliwn wedi'i neilltuo i gefnogi'r ymdrech honno—swm eithaf sylweddol o adnoddau sydd wedi'i glustnodi i sicrhau bod gan ein hathrawon bopeth sydd ei angen arnynt.

In terms of the universality of entrepreneurial training, well, of course, my ambition is that the Welsh baccalaureate should become a universal offer across the state school system in Wales, and I think that that future is not too far off.

O ran cyffredinolrwydd hyfforddiant entrepreneuraidd, wrth gwrs, fy uchelgais yw i fagloriaeth Cymru gael ei chynnig yn gyffredinol ar draws ysgolion y wladwriaeth yng Nghymru, a chredaf nad yw'r dyfodol hwnnw'n rhy bell i ffwrdd.

15:00 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, rwy'n croesawu'r system o gymwysterau cenedlaethol newydd yng Nghymru. A ydych yn cytuno â mi bod digwyddiadau arholiadau TGAU Saesneg yn 2012 yn annerbyniol? Ar ben hyn, roedd cynigion Gove yn Lloegr i newid cymwysterau lefel A a TGAU yn warthus, ac rwy'n falch eich bod yn sefydlu corff newydd, sef Cymwysterau Cymru, i fod yn gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau yng Nghymru nad ydynt ar lefel gradd. Bydd cymwysterau newydd mathemateg ac iaith TGAU yn adeiladu ar y gwelliannau sydd yn codi o'r fframwaith llythrennedd a rhifedd sydd yn awr yn bodoli yn ein hysgolion. Rwy'n falch hefyd, fel cyn athro mathemateg, eich bod yn cytuno â mi am bwysigrwydd mathemateg i ddilyniant a chyflogaeth ein pobl ifanc, ac yn sefydlu dau bwnc mathemateg TGAU. Y pwynt olaf am TGAU yw'r ffaith eich bod yn cael gwared ar y system modiwlau, lle'r oedd plant ym mlwyddyn 10 mewn nifer o ysgolion yn sefyll arholiadau ar ôl un tymor yn unig. Pa bryd y bydd hyn yn dod i fodolaeth, Weinidog?

Minister, I welcome the new national qualifications system in Wales. Do you agree with me that events surrounding GCSE English in 2012 were unacceptable? On top of this, Gove's proposals in England to change A-level and GCSE qualifications were disgraceful, and I am pleased that you are establishing a new body, namely Qualifications Wales, to be responsible for regulating and quality assuring all qualifications in Wales that are not at degree level. New mathematics and language qualifications at GCSE will build upon the improvements arising from the literacy and numeracy framework, which is now in our schools. I am also pleased, as a former maths teacher, that you agree with me about the importance of mathematics to the progress and employment of our young people, and are establishing two GCSE mathematics courses. The last point on GCSEs is the fact that you are abolishing the modular system, where children in year 10 in many schools took exams after just one term. When this will be implemented, Minister?

Mae cadw arholiadau atodol uwch, sef yr AS, yng Nghymru i'w groesawu hefyd, ac yn hollol wahanol i beth sydd yn digwydd yn Lloegr, lle y maent yn diflannu, yn groes i sylwadau tiwtoriaid derbyn prifysgolion fel Caergrawnt.

Retaining AS examinations in Wales is also welcome, and is quite different to what is happening in England, where they are to be abolished, contrary to the comments made by admissions tutors at universities such as Cambridge.

Yn olaf, mae'r newidiadau i fagloriaeth Cymru yn ei chryfhau, ac rwy'n siŵr y bydd UCAS yn dal i'w chymharu â lefel A ac y bydd yn cael ei derbyn gan brifysgolion. A ydych wedi cael unrhyw drafodaeth gydag UCAS?

Finally, the changes to the Welsh baccalaureate make it stronger, and I am sure that UCAS will still compare it with A-levels and that it will be accepted by universities. Have you had any discussion with UCAS?

15:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for Llanelli for those points and those questions. First of all, yes, he is right, to contrast, I think, our approach in terms of qualifications reform with that that pertains over the border. I would like to think—well, I can confidently state—that ours is based on evidence at every stage and has arisen through careful consultation through the recommendations of the qualifications review. Stakeholders have been engaged at every point. That includes teaching professionals, as well as industry and other stakeholders. I intend that this will lead us through an ambitious but steady and achievable programme of reform towards the goals that we seek. We certainly do not want to see a situation in Wales as has happened in England, I think, where the system is thrown suddenly between competing demands and where announcements are made seemingly without any evidence base, from time to time.

Diolch i'r Aelod dros Lanelli am y pwyntiau a'r cwestiynau hynny. Yn gyntaf oll, ydy, mae'n gywir, yn fy marn i, i gyferbynnu ein hagwedd o ran diwygio cymwysterau â'r hyn sy'n digwydd dros y ffin. Hoffwn feddwl—wel, gallaf ddweud â sicrwydd—fod ein hagwedd ni wedi'i seilio ar dystiolaeth bob cam o'r ffordd ac wedi tyfu o ymgynghori gofalus ynglŷn ag argymhellion yr adolygiad o gymwysterau. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid ar bob adeg. Mae hynny'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o fyd addysg, yn ogystal â rhanddeiliaid o fyd diwydiant ac o feysydd eraill. Fy mwriad yw y bydd hyn yn ein harwain drwy raglen uchelgeisiol, ond cyson a chyraeddadwy, i gyrraedd y nodau a geisiwn. Yn bendant, nid ydym am weld sefyllfa yng Nghymru fel sydd wedi digwydd yn Lloegr, rwyf yn meddwl, lle y mae'r system yn cael ei thaflu'n ôl a blaen yn sydyn rhwng galwadau sy'n cystadlu a lle y gwneir cyhoeddiadau yn ôl pob golwg heb ddim sylfaen dystiolaeth, o bryd i'w gilydd.

He is right to point to the importance of mathematics. We are really signalling, I suppose, through this statement, a revolution in terms of the signals that we send through the school system about the central importance of mathematics. There will be further announcements a little later in the autumn, in terms of the rollout of that message to our professionals, to our parents and to our pupils, too.

Mae'n gywir i dynnu sylw at bwysigrwydd mathemateg. Drwy'r datganiad hwn rydym, mae'n debyg, yn nodi bod chwyldro ar droed o ran y negeseuon yr ydym yn eu hanfon i'r system ysgolion ynglŷn â phwysigrwydd creiddiol mathemateg. Bydd cyhoeddiadau pellach ychydig yn ddiweddarach yn yr hydref, o ran y broses o gyflwyno'r neges honno i'n gweithwyr proffesiynol, i'n rhieni ac i'n disgyblion, hefyd.

We are retaining AS levels in Wales. We are taking advice here, again, from the people who should know—the universities, in particular, which regard that as an indispensible check, of use to the student and to them, as institutions, in terms of university admissions. That is the evidence base, and we will run with that.

Rydym yn cadw'r safon UG yng Nghymru. Rydym yn cymryd cyngor yma, unwaith eto, gan y bobl a ddylai wybod—y prifysgolion, yn arbennig, sy'n ystyried hyn yn faen prawf anhepgor, sy'n ddefnyddiol i'r myfyrwyr ac iddynt hwythau, fel sefydliadau, o ran derbyn myfyrwyr i'r prifysgolion. Dyna'r sylfaen o ran tystiolaeth, a byddwn yn gweithredu ar hynny.

15:04 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Plaid Cymru yn croesawu, yn fras, y datganiad gan y Gweinidog heddiw. Hoffwn ddweud, ar ddechrau fy sylwadau, bod rhai, wrth gwrs, wedi cwestiynu a ddylai Cymru wneud hyn o gwbl, gan fod ein cyfundrefn addysg ni wedi ymddangos mor wan a diffygiol, yn rhai o dermau cynghreiriau PISA ac ati. I mi, mae'r canlyniadau hynny yn awgrymu yn union pam y dylem wneud hyn. Mae'n amlwg nad yw'r system bresennol yn gweithio er lles disgyblion Cymru ac, yn benodol, nid yw'r gyfundrefn bresennol yn cynorthwyo ein disgyblion i gymhwyso eu sgiliau ar draws y cwricwlwm a defnyddio'r sgiliau hynny mewn sefyllfaoedd gwahanol. Felly, rwy'n meddwl, gyda'r datblygiadau yn Lloegr hefyd, lle mae Lloegr wedi penderfynu ar lwybr gwahanol, ei bod yn anochel ac yn anorfod ein bod yn datblygu cymwysterau gwahanol yma yng Nghymru—ar wahân, ond yn seiliedig, fel y dywedodd y Gweinidog, ar dystiolaeth.

Plaid Cymru welcomes, in broad terms, the statement by the Minister today. I would like to say, at the outset, that some, of course, have questioned whether Wales should do this at all, as our education system had appeared so weak and deficient with regard to some PISA league tables et cetera. For me, those results suggest exactly why we should do this. It is evident that the current system is not working for the benefit of pupils in Wales and, in particular, that the current system does not allow our learners to apply their skills across the curriculum and use those skills in different situations. Therefore, I think that, with the developments in England, where they have decided on a different route, it is inevitable and unavoidable that we develop different qualifications here in Wales—separately, but based, as the Minister said, on evidence.

I unrhyw system fel hon weithio, yn enwedig yn y cyd-destun Cymraeg, lle rydym yn genedl weddol fach o'n cymharu â chenedl fwy o faint y drws nesaf inni sy'n gwneud rhywbeth gwahanol, a lle mae nifer o brifysgolion a swyddi'n bodoli, mae'n rhaid iddi, yn fy marn i, feddu ar dri pheth hynod bwysig, sef ei bod yn ymddangos yn system gwbl annibynnol, ei bod yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth, fel y dywedais i, a'i bod yn hyglud—hynny yw, bod modd symud y cymwysterau o le i le, gyda'r cymwysterau'n cael eu derbyn fel rhai cyfwerth â chymwysterau yng ngweddill Prydain ac, yn wir, yng ngorllewin Ewrop. Mae'r hyn y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud heddiw am y tri pheth hyn wedi fy modloni, i raddau yn fwy na'i gilydd. Yn gyntaf oll, ynglŷn ag annibyniaeth y system, rwy'n croesawu, wrth gwrs, y bydd hyn, yn y pen draw, yn cael ei reoli gan Gymwysterau Cymru—gan gorff rheoleiddiol annibynnol. Mae hynny'n rhywbeth y mae Plaid Cymru wedi gofyn amdano yn gyson dros y pedair blynedd diwethaf, ac rwy'n edrych ymlaen at y ddeddfwriaeth ac at ei chefnogi, gobeithio, i weld y system annibynnol honno ar waith.

For any system like this to work, particularly in the Welsh context, where we are a relatively small nation compared with the larger nation next door that is doing something quite different, and where there are a number of universities and jobs, it must, in my view, have three vital points, namely that it is seen to be completely independent, that it is robust and evidence based, as I said, and that it is portable—namely that qualifications can be moved from place to place, accepted as equivalent qualifications with those in the rest of Britain and, indeed, in western Europe. What the Minister has said today about these three things has satisfied me, some more than others. First of all, regarding the independence of the system, I welcome, of course, that this, ultimately, will be managed by Qualifications Wales—an independent regulatory body. That is something that Plaid Cymru has consistently asked for over the past four years, and I look forward to seeing the legislation and to supporting it, I hope, to see that independent system in place.

Yn ei thro, mae system annibynnol yn helpu gyda'r broses o sicrhau y bydd y cymwysterau hyn yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Ond mae rhai pethau y mae'n rhaid imi sôn wrth y Gweinidog amdanynt heddiw sy'n wan yn yr egin system sydd gennym yn awr. Rwy'n dal i ganfod nad yw disgyblion Cymru eu hunain yn deall y fagloriaeth nac yn ei chefnogi bob tro ychwaith. Mae hynny'n digwydd oherwydd bod disgyblion yn gweld y fagloriaeth yn wastraff amser, yn eu geiriau nhw, weithiau, neu nid ydynt yn gweld sut y mae'n eu cymhwyso i fynd ymlaen i'r brifysgol neu i faes galwedigaethol. Yn benodol, rwy'n credu bydd y newid i fagloriaeth wedi'i graddio, fel bod un uwch, yn eu cynorthwyo yn y broses hon, ond, fel y dywedais, rwy'n dal i ganfod y syniad hwnnw. Felly, mae job o waith i'w gwneud, hyd yn oed gyda'n disgyblion a'n rheini ni yma yng Nghymru ynglŷn â'r fagloriaeth. Mae hynny'n ychwanegol at y ffaith bod disgyblion yn dal i ddweud wrthyf hefyd bod rhai colegau a rhai prifysgolion yn dal yn ddirmygus o'r fagloriaeth a'r hyn y mae'n ei gynrychioli. Cafodd hynny ei ddweud mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, pan gwrddais â disgyblion Ysgol Dinas Brân yng nghynhadledd Plaid Cymru yn Llangollen.

In turn, an independent system helps with the process of ensuring that these qualifications are robust and based on evidence. However, there are some things that I have to highlight with the Minister today that are weak in the embryonic system that we have at the moment. I still find that Welsh pupils do not understand the baccalaureate and do not always support it. That happens because pupils sometimes see the baccalaureate as a waste of time, in their words, or they do not see how it would qualify them to go on to university or into the vocational field. In particular, I think that the change to a graded baccalaureate, so that there will be a higher grade, will assist in this process, but, as I said, I still encounter this perception. So, there is a job of work to be done, even with our own pupils and parents in Wales, on the baccalaureate. That is in addition to the fact that pupils are still telling me that some colleges and some universities are still rather dismissive of the baccalaureate and what it represents. That was said as recently as last week, when I met with pupils from Ysgol Dinas Brân in the Plaid Cymru conference in Llangollen.

Er fy mod yn cefnogi'r ffaith ein bod wedi cadw lefel A, a lefel UG yn benodol, yn y system bresennol, mae dirfawr angen i'r system hon weithio, i gael mwy byth o ymwybyddiaeth o'r system newydd ymysg gweithwyr, cyflogwyr, prifysgolion, rhieni a disgyblion eu hunain. Bydd y ffaith bod Philip Blaker wedi ei benodi dros dro yn bennaeth Cymwysterau Cymru—rwy'n deall ei fod yn dod o UCAS—efallai o gymorth yn y system hon.

While I support the fact that we have kept the A-level, and the AS level in particular, in the current system, there is a great need for this system to work, to gain even more awareness of the new system among workers, employers, universities, parents and pupils themselves. The fact that Philip Blaker has been appointed temporary head of Qualifications Wales—I understand that he comes from UCAS—may help in this system.

Yr ail ran o fod yn system gadarn yw bod gennych gorff arholi credadwy. Yn hynny o beth, rwyf am dalu teyrnged i waith CBAC hyd yma. Mae CBAC wedi cael ei golbio gan Weinidogion yn y lle hwn yn y gorffennol, ond mae CBAC, mae'n ymddangos i mi, wedi cadw at yr amserlen, wedi darparu yn briodol ar gyfer y TGAU newydd, ac wedi gwneud gwaith da hyd y gwelaf i. Mae'n bwysig yn awr, wrth gwrs, fod athrawon yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i weithredu'r system hon. Mae'n ymddangos i mi fod hyn yn dangos pa mor dda y mae un corff yn gallu cydweithio gyda'r Llywodraeth. Nid oes angen cystadlu rhwng cyrff arholi yn y maes hwn wrth sôn am rywbeth craidd fel mathemateg, Cymraeg neu Saesneg. Un corff credadwy sydd ei eisiau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru. Yn y cyd-destun hwnnw, a chan ein bod yn trafod Cymwysterau Cymru, a yw'n dal yn fwriad gan y Llywodraeth i dynnu CBAC, neu waith CBAC, i mewn i'r corff newydd hwn—hynny yw, troi'r corff rheoleiddio yn fwrdd arholi hefyd? Rwy'n meddwl y dylem aros i weld y bwrdd yn rhedeg yn briodol cyn gwneud y fath benderfyniad.

The second part of being a robust system is that you have a credible examination body. In that regard, I wish to pay tribute to the work of WJEC to date. WJEC has been hammered by Ministers in this place in the past, but WJEC, it seems to me, has adhered to the timetable, has prepared appropriately for the new GCSEs, and has done a good job as far as I can see. It is important now, of course, that teachers receive training and support to implement this system. It appears to me that this shows how well one body can collaborate with Government. There is no need for competition between examination bodies in this area when talking about core subjects such as mathematics, Welsh or English. You need one credible body to work with Welsh Government. In that context, and given that we are discussing Qualifications Wales, is it still the Government's intention to bring WJEC or its work into this new body—that is, to turn the regulatory body into an examination board too? I think that we should wait to see the board running properly before making such a decision.

Y pwynt olaf rwyf am ei wneud—os caf, Ddirprwy Lywydd; mae'n ddatganiad hir, rhaid dweud—yw pa mor bwysig yw bod y cymwysterau hyn yn rhai hyglud, sef bod modd i'r disgyblion a'r myfyrwyr eu cario o le i le. Byddwn i'n licio clywed llawer mwy gan y Llywodraeth am ei gwaith ar hyn—efallai nad heddiw, gan nad yw i gyd yn ei le, ond rwy'n bendant am i'r Gweinidog gydnabod bod hwn yn bwynt pwysig iawn. Mae rhai o hyd nad ydynt yn deall system addysg Cymru, gan gynnwys pobl yng Nghymru ei hun, a bydd hyd yn oed yn fwy anodd pan fydd y system addysg yn Lloegr wedi datblygu mor wahanol dros y cyfnod nesaf.

The last point that I want to make—if I may, Deputy Presiding Officer; it is a long statement, I must say—is how important it is that these qualifications are portable, so that pupils and students can carry them from place to place. I would like to hear much more from the Government on its work on this—perhaps not today, as it is not all in place, but I definitely want the Minister to acknowledge that this is a very important point. Some, including some people in Wales, still do not understand the Welsh education system and it will be even more difficult when the education system in England has developed so differently over the next period.

15:10 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Simon Thomas for his general welcome for today's statement. He is right to point to those three key elements: that our qualifications need to be robust and portable, and that we need independent oversight—hence the need for that independent body, Qualifications Wales, to ensure all three of those things as its core business.

Diolch i Simon Thomas am ei groeso cyffredinol i'r datganiad heddiw. Mae'n iawn i dynnu sylw at y tair elfen allweddol: bod angen i'n cymwysterau fod yn gadarn ac yn gludadwy, a bod angen trosolwg annibynnol—dyna pam y mae angen y corff annibynnol hwnnw, Cymwysterau Cymru, er mwyn sicrhau bod pob un o'r tri pheth hynny'n rhan o'i fusnes craidd

In terms of his comments surrounding the Welsh baccalaureate, I accept them. I, too, have encountered attitudes from pupils and from parents that are, let us say, lacking in awareness of the philosophy behind the Welsh baccalaureate and what it is all about, and they are sceptical about its usefulness. We have a job to do in terms of making sure that everyone is up to speed. Perhaps we did not carry that through at the very beginning in the way that it should have been done. However, essentially, the Welsh baccalaureate is about the rounded individual. It is about those decades-long requests that we have received from universities and employers about the need for learners to have some kind of confidence and grounding outside the narrow confines of their subject area. If you look at the website, for instance, of any major public school, you will find two promises, essentially: you will find one regarding academic rigour—and that is fine, and, of course, we will have that in our system here in Wales—but you will also find an offer around the whole person, the whole individual. The Welsh baccalaureate, uniquely ours here in Wales, is a response to that demand from educationalists and from employers that a young person has a grounding and a self-confidence that goes beyond the narrow confines of, for instance, an A-level in a particular subject. Therefore, it is an essential part of today's educational portfolio.

O ran ei sylwadau am fagloriaeth Cymru, rwyf yn eu derbyn. Rwyf finnau, hefyd, wedi dod ar draws agweddau gan ddisgyblion a rhieni sy'n dangos diffyg ymwybyddiaeth, gadewch inni ddweud, o'r athroniaeth sy'n sail i fagloriaeth Cymru a'i diben, ac maent yn amau pa mor ddefnyddiol ydyw. Mae gennym waith i'w wneud o ran sicrhau bod gwybodaeth drylwyr gan bawb. Efallai na lwyddasom i wneud hynny yn y ffordd y dylem fod wedi'i wneud ar y cychwyn. Fodd bynnag, yn y bôn, diben bagloriaeth Cymru yw creu unigolion cytbwys. Mae a wnelo â'r galwadau a gafwyd ers degawdau gan brifysgolion a chyflogwyr fod angen i ddysgwyr fod â rhyw fath o hyder a sylfaen wybodaeth y tu hwnt i gyfyngiadau cul maes eu pwnc. Os edrychwch ar wefan unrhyw ysgol fonedd fawr, er enghraifft, fe welwch, i bob pwrpas, ddau addewid: un yn addo safon academaidd gadarn—ac mae hynny'n beth da, ac, wrth gwrs, bydd hynny gennym yn ein system yma yng Nghymru—ond fe welwch hefyd addewid ynglŷn â'r person cyfan, yr unigolyn cyfan. Mae bagloriaeth Cymru, ein cynnyrch unigryw ni yma yng Nghymru, yn ymateb i'r galw gan addysgwyr a chyflogwyr am i bobl ifanc gael sylfaen wybodaeth a hunanhyder sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau cul, er enghraifft, Safon Uwch mewn pwnc penodol. Felly, mae'n rhan hanfodol o'r portffolio addysgol heddiw.

In terms of competition for competition's sake, I agree with Simon Thomas on this. I am far more interested within this sector in attaining coherence rather than competition within the world of examinations, both in terms of regulation and awarding. He is right to say that we will have some time to assess the new organisation, Qualifications Wales. There will be time for us to take a look at how things are progressing, but it remains my ambition that we will have, as a destination, a Scottish-style awarding and regulatory body in time.

O ran cystadlu er mwyn cystadlu, cytunaf â Simon Thomas ynglŷn â hyn. Yn y sector hwn, mae gennyf lawer mwy o ddiddordeb mewn sicrhau cydlyniant yn hytrach na chystadlu ym maes arholiadau, o ran rheoleiddio ac o ran dyfarnu. Mae'n gywir i ddweud y bydd gennym beth amser i asesu'r sefydliad newydd, Cymwysterau Cymru. Bydd amser inni i gael gweld sut y mae pethau'n dod yn eu blaenau, ond fy uchelgais o hyd yw sicrhau bod gennym, yn y pen draw, gorff dyfarnu a rheoleiddio ar batrwm yr Alban.

He mentioned portability as a key concept and, of course, he is absolutely right there, too. That is why, of course, we are holding on in Wales to those trusted brands of GCSE and A-level.

Soniodd am hygludedd fel cysyniad allweddol ac, wrth gwrs, mae yn llygad ei le yn hynny o beth, hefyd. Dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni yng Nghymru'n cadw'r brandiau TGAU a Safon Uwch y mae pobl yn ymddiried ynddynt.

15:13 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Most of what I was going to say has been said, but I know that my committee will be looking forward to discussing in great depth what is being proposed now, both in your statement and your forthcoming Bill on qualifications. I believe that your approach to qualifications reform has been strongly endorsed by stakeholders, particularly leaders from the education sector. I will just hit on one endorsement by Claire Armistead from Rhyl High School—I know that hers is not the only school in my constituency, but I keep referring to her because I think that she is such a breath of fresh air in the high school. She said that she very much welcomes with great vigour the introduction of the Welsh baccalaureate that is more appropriate to the needs of the children. I agree with her, and I agree with that as well and also with your vision to make Welsh qualifications a hallmark of quality. I do think that your plans can make that aspiration possible and it is really to your credit that you are driving this through, not just as reform, but in a way that does take people with you along that journey. As you quite rightly said, we have reached a milestone in that. I just wonder how you will embed your proposals within this statement in your upcoming qualifications Bill. Are you going to amend your Bill—well, not amend it, but are you going to revisit the strength of that Bill before you publish it?

Mae'r rhan fwyaf o'r hyn yr oeddwn am ei ddweud eisoes wedi ei ddweud, ond gwn y bydd fy mhwyllgor yn edrych ymlaen at drafod yn fanwl iawn yr hyn sy'n cael ei gynnig yn awr, yn eich datganiad ac yn eich Bil cymwysterau arfaethedig. Credaf fod eich dull o ddiwygio cymwysterau wedi ei gymeradwyo'n gryf gan randdeiliaid, yn enwedig arweinwyr o'r sector addysg. Rwyf am sôn am un gymeradwyaeth gan Claire Armistead o Ysgol Uwchradd y Rhyl—gwn nad ei hysgol hi yw'r unig un yn fy etholaeth ond cyfeiriaf ati dro ar ôl tro oherwydd fy mod yn meddwl ei bod yn gymaint o chwa o awyr iach yn yr ysgol honno. Dywedodd ei bod yn croesawu'n frwd iawn gyflwyno bagloriaeth Cymru sy'n fwy addas i anghenion y plant. Cytunaf â hi, a hefyd â'ch gweledigaeth o wneud cymwysterau Cymreig yn warant o ansawdd. Credaf y gall eich cynlluniau wireddu'r dyhead hwnnw ac mae'n glod ichi eich bod yn bwrw ymlaen â hyn, nid dim ond er mwyn diwygio, ond mewn ffordd sy'n mynd â phobl gyda chi ar hyd y daith. Fel y dywedasoch yn briodol iawn, rydym wedi cyrraedd carreg filltir yn hynny o beth. Ond tybed sut y byddwch yn ymgorffori eich cynigion yn y datganiad hwn yn eich Bil cymwysterau arfaethedig. A ydych am ddiwygio eich Bil—wel, nid ei ddiwygio, ond a ydych yn mynd i ailedrych ar gryfder y Bil hwnnw cyn ei gyhoeddi?

15:14 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Ann Jones for those comments. She is absolutely right to say, of course, that there has been widespread—in fact, near universal—support for these changes from stakeholders up and down Wales and across the United Kingdom, from Cambridge and Oxford universities to the Federation of Small Businesses, to our own Welsh higher education institutions and every port of call in between. There has been a resounding thumbs up for the qualifications reform package that has been announced. Now we have to deliver on the basis of that trust that we have built up with stakeholders, and deliver on quality as Ann Jones has said. Qualifications Wales will have at the centre of its work the maintenance of a gold standard of quality in terms of what a Welsh qualification looks like and what employers and educational institutions can expect of a young person who walks out of one of our schools or colleges with one of these qualifications in their back pocket. It must be a passport that can take them anywhere that they want to go.

Diolch i Ann Jones am y sylwadau hynny. Mae yn llygad ei lle, wrth gwrs, pan ddywed y bu cefnogaeth eang—bron â bod yn gefnogaeth lwyr, a dweud y gwir—i'r newidiadau hyn gan randdeiliaid ledled Cymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, o brifysgolion Caergrawnt a Rhydychen i Ffederasiwn y Busnesau Bach, ac i'n sefydliadau addysg uwch ni yma yng Nghymru ac ym mhob man sydd rhyngddynt. Cafwyd cymeradwyaeth frwd i'r pecyn diwygio cymwysterau a gyhoeddwyd. Yn awr mae'n rhaid inni gyflawni ar sail yr ymddiriedaeth yr ydym wedi'i meithrin â'r rhanddeiliaid, a chyflawni hefyd o ran ansawdd fel y dywedodd Ann Jones. Wrth wraidd gwaith Cymwysterau Cymru bydd cynnal safon ansawdd aur o ran y ffordd y bydd cymhwyster o Gymru'n edrych a'r hyn y gall cyflogwyr a sefydliadau addysgol ei ddisgwyl gan bobl ifanc sy'n gadael ein hysgolion neu ein colegau ag un o'r cymwysterau hyn yn eu pocedi. Rhaid i'n cymwysterau fod yn basbort a all fynd â hwy i ble bynnag y dymunant fynd.

In terms of legislation, of course, I will have to consider—there are details within legislation that we do not really have time to go into this afternoon. Of course, all the tools that Qualifications Wales will need will have to be available to it when it takes up what is a vital and central role in Welsh education.

O ran deddfwriaeth, wrth gwrs, bydd yn rhaid imi ystyried—mae manylion yn y ddeddfwriaeth nad oes gennym amser i'w trafod y prynhawn yma, mewn gwirionedd. Wrth gwrs, bydd yn rhaid i'r holl offer y bydd eu hangen ar Cymwysterau Cymru fod ar gael iddo pan fydd yn ymgymryd â'r rôl hon sy'n allweddol ac yn ganolog ym myd addysg yng Nghymru.

15:16 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf hefyd yn croesawu'r datganiad ac yn diolch ichi am roi rhyw fath o ddarlun inni o'r llwybr sydd wedi ei ddilyn erbyn hyn. Rwy'n meddwl bod y sefyllfa yn newid. Roedd y wraig yn mynd i Brifysgol Birmingham rhyw bythefnos yn ôl i ddiwrnod agored ac roedd y brifysgol yn dweud, o achos y newidiadau i'r fagloriaeth, ei bod yn barod i dderbyn y cymhwyster hwnnw am y tro cyntaf ar draws y brifysgol. Felly, hwyrach bod rhai o'r camau sydd wedi cael eu cymryd gan y Llywodraeth yn dechrau dwyn ffrwyth.

I also welcome the statement and thank you for giving us an overview of the point that we have reached at this juncture. I think that the situation is changing. My wife went to Birmingham University a fortnight ago to an open day and the university said that, because of the changes to the baccalaureate, it was now willing to accept that qualification for the first time, across the university. So, perhaps some of the steps taken by Government are now starting to bear fruit.

Rwy'n mynd i gyfyngu'r hyn rwy'n mynd i ofyn i'r strategaeth gyfathrebu. Yn amlwg, rydych wedi lansio'r wefan i'r proffesiwn dysgu a rhieni yn ystod yr wythnos diwethaf, ond sut mae rhieni'n mynd i fod yn ymwybodol o'r wefan a'r adnoddau sydd ar gael? Wrth i mi baratoi'r hyn roeddwn i'n mynd i'w ddweud—mae gen i fab ym mlwyddyn 10 a mab ym mlwyddyn 12—sylweddolais fod eich strategaeth gyfathrebu yn dweud erbyn yr hydref y dylai rhiant pob plentyn ym mlwyddyn 9 a blwyddyn 11 fod wedi derbyn pecyn gan y Llywodraeth. A ydych chi'n dal yn mynd i ddosbarthu'r pecynnau hynny wrth ystyried bod rhai teuluoedd heb fynediad i wefan?

I will restrict my questions to the communications strategy. Clearly, you have launched the website for the teaching profession and parents during the last week, but how are parents to be made aware of that website and the resources available? In making preparations for my contribution—I have a son in year 10 and another in year 12—I realised that your communication strategy states that by the autumn every parent of a child in years 9 and 11 should have received a pack from Government. Are you still going to be distributing those packs, given that there are some families that do not have access to websites?

Mae eich strategaeth yn sôn am y ffaith bod yn rhaid i chi greu sefyllfa lle mae'r proffesiwn yn derbyn y llwybr yr ydych yn ei ddilyn a bod rhieni eisiau ei dderbyn, ond hefyd rydych yn sôn am ddiwydiant a phrifysgolion ar draws y Deyrnas Unedig. Roeddech yn dweud eich bod yn mynd i gysylltu efo 18 o'r cwmnïau angor yng Nghymru a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n dallt yn union beth sy'n mynd ymlaen a'ch bod chi'n mynd i wneud yn siŵr bod Cymwysterau Cymru'n bresennol mewn cynadleddau ar draws Prydain. Felly, a ydych chi wedi trefnu bod hynny'n digwydd ac a ydych yn fodlon efo'r datblygiad yn y maes hwnnw?

Your strategy also mentions the fact that you must create a situation where the profession accepts the path that you have chosen and that parents want to accept it, but you are also talking about industry and universities across the UK. You did state that you would be contacting 18 of the anchor companies in Wales to ensure that they fully understand what is happening, and that you are going to ensure that Qualifications Wales attends conferences across Britain. So, have you made arrangements for that to happen and are you content with the development in that area?

I orffen, wrth symud ymlaen at safon A a safon AS, mae brawddeg yma yn dweud ei bod yn bosibl i chi rannu rhai adnoddau efo Lloegr, ond eich bod yn awyddus i weld adnoddau penodol ar gyfer Cymru—rydych yn sôn am hanes yn arbennig a bod yn rhaid inni wneud yn siŵr bod y rheini'n adlewyrchu sefyllfa hanes Cymru. Mae rhai ohonom wedi derbyn llythyr yn ystod yr wythnos olaf hon yn dweud bod adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer ysgolion, a bod rhai ysgolion cynradd wedi prynu'r adnoddau hynny, a'r cwbl sydd wedi digwydd yw bod yr adnoddau wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Nid ydynt yn adlewyrchu hanes Cymru. Maen nhw'n rhoi rhyw fath o ddarlun eithaf Prydeinig ei naws. O ran yr holl adnoddau sydd ar gael o fewn y farchnad i'r ysgolion hyn, a ydych yn meddwl bod yn rhaid i ni gael rhyw fath o sêl bendith gan Gymwysterau Cymru i ddweud bod yr adnoddau yn adlewyrchu'r math o gwricwlwm rydym am ei weld yng Nghymru, achos mae rhai cwestiynau wedi codi ynglŷn â'r ffaith bod yr ysgolion eu hunain yn prynu'r holl adnoddau, yn hytrach na'u bod yn cael eu darparu gan gynghorau lleol neu'r Llywodraeth ei hun?

To conclude, as we move on to A-levels and AS-levels, there is a sentence that states that it is possible to share some resources with England, but that you are eager to see where particular resources for Wales are required—you mention history in particular and that we must ensure that those resources reflect the history of Wales. Some of us, over this last week, have received a letter stating that resources are being provided for schools, and some schools in the primary sector are buying those resources, where all that has happened is that the resources have been translated into Welsh. They do not reflect the history of Wales in any way. They give some sort of British-centric view of history. With regard to all the resources that are available in the market for these schools, do you think that we need to have some sort of kitemark from Qualifications Wales to say that the resources reflect the kind of curriculum that we want be see in Wales, because there have been some questions raised about the fact that schools themselves are now purchasing all of these materials, rather than those materials being provided by local councils or the Government itself?

15:20 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Aled Roberts for those interesting points. In terms of the baccalaureate, it is good news to hear the comments from Birmingham University. There is near-universal acceptance, particularly throughout the Russell Group universities up and down the UK, of the Welsh baccalaureate. After all, there should be—this is what the universities themselves have been asking for in terms of the qualification portfolio of a young person. The greater rigour in the Welsh baccalaureate at advanced level, the grading that will be introduced, the Universities and Colleges Admission Service commitment of a points score, and so on, I hope will lead to universal acceptance across the UK university system in short order. It is, after all, what the higher education institutions have been saying they want in terms of the skills of young people.

Diolch i Aled Roberts am y pwyntiau diddorol hynny. O ran y fagloriaeth, mae'n newyddion da clywed y sylwadau gan Brifysgol Birmingham. Mae bagloriaeth Cymru’n cael ei derbyn bron ym mhobman, yn enwedig ymhlith prifysgolion Grŵp Russell ledled y DU. Wedi'r cwbl, felly y dylai pethau fod—dyna’r hyn y mae’r prifysgolion eu hunain wedi bod yn gofyn amdano o ran portffolios cymwysterau pobl ifanc. Gobeithiaf y bydd mwy o drylwyredd ym magloriaeth Cymru ar lefel Safon Uwch, y graddio a fydd yn cael ei gyflwyno, ymrwymiad Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a’r Colegau o ran sgôr pwyntiau, ac yn y blaen, yn golygu y bydd system y prifysgolion ledled y DU yn derbyn y fagloriaeth yn fuan iawn. Wedi'r cyfan, dyna’r hyn y mae'r sefydliadau addysg uwch wedi bod yn dweud sydd ei eisiau arnynt o ran sgiliau pobl ifanc.

Yes, the information packs will be available; I just launched them yesterday, so they are on their way. That was part of my visit to St Richard Gwyn Catholic High School in Barry yesterday. There will be hard-copy packs for parents that I have checked out—they are very accessible, very informative and they are on their way to schools now for distribution to the parents of pupils in the appropriate year groups.

Bydd, bydd y pecynnau gwybodaeth ar gael; fe’u lansiais ddoe, felly maent ar eu ffordd. Roedd hynny'n rhan o’m hymweliad ag Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant yn y Barri ddoe. Bydd pecynnau copi caled i rieni a bûm yn edrych arnynt ddoe—maent yn hygyrch iawn, yn llawn gwybodaeth ac maent ar eu ffordd i ysgolion yn awr i'w dosbarthu i rieni disgyblion yn y grwpiau blwyddyn priodol.

Working with anchor companies will continue to be important. Much work has already been undertaken. Admiral Insurance was with me at the launch yesterday, as was Lloyds Bank, and I know that Airbus UK has been instrumental too in terms of developing the qualifications strategy, and we will continue to keep in touch. Philip Blaker will continue that work when Qualifications Wales takes over.

Bydd gweithio gyda chwmnïau angori’n parhau i fod yn bwysig. Mae llawer o waith eisoes wedi ei wneud. Roedd Admiral Insurance gyda mi yn y lansiad ddoe, a Lloyds Bank hefyd, a gwn fod Airbus UK wedi bod yn allweddol hefyd o ran datblygu’r strategaeth cymwysterau, a byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad. Bydd Philip Blaker yn parhau â'r gwaith hwnnw pan fydd Cymwysterau Cymru’n cymryd yr awenau.

He is quite right to point to an issue around materials and content within the curriculum, and schools using material from elsewhere in the UK, and so on; that is absolutely true. However, he must not forget that we are simultaneously, as we are going through this qualifications reform, reviewing the curriculum in a fundamental fashion. Essentially, we are still operating according to the 1988 national curriculum, with some alterations here and there that have grown up over the years. When we have our new curriculum for Wales, in many ways that will mark a year zero in terms of curriculum content and will entail questions around materials too that we will need to discuss, debate and resource.

Mae'n hollol iawn i dynnu sylw at fater ynglŷn â deunyddiau a chynnwys yn y cwricwlwm, ac ysgolion yn defnyddio deunydd o leoedd eraill yn y DU, ac yn y blaen; mae hynny'n hollol wir. Fodd bynnag, rhaid iddo beidio ag anghofio ein bod, wrth inni fynd ati i ddiwygio’r cymwysterau hyn, hefyd yn adolygu'r cwricwlwm mewn modd sylfaenol. Yn y bôn, rydym yn dal i weithredu yn ôl cwricwlwm cenedlaethol 1988, gyda rhai newidiadau yma ac acw sydd wedi eu hychwanegu dros y blynyddoedd. Pan fydd ein cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru’n barod, mewn sawl ffordd bydd hynny’n nodi blwyddyn sero o ran cynnwys y cwricwlwm a bydd yn codi cwestiynau ynghylch deunyddiau y bydd angen inni eu trafod, dadlau yn eu cylch a darparu adnoddau ar eu cyfer.

15:23 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement today. As the labour market becomes more competitive, more flexible and more globalised, we have to ensure that Welsh learners are able to demonstrate a collection of portable and rigorous qualifications for employers to consider as they enter the world of work. Minister, during my time as Deputy Minister for Skills and as detailed in your predecessor's book, 'Ministering to Education', I led the Welsh Government's qualifications review that has informed the background to your statement today. A key aspect was to win support from employers by providing qualifications that are relevant to the Welsh economy. So, would you agree with me that our proposed new Wales-specific GCSEs will be an asset to Welsh learners and employers by strengthening essential skills, such as functional literacy and numeracy, and ensuring that our learners have qualifications that will stand them in good stead as they enter the highly skilled jobs market of the future?

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Wrth i'r farchnad lafur ddod yn fwy cystadleuol, yn fwy hyblyg ac yn fwy byd-eang, mae'n rhaid inni sicrhau bod dysgwyr Cymru'n gallu dangos casgliad o gymwysterau cludadwy o safon uchel i gyflogwyr eu hystyried wrth iddynt fynd i fyd gwaith. Weinidog, yn ystod fy nghyfnod fel Dirprwy Weinidog Sgiliau, ac fel y nodir yn llyfr eich rhagflaenydd, 'Ministering to Education', fi arweiniodd adolygiad Llywodraeth Cymru o gymwysterau sydd wedi llywio cefndir eich datganiad heddiw. Un agwedd allweddol oedd ennyn cefnogaeth gan gyflogwyr drwy ddarparu cymwysterau sy'n berthnasol i economi Cymru. Felly, a fyddech yn cytuno â mi y bydd ein cymwysterau TGAU arfaethedig newydd, sy'n benodol i Gymru, yn gaffaeliad i ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru drwy gryfhau sgiliau hanfodol, fel llythrennedd a rhifedd gweithredol, a sicrhau bod gan ein dysgwyr gymwysterau a fydd yn gaffaeliad iddynt wrth iddynt fynd i farchnad swyddi a fydd yn gofyn am lefel uchel o sgiliau yn y dyfodol?

15:24 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I could not agree more with the Member for Caerphilly. He is quite right to say that the world does not stand still, and that the world that our young people and children will walk out into is very different from the one that we walked out into when we qualified all those years ago. For instance, within those basic skills of the Welsh baccalaureate that we were discussing earlier is a commitment to digital literacy, which is something that would not have occurred just a few short years ago, but is now taken as read as part of the core skills that a young person will need, regardless of, for instance, their A-level choice. They should have that digital literacy as a passport-able skill wherever they need to go, and we need to supply them with that. He is right to say that we are not being shy about being Wales-specific in certain areas. Our emphasis on literacy and numeracy is clear. Our emphasis on retaining the AS-level is clear, because it is based on evidence—what our stakeholders are telling us. Our commitment to holding on to practical examinations in science is unashamed, and I have to say that, as a former science teacher, the idea of scrapping at A-level the elements of practical examinations is nonsense and something that they will live to regret across the border in England, very rapidly in my view, and universities again have made their view very clear in that regard. So, we will proceed on the basis of evidence and of rigour and bearing in mind at all times what is fit for Wales and what we need to kit out our young people with as they walk into the wider world.

Rwyf yn cytuno'n llwyr â'r Aelod dros Gaerffili. Mae yn llygad ei le pan ddywed nad yw'r byd yn aros yn ei unfan, a bod y byd y bydd ein pobl ifanc a'n plant yn ei wynebu'n un tra gwahanol i'r un yr oeddem ni'n ei wynebu pan oeddem ni'n cymhwyso flynyddoedd yn ôl. Er enghraifft, ymhlith sgiliau sylfaenol bagloriaeth Cymru yr oeddem yn eu trafod gynnau y mae ymrwymiad i lythrennedd digidol, rhywbeth na fyddai wedi digwydd ychydig flynyddoedd yn ôl, ond mae bellach yn rhan o'r sgiliau craidd y bydd eu hangen ar bobl ifanc, waeth pa bynciau a ddewisir ganddynt ar gyfer Safon Uwch. Dylai'r llythrennedd digidol hwnnw fod yn sgil a fydd yn basbort iddynt i ble bynnag y mae angen iddynt fynd, ac mae angen i ni ddarparu hynny iddynt. Mae'n gywir i ddweud nad ydym yn swil ynglŷn â'r angen i fod yn berthnasol yn benodol i Gymru mewn rhai meysydd. Mae ein pwyslais ar lythrennedd a rhifedd yn glir. Mae ein pwyslais ar gadw'r safon UG yn glir, oherwydd mae'n seiliedig ar dystiolaeth—yr hyn y mae ein rhanddeiliaid yn ei ddweud wrthym. Mae ein hymrwymiad i gadw arholiadau ymarferol mewn gwyddoniaeth yn gwbl ddiedifar, ac mae'n rhaid imi ddweud, fel cyn athro gwyddoniaeth, fod y syniad o gael gwared ar yr elfennau arholi ymarferol o'r Safon Uwch yn nonsens ac yn rhywbeth y byddant yn ei ddifaru dros y ffin yn Lloegr, yn gyflym iawn yn fy marn i, ac mae'r prifysgolion unwaith eto wedi lleisio eu barn yn glir iawn yn hynny o beth. Felly, byddwn yn symud ymlaen ar sail tystiolaeth a thrylwyredd a chan gofio bob amser yr hyn sy'n addas i Gymru a'r hyn y mae arnom ei angen i baratoi ein pobl ifanc wrth iddynt fentro i'r byd ehangach.

15:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:26

## Datganiad: Perfformiad o ran Ailgylchu

## Statement: Performance on Recycling

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to a statement by the Minister for Natural Resources on performance on recycling. I call on the Minister, Carl Sargeant.

Symudwn nawr at ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynglŷn â pherfformiad ailgylchu. Galwaf ar y Gweinidog, Carl Sargeant.

15:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I want to bring to the attention of the Senedd a real success story for Wales. This success is to be found in our recycling performance. Wales has the highest recycling rates in the UK. Our figures for municipal recycling put us at number four in Europe. This is a fantastic achievement by our local authorities and the people of Wales and demonstrates real leadership by Welsh Government. This success deserves to be recognised, and we will build upon it, enhancing the climate change and economic benefits of high recycling levels.

Diolch i chi, Lywydd. Rwyf yn awyddus i dynnu sylw'r Senedd at wir lwyddiant i Gymru. Mae'r llwyddiant hwn i'w ganfod yn ein perfformiad ailgylchu. Cymru sydd â'r cyfraddau ailgylchu uchaf yn y DU. Mae ein ffigurau ar gyfer ailgylchu trefol yn ein gosod yn y pedwerydd safle yn Ewrop. Mae hwn yn gyflawniad gwych gan ein hawdurdodau lleol a phobl Cymru ac mae'n dangos gwir arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r llwyddiant hwn yn haeddu cael ei gydnabod, a byddwn yn adeiladu arno, gan wella newid yn yr hinsawdd a manteision economaidd lefelau ailgylchu uchel.

There are several reasons for this success. Clear strategic direction is provided for this by Welsh Government through 'Towards Zero Waste', the national waste strategy for Wales. We have also set statutory recycling targets for local authorities. Achievement of these targets has been assisted by investment from the Welsh Government. Since 2001, £607.5 million has been provided to local authorities to help them deliver against recycling targets, helping to save on landfill costs and generate new jobs in Wales.

Mae nifer o resymau am y llwyddiant hwn. Mae cyfeiriad strategol clir yn cael ei ddarparu ar gyfer hyn gan Lywodraeth Cymru trwy 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', y strategaeth wastraff genedlaethol ar gyfer Cymru. Rydym hefyd wedi gosod targedau ailgylchu statudol ar gyfer awdurdodau lleol. Mae cyflawni'r targedau hyn wedi cael ei gynorthwyo drwy fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. Ers 2001, mae £607.5 miliwn wedi ei ddarparu i awdurdodau lleol i'w helpu i gyflawni yn erbyn y targedau ailgylchu, gan gynorthwyo i arbed costau tirlenwi a chreu swyddi newydd yng Nghymru.

The public of Wales has embraced recycling and, through its efforts, turned Wales into the highest recycling society in the UK. We need to do better, though. I want Wales to come first in the European league table, and achieving our targets for the future will deliver this. We must take advantage of the economic and social opportunities that recycling offers. I want to see Wales benefit fully from the circular economy, and all that we do in future must support this.

Mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi cofleidio ailgylchu a, thrwy ei ymdrechion, wedi troi Cymru i fod y gymdeithas ailgylchu uchaf yn y DU. Mae angen i ni wneud yn well, serch hynny. Rwyf am i Gymru ddod yn gyntaf yn nhabl cynghrair Ewrop, a bydd cyrraedd ein targedau ar gyfer y dyfodol yn cyflawni hyn. Mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfleoedd economaidd a chymdeithasol y mae ailgylchu yn eu cynnig. Rwyf am weld Cymru'n elwa'n llawn o'r economi gylchol, ac mae'n rhaid i bopeth a wnawn yn y dyfodol gefnogi hyn.

Developing the circular economy in Wales has the potential to deliver annual savings of around £2 billion a year. The circular economy and resource efficiency are not just ideological ideas—they are at the heart of the opportunities for a sustainable economy and green growth in Wales. There are already 10,000 jobs in Wales directly related to recycling, and we want to see those grow too. New laws requiring those who collect waste to collect paper, glass, plastics and metals separately in order to achieve high-quality recycling come into effect on 1 January 2015. In the spring, we shall be introducing proposals for further legislation that will require businesses and the public sector to separate their waste. This will help to ensure a more circular economy for Wales so that the inherent financial value of waste is protected.

Mae datblygu'r economi gylchol yng Nghymru yn rhoi potensial i sicrhau arbedion blynyddol o tua £2 biliwn y flwyddyn. Nid syniadau ideolegol yn unig yw'r economi gylchol ac effeithlonrwydd adnoddau—maent wrth wraidd y cyfleoedd ar gyfer economi gynaliadwy a thwf gwyrdd yng Nghymru. Mae yna eisoes 10,000 o swyddi yng Nghymru sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ailgylchu, ac rydym yn dymuno gweld y rheini'n tyfu hefyd. Mae cyfreithiau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n casglu gwastraff i gasglu papur, gwydr, plastig a metelau ar wahân er mwyn sicrhau ailgylchu o ansawdd uchel yn dod i rym ar 1 Ionawr 2015. Yn y gwanwyn, byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth ychwanegol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau a'r sector cyhoeddus i wahanu eu gwastraff. Bydd hyn o gymorth i sicrhau economi fwy cylchol i Gymru fel bod gwerth ariannol cynhenid gwastraff yn cael ei ddiogelu.

I want to see local authorities' recycling services in Wales move towards a more consistent approach. To this end, in March 2011, the Welsh Government published its 'Collections Blueprint: For affordable and sustainable local authority collection services for recyclable, compostable and residual waste'. The blueprint was informed by an extensive evidence base, and it describes the Welsh Government's recommended service profile for the collection of waste from households. The inherent inefficiencies of 22 different styles of collection cannot be justified. If we just take a rational look at the containers we use to collect waste, every authority in Wales could at least use the same colour container for the same type of waste. We currently have 22 different versions. The collections blueprint is based on the use of resource recovery vehicles that are lightweight and fuel efficient, designed to deliver high-quality recycling collections.

Rwyf yn dymuno gweld gwasanaethau ailgylchu awdurdodau lleol yng Nghymru yn symud tuag at ymagwedd fwy cyson. I'r perwyl hwn, ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Glasbrint Casgliadau: Ar gyfer gwasanaethau casglu awdurdodau lleol fforddiadwy a chynaliadwy ar gyfer gwastraff y gellir ei ailgylchu, ei gompostio a gweddilliol'. Roedd y glasbrint wedi'i lywio ar sail tystiolaeth eang, ac mae'n disgrifio'r proffil gwasanaeth a argymhellir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer casglu gwastraff o gartrefi. Ni ellir cyfiawnhau aneffeithiolrwydd cynhenid 22 o wahanol arddulliau o gasglu. Os edrychwn yn rhesymol ar y cynwysyddion a ddefnyddiwn i gasglu gwastraff, gallai pob awdurdod yng Nghymru o leiaf ddefnyddio cynhwysydd o'r un lliw ar gyfer yr un math o wastraff. Ar hyn o bryd mae gennym 22 o wahanol fersiynau. Mae'r glasbrint casgliadau yn seiliedig ar ddefnyddio cerbydau adfer adnoddau sy'n ysgafn ac yn effeithlon o ran tanwydd, a ddyluniwyd i ddarparu casgliadau ailgylchu o ansawdd uchel.

In this time of austerity, we need to continue towards high recycling targets while reducing costs. This is the purpose of the collaborative change programme, a joint initiative between the Welsh Government and the Welsh Local Government Association, which will provide help to local authorities. The CCP has modelled options for six Welsh councils that show potential savings of around £13 million. There are some costs of transition, but they can be reduced by timing changes to coincide with contract periods and fleet renewals, when investment would be required anyway. Making changes to save large sums in future is simply sound business management.

Yn y cyfnod hwn o galedi, mae angen i ni barhau tuag at dargedau ailgylchu uchel gan leihau costau ar yr un pryd. Dyma yw pwrpas y rhaglen newid gydweithredol, menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a fydd yn darparu cymorth i awdurdodau lleol. Mae'r CCP wedi modelu dewisiadau ar gyfer chwech o gynghorau yng Nghymru sy'n dangos arbedion posibl o tua £13 miliwn. Ceir rhai costau pontio, ond gellir eu lleihau trwy amseru newidiadau i gyd-fynd â chyfnodau contract ac adnewyddu fflyd, pryd y byddai angen buddsoddiad beth bynnag. Yn syml, rheoli busnes mewn modd cadarn yw gwneud newidiadau i arbed symiau mawr o arian yn y dyfodol

Delivering good recycling services that support the local circular economy and green jobs is a priority and we have to move on from past debates around different models of recycling and seize these opportunities. Looking forward, Presiding Officer, not backwards, we have to gain from new opportunities. A study of three authorities in Wales showed that, if they each got the best price for every material they sold to market, it would potentially earn them an extra £2 million in each year. If this approach were repeated across Wales, there are many millions of pounds extra that local authorities could earn. WRAP is delivering this for local authorities in Wales and I will report progress on this later in the year.

Mae cyflwyno gwasanaethau ailgylchu da sy'n cefnogi'r economi gylchol leol a swyddi gwyrdd yn flaenoriaeth ac mae'n rhaid i ni symud ymlaen o ddadleuon yn y gorffennol ynghylch gwahanol fodelau o ailgylchu ac achub ar y cyfleoedd hyn. Gan edrych ymlaen, Lywydd, nid yn ôl, mae'n rhaid i ni fanteisio ar gyfleoedd newydd. Dangosodd astudiaeth o dri awdurdod yng Nghymru, pe byddai pob un yn cael y pris gorau am bob deunydd y maent yn ei werthu i'r farchnad, byddai o bosibl yn ennill £2 filiwn ychwanegol iddynt ym mhob blwyddyn. Pe byddai'r dull hwn yn cael ei ailadrodd ar draws Cymru, mae llawer o filiynau o bunnoedd yn ychwanegol y gallai awdurdodau lleol eu hennill. Mae WRAP yn cyflawni hyn ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a byddaf yn adrodd y cynnydd ynglŷn â hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

The outlook is extremely positive. Wales is, and will continue to be, a world leader in recycling. We need to ensure that all the wider economic benefits translate into new businesses and new jobs in Wales and we will continue to celebrate this national success story.

Mae'r rhagolygon yn hynod gadarnhaol. Mae Cymru, a bydd yn parhau i fod, yn arweinydd byd-eang mewn ailgylchu. Mae angen i ni sicrhau bod yr holl fanteision economaidd ehangach yn golygu busnesau newydd a swyddi newydd yng Nghymru a byddwn yn parhau i ddathlu'r stori hon o lwyddiant cenedlaethol.

15:31 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Minister, I do welcome the success of local authorities in delivering this. It is quite clear that rural councils are outperforming urban ones in the latest figures for the first quarter of 2014, and there is a 5% difference in the amount recycled, reused or composted in rural councils and urban councils. It is 57% to 52%. Government targets were 52% for 2012-13; that had to be hit if we were going to be on course to achieve the 70% recycling target by 2025. The Welsh average has matched this figure, but there are three local authorities that missed the target. The worst-performing council on recycling, Merthyr Tydfil, recycled only about 48% of its waste, but the joint top performers, Denbighshire and Monmouthshire, are recycling 63%, which surpasses Government targets for two years from now. So, clearly, there are lessons to be learned from those two local authorities as to why they are being so successful.

Wel, Weinidog, rwy'n croesawu llwyddiant awdurdodau lleol wrth gyflawni hyn. Mae'n eithaf amlwg bod cynghorau gwledig yn perfformio'n well na rhai trefol yn y ffigurau diweddaraf ar gyfer chwarter cyntaf 2014, ac mae 5% o wahaniaeth o ran faint sy'n cael ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio mewn cynghorau gwledig a chynghorau trefol. Mae'n 57% i 52%. Targedau'r Llywodraeth oedd 52% ar gyfer 2012-13; yr oedd yn rhaid eu cyrraedd os oeddem yn mynd i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed ailgylchu o 70% erbyn 2025. Mae cyfartaledd Cymru wedi cyrraedd y ffigur hwn, ond mae tri awdurdod lleol wedi methu'r targed. Dim ond tua 48% o'i wastraff a ailgylchwyd gan y cyngor sy'n perfformio waethaf ar ailgylchu, sef Merthyr Tudful, ond mae'r perfformwyr gorau ar y cyd, Sir Ddinbych a Sir Fynwy, yn ailgylchu 63%, sy'n rhagori ar dargedau'r Llywodraeth ar gyfer dwy flynedd o nawr. Felly, yn amlwg, mae gwersi i'w dysgu oddi wrth y ddau awdurdod lleol hyn ynglŷn â pham y maent mor llwyddiannus.

What is concerning is that six of the 22 councils in Wales have seen no change or a drop in their rates of recycling between the first quarter of 2013 and the same period in 2014. Minister, you know that, in the evidence before the Environment and Sustainability Committee, local councils asked for flexibility in how they deliver their recycling services to their local communities, and therefore I am concerned about your blueprint. Are you implying in your statement that you are going to make it compulsory for the blueprint—? I can see you nodding to that. That is concerning, particularly in county council areas such as Powys, which has very successful rates but a different method of collection. Minister, I wonder whether you could indicate how the blueprint is going to fit into local authority reorganisation, because it is quite clear that your colleague has indicated that there should be voluntary mergers. There may well be different systems and your statement has not addressed that at all.

Yr hyn sy'n achosi pryder yw na welwyd unrhyw newid neu y bu gostyngiad yng nghyfraddau ailgylchu chwech o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, rhwng chwarter cyntaf 2013, a'r un cyfnod yn 2014. Weinidog, fe wyddoch, yn y dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, bod cynghorau lleol wedi gofyn am hyblygrwydd o ran y ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau ailgylchu i'w cymunedau lleol, ac felly rwy'n pryderu am eich glasbrint. A ydych chi'n awgrymu yn eich datganiad eich bod yn mynd i'w gwneud yn orfodol i'r glasbrint—? Gallaf eich gweld yn nodio i hynny. Mae hynny'n bryder, yn enwedig mewn ardaloedd cynghorau sir fel Powys, sydd â chyfraddau llwyddiannus iawn, ond dull gwahanol o gasglu. Weinidog, tybed a allech chi nodi sut y mae'r glasbrint yn mynd i gydweddu ag ad-drefnu awdurdodau lleol, gan ei bod yn gwbl glir bod eich cydweithiwr wedi nodi y dylid cael uno gwirfoddol. Efallai'n wir y bydd systemau gwahanol ac nad yw eich datganiad wedi rhoi sylw i hynny o gwbl.

In terms of Cardiff, many in the Cardiff area do not have a central facility for food waste collection, even though houses have a regular weekly pick-up. Those residents will not be able to compost, so there is a danger, Minister, that Welsh Government has gathered the low-hanging fruit, if I can put it that way. Could you explain to me how you are going to encourage those authorities that have large numbers of flats and apartments and how they are going to improve their recycling rates, particularly because of issues around space in flats, which make it very difficult for residents of flats to do a kerbside sort, which I know is the preferred method of the blueprint.

O ran Caerdydd, mae llawer yn ardal Caerdydd nad oes ganddynt y cyfleuster canolog ar gyfer casglu gwastraff bwyd, er bod tai yn cael casgliadau wythnosol rheolaidd. Ni fydd y preswylwyr hynny yn gallu compostio, felly mae perygl, Weinidog, fod Llywodraeth Cymru wedi casglu'r ffrwythau sy'n hongian yn isel, os caf ei roi felly. A allech chi egluro i mi sut yr ydych yn mynd i annog yr awdurdodau hynny sydd â nifer fawr o fflatiau a rhandai a sut y maen nhw'n mynd i wella eu cyfraddau ailgylchu, yn enwedig oherwydd materion yn ymwneud â'r lle sydd ar gael mewn fflatiau, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i breswylwyr fflatiau roi trefn ar bethau ar ochr y ffordd, a gwn mai dyna'r dull a ffefrir yn y glasbrint.

Clearly, there is the possibility of upcycling, and I know that you know organisations such as Freecycle and Refurbs Flintshire. I agree with you, Minister, that a large amount of the success has been due to the citizens of Wales, who have committed themselves to recycling in a clear way. Again, Minister, you heard evidence that, where local authorities changed their recycling method, that caused a drop off in success rates. Clearly, that will happen if you switch, or force local authorities to switch, to the blueprint.

Yn amlwg, mae posibilrwydd o uwchgylchu, a gwn eich bod yn gwybod am sefydliadau fel Freecycle a Refurbs Sir y Fflint. Rwy'n cytuno â chi, Weinidog, mai i ddinasyddion Cymru y mae llawer iawn o'r diolch am y llwyddiant, gan eu bod wedi ymroi i ailgylchu mewn ffordd glir. Unwaith eto, Weinidog, rydych chi wedi clywed tystiolaeth, pan fo awdurdodau lleol wedi newid eu dull o ailgylchu, bod hynny wedi peri gostyngiad mewn cyfraddau llwyddiant. Yn amlwg, bydd hynny'n digwydd os byddwch yn newid, neu'n gorfodi awdurdodau lleol i newid, i'r glasbrint.

However, I do feel, Minister, that there is something to celebrate here: it is largely the success of residents and the local authorities, who are delivering this. I think that, for the future, our children and our children's children will be much more aware of resources and the importance of recycling in terms of maintaining our resources. However, clearly, with local authority reorganisation on the way, there are going to be very difficult questions to be asked where two local authorities that neighbour each other have different kinds of recycling systems. How are you going to ensure that there is no drop off?

Fodd bynnag, rwyf yn teimlo, Weinidog, bod rhywbeth i'w ddathlu yma: sef i raddau helaeth llwyddiant trigolion a'r awdurdodau lleol, sy'n cyflawni hyn. Credaf, ar gyfer y dyfodol, y bydd ein plant a phlant ein plant yn llawer mwy ymwybodol o adnoddau a phwysigrwydd ailgylchu o ran cynnal ein hadnoddau. Fodd bynnag, yn amlwg, gydag ad-drefnu awdurdodau lleol ar y ffordd, fe fydd cwestiynau anodd iawn i'w gofyn pan fydd gwahanol fathau o systemau ailgylchu gan ddau awdurdod lleol sy'n gymdogion i'w gilydd. Sut ydych chi'n mynd i sicrhau nad oes dirywiad?

15:36

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for a positive contribution in welcoming the success in Wales in terms of local authorities delivering for their communities. A couple of points that the Member raises are of significance, and I will respond to them in order.

Diolch i'r Aelod am gyfraniad cadarnhaol wrth groesawu'r llwyddiant yng Nghymru o ran awdurdodau lleol yn cyflawni ar gyfer eu cymunedau. Mae un neu ddau o bwyntiau y mae'r Aelod yn eu codi yn bwysig, a byddaf yn ymateb iddynt yn ôl eu trefn.

The Member raised several issues around the blueprint and how we intend to move forward on this. This really is not rocket science, actually. This is about 22 current authorities operating different systems, and there is a cost involved in each doing that separately. We know—we have evidence, which is in the blueprint—that there are significant cost savings to be made by local authorities if they adopt these models. I will give them some more time to consider the blueprint and move into a direction, as I said during my contribution, about how they can start shaping their services to align with the blueprint model, including vehicle procurement et cetera, in order for them to transfer. However, what I will not stand back on is waiting for recycling rates to start to fail and move backwards, and, therefore, we have to make some positive interventions.

Cododd yr Aelod nifer o faterion yn ymwneud â'r glasbrint a sut yr ydym yn bwriadu symud ymlaen ynglŷn â hyn. Nid yw hyn yn gymhleth iawn a dweud y gwir. Mae hyn yn ymwneud â 22 o awdurdodau presennol yn gweithredu systemau gwahanol, ac mae yna gost yn deillio o wneud hynny ar wahân. Rydym yn gwybod—mae gennym dystiolaeth, sydd yn y glasbrint—y gall awdurdodau lleol wneud arbedion cost sylweddol os byddant yn mabwysiadu'r modelau hyn. Byddaf yn rhoi rhywfaint mwy o amser iddynt i ystyried y glasbrint a symud i gyfeiriad, fel y dywedais yn ystod fy nghyfraniad, sy'n golygu y gallant ddechrau llunio eu gwasanaethau i gyd-fynd â model y glasbrint, gan gynnwys caffael cerbydau ac ati, er mwyn iddynt drosglwyddo. Fodd bynnag, yr hyn na fyddaf yn sefyll yn ôl arno yw aros am gyfraddau ailgylchu i ddechrau methu a symud at yn ôl, ac, felly, mae'n rhaid i ni wneud rhai ymyraethau cadarnhaol.

Local authorities are delivering on this at the moment; the challenge that they face is enormous, but there is a huge opportunity as well. If we are to implement the 'Towards Zero Waste' programme completely by 2025, Wales stands to benefit by an additional £88 million by just doing business differently. I think that that is something that would be rather foolish to ignore, and encourage local authorities to adopt these policies in order for us to achieve this as soon as possible.

Mae awdurdodau lleol yn cyflawni o ran hyn ar hyn o bryd; mae'r her sy'n eu hwynebu yn enfawr, ond mae yna gyfle enfawr hefyd. Os ydym am weithredu'r rhaglen 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn llwyr erbyn 2025, gall Gymru elwa o £88 miliwn ychwanegol dim ond drwy wneud busnes mewn ffordd wahanol. Credaf fod hynny'n rhywbeth y byddai braidd yn ffôl i'w anwybyddu, ac rwy'n annog awdurdodau lleol i fabwysiadu'r polisïau hyn er mwyn i ni gyflawni hyn cyn gynted ag y bo modd.

I do not accept the issue that mergers or the Williams Commission or any changes to local authority boundaries will compromise the issue around change. Let us take one of the examples that the Member raised with me already, Powys. When I did a visit to Powys, it already has three different types of recycling processes, which are historic processes from when it was three different counties. So, I do not accept that changes or complications around mergers will ensue because of mergers—it is about the willingness of parties to take part.

Nid wyf yn derbyn y syniad y bydd uno, na Chomisiwn Williams, nac unrhyw newidiadau i ffiniau awdurdodau lleol yn peryglu'r mater yn ymwneud â newid. Gadewch i ni ystyried un o'r enghreifftiau a gododd yr Aelod gyda mi eisoes, Powys. Pan dalais i ymweliad â Phowys, roedd yno eisoes dri gwahanol fath o brosesau ailgylchu, sy'n brosesau hanesyddol o'r cyfnod pan oedd yn dair sir wahanol. Felly, nid wyf yn derbyn y bydd newidiadau neu gymhlethdodau yn ymwneud ag uno yn deillio oherwydd uno—mae'n ymwneud â pharodrwydd partïon i gymryd rhan.

A final point, if I may, Presiding Officer: the Member raised an issue about—. No, two points, I am sorry. First, on recycling in blocks of flats et cetera, this goes hand in hand with the second point around who should recycle and how. This is not the responsibility of local authorities only, and it is not the responsibility of Welsh Government only. The Member referred to the very positive contribution that communities engage in. I think actually that the issue around high-rise flats et cetera is being, and can be, overcome through the willingness of occupants to pursue recycling.

Un pwynt olaf, os caf, Lywydd: cododd yr Aelod fater ynghylch—. Na, dau bwynt, mae'n ddrwg gennyf. Yn gyntaf, ar ailgylchu mewn blociau o fflatiau ac ati, mae hyn yn mynd law yn llaw â'r ail bwynt ynghylch pwy ddylai ailgylchu a sut. Nid cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn unig yw hyn, ac nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yn unig yw hyn ychwaith. Cyfeiriodd yr Aelod at y cyfraniad cadarnhaol iawn a wneir gan gymunedau. Rwy'n credu mewn gwirionedd fod y mater yn ymwneud â fflatiau aml-lawr ac ati yn cael ei oresgyn ac y gellir ei oresgyn drwy barodrwydd preswylwyr i ailgylchu.

I know, indeed, that Russell George is a keen recycler, in terms of where he recently lived, in making sure that he contributed to recycling while living in a flat too. There are no complications there—if he can deliver, we can all deliver. So, it is incumbent on all of us to take part in this process of ownership of recycling. It is a Welsh opportunity, which should not be missed.

Rwy’n gwybod, yn wir, bod Russell George yn ailgylchwr brwd, o ran lle yr oedd yn byw yn ddiweddar, gan sicrhau ei fod yn cyfrannu at ailgylchu tra ei fod yn byw mewn fflat hefyd. Nid oes unrhyw gymhlethdodau yn hynny o beth—os gall ef gyflawni, gallwn ninnau i gyd gyflawni. Felly, mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i gymryd rhan yn y broses hon o berchnogaeth ailgylchu. Mae'n gyfle i Gymru, na ddylid ei golli.

15:40

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, there is much to welcome in this statement today and I welcome the fact that we are seeing recycling targets being met and that we are there, and I do not doubt for one moment your sincerity in trying to get us to No. 1 in Europe. However, I have to take issue around the co-mingling issue.

Weinidog, mae llawer i'w groesawu yn y datganiad hwn heddiw, ac rwy’n croesawu'r ffaith ein bod yn gweld targedau ailgylchu yn cael eu bodloni a’n bod ni wedi eu cyrraedd, ac nid wyf yn amau am funud eich didwylledd o ran ceisio ein cael ni i Rif 1 yn Ewrop. Fodd bynnag, byddwn yn dadlau ynghylch y mater yn ymwneud â chyd-gymysgu.

Twelve months ago, I accompanied Denbighshire County Council to UPM Shotton to see what happens with the co-mingled waste from there. Denbighshire has signed an agreement with UPM and UPM Shotton provides quite a lot of jobs. It has some very good quality material that comes out from the co-mingling and co-mingling is not seen as an issue for it. However, it is an issue for the residents of Denbighshire. I take what you are saying about people who live in flats, but if you have a lot of people who are on their own and elderly who then have to remember which colour box to put out and which colour box to put stuff in, it makes it very difficult for them. It will also, I think, put a burden on local authorities that have to collect from people rather than expecting older people to put heavy boxes of recycling on the kerbside. I take the fact that, if you are living on your own, you probably do not recycle as much as a family would. Nevertheless, it can be very difficult for someone who has a disability, or is not as mobile as they would want to be, to carry boxes and crates or bins or whatever.

Ddeuddeg mis yn ôl, es i gyda Chyngor Sir Ddinbych i UPM Shotton i weld beth sy'n digwydd gyda'r gwastraff cymysg oddi yno. Mae Sir Ddinbych wedi llofnodi cytundeb gyda UPM ac mae UPM Shotton yn darparu cryn dipyn o swyddi. Mae ganddo beth deunydd o ansawdd da iawn sy'n dod allan o’r cyd-gymysgu ac nid yw cyd-gymysgu yn cael ei weld fel problem iddo. Fodd bynnag, mae yn broblem i drigolion Sir Ddinbych. Rwy’n derbyn yr hyn yr ydych yn ei ddweud am bobl sy'n byw mewn fflatiau, ond os oes gennych lawer o bobl sydd ar eu pennau eu hunain ac yn oedrannus sydd wedyn yn gorfod cofio pa liw blwch i’w roi allan a pha liw blwch i roi pethau ynddo, mae'n ei gwneud hi'n anodd iawn iddynt. Bydd hefyd, rwy'n credu, yn rhoi baich ar awdurdodau lleol sy’n gorfod casglu oddi wrth bobl yn hytrach na disgwyl i bobl hŷn roi blychau trwm o ddeunydd ailgylchu ar ochr y ffordd. Rwy'n derbyn y ffaith, os ydych yn byw ar eich pen eich hun, nad ydych yn ôl pob tebyg yn ailgylchu cymaint ag y byddai teulu. Serch hynny, gall fod yn anodd iawn i rywun sydd ag anabledd, neu nad yw’n gallu symud cystal ag y byddai’n dymuno, i gario blychau a chratiau neu finiau neu beth bynnag.

Denbighshire is one of the local authorities highest up in the recycling league table and that is something that we have to congratulate it on. However, I just wonder whether its recent idea of charging for green waste will push it further down the league table. A lot of people feel very angry that they will be charged for green waste and want to know why Denbighshire council cannot look at a composting system whereby it could collect the green waste and turn it back into compost for those who are keen gardeners. I have to admit that I am not a keen gardener and therefore my green bin is just filled and I do not really want to know what is done with it. Having said that, however, are there any schemes that you can offer local authorities that are interested in looking at ways in which they can make composting schemes or make it more viable for them so that they do not have to charge residents for taking away green waste, which, I fear, will then end up in hedgerows or down back alleys, which would be a blight on our communities? If there is anything that you can offer around that, I am sure that people will be more than interested. I know that Denbighshire takes a very keen interest in what I say in this Chamber, so, hopefully, it will accept the fact that I have praised it this afternoon.

Mae Sir Ddinbych yn un o'r awdurdodau lleol sydd uchaf yn y tabl cynghrair ailgylchu ac mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei longyfarch arno. Fodd bynnag, rwy'n meddwl tybed a fydd ei syniad diweddar o godi tâl ar gyfer gwastraff gwyrdd yn ei wthio ymhellach i lawr y tabl cynghrair. Mae llawer o bobl yn teimlo'n flin iawn y byddant yn gorfod talu ar gyfer gwastraff gwyrdd ac eisiau gwybod pam na all Cyngor Sir Ddinbych edrych ar system gompostio a fyddai'n golygu y gallai gasglu'r gwastraff gwyrdd a'i droi yn ôl yn gompost ar gyfer y rhai hynny sy'n arddwyr brwd. Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad wyf yn arddwr brwd, ac felly mae fy min gwyrdd i yn cael ei lenwi a dydw i ddim wir eisiau gwybod beth sy'n digwydd iddo. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, a oes unrhyw gynlluniau y gallwch eu cynnig i awdurdodau lleol sydd â diddordeb mewn edrych ar ffyrdd y gallant wneud cynlluniau compostio neu ei gwneud yn fwy ymarferol iddynt fel nad oes rhaid iddynt godi tâl ar breswylwyr am fynd â gwastraff gwyrdd, a fydd, rwy'n ofni, wedyn yn golygu y bydd gwastraff yn cael ei daflu i wrychoedd neu i lawr lonydd cefn, a fyddai'n falltod ar ein cymunedau? Os oes unrhyw beth y gallwch ei gynnig ynglŷn â hynny, rwy'n siŵr y bydd gan bobl ddiddordeb mawr. Gwn fod Sir Ddinbych yn cymryd diddordeb brwd iawn yn yr hyn yr wyf yn ei ddweud yn y Siambr hon, felly, gobeithio, bydd yn derbyn y ffaith fy mod wedi ei ganmol y prynhawn yma.

15:43

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for her very positive contribution about Denbighshire council too. I am very keen that we recognise the success of Wales in terms of where we are. We are, I suppose, the Real Madrid of Europe in terms of recycling—or, indeed, the Rhyl FC of north Wales in terms of our recycling opportunity. [Laughter.] I thought I had best get that in, Presiding Officer, or I would never hear the last of it otherwise.

Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad cadarnhaol iawn am gyngor sir Ddinbych hefyd. Rwy'n awyddus iawn ein bod yn cydnabod llwyddiant Cymru o ran ein sefyllfa. Ni, am wn i, yw Real Madrid Ewrop o ran ailgylchu—neu, yn wir, Clwb Pêl-droed Rhyl gogledd Cymru o ran ein cyfle ailgylchu. [Chwerthin.] Roeddwn i'n meddwl y byddai'n well i mi ddweud hynny, Lywydd, neu fyddwn i byth yn clywed ei ddiwedd fel arall.

The fact of the matter is that the Member raises some very important issues in terms of recycling. I know that co-mingling is a lot easier for the customer—the residents—in terms of the process, but it does compromise the quality and the cost of the material on exit. That is why a quality product, in terms of it being sorted at source, gives a better price for the material in the longer term.

Y ffaith amdani yw bod yr Aelod yn codi rhai materion pwysig iawn o ran ailgylchu. Gwn fod cyd-gymysgu yn llawer haws i'r cwsmer—y preswylwyr—o ran y broses, ond mae yn peryglu ansawdd a chost y deunydd wrth fynd allan. Dyna pam y mae cynnyrch o safon, o ran ei fod yn cael ei ddidoli yn y tarddle, yn rhoi gwell pris am y deunydd yn y tymor hwy.

The Member is absolutely right. I share her concerns about the complexities of recycling wherever you are in Wales. It is a big communication issue, but people do get this; we are seeing the effects of positive intervention, but the whole point of the blueprint to which I referred earlier is that it introduces consistency. At the moment, we have hundreds of different styles and colours of recycling boxes right across Wales—bags and boxes that people who move from one county to another would have no idea which to put out when. This is why the blueprint can effectively save money, if we start to do things together once.

Mae'r Aelod yn llygad ei lle. Rwyf yn rhannu ei phryderon am gymhlethdodau ailgylchu ble bynnag yr ydych yng Nghymru. Mae'n fater cyfathrebu mawr, ond mae pobl yn deall hyn; rydym yn gweld effeithiau ymyrraeth gadarnhaol, ond holl bwynt y glasbrint y cyfeiriais ato yn gynharach yw ei fod yn cyflwyno cysondeb. Ar hyn o bryd, mae gennym gannoedd o wahanol arddulliau a lliwiau blychau ailgylchu ledled Cymru—bagiau a blychau na fyddai gan bobl sy'n symud o un sir i un arall unrhyw syniad pa un i'w roi allan a phryd. Dyma pam y gall y glasbrint arbed arian yn effeithiol, os byddwn yn dechrau gwneud pethau gyda'n gilydd unwaith.

On the issue around Denbighshire council and the recycling of green waste, what I do not want to do is micromanage authorities in terms of how they recycle, as long as they make sure that they receive the best advice and are able to meet the challenging targets that we set.

O ran y mater ynghylch Cyngor Sir Ddinbych ac ailgylchu gwastraff gwyrdd, yr hyn nad wyf am ei wneud yw meicroreoli awdurdodau o ran sut y maent yn ailgylchu, ar yr amod eu bod yn gwneud yn siŵr eu bod yn cael y cyngor gorau ac yn gallu bodloni'r targedau heriol yr ydym yn eu gosod.

On the process for the collaborative change programme, it is a funded programme that allows authorities to start changing the way that they process, and it is something that authorities bid into. It makes a very positive contribution in terms of delivery. Again, I know that the Member has raised with me privately some of the concerns she has around some of the collection methods and activity in her constituency, and will continue to do so. However, we should not lose sight of the fact that we are doing very well, but we can do better.

O ran y broses ar gyfer y rhaglen newid gydweithredol, mae'n rhaglen a ariennir sy'n caniatáu i awdurdodau ddechrau newid y ffordd y maent yn prosesu, ac mae'n rhywbeth y mae awdurdodau yn gwneud cais iddo. Mae'n gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn o ran cyflawni. Unwaith eto, rwy'n gwybod bod yr Aelod wedi codi gyda mi yn breifat rai o'r pryderon sydd ganddi yn ymwneud â rhai o'r dulliau a gweithgaredd casglu yn ei hetholaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, ni ddylem golli golwg ar y ffaith ein bod yn gwneud yn dda iawn, ond gallwn wneud yn well.

15:45

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf innau ymuno â'r Gweinidog i longyfarch llwyddiant y gwaith sydd wedi'i wneud ar ailgylchu? Yn sicr mae'n achos dathlu ac yn enghraifft o bolisi cyson sydd wedi'i ariannu'n iawn ac sy'n dwyn ffrwyth. Mae wedi'i gyflawni, dylem bwysleisio, gan gynghorau sir, sy'n cael eu beirniadu mor aml yn y Siambr. Yr her—ac mae hi'n her go iawn—fydd cynyddu'r canrannau o'r 52% presennol i 64% erbyn 2019-20. Mae'n mynd i fynd yn fwy anodd ac, yn yr achos hwn, nid oes dwywaith bod cyfathrebu a chael gwell dealltwriaeth gan y cyhoedd yn allweddol. Y cwestiwn sydd gen i yw hyn. A yw'r Gweinidog yn barod i ystyried cynnal ymgyrch gyfathrebu genedlaethol er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o'r angen i ailgylchu?

May I join the Minister in congratulating the success of the work that has been done on recycling? It is certainly a cause for celebration and is an example of a consistent policy, funded properly that is bearing fruit. That has been achieved, we should emphasise, by county councils, which are criticised so often in the Chamber. The challenge—and it is a real challenge—will be to increase the percentages from the current 52% to 64% by 2019-20. It is going to get even harder and, in this case, there is no doubt that communication and gaining a better understanding among the public is crucial. The question i have is this. Is the Minister prepared to hold a national communications campaign to improve people's understanding of the need to recycle?

Mae cyfeiriad wedi bod at y glasbrint, sy'n dilyn newidiadau yn neddfwriaeth Ewrop, a'r pwyslais ar gael un dull cyson ar draws Cymru o gasglu. Byddwn yn atgoffa'r Gweinidog bod adroddiad gan y pwyllgor amgylchedd 10 mlynedd yn ôl a oedd yn argymell bod y Llywodraeth yn creu un system gyffredin drwy Gymru, a'r system honno oedd gwahanu y deunydd ailgylchu ar ochr y ffordd. A fyddai'r Gweinidog yn cydnabod bellach mai camgymeriad oedd peidio â gwneud hynny bryd hynny a rhoi arweiniad clir i'r awdurdodau lleol?

Reference has been made to the blueprint, which follows changes in European legislation, and the emphasis on having one consistent methos of collection across Wales. I would remind the Minister that a report by the environment committee 10 years ago recommended that the Government adopt a single general system across Wales, and that system was the kerbside separation of recyclables. Would the Minister now acknowledge that it was a mistake not to adopt that policy then and give clear direction to local authorities?

Yn drydydd, mae'r Gweinidog, yn berffaith iawn, wedi cyfeirio at fanteision yr economi gylchol a'r ffaith bod deunydd o safon sy'n cael ei ailgylchu yn cael gwell pris. Nid oes enghreifftiau yn ei ddatganiad o le y mae hyn yn gweithio'n dda. Faint o'r deunydd sy'n cael ei ailgylchu yng Nghymru sy'n cael ei werthu i a'i drin gan gwmnïau o Gymru? Wedi'r cwbl, os yw'r rhan fwyaf o'r deunydd hwn yn cael ei allforio i'w werthu i gwmnïau yn Lloegr—ac rwy'n amau mai dyma'r sefyllfa—yn sicr nid ydym yn cael y fantais lawn o gofio'r gost sy'n ymwneud ag ailgylchu. A oes gan y Llywodraeth unrhyw ffigurau yn dangos faint o'r deunydd hwn sy'n cael ei ailgylchu yng Nghymru?

Thirdly, the Minister, perfectly rightly, has referred to the advantages of the cyclical economy and the fact that high-quality material that is recycled then attracts a better price. There are no examples in his statement of where this is working well. How much of the material that is recycled in Wales is being sold to and treated by Welsh companies? After all, if the majority of this material is exported for sale to companies in England—as I suspect is the case—we are certainly not getting the full benefit bearing in mind the cost in relation to recycling. Does the Government have any figures to show how much of this material is recycled in Wales?

Yn olaf, gan gyfeirio at ailgylchu deunydd gwyrdd yr oedd Ann Jones yn cyfeirio ato, nid oes dwywaith bod hwn yn wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi, ond rhaid imi ddweud y dylem fod yn annog pobl i gompostio eu deunydd gwyrdd adref. Dyna'r peth call i'w wneud. Mae'n llai o gost, mae'n llai o dreth ar yr amgylchedd ac, mewn gwirionedd, mae'n hollol wrthgynhyrchiol mynd â lorïau o gwmpas y wlad yn casglu'r deunydd gwyrdd hwn pan y gallai'r rhan fwyaf ohono fod yn cael ei ailgylchu yn y cartref.

Finally, with reference to green material recycling, which Ann Jones referred to, there is no doubt that this is a service that is appreciated, but I would have to say that we should be encouraging people to compost their own green material home. That is the sensible thing to do. It costs less, it is less of a drain on the environment and, truth be told, it is completely counterproductive to take lorries around the country to collect this green material when the majority of it could be recycled in the home.

15:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his contribution. We should be ambitious in Wales. Around 100,000 tonnes of waste can produce around 250 jobs. This is a new opportunity in terms of what we should be looking for, to deliver in the future.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Dylem fod yn uchelgeisiol yng Nghymru. Gall tua 100,000 tunnell o wastraff greu tua 250 o swyddi. Mae hwn yn gyfle newydd o ran yr hyn y dylem fod yn chwilio amdano, i gyflawni yn y dyfodol.

On the issue of an advertising campaign, we already support Keep Wales Tidy, and I have visited eco-schools. They do a fantastic job in terms of understanding, particularly young people, how recycling will and should take place. I think that it is a generational issue, actually. Our young people are doing a fantastic job with recycling, and we have a lot to learn from them. We will continue to work with schools, Keep Wales Tidy and other organisations to ensure that the message continues to go out.

O ran y mater o ymgyrch hysbysebu, rydym eisoes yn cefnogi Cadwch Gymru'n Daclus, ac rwyf wedi ymweld ag eco-ysgolion. Maent yn gwneud gwaith gwych o ran dealltwriaeth, yn enwedig ymysg pobl ifanc, o sut y bydd a sut y dylai ailgylchu ddigwydd. Credaf ei fod yn fater sy’n ymwneud â chenhedlaeth, mewn gwirionedd. Mae ein pobl ifanc yn gwneud gwaith gwych gydag ailgylchu, ac mae gennym lawer i'w ddysgu oddi wrthynt. Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion, Cadwch Gymru'n Daclus a sefydliadau eraill i sicrhau bod y neges yn parhau i fynd allan.

The Member asked me whether I think we made a mistake by not implementing a separation-at-kerbside law. I certainly do not think that it was a mistake. I think that, actually, we should celebrate that we are the best in the UK at recycling. Wales is the best in the UK. We are much better than England and fourth in Europe, so it is successful, and we have been successful. However, I accept, and the Member is right, that we can demonstrate in the blueprint that the separation method gives us the best quality and the best price, and I think that that is what we need to aim for. That is why, in a previous response to Antoinette Sandbach earlier on, I said that I will give some space to authorities to get to the blueprint, but that is time limited. We need to start thinking about how we get there and when this will be delivered, on the basis of the economy and the strength of the economy that this can deliver.

Gofynnodd yr Aelod imi a oeddwn i’n credu ein bod wedi gwneud camgymeriad drwy beidio â gweithredu cyfraith didoli ar garreg y drws. Yn sicr, nid wyf yn meddwl ei fod yn gamgymeriad. Credaf, mewn gwirionedd, y dylem fod yn dathlu mai ni yw’r gorau yn y DU am ailgylchu. Cymru yw'r gorau yn y DU. Rydym yn llawer gwell na Lloegr ac yn bedwerydd yn Ewrop, felly mae'n llwyddiannus, ac rydym ni wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rwy’n derbyn, ac mae'r Aelod yn iawn, y gallwn ddangos yn y glasbrint bod y dull didoli yn rhoi'r ansawdd gorau a’r pris gorau i ni, ac rwy’n meddwl mai dyna ddylai fod y nod i ni. Dyna pam, mewn ymateb blaenorol i Antoinette Sandbach yn gynharach, y dywedais y byddaf yn rhoi rhywfaint o le i awdurdodau i gyrraedd y glasbrint, ond mae cyfyngiad amser ar hynny. Mae angen i ni ddechrau meddwl am sut yr ydym am gyrraedd yno a phryd y bydd hyn yn cael ei gyflawni, ar sail yr economi a chryfder yr economi y gall hyn ei gyflawni.

I do not have, to hand, the figures in terms of what is recycled in Wales, but I would be happy to write to the Member with any details that I am able to provide.

Nid oes gennyf, wrth law, y ffigurau o ran yr hyn sy'n cael ei ailgylchu yng Nghymru, ond byddwn yn hapus i ysgrifennu at yr Aelod gydag unrhyw fanylion yr wyf yn gallu eu darparu.

The Member’s final point was one of significant importance: composting. In general, around recycling, we have to take personal responsibility for waste management. This is not, as I said earlier, a job just for councils or for Governments. This is about our individual responsibility for climate change and recycling, and how each one of us can make a significant difference. That is why the suggestion by the Member about composting will and does happen across many communities, but I also recognise the challenges that people face in the different circumstances of where they live, too. However, it is something that everybody should consider: what the waste stream is from their home, household or business in terms of how much more they can contribute to ensure that, actually, we do not create waste and, therefore, do not need to dispose of it.

Roedd pwynt olaf yr Aelod yn un o bwysigrwydd sylweddol: compostio. Yn gyffredinol, o ran ailgylchu, mae’n rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb personol am reoli gwastraff. Nid yw hyn, fel y dywedais yn gynharach, yn waith ar gyfer cynghorau neu Lywodraethau yn unig. Mae hyn yn ymwneud â'n cyfrifoldeb unigol ar gyfer newid yn yr hinsawdd ac ailgylchu, a sut y gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth sylweddol. Dyna pam y bydd ac y mae’r awgrym gan yr Aelod am gompostio yn digwydd ar draws nifer o gymunedau, ond rwyf hefyd yn cydnabod yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu yn y gwahanol amgylchiadau o ble maent yn byw, hefyd. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth y dylai pawb ei ystyried: beth yw’r llif gwastraff sy’n dod o'u cartref, eu haelwyd neu fusnes o ran faint mwy y gallant gyfrannu at sicrhau, mewn gwirionedd, nad ydym yn creu gwastraff ac, felly, nad oes angen cael gwared arno.

15:52 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for this afternoon’s statement.

It was very much an upbeat statement, and I think that that is to be welcomed. The Minister has rightly celebrated the success of local authorities across Wales, and that is important. However, also, he has spoken of the need, potentially, to intervene where individual authorities fall short and, unfortunately, in this city, we have seen in the last couple of years a tailing off in recycling figures. Despite harnessing social media, the Tidy Text service and so on that the city council employs, we have seen the trend that was in place between 2004 and 2012, rising from 14% to 50% recycling, go in the wrong direction. Minister, do you have plans to intervene on this particular matter? You said that we should recognise good practice where we see it, but also, we cannot afford to allow bad practice to prevail.

Yr oedd yn ddatganiad gobeithiol iawn, a chredaf fod hynny i'w groesawu.  Mae'r Gweinidog yn briodol wedi dathlu llwyddiant awdurdodau lleol ledled Cymru, ac mae hynny'n bwysig. Fodd bynnag, hefyd, mae wedi siarad am yr angen, o bosibl, i ymyrryd pan nad yw awdurdodau unigol yn ddigon da ac, yn anffodus, yn y ddinas hon, rydym wedi gweld gostyngiad mewn ffigurau ailgylchu yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Er gwaethaf harneisio cyfryngau cymdeithasol, y gwasanaeth Tidy Text ac yn y blaen y mae cyngor y ddinas yn ei ddefnyddio, rydym wedi gweld y duedd a oedd ar waith rhwng 2004 a 2012, gan godi o 14% i 50% o ran ailgylchu, yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. Weinidog, a oes gennych chi gynlluniau i ymyrryd ar y mater penodol hwn? Dywedasoch y dylem gydnabod arfer da pan yr ydym yn ei weld, ond hefyd, ni allwn fforddio gadael i arfer gwael ennill y dydd.

Currently, there is diversity in Wales in terms of recycling, and we have heard details in our current committee investigation in terms of nine authorities operating a form of kerbside recycling, five using twin-streaming and the remainder, co-mingling. Minister, greater consistency is obviously attractive, and you are going in that direction with your blueprint, but I would urge you to consider the points that Antoinette Sandbach and others have made in terms of looking at the scheduling of this in terms of the increasing drive towards mergers. I would urge you, Minister, to work closely with the WLGA on this matter, because, clearly, it is well placed to judge impacts on the ground.

Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth yng Nghymru o ran ailgylchu, ac rydym wedi clywed y manylion yn ein hymchwiliad pwyllgor presennol ynglŷn â naw awdurdod sy'n gweithredu math o ailgylchu ar garreg y drws, pump sy’n defnyddio ffrydio dwbl a'r gweddill, yn cyd-gymysgu. Weinidog, mae mwy o gysondeb yn amlwg yn ddeniadol, ac rydych yn mynd i'r cyfeiriad hwnnw gyda'ch glasbrint, ond byddwn yn eich annog i ystyried y pwyntiau y mae Antoinette Sandbach ac eraill wedi eu gwneud o ran edrych ar amserlen hyn o ran yr ymgyrch gynyddol tuag at uno. Byddwn yn eich annog, Weinidog, i weithio'n agos gyda CLlLC ar y mater hwn, oherwydd, yn amlwg, mae mewn sefyllfa dda i farnu ar effeithiau ar lawr gwlad.

You rightly referred to the importance of behavioural change. In your evidence before the Environment and Sustainability Committee, and also today, you have rightly acknowledged the role of young people, and the major advances that they have shown. However, would it not, Minister, be appropriate to target an education and information campaign specifically towards our more mature fellow citizens to accelerate the pace at which they move to recycle?

Cyfeiriasoch yn gywir at bwysigrwydd newid ymddygiad. Yn eich tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a hefyd heddiw, rydych yn gywir wedi cydnabod swyddogaeth pobl ifanc, a’r datblygiadau mawr y maent wedi eu dangos. Serch hynny, oni fyddai, Weinidog, yn briodol i dargedu ymgyrch addysg a gwybodaeth yn benodol tuag at ein cyd-ddinasyddion mwy aeddfed i gyflymu'r cyflymder y byddant yn symud at ailgylchu?

In terms of reducing the overall amount of material that enters the home, you have correctly stated that this is an important issue. Indeed, earlier this year, the Petitions Committee received a petition from the Friends of Barry Beaches calling on the Welsh Government to ban the use of polystyrene from fast-food and drink packaging.

O ran lleihau'r swm cyffredinol o ddeunydd sy'n mynd i mewn i'r cartref, rydych wedi datgan yn gywir bod hwn yn fater pwysig. Yn wir, yn gynharach eleni, cafodd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb oddi wrth Gyfeillion Traethau'r Barri yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd defnyddio polystyren ar gyfer pecynnau bwyd brys a diod.

In recent years, Members across this Chamber will have seen the huge rise in the level of packaging, from vacuum-wrapped swedes—a vegetable that surely does not need that level of protection—to frozen fish portions, which now come within their individual wrapping, which is sometimes very difficult to negotiate. Minister, are you prepared to bring to bear your influence to actually drive down the level of excess packaging which, as you have already referred to, aggravates this problem considerably?

Yn y blynyddoedd diweddar, bydd Aelodau ar draws y Siambr hon wedi gweld y cynnydd enfawr yn y lefel o ddeunydd pacio, o becynnu erfin dan wactod—llysieuyn nad oes angen y lefel honno o ddiogelu siawns—i ddognau pysgod wedi'u rhewi, sydd erbyn hyn yn dod yn eu papur lapio unigol, sydd yn anodd iawn ei drafod weithiau. Weinidog, a ydych chi’n barod i ddefnyddio eich dylanwad i leihau mewn gwirionedd y lefel o ddeunydd pacio gormodol sydd, fel yr ydych eisoes wedi cyfeirio ato, yn gwaethygu’r broblem hon yn sylweddol?

15:55 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the Member's contribution. Again, it was another positive recognition of local authorities delivering in Wales. I assure the Member that I have recently met with the Minister for Public Services. He has his eye on performance and delivery. Together, we will ensure that local authorities, of whatever scale or size, will deliver. Quite frankly, to suggest that mergers may have an effect on recycling, in recycling terms, is 'rubbish'. [Laughter.] The fact is that it does work. We are seeing local authorities that have worked together. My example earlier about Powys and its successful rates while operating different schemes in the same authority is evidence of that. The fact is that, whatever the merger opportunities are for the future, what I have real concern about is that, subject not to merger, we will see services starting to fail, including recycling. We cannot afford for that to happen; therefore, we must move forward very quickly, working with the Minister for Public Services to ensure that we get good, effective mergers at the appropriate time, working with the Welsh Local Government Association.

Diolch i chi am gyfraniad yr Aelod. Unwaith eto, roedd yn gydnabyddiaeth gadarnhaol arall o awdurdodau lleol yn cyflawni yng Nghymru. Gallaf sicrhau'r Aelod fy mod wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n cadw golwg ar berfformiad a chyflawni. Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod awdurdodau lleol, o ba bynnag raddfa neu faint, yn cyflawni. A dweud y gwir, mae awgrymu y gall uno gael effaith ar ailgylchu, yn nhermau ailgylchu, yn 'sbwriel'. [Chwerthin.] Y ffaith yw ei fod yn gweithio. Rydym yn gweld awdurdodau lleol sydd wedi gweithio gyda'i gilydd. Mae fy enghraifft gynharach am Bowys a'r cyfraddau llwyddiannus wrth weithredu gwahanol gynlluniau yn yr un awdurdod yn dystiolaeth o hynny. Y ffaith yw, beth bynnag yw'r cyfleoedd uno ar gyfer y dyfodol, mai'r hyn y mae gennyf bryder gwirioneddol ynglŷn ag ef yw, yn amodol ar beidio ag uno, y byddwn yn gweld gwasanaethau yn dechrau methu, gan gynnwys ailgylchu. Ni allwn fforddio i hynny ddigwydd; felly, mae'n rhaid inni symud ymlaen yn gyflym iawn, gan weithio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau y cawn uno da, effeithiol ar yr adeg briodol, gan weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

I think the Member's point regarding packaging is an important one. I believe that that is a reserved matter. However, I think that there is an issue around social responsibility of companies and what they use in terms of their packaging. It is something that my department and I are considering in terms of some dialogue with Westminster on how we could take this forward.

Rwy'n credu bod pwynt yr Aelod ynghylch pecynnu yn un pwysig. Credaf fod hynny'n fater a gadwyd. Fodd bynnag, rwy'n credu bod problem o ran cyfrifoldeb cymdeithasol cwmnïau a'r hyn y maent yn ei ddefnyddio o ran eu pecynnu. Mae'n rhywbeth y mae fy adran a finnau yn ystyried o ran rhywfaint o ddeialog gyda San Steffan ynglŷn â sut y gallem fwrw ymlaen â hyn.

As the Member recognises, the communication on recycling is a challenging one to whatever age group. Keep Wales Tidy is doing a very good job, but it is about communicating that everyone should understand the ease of recycling, why we should do it, and that personal responsibility, which I always bring people back to. We all have to take a piece of responsibility to achieve the target ,where we aspire to be the best in the world in terms of our recycling rates.

Fel y mae'r Aelod yn ei gydnabod, mae'r cyfathrebu ar ailgylchu yn un heriol i ba bynnag grŵp oedran. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwneud gwaith da iawn, ond mae'n fater o gyfathrebu y dylai pawb ddeall pa mor hawdd yw ailgylchu, pam y dylem ei wneud, a'r cyfrifoldeb personol hwnnw, yr wyf bob amser yn dod â phobl yn ôl ato. Mae'n rhaid i ni i gyd gymryd darn o gyfrifoldeb i gyrraedd y targed, lle'r ydym â'r nod o fod y gorau yn y byd o ran ein cyfraddau ailgylchu.

15:57 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fonesig Lywydd, diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei frwdfrydedd ar y pwnc hwn—brwdfrydedd mae'n gwybod fy mod yn ei rannu ers y dyddiad pan oeddwn yn gadeirydd gwirfoddol ar Cadw Cymru'n Daclus flynyddoedd maith yn ôl. Rwy'n sicr y gall Cadw Cymru'n Daclus gymryd mantais ar unrhyw adnodd sydd gan y Llywodraeth naill ai mewn ymgyrch hysbysebu neu ar ffurf arfer da ble bynnag y bo yng Nghymru. Fodd bynnag, a gaf ofyn un cwestiwn arall iddo, a phwysleisio'r pwynt hwn? Onid yw'n hen bryd inni ddysgu'r gwersi allan o'r holl fusnes gwastraff yma? Mae pobl Cymru yn aml o flaen Llywodraethau Cymru, yn llywodraeth leol a chenedlaethol, pan fyddant yn gweld bod angen newid pethau. Mae'r modd y mae poblogaeth Dwyfor Meirionnydd, os caf ddweud, wedi cymryd at yr ailgylchu a'r trefniadau newydd, er gwaethaf yr hyn y bu rhai gwleidyddion lleol a chenedlaethol y dylent wybod yn well yn ei ddweud ynglŷn â hynny. Onid ydy'r amser wedi dod inni ffeindio ffordd o ddyfeisio polisi cenedlaethol ym mhob maes o wasanaethau cyhoeddus, sy'n addas ar gyfer Cymru? Dim ond cenedl o 3 miliwn ydym, wedi'r cyfan.

Dame Presiding Officer, I thank the Minister very much for his enthusiasm on this issue. It is an enthusiasm that he knows I share from the days when I was voluntary chair of Keep Wales Tidy many years ago. I am sure that Keep Wales Tidy can take advantage of any resources that the Government may have, either in the form of an advertising campaign or in spreading best practice, wherever it is found across Wales. However, may I ask him one further question and emphasise this point? Is it not high time we learned the lessons of this whole issue of waste? The people of Wales are often ahead of Welsh Governments, whether local government or national, when they see the need for change. The way in which the population of Dwyfor Meirionnydd, if I may say so, has taken to recycling and the new arrangements, despite what some local and national politicians who should know better had to say about that issue. However, has the time not come for us to find a way of devising a national policy in all areas of public services that are appropriate for Wales? We are a nation of only 3 million people, after all.

15:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his contribution, and I recognise the good work that he did as the voluntary chair of Keep Wales Tidy. Indeed, I think that putting change on a footing has proved evident today in terms of our recycling rates and how we are achieving them. The Member raises a very important point: it is actually about what communities do deliver on the ground. The communities that he represents are clearly delivering for the community, but more importantly for the effects on the climate across the world. So, we can all play a part in our contribution to this.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad, ac rwy'n cydnabod y gwaith da a wnaeth fel cadeirydd gwirfoddol Cadwch Gymru'n Daclus. Yn wir, rwy'n meddwl bod darparu sylfaen i newid wedi bod yn amlwg heddiw o ran ein cyfraddau ailgylchu a sut yr ydym yn eu cyflawni. Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig iawn: mae mewn gwirionedd yn ymwneud â'r hyn y mae cymunedau yn ei gyflawni ar lawr gwlad. Mae'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli yn amlwg yn cyflawni ar gyfer y gymuned, ond yn bwysicach ar gyfer effeithiau ar yr hinsawdd ledled y byd. Felly, gallwn ni i gyd chwarae rhan yn ein cyfraniad at hyn.

The blueprint is a starting point for change across Wales. For the 3 million people who need to engage in this process, we have to have a structure behind that. A framework for the blueprint needs to be adopted, and I will be working with the Minister for Public Services to ensure that we will be encouraging local authorities very quickly to adopt these processes as soon as possible.

Mae'r glasbrint yn fan cychwyn ar gyfer newid ar draws Cymru. Ar gyfer y 3 miliwn o bobl y mae angen iddynt gymryd rhan yn y broses hon, mae'n rhaid i ni gael strwythur y tu ôl i hynny. Mae angen mabwysiadu fframwaith i'r glasbrint hwnnw, a byddaf yn gweithio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau y byddwn yn annog awdurdodau lleol yn gyflym iawn i fabwysiadu'r prosesau hyn cyn gynted ag y bo modd.

16:00 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise that many communities and local authorities are achieving success in meeting recycling targets, which, of course, is to be welcomed. We all welcome that today. However, when a local authority is not meeting those targets, you have the ability to fine those local authorities. Could you talk to that point and explain in what circumstances you may take that approach?

Rwy'n cydnabod bod llawer o gymunedau ac awdurdodau lleol yn cyflawni llwyddiant o ran cyrraedd targedau ailgylchu, sydd, wrth gwrs, i'w groesawu. Rydym i gyd yn croesawu hynny heddiw. Fodd bynnag, pan nad yw awdurdod lleol yn cyrraedd y targedau hynny, mae gennych y gallu i ddirwyo'r awdurdodau lleol hynny. A wnewch chi siarad am y pwynt hwnnw ac esbonio dan ba amgylchiadau y byddech yn cymryd yr ymagwedd honno?

16:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, it is a bit of a carrot-and-stick approach. We are investing many millions of pounds with local authorities for transition to change in order for them to achieve. What I have to do is consider, case by case, where authorities are failing and understand the reason behind that. Sometimes, there are effects of different types of communities and the way they recycle. It might be a communications issue or it might be a physical collection issue.

Wrth gwrs, mae'n dipyn o ymagwedd moronen a ffon. Rydym yn buddsoddi miliynau lawer o bunnoedd gydag awdurdodau lleol ar gyfer pontio i newid er mwyn iddynt gyflawni. Beth sy'n rhaid i mi ei wneud yw ystyried, fesul achos, lle mae awdurdodau yn methu a deall y rheswm y tu ôl i hynny. Weithiau, ceir effeithiau gwahanol fathau o gymunedau a'r ffordd y maent yn ailgylchu. Gallai fod yn fater cyfathrebu, neu gallai fod yn fater casglu corfforol.

I cannot be specific on any of the authorities that have breached, but I do look at them very carefully and will consider how we interact with them. There has to be a place in time when we say, 'If you don't comply, then there will be a fine mechanism put in place in order for that to happen'. However, that can have a negative effect—by actually not achieving you get a fine and then it is even harder to achieve. So, that is why I am trying to use encouragement as opposed to legislation or a stick at the moment to beat local authorities with.

Ni allaf fod yn benodol ar unrhyw un o'r awdurdodau sydd wedi methu â chyrraedd y targedau, ond rwy'n edrych arnynt yn ofalus iawn, a byddaf yn ystyried sut yr ydym yn rhyngweithio â hwy. Mae'n rhaid cael adeg benodol pan fyddwn yn dweud, 'Os na fyddwch yn cydymffurfio, yna fe fydd mecanwaith ddirwyo yn cael ei roi ar waith er mwyn i hynny ddigwydd'. Fodd bynnag, gall hynny gael effaith negyddol—drwy beidio â chyflawni mewn gwirionedd rydych yn cael dirwy ac yna mae hi'n anos fyth i gyflawni. Felly, dyna pam yr wyf yn ceisio defnyddio anogaeth yn hytrach na deddfwriaeth neu ffon ar hyn o bryd i guro awdurdodau lleol gyda hi.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:01.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:01.*

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

They are doing an incredibly good job across Wales. We should encourage them more and I will do anything I can through the process of my ministry, in terms of funding, reassurance or help to local authorities as they continue to deliver across Wales.

Maent yn gwneud gwaith anhygoel o dda ledled Cymru. Dylem annog mwy arnynt a byddaf yn gwneud unrhyw beth y gallaf trwy broses fy ngweinidogaeth, o ran cyllid, sicrwydd neu gymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt barhau i gyflawni ledled Cymru.

16:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

16:01

# Datganiad: Wythnos Ymwybyddiaeth Trosedd Casineb a Darparu yn y Dyfodol

# Statement: Hate Crime Awareness Week and Future Delivery

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Minister, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

16:01

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Within my portfolio, I have responsibility for 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action'. I would like to update the Chamber on some of the challenges we are facing and some of the feedback I have personally heard during Hate Crime Awareness Week, which took place last month.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. O fewn fy mhortffolio, mae gennyf gyfrifoldeb dros 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith ar gyfer Gweithredu'. Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am rai o'r heriau sy'n ein hwynebu a rhywfaint o'r adborth yr wyf wedi ei glywed yn bersonol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb, a gynhaliwyd y mis diwethaf.

Recent published figures show that 1,877 hate crimes were recorded by police forces in Wales from 2013 to 2014, an increase of 6% compared with the previous year, with an increase in reporting across all five protected characteristics. Crown Prosecution Service statistics also show an increase in prosecutions and successful convictions in Wales for the same period. An increase in reporting is welcome, as we know from research that people are reluctant to report. Therefore, I hope to see these figures increase further as a result of the implementation of the framework, with victims more confident to report hate crime.

Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos bod 1,877 o droseddau casineb wedi eu cofnodi gan heddluoedd yng Nghymru o 2013 i 2014, sef cynnydd o 6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd mewn adrodd ar draws y pum nodwedd warchodedig. Mae ystadegau Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn dangos cynnydd mewn erlyniadau ac euogfarnau llwyddiannus yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod. Mae cynnydd mewn adrodd i'w groesawu, gan y gwyddom o ymchwil fod pobl yn amharod i adrodd. Felly, rwy'n gobeithio gweld y ffigurau hyn yn cynyddu ymhellach yn sgil gweithredu'r fframwaith, gyda dioddefwyr yn fwy hyderus i roi gwybod am droseddau casineb.

Hate Crime Awareness Week provided an opportunity to raise awareness and I provided funding to police and crime commissioners across Wales to enhance engagement at a grass-roots level. There was some excellent work undertaken across neighbourhood policing teams, which included attending community venues, places of worship and engaging directly with communities.

Rhoddodd Wythnos Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb gyfle i godi ymwybyddiaeth a darperais gyllid i gomisiynwyr heddlu a throseddu ar draws Cymru i wella ymgysylltiad ar lefel llawr gwlad. Gwnaed peth gwaith ardderchog ar draws y timau plismona cymdogaeth, a oedd yn cynnwys mynychu lleoliadau cymunedol, mannau addoli ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau.

I am pleased that Welsh Government funding has been awarded to Victim Support Cymru to deliver a national hate crime reporting centre. Already in the first five months, there have been 500 cases to the reporting centre and a comprehensive wraparound service of support has been put in place. Reporting in Wales is being enhanced though our five regional equality councils, which have received funding from the Big Lottery Fund to provide advocacy and support to hate crime victims. There are real opportunities for Wales to lead the way in tackling hate crime and incidents.

Rwy'n falch bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ddyfarnu i Cymorth i Ddioddefwyr Cymru i ddarparu canolfan genedlaethol i adrodd am droseddau casineb. Eisoes yn y pum mis cyntaf, bu 500 o achosion i'r ganolfan adrodd ac mae gwasanaeth cofleidiol cynhwysfawr o gefnogaeth wedi ei roi ar waith. Mae adrodd yng Nghymru yn cael ei wella drwy ein pum cyngor cydraddoldeb rhanbarthol, sydd wedi derbyn arian gan y Gronfa Loteri Fawr i ddarparu eiriolaeth a chefnogaeth i ddioddefwyr troseddau casineb. Mae cyfleoedd gwirioneddol i Gymru arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â throseddau a digwyddiadau casineb.

At the beginning of Hate Crime Awareness Week, I met with faith communities forum members and heard their views on hate crime. I attended Cardiff United Synagogue to speak with community members, along with south Wales police and crime commissioner Alun Michael, and deputy police and crime commissioner Sophie Howe. There were real concerns raised around heightened tensions as a consequence of world events and a greater feeling of insecurity. Some Jewish community members said they felt afraid to walk in public with their skull caps on and would hide their identity to avoid any prejudice. There are also clearly heightened safety concerns in our Muslim communities, and we know from the work of the organisation Tell MAMA, which works with Muslim communities, that there is an increase in Islamophobia.

Ar ddechrau Wythnos Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb, cyfarfûm ag aelodau o'r fforwm cymunedau ffydd a chlywed eu barn ar droseddau casineb. Mynychais Synagog Unedig Caerdydd i siarad ag aelodau o'r gymuned, ynghyd â chomisiynydd heddlu a throseddu de Cymru Alun Michael, a dirprwy gomisiynydd yr heddlu a throseddu Sophie Howe. Codwyd pryderon gwirioneddol ynghylch tensiynau wedi dwysáu o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y byd a mwy o ymdeimlad o ansicrwydd. Dywedodd rhai aelodau o'r gymuned Iddewig eu bod yn teimlo’n ofnus i gerdded yn gyhoeddus gyda'u capiau penglog ymlaen a byddent yn cuddio eu hunaniaeth er mwyn osgoi unrhyw ragfarn. Mae pryderon diogelwch uwch yn amlwg yn ein cymunedau Mwslimaidd hefyd, a gwyddom o waith y sefydliad Tell MAMA, sy'n gweithio gyda chymunedau Mwslimaidd, bod cynnydd mewn Islamoffobia.

On the Saturday, I attended a community awareness raising event in Wrexham. I spoke with some truly inspirational people who work on a daily basis to help eradicate hostility and prejudice within our communities. There were clear signs people are beginning to feel more confident to tackle some of these issues. I hope that the briefing papers that we produced during Hate Crime Awareness Week will give people the information that they need to take action on hate crime. I want to continue to work with our community and faith leaders to increase greater awareness of hate crime. I will be working with the faith communities forum to develop an awareness-raising event in the Senedd, which will take place in early 2015.

Ar y dydd Sadwrn, bûm mewn digwyddiad codi ymwybyddiaeth gymunedol yn Wrecsam. Bûm yn siarad gyda rhai pobl gwirioneddol ysbrydoledig sy'n gweithio o ddydd i ddydd er mwyn helpu i ddileu gelyniaeth a rhagfarn o fewn ein cymunedau. Roedd arwyddion clir bod pobl yn dechrau teimlo'n fwy hyderus i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Gobeithiaf y bydd y papurau briffio a gynhyrchwyd gennym yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl i weithredu ar droseddau casineb. Rwyf eisiau parhau i weithio gyda'n harweinwyr cymunedol a ffydd i godi mwy o ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Byddaf yn gweithio gyda'r fforwm cymunedau ffydd i ddatblygu digwyddiad codi ymwybyddiaeth yn y Senedd, a fydd yn digwydd yn gynnar yn 2015.

Sadly, disability hate crime remains part of our society. Following the Equality and Human Rights Commission inquiry into disability harassment and the subsequent National Assembly for Wales inquiry in 2011, some progress has been made. We have seen an 11% increase in disability hate crimes reported and, importantly, we have seen an increase in prosecutions and convictions in Wales. We support police forces who are tackling this with multi-agency risk-assessment conferences to support high-risk victims. This is part of our work with non-devolved criminal justice agencies through the Hate Crime Criminal Justice Board Cymru. Funding has been provided to the Taking Flight theatre company to tour schools across Wales to deliver an interactive production to increase awareness of disability hate crime with over 3,000 pupils per year. Befriending disabled or older people for exploitation is known as ‘mate crime’ and remains a significant challenge. We have produced a guide to spot potential signs of mate crime, in partnership with Disability Wales and Mencap Cymru. However, there is still much more work to do. I am aware of the impact that welfare reform and negative images in the media have had on disabled people, and we all have a role in challenging this.

Yn anffodus, mae troseddau casineb anabledd yn parhau i fod yn rhan o'n cymdeithas. Yn dilyn ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu ar sail anabledd ac ymchwiliad dilynol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud. Rydym wedi gweld cynnydd o 11% yn y troseddau casineb anabledd yr adroddwyd amdanynt ac, yn bwysig, rydym wedi gweld cynnydd mewn erlyniadau ac euogfarnau yng Nghymru. Rydym yn cefnogi heddluoedd sy'n mynd i'r afael â hyn gyda chynadleddau asesu risg aml-asiantaeth i gefnogi dioddefwyr risg uchel. Mae hyn yn rhan o'n gwaith gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol nad ydynt wedi'u datganoli drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Trosedd Casineb Cymru. Mae arian wedi'i ddarparu i'r cwmni theatr Taking Flight i deithio o amgylch ysgolion ledled Cymru i gyflwyno cynhyrchiad rhyngweithiol i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb anabledd gyda dros 3,000 o ddisgyblion y flwyddyn. Mae cyfeillio â phobl anabl neu hŷn ar gyfer cam-fanteisio yn cael ei adnabod fel 'troseddau cyfeillio’ ac mae’n parhau i fod yn her sylweddol. Rydym wedi cynhyrchu canllaw i adnabod arwyddion posibl o droseddau cyfeillio, mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru a Mencap Cymru. Fodd bynnag, mae llawer mwy o waith i'w wneud. Rwy’n ymwybodol o'r effaith y mae diwygiadau lles a delweddau negyddol yn y cyfryngau wedi'i chael ar bobl anabl, ac mae gan bob un ohonom swyddogaeth mewn herio hyn.

Cyber hate and bullying have a devastating impact, and this is a form of abuse from which there seems no escape. I was pleased to see powers being brought in to crack down on internet trolls. We have already seen some high-profile cases in Wales, and this is especially true among children and young people. We recently awarded a contract to South West Grid to work with us on a programme of e-safety education and awareness-raising activities. We will continue to work to tackle these issues across Wales. A new Welsh Government anti-bullying leadership group will be launched in November, jointly chaired by officials from the Fairer Futures Division and the Department for Education and Skills. Monitoring delivery of the framework for action is essential. I am chairing a new independent advisory group, which met for the first time on 16 October. This consists of organisations representing communities across all of the protected characteristics, who will engage with grass-roots communities to provide feedback on the impact of the framework. The group will also play a key role in advising me on future delivery and considering statistical evidence to analyse the impact of the framework. Next summer, I will publish a report setting out progress in delivering the framework, together with a new delivery plan for 2015-16.

Mae casineb a bwlio seiber yn cael effaith ddinistriol, ac mae hwn yn fath o gam-drin lle mae'n ymddangos nad oes dianc rhagddo. Roeddwn yn falch o weld pwerau yn cael eu sefydlu i gosbi trôls y rhyngrwyd. Rydym eisoes wedi gweld rhai achosion proffil uchel yng Nghymru, ac mae hyn yn arbennig o wir ymhlith plant a phobl ifanc. Yn ddiweddar dyfarnwyd contract i South West Grid i weithio gyda ni ar raglen o addysg e-ddiogelwch a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Byddwn yn parhau i weithio i fynd i'r afael â'r materion hyn ar draws Cymru. Bydd grŵp arweinyddiaeth gwrth-fwlio newydd Llywodraeth Cymru yn cael ei lansio ym mis Tachwedd, wedi'i gadeirio ar y cyd gan swyddogion o'r Is-adran Dyfodol Tecach a'r Adran Addysg a Sgiliau. Mae monitro cyflwyno'r fframwaith ar gyfer gweithredu yn hanfodol. Rwyf fi'n cadeirio grŵp cynghori annibynnol newydd, a gyfarfu am y tro cyntaf ar 16 Hydref. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau ar draws pob un o'r nodweddion gwarchodedig, a fydd yn ymgysylltu â chymunedau ar lawr gwlad i ddarparu adborth ar effaith y fframwaith. Bydd y grŵp hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran fy nghynghori ynghylch darparu yn y dyfodol ac yn ystyried tystiolaeth ystadegol i ddadansoddi effaith y fframwaith. Yr haf nesaf, byddaf yn cyhoeddi adroddiad yn nodi cynnydd wrth gyflawni'r fframwaith, ynghyd â chynllun cyflawni newydd ar gyfer 2015-16.

I will be working actively across my portfolio area to raise awareness and increase reporting. I was pleased that a new social housing toolkit was launched during Hate Crime Awareness Week, and I believe that there is a significant role for the housing sector to play in tackling hate crime. I remain wholly committed to working with my Cabinet colleagues and all Assembly Members to continue to tackle hostility and prejudice in all its forms.

Byddaf yn gweithio yn weithredol ar draws fy maes portffolio i godi ymwybyddiaeth a chynyddu adrodd. Roeddwn yn falch bod pecyn cymorth tai cymdeithasol newydd wedi'i lansio yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb, ac rwy'n credu bod swyddogaeth sylweddol i'r sector tai ei chwarae wrth fynd i'r afael â throseddau casineb. Rwy'n parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i weithio gyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet a holl Aelodau'r Cynulliad i barhau i fynd i'r afael â gelyniaeth a rhagfarn yn ei holl ffurfiau.

16:08 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I thank you very much for this statement, and I appreciate the points that you have already raised. You made some very good comments and remarks in your statement. It is clear that the underreporting of incidents of hate crime remains a problem. That is why events such as Hate Crime Awareness Week are so important.

Weinidog, rwy'n diolch yn fawr iawn i chi am y datganiad hwn, ac rwy'n deall y pwyntiau yr ydych eisoes wedi'u codi. Gwnaethoch sylwadau a sylwadau da iawn yn eich datganiad. Mae'n amlwg bod tanadrodd achosion o droseddau casineb yn parhau i fod yn broblem. Dyna pam mae digwyddiadau fel Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb mor bwysig.

May I ask the Minister what plans she has to raise public awareness about what constitutes a hate crime and to encourage reporting of incidents by the victims? A recent survey revealed that 56% of victims did not report hate crimes because they either regarded the incident as too trivial, or they did not believe that the police could do anything about it. What more can the Welsh Government do to increase the confidence of hate crime victims that reporting incidents is the right approach? Does the Minister agree that victims of hate crimes must be kept informed by the police of the progress made in the investigation of these crimes? Emotional and practical support for hate crime victims is mainly provided by family and friends. However, in some cases, victims may not have access to the support of strong family networks, and their feelings of isolation and vulnerability can be made worse by disability and rural living. What is the Minister doing to ensure that such victims have access to comprehensive and easily accessible support services?

A gaf i ofyn i'r Gweinidog pa gynlluniau sydd ganddi i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â beth yw trosedd casineb ac i annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau gan y dioddefwyr? Dangosodd arolwg diweddar nad yw 56% o ddioddefwyr yn adrodd am droseddau casineb am eu bod naill ai yn ystyried y digwyddiad yn rhy ddibwys, neu nad oeddent yn credu y gallai'r heddlu wneud unrhyw beth am y sefyllfa. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynyddu hyder dioddefwyr troseddau casineb mai adrodd am ddigwyddiadau yw'r dull cywir? A yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid i ddioddefwyr troseddau casineb gael gwybodaeth gan yr heddlu am y cynnydd a wnaed wrth ymchwilio i'r troseddau hyn? Mae cymorth emosiynol ac ymarferol i ddioddefwyr troseddau casineb yn cael ei ddarparu'n bennaf gan deulu a ffrindiau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'n bosibl nad oes gan ddioddefwyr fynediad at gefnogaeth rhwydweithiau teuluol cryf, a gall eu teimladau o fod yn ynysig ac yn agored i niwed gael eu gwneud yn waeth trwy anabledd a byw yng nghefn gwlad. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod gan ddioddefwyr o'r fath fynediad at wasanaethau cymorth cynhwysfawr a hawdd cael gafael arnynt?

Minister, effective partnership working by public and third sector bodies, together with the police and criminal justice agencies, is vital if this crime is to be tackled effectively. This means that activities need to be co-ordinated, and good practice needs to be shared and promoted, together with extensive training, recognising and dealing with hate crimes. Will the Minister take the lead in ensuring that such co-ordinated partnership is delivered in Wales? There were a few areas that you mentioned, Minister, which I appreciate. You went to a synagogue, but do not forget that the Muslim community in Wales are fourth and fifth generation, and there are still hate crime incidents against their senior citizens and at the mosque, when some dirty animals' heads are thrown in certain places, and there is abuse when people come out from prayer. That is also very disturbing among the community, and that crime is normally never reported. I would ask you to encourage priests and the mosques, temples, churches and synagogues, should anything happen, to report it strongly to the police, to be involved and to put CCTV cameras in dangerous areas.

Weinidog, mae gwaith partneriaeth effeithiol gan gyrff y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal â'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r drosedd hon yn effeithiol. Mae hyn yn golygu bod angen i weithgareddau fod yn gydgysylltiedig, ac mae angen i arfer da gael ei rannu a'i hyrwyddo, ynghyd â hyfforddiant helaeth, gan gydnabod ac ymdrin â throseddau casineb. A fydd y Gweinidog yn arwain o ran sicrhau bod partneriaeth gydlynol o'r fath yn cael ei chyflwyno yng Nghymru? Roedd ychydig o feysydd a grybwyllwyd gennych chi, Weinidog, ac rwyf yn gwerthfawrogi hynny. Aethoch i synagog, ond peidiwch ag anghofio bod y gymuned Fwslimaidd yng Nghymru yn cynrychioli'r bedwaredd a'r bumed genhedlaeth, a cheir achosion troseddu casineb yn erbyn eu henoed ac yn y mosg o hyd, pan fydd pennau rhai anifeiliaid budron yn cael eu taflu mewn rhai mannau, a cheir cam-drin pan fydd pobl yn dod allan ar ôl bod yn gweddïo. Mae hynny hefyd yn peri pryder mawr ymysg y gymuned, ac nid yw'r drosedd honno byth yn cael ei hadrodd fel arfer. Byddwn yn gofyn i chi i annog offeiriaid a'r mosgiau, temlau, eglwysi a synagogau, os bydd unrhyw beth yn digwydd, i adrodd yn gryf i'r heddlu, i fod yn rhan ac i roi camerâu teledu cylch cyfyng mewn ardaloedd peryglus.

Another area is that of saving electricity at night time. In some areas, in certain places in city centres, the lights should not be turned off at night, Minister. Those are the areas where crimes happen. When people walk through those dark streets and dark areas, those are the places where there are other people who are not getting on with each other—and it is only a very minor number of people who are actually prejudiced, be it against a colour, a cause, a religion or anything. So, such an area should be lit, so that the problems can be ridded. Minister, I again thank you very much for taking this lead, and I am sure that we will set an example in Wales to eradicate this bad habit in this country.

Maes arall yw arbed trydan yn ystod y nos. Mewn rhai ardaloedd, mewn lleoedd penodol yng nghanol dinasoedd, ni ddylai'r goleuadau gael eu diffodd yn y nos, Weinidog. Dyna'r ardaloedd lle mae troseddau yn digwydd. Pan fydd pobl yn cerdded trwy'r strydoedd tywyll a'r mannau tywyll hynny, dyna'r mannau lle mae pobl eraill nad ydynt yn dod ymlaen â'i gilydd—a dim ond nifer fach iawn o bobl sydd â rhagfarn mewn gwirionedd, boed hynny yn erbyn lliw, achos, crefydd neu unrhyw beth. Felly, dylai ardal o'r fath gael ei goleuo, fel y gellir gwaredu'r problemau. Weinidog, rwyf unwaith eto'n diolch yn fawr iawn i chi am gymryd yr arweiniad hwn, ac rwy'n sicr y byddwn yn gosod esiampl yng Nghymru i gael gwared ar yr arfer gwael hwn yn y wlad hon.

16:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Mohammad Asghar, for the contribution. I think that you are absolutely right; there is underreporting, and one of the whole purposes of Hate Crime Awareness Week was that we could see, hopefully, a rise in that reporting. I have asked for an evaluation of the week, but, first of all, we need to see what actions were taken during that week and whether we will now see a rise in the reporting. So, I will have that evaluation, which I will be very happy to share with Members.

Diolch i chi, Mohammad Asghar, am y cyfraniad. Credaf eich bod yn llygad eich lle; mae tanadrodd, ac un o holl ddibenion Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb oedd y gallem weld, gobeithio, cynnydd yn yr adrodd hwnnw. Rwyf wedi gofyn am werthusiad o'r wythnos, ond, yn gyntaf oll, mae angen i ni weld pa gamau a gymerwyd yn ystod yr wythnos honno a pha un a fyddwn bellach yn gweld cynnydd yn yr adrodd. Felly, byddaf yn cael y gwerthusiad hwnnw, a byddaf yn barod iawn i'w rannu gyda'r Aelodau.

On the point that you raised, and certainly, in talking to people, I did not just visit a synagogue; I did several visits. Certainly, during the visits that week, and on other visits that I have undertaken since I have been in this portfolio, some people do not recognise what they are being subjected to as hate crime. I think that that is a very important point, and the reason we wanted the awareness week was to show people that nothing is too trivial if you think that you are a victim of hate crime. I mentioned the papers that we put out—we put one out every day of the week on a specific protected characteristic, and we gave examples to show people what hate crime is. One example that was told to me was of a Muslim lady who said, in front of her friends and colleagues, that if something in particular was happening anywhere else in the world and was on the news, and it was against Muslims, she then did not want to go to school to pick her children up. You could see that her colleagues and friends were really shocked that she felt like that. They did not see that as hate crime. So, I think that events such as Hate Crime Awareness Week are very good to show not just people who are suffering from it, but their friends and colleagues, too.

O ran y pwynt a godwyd gennych, ac yn sicr, wrth siarad â phobl, nid dim ond ymweld â synagog wnes i; fe wnes sawl ymweliad. Yn sicr, yn ystod yr ymweliadau yr wythnos honno, ac ar ymweliadau eraill yr wyf wedi'u cynnal ers i mi fod yn y portffolio hwn, mae rhai pobl nad ydynt yn adnabod mai trosedd casineb yw'r hyn y maent yn ei ddioddef. Credaf fod hynny'n bwynt pwysig iawn, a'r rheswm yr oeddem am gael yr wythnos ymwybyddiaeth oedd dangos i bobl nad oes dim yn rhy ddibwys os ydych yn credu eich bod yn dioddef trosedd casineb. Soniais am y papurau a ddosbarthwyd gennym—dosbarthwyd un bob dydd o'r wythnos ar nodwedd warchodedig benodol, a rhoddwyd enghreifftiau i ddangos i bobl beth yw trosedd casineb. Un enghraifft y dywedwyd wrthyf amdani oedd am fenyw Fwslimaidd a ddywedodd, o flaen ei ffrindiau a'i chydweithwyr, pe byddai rhywbeth yn benodol a oedd yn digwydd mewn unrhyw le arall yn y byd ac a oedd ar y newyddion, a'i fod yn erbyn Mwslimiaid, yna nid oedd eisiau mynd i'r ysgol i nôl ei phlant. Gallech weld bod ei chydweithwyr a'i ffrindiau wir wedi dychryn ei bod yn teimlo felly. Nid oeddent yn gweld hynny fel trosedd casineb. Felly, rwy'n meddwl bod digwyddiadau fel Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn dda iawn i ddangos nid yn unig y bobl sy'n dioddef oddi wrtho, ond eu ffrindiau a'u cydweithwyr, hefyd.

I think that the point you raised about making sure that people have emotional and practical support is very important, because, if you are going to report that you are the victim of hate crime, you want to be taken seriously. I think that it is incredibly important that the police deal with that.

Rwy'n meddwl bod y pwynt a godwyd gennych ynglŷn â gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cymorth emosiynol ac ymarferol yn bwysig iawn, oherwydd, os ydych yn mynd i adrodd eich bod yn dioddef trosedd casineb, rydych eisiau cael eich cymryd o ddifrif. Rwy'n credu ei bod yn hynod bwysig bod yr heddlu yn ymdrin â hynny.

I mentioned that I had visited the synagogue with the police and crime commissioner from Cardiff and the deputy police and crime commissioner—sorry, from south Wales. There were several police officers in attendance, and they heard what those people at the synagogue, the Jewish community, were telling them. I think that they absolutely took that on board.

Soniais fy mod wedi ymweld â'r synagog gyda'r comisiynydd heddlu a throseddu o Gaerdydd a'r dirprwy gomisiynydd heddlu a throseddu—mae'n ddrwg gennyf, o dde Cymru. Roedd nifer o swyddogion yr heddlu yn bresennol, a chlywsant yr hyn yr oedd y bobl hynny yn y synagog, y gymuned Iddewig, yn ei ddweud wrthynt. Credaf eu bod wedi ystyried hynny'n llwyr.

I mentioned in my statement that we had given £5,000 funding to each police and crime commissioner. The Dyfed-Powys police and crime commissioner did not take up the offer due to time constraints, but I will be meeting the Dyfed-Powys police and crime commissioner so that we can discuss future collaboration, because I think that it is really important that we do have that partnership working with the police.

Soniais yn fy natganiad ein bod wedi rhoi £5,000 o arian i bob comisiynydd heddlu a throseddu. Ni wnaeth comisiynydd heddlu a throseddu Dyfed-Powys dderbyn y cynnig oherwydd cyfyngiadau amser, ond byddaf yn cyfarfod â chomisiynydd heddlu a throseddu Dyfed-Powys fel y gallwn drafod cydweithio yn y dyfodol, gan fy mod yn credu ei bod yn wirioneddol bwysig bod gennym y gweithio mewn partneriaeth hwnnw gyda'r heddlu.

I think that we are taking the lead in Wales. We are doing very important work in this area. It is very important that we carry it on—and, as I said, we will have the evaluation—if we think that it significantly increases the number of people who feel they can report it. As I said, with more reporting, eventually I want to see a drop, because if the perpetrators realise that they will be dealt with very seriously, then hopefully the incidence will drop.

Rwy'n credu ein bod yn arwain y ffordd yng Nghymru. Rydym yn gwneud gwaith pwysig iawn yn y maes hwn. Mae'n bwysig iawn ein bod yn ei barhau—ac, fel y dywedais, bydd gennym y gwerthusiad—os ydym yn credu ei fod yn cynyddu'n sylweddol nifer y bobl sy'n teimlo y gallant adrodd amdano. Fel y dywedais, gyda mwy o adrodd, yn y pen draw rwyf am weld gostyngiad, oherwydd os bydd y troseddwyr yn sylweddoli y byddant yn cael eu trin mewn modd difrifol iawn, yna gobeithio y bydd nifer yr achosion yn gostwng.

16:16

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for her statement today. As the Minister will be aware, I worked on the issue of hate crime awareness and strategies to tackle this problem during my time as the Minister for Communities and Tackling Poverty. I very much agree with what the Minister has said about the need to improve the arrangements to report hate crime and about ensuring that there is a co-ordinated multi-agency response towards tackling it. Partnership working is very much the key. There is, however, one point that I want to pick up on particularly and, indeed, this was introduced by Mohammad Asghar. Would you agree with me, Minister, that our efforts need to pay careful attention to the issues facing Wales’s Muslim communities, especially because of the rise of Islamic extremism in Iraq and Syria, and to ensure that they do not become the victims of any retaliatory hate crimes, while at the same time working to tackle with the police and other agencies instances of extremism that may spill over into Wales?

Rwy’n diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw. Fel y bydd y Gweinidog yn ymwybodol, gweithiais ar y mater o ymwybyddiaeth a strategaethau troseddau casineb i fynd i'r afael â'r broblem hon yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Cytunaf yn llwyr â'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud am yr angen i wella trefniadau i adrodd am droseddau casineb ac ynglŷn â sicrhau bod ymateb amlasiantaethol cydlynol tuag at fynd i'r afael ag ef. Gweithio mewn partneriaeth yw'r allwedd. Fodd bynnag, mae un pwynt yr wyf am ei godi yn benodol ac, yn wir, cafodd hwn ei gyflwyno gan Mohammad Asghar. A fyddech chi’n cytuno â mi, Weinidog, bod angen i’n hymdrechion roi sylw gofalus i'r materion sy'n wynebu cymunedau Mwslimaidd Cymru, yn enwedig oherwydd y cynnydd mewn eithafiaeth Islamaidd yn Irac a Syria, ac er mwyn sicrhau nad ydynt yn dod yn ddioddefwyr unrhyw droseddau casineb dialgar, gan weithio ar yr un pryd i fynd i'r afael gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill ag achosion o eithafiaeth a allai orlifo i mewn i Gymru?

16:17

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, absolutely, and I pay tribute to the work that you did as my predecessor. Certainly, you raised a very important point about the Muslim communities, and Mohammad Asghar mentioned that we now have fourth and fifth generation communities, and that has certainly come through from people I have spoken to. In the synagogue, there was one lady, an elderly lady, who said that she had lived in Cardiff all of her life, but now, suddenly, she did not feel as safe as she had done. So, it is really important that we get that message out to them that this will not be tolerated, there is no place for that sort of behaviour in Wales, and they will be taken seriously.

Byddwn, yn hollol, a thalaf deyrnged i'r gwaith a wnaethoch fel fy rhagflaenydd. Yn sicr, codwyd pwynt pwysig iawn gennych ynglŷn â'r cymunedau Mwslimaidd, a soniodd Mohammad Asghar bod gennym bellach gymunedau pedwaredd a phumed genhedlaeth, ac mae hynny'n sicr wedi dod yn amlwg oddi wrth y bobl yr wyf wedi siarad â nhw. Yn y synagog, roedd un wraig, gwraig oedrannus, a ddywedodd ei bod wedi byw yng Nghaerdydd ar hyd ei hoes, ond yn awr, yn sydyn, nid oedd yn teimlo mor ddiogel ag yr oedd o’r blaen. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn cael y neges allan iddynt na fydd hyn yn cael ei oddef, nad oes lle i’r math hwnnw o ymddygiad yng Nghymru, ac y byddant yn cael eu cymryd o ddifrif.

Partnership working is absolutely vital, and I mentioned the funding that we have given to the police and crime commissioners, and I certainly want to follow up with them the work that was undertaken during that week. It is not just about one week, is it? We want to carry it on all through the year. So, I will certainly follow that up.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gwbl hanfodol, a soniais am y cyllid yr ydym wedi'i roi i'r comisiynwyr heddlu a throseddu, ac rwyf yn sicr yn awyddus i wneud gwaith dilynol ar yr hyn a wnaed yn ystod yr wythnos honno. Mae’n ymwneud â mwy nag un wythnos, onid yw? Rydym am barhau a hyn drwy'r holl flwyddyn. Felly, byddaf yn sicr ar drywydd hynny.

16:18 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement. As my party's spokesperson, obviously, I have to endorse entirely the general principles in your statement today of trying to reduce the number of hate crime incidents here in Wales—and there are too many categories to itemise, I believe. However, I personally look forward to the day when all hatred is reduced to the gutter, where it belongs. I think that you are right in pointing out to us that schools have a huge influence in educating young people about its effects, especially, indeed, through social media, which many young people are now absolutely hooked upon—in fact, I am getting hooked upon it myself, I think.

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad. Fel llefarydd fy mhlaid, yn amlwg, mae'n rhaid i mi gymeradwyo'n llwyr yr egwyddorion cyffredinol yn eich datganiad heddiw o geisio lleihau nifer yr achosion o droseddau casineb yma yng Nghymru—ac mae gormod o gategorïau i'w rhestru, rwy'n credu. Fodd bynnag, rwy'n bersonol yn edrych ymlaen at y diwrnod pan fydd yr holl gasineb yn cael ei roi yn y gwter, lle y dylai fod. Rwy'n meddwl eich bod yn iawn wrth dynnu ein sylw at y ffaith bod gan ysgolion ddylanwad enfawr o ran addysgu pobl ifanc am ei effeithiau, yn arbennig, yn wir, trwy gyfryngau cymdeithasol, y mae llawer o bobl ifanc bellach yn gwbl gaeth iddyn nhw—a dweud y gwir, rwy'n mynd yn gaeth iddyn nhw fy hun, rwy'n meddwl.

You highlighted one aspect in particular, and it is no coincidence that I choose to highlight that same subject. So, we are great minds thinking alike I hope. One of the worst aspects of hate crime is that against disabled people and, in particular, institutional hate crime against disabled people. I will be very brief, Minister. I have one question. What is the Welsh Government doing to tackle institutional hate crime against disabled people and do you agree with me that a disabled persons' commissioner is now needed?

Fe wnaethoch dynnu sylw at un agwedd yn benodol, ac nid yw'n gyd-ddigwyddiad fy mod yn dewis tynnu sylw at yr un pwnc. Felly, rydym yn feddyliau mawr sy'n meddwl yr un fath rwy'n gobeithio. Un o agweddau gwaethaf troseddau casineb yw honno yn erbyn pobl anabl ac, yn arbennig, troseddau casineb sefydliadol yn erbyn pobl anabl. Byddaf yn gryno iawn, Weinidog. Mae gennyf un cwestiwn. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â throseddau casineb sefydliadol yn erbyn pobl anabl ac a ydych chi'n cytuno â mi bod angen comisiynydd i bobl anabl yn awr?

16:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Lindsay Whittle for that question. I know that that is something that has been discussed and there were consultation events on the framework for action on independent living. It was viewed then that the appointment of a disability commissioner was not seen as a priority among disabled people who were in attendance. What they wanted to see was a strong focus on strengthening the voice of disabled people themselves, so that they could have greater choice and control over the services that they receive. So, I do not think that it is the right time. Certainly, I will listen to disabled people as we go forward.

Hoffwn ddiolch i Lindsay Whittle am y cwestiwn yna. Gwn fod hynny yn rhywbeth sydd wedi ei drafod ac roedd digwyddiadau ymgynghori ar y fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol. Ystyriwyd bryd hynny nad oedd penodi comisiynydd anabledd yn flaenoriaeth ymhlith y bobl anabl a oedd yn bresennol. Yr hyn yr oeddent am ei weld oedd pwyslais cryf ar gryfhau llais y bobl anabl eu hunain, er mwyn iddynt gael mwy o ddewis a rheolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Felly, nid wyf yn credu mai dyma'r adeg iawn. Yn sicr, byddaf yn gwrando ar bobl anabl wrth inni symud ymlaen.

16:20 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also welcome the statement, Minister, on the work that the Welsh Government is doing on this particular issue. This sort of hate crime is one of the worst forms of discrimination, particularly when directed against disabled people, in terms of mate crime as well. Certainly, I know that the committee, when it looked at that, was shocked at some of the evidence that it received.

Rwyf innau hefyd yn croesawu'r datganiad, Weinidog, ar y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar y mater penodol hwn. Y math hwn o drosedd casineb yw un o'r mathau gwaethaf o wahaniaethu, yn enwedig pan gaiff ei gyfeirio yn erbyn pobl anabl, o ran trosedd cyfeillio hefyd. Yn sicr, rwy'n gwybod bod y pwyllgor, pan edrychodd ar hynny, wedi dychryn o weld rhannau o'r dystiolaeth a dderbyniodd.

Minister, I have just a couple of questions. We had a debate on this on 20 May this year and I am pleased that the independent advisory group, which the then Minister referred to, has now met and has started its work. I would be grateful if you could say why it took so long to get that group up and running. We are talking about more than six months since that debate. As part of that debate there was reference to a hate crime reporting centre to encourage an increase in reporting hate crimes, including a new helpline and online support. I would be grateful if you could give me an update on that particular aspect of the work of your department. Following on from the previous contribution, there was also an amendment to that debate recognising that school councils and school governors have a role as well as teachers, families and the wider society in preventing bullying. I notice that your statement mostly keeps to your own portfolio. Perhaps you could tell us what work you are doing with the Minister for education to try to take forward that aspect of tackling hate crime.

Weinidog, mae gennyf un neu ddau o gwestiynau. Cawsom ddadl ar hyn ar 20 Mai eleni, ac rwy'n falch fod y grŵp cynghori annibynnol, y cyfeiriodd y Gweinidog ar y pryd ato, erbyn hyn wedi cyfarfod ac wedi dechrau ar ei waith. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud pam y cymerodd cymaint o amser i sefydlu’r grŵp a’i gael i weithredu. Rydym yn sôn am fwy na chwe mis ers y ddadl honno. Yn rhan o'r ddadl honno, gwnaed cyfeiriad at ganolfan adrodd troseddau casineb i annog cynnydd mewn adrodd am droseddau casineb, gan gynnwys llinell gymorth newydd a chefnogaeth ar-lein. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi am yr agwedd benodol honno ar waith eich adran. Yn dilyn ymlaen o'r cyfraniad blaenorol, roedd hefyd welliant i'r ddadl honno yn cydnabod bod gan gynghorau ysgol a llywodraethwyr ysgol swyddogaeth yn ogystal ag athrawon, teuluoedd a'r gymdeithas ehangach wrth atal bwlio. Sylwaf fod eich datganiad yn cadw’n bennaf at eich portffolio eich hun. Efallai y gallech ddweud wrthym pa waith yr ydych yn ei wneud gyda'r Gweinidog addysg i geisio bwrw ymlaen â'r agwedd honno ar fynd i'r afael â throseddau casineb.

16:21

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Peter Black for those questions. In relation to the independent advisory group, as I said, I launched it during Hate Crime Awareness Week. Work had been done over the summer before I came into portfolio. I thought that that week was the best time to launch it. I chair that group. The members of the group have been selected on the basis of representation of all of the protected characteristics and from organisations that have a strong track record right across Wales of tackling hate crime. What I have asked them to do is go out to talk to people within their network to bring evidence and views back to it.

Diolch i Peter Black am y cwestiynau yna. O ran y grŵp cynghori annibynnol, fel y dywedais, fe wnes ei lansio yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb. Roedd gwaith wedi ei wneud dros yr haf cyn i mi ddod i mewn i’r portffolio. Roeddwn i'n meddwl mai’r wythnos honno oedd yr amser gorau i’w lansio. Fi sy’n cadeirio’r grŵp hwnnw. Mae aelodau'r grŵp wedi eu dewis ar sail cynrychiolaeth o bob un o'r nodweddion gwarchodedig ac o sefydliadau sydd â hanes da iawn ar draws Cymru o fynd i'r afael â throseddau casineb. Yr hyn yr wyf wedi gofyn iddynt ei wneud yw mynd allan i siarad â phobl o fewn eu rhwydwaith i ddod a thystiolaeth a safbwyntiau yn ôl ato.

In relation to the national hate crime reporting centre, that was launched alongside the framework in May of this year by Victim Support Cymru. I mentioned that there have been 500 cases in the service to date. We have funded Victim Support for a three-year period to establish this centre. What is really important is that anybody who reports hate crime or any incident will have fair and equitable support. It does not matter where you live. What we want is consistency right across Wales. They need to have access to advocacy, advice and, importantly, support.

O ran y ganolfan genedlaethol adrodd ar droseddau casineb, a gafodd ei lansio ochr yn ochr â'r fframwaith ym mis Mai eleni gan Gymorth i Ddioddefwyr Cymru. Soniais y cafwyd 500 o achosion yn y gwasanaeth hyd yma. Rydym wedi ariannu Cymorth i Ddioddefwyr am gyfnod o dair blynedd i sefydlu'r ganolfan hon. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw y bydd unrhyw un sy'n adrodd am drosedd casineb neu unrhyw ddigwyddiad yn cael cefnogaeth deg a chyfiawn. Does dim ots ble yr ydych yn byw. Yr hyn yr ydym ei eisiau yw cysondeb ar draws Cymru. Mae angen iddynt gael mynediad at eiriolaeth, cyngor ac, yn bwysig, cefnogaeth.

You asked about what I have been doing with the Minister for Education and Skills. I have just written to him, following on from that meeting I referred to. When I attended the synagogue in Cardiff, the need to tackle and raise awareness of bullying in schools was raised with me. So, I wrote last week to the Minister, following Hate Crime Awareness Week, to tell him of issues that were raised with me and to say that I want to continue to work with him. International students in Wales, particularly at higher education level, have also raised concerns with me. There has been a good deal of work going on previously in the Department for Education and Skills. I know that, this month, it is launching the Wales anti-bullying leadership group. We need to make sure that teachers feel confident in tackling these issues if somebody discloses problems to them.

Gofynasoch am yr hyn yr wyf wedi bod yn ei wneud gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Rwyf newydd ysgrifennu ato, yn dilyn y cyfarfod hwnnw y cyfeiriais ato. Pan oeddwn yn bresennol yn y synagog yng Nghaerdydd, codwyd yr angen i fynd i'r afael a chodi ymwybyddiaeth o fwlio mewn ysgolion gyda mi. Felly, ysgrifennais yr wythnos diwethaf at y Gweinidog, yn dilyn yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb, i ddweud wrtho am y materion a godwyd gyda mi ac i ddweud fy mod yn dymuno parhau i weithio gydag ef. Mae myfyrwyr o dramor yng Nghymru, yn enwedig ar lefel addysg uwch, hefyd wedi codi pryderon gyda mi. Gwnaed cryn dipyn o waith yn flaenorol yn yr Adran Addysg a Sgiliau. Gwn, y mis hwn, ei fod yn lansio grŵp arweinyddiaeth gwrth-fwlio Cymru. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod athrawon yn teimlo'n hyderus wrth fynd i'r afael â'r materion hyn os bydd rhywun yn datgelu problemau iddyn nhw.

16:24 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your Hate Crime Awareness Week and future delivery statement. We can deduce from that that crime reporting, prosecutions and convictions are up.

Weinidog, diolch i chi am eich Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a'r datganiad darparu ar gyfer y dyfodol. Gallwn gasglu o hynny bod adrodd am droseddau, erlyniadau ac euogfarnau wedi cynyddu.

You are quite right in what you say at the beginning of your statement that an increase in reporting is welcome. As we know from research, people are reluctant to report; how true that is, whether it is hate crime related to disability, race, colour, creed, sexual orientation or bullying. From my own experience, working in less affluent London boroughs, it is something that has to be stamped on immediately, otherwise it increases and destroys neighbourhoods and all sorts of things, including the individual. That is really rather sad.

Rydych yn llygad eich lle yn yr hyn yr ydych yn ei ddweud ar ddechrau eich datganiad bod cynnydd mewn adrodd i'w groesawu. Fel y gwyddom o waith ymchwil, mae pobl yn amharod i adrodd; mae hynny mor wir, boed yn drosedd casineb sy'n gysylltiedig ag anabledd, hil, lliw, cred, cyfeiriadedd rhywiol neu fwlio. O fy mhrofiad fy hun, gan weithio mewn bwrdeistrefi llai cefnog yn Llundain, mae'n rhywbeth y mae'n rhaid ei ddileu ar unwaith, neu fel arall, mae'n cynyddu ac yn dinistrio cymdogaethau a phob math o bethau, gan gynnwys yr unigolyn. Mae hynny braidd yn drist yn wir.

On 10 June 2014, I asked the First Minister here what assessment he had made of the recent British social attitudes survey results on self-reported racial prejudice in Wales. I notice that you did not refer to it in your statement, but the First Minister responded by saying:

Ar 10 Mehefin 2014, gofynnais i'r Prif Weinidog yma pa asesiad yr oedd wedi ei wneud o ganlyniadau arolwg agweddau cymdeithasol Prydeinig diweddar ar ragfarn hiliol hunan-gofnodedig yng Nghymru. Sylwaf na wnaethoch gyfeirio at hynny yn eich datganiad, ond ymatebodd y Prif Weinidog drwy ddweud:

'It is obviously disappointing, but the Member should bear in mind that the sample size was just over 100 people. Normally, that would be far too small…1,000 is the minimum'.

Mae'n amlwg yn siomedig, ond dylai'r Aelod gofio mai maint y sampl oedd ychydig dros 100 o bobl. Fel arfer, byddai hynny'n rhy fychan o lawer... 1,000 yw'r lleiafswm.

I totally agree with that. Accepting that, it nevertheless shows a rise of 14 percentage points since 2000 based on figures from, as I said, the British social attitudes survey, which I think is a worrying factor, as I hope you will agree. What action will the Government take on this, and can you think about taking part in, or perhaps organising, a survey so that we can get a true picture of how it is in Wales? That is my first question to you.

Cytunaf yn llwyr â hynny. Gan dderbyn hynny, fodd bynnag, gwelir cynnydd o 14 pwynt canran ers 2000 yn seiliedig ar ffigyrau, fel y dywedais, o'r arolwg agweddau cymdeithasol Prydeinig, ac rwy'n credu bod hynny'n ffactor sy'n peri pryder, a gobeithio y byddwch yn cytuno. Pa gamau y bydd y Llywodraeth yn eu cymryd ar hyn, ac a allwch chi feddwl am gymryd rhan mewn, neu efallai drefnu, arolwg fel y gallwn gael darlun cywir o sut y mae'r sefyllfa yng Nghymru? Dyna fy nghwestiwn cyntaf i chi.

Secondly, I would like to refer to your last paragraph, where you say that you will be working actively across your portfolio area to raise awareness and to increase reporting of this. I would implore you to ensure that police forces feel the need to be responsive to these reports and ensure that prompt action is taken. The Member for Caerphilly is absolutely right that it is about partnership working. I would ask you to ensure that the police do respond to it quite properly.

Yn ail, hoffwn gyfeirio at eich paragraff olaf, lle'r ydych yn dweud y byddwch yn gweithio yn weithredol ar draws eich maes portffolio i godi ymwybyddiaeth ac i gynyddu adrodd ar hyn. Rwyf yn erfyn arnoch i sicrhau bod heddluoedd yn teimlo'r angen i fod yn ymatebol i'r adroddiadau hyn a sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd. Mae'r Aelod dros Gaerffili yn hollol gywir bod hyn yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth. Byddwn yn gofyn i chi i sicrhau bod yr heddlu yn ymateb iddo yn dra phriodol.

16:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Byron Davies for those points. I am not aware of the British social attitudes survey, but I will certainly ask officials to give me a briefing on that. I think that the independent advisory group is where I will look to get a feel of what is going on out there. I mentioned in my answer to Peter Black that the people sitting on that group have been chosen because of the work that they have already undertaken within their organisation or individually in relation to tackling hate crime.

Hoffwn ddiolch i Byron Davies am y pwyntiau yna. Nid wyf yn ymwybodol o'r arolwg agweddau cymdeithasol Prydeinig, ond byddaf yn sicr yn gofyn i swyddogion roi sesiwn friffio ar hynny i mi. Credaf mai'r grŵp cynghori annibynnol yw lle y byddaf yn edrych i gael blas o'r hyn sy'n digwydd yn y maes. Soniais yn fy ateb i Peter Black fod y bobl yn eistedd ar y grŵp hwnnw wedi eu dewis oherwydd y gwaith y maent eisoes wedi'i wneud yn eu sefydliad neu yn unigol mewn cysylltiad â mynd i'r afael â throseddau casineb.

You are quite right; across my portfolio, I will certainly—. Now that housing and regeneration have come into the portfolio, housing associations have done a great deal of work in this area too. I have been very pleasantly surprised at just how much work housing associations do, not just to provide housing for their tenants but also work to encourage tenants to come forward with lots of different issues and help them to deal with them. I mentioned the toolkit that one housing association has brought forward, and I would like to see that in more housing associations across Wales. I am absolutely committed to working with the police and any non-devolved body to make sure that they realise the seriousness of the issue. I mentioned that I was at the synagogue; there were several police officers there, and some members of the Jewish community were asking how urgently the police would respond if somebody from that community rang up and said 'I'm a victim of hate crime'? I think that they were very reassured by the answers and by the support given by the police.

Rydych yn llygad eich lle; ar draws fy mhortffolio, byddaf yn sicr—. Gan fod tai ac adfywio wedi dod i mewn i'r portffolio erbyn hyn, mae cymdeithasau tai wedi gwneud llawer iawn o waith yn y maes hwn hefyd. Rwyf wedi cael fy siomi o'r ochr orau gan faint o waith y mae cymdeithasau tai yn ei wneud, nid yn unig i ddarparu tai ar gyfer eu tenantiaid, ond maent hefyd yn gweithio i annog tenantiaid i ddod ymlaen gyda llawer o wahanol faterion a'u helpu i ymdrin â hwy. Soniais am y pecyn cymorth y mae un gymdeithas tai wedi ei ddwyn ymlaen, a byddwn yn hoffi gweld hynny mewn mwy o gymdeithasau tai ledled Cymru. Rwyf wedi llwyr ymrwymo i weithio gyda'r heddlu ac unrhyw gorff sydd heb ei ddatganoli er mwyn sicrhau eu bod yn sylweddoli difrifoldeb y mater. Soniais fy mod yn y synagog; roedd nifer o swyddogion yr heddlu yno, ac roedd rhai aelodau o'r gymuned Iddewig yn holi ar faint o frys y byddai'r heddlu yn ymateb pe byddai rhywun o'r gymuned honno yn ffonio a dweud 'Rwy'n dioddef trosedd casineb'? Rwy'n credu eu bod wedi eu cysuro gan yr atebion a chan y gefnogaeth a roddwyd gan yr heddlu.

16:28

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

16:28

# Datganiad: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2013-14

# Statement: The Chief Medical Officer's Annual Report 2013-14

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

16:28

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Bob blwyddyn, mae Prif Swyddog Meddygol Cymru yn rhoi trosolwg annibynnol o faterion iechyd. Mae'n bleser gennyf ddatgan bod yr ail adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi, a hynny gan y prif swyddog meddygol presennol, Dr Ruth Hussey. Mae'r adroddiad yn edrych ar y datblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn yr adroddiad cyntaf, ac mae'n edrych i'r dyfodol.

Each year the Chief Medical Officer for Wales sets out an independent overview of health issues. I am pleased to make a statement to mark the publication of the second annual report delivered by the present CMO, Dr Ruth Hussey. The report reflects on developments over the 12 months that followed the first report and looks ahead to the future.

Yn y flwyddyn at fis Ebrill 2013, pwysleisiodd Dr Hussey pa mor bwysig oedd gwasanaethau ataliol, gan gynnwys y rhan mae iechyd yn y gweithle yn ei chwarae, a'r cyfraniad y bydd technolegau newydd yn ei wneud i'r agenda hon yn y dyfodol. Hefyd, tynnodd sylw yn benodol at yr angen i gael gwybodaeth glir a dealladwy y gall y cyhoedd ei defnyddio.

In the year to April 2013, Dr Hussey emphasised the importance of preventative services, including the part played by health at work and the contribution that new technologies will make to this agenda in the future. She also drew particular attention to the need for clear and understandable information, on which the public can act.

Yn yr ail adroddiad blynyddol hwn, mae'r prif swyddog meddygol yn rhoi tystiolaeth o'r gwaith a wnaed yn erbyn pob un o'r penawdau hyn: rhaglen Cymru Iach ar Waith, y gronfa technoleg iechyd a gwefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol, sy'n datblygu'n gyflym, gan ddychwelyd eto at thema ataliaeth.

In this second annual report, the CMO provides evidence of progress against all these headings: the Health Working Wales programme, the health technology fund and the rapidly developing My Local Health Service website, while returning very clearly, again, to the theme of prevention.

Yn yr ail adroddiad blynyddol hwn, mae Dr Hussey yn egluro'r gwahanol gyfraniadau y mae unigolion a sefydliadau yn gallu eu gwneud, ac y mae angen iddyn nhw wneud, er mwyn atal salwch a gostwng lefelau'r marwolaethau y gellid eu hosgoi. Mae Dr Hussey yn gwahaniaethu rhwng niwed y gellid ei osgoi, a niwed na ellir ei osgoi, ac yn fy nhyb i, dyma un o'r ffyrdd pwysicaf y bydd yr adroddiad yn helpu i lunio polisïau ac arferion yn y dyfodol.

In this second annual report, Dr Hussey articulates the different contributions that individuals and organisations can, and need, to make in preventing ill health and bearing down on avoidable mortality. Indeed, the distinction that Dr Hussey makes between avoidable harm and unavoidable harm is, it seems to me, one of the very important ways in which the report will help to shape future policy and practice.

The report is clear that, in order to allow the health service of the future to go on providing for those harms that cannot be avoided, much more needs to be done to reduce and eliminate harms that need never have happened at all. Preventing the preventable, Dr Hussey says, should be the watchword for the future.

Mae'r adroddiad yn glir, er mwyn caniatáu i'r gwasanaeth iechyd yn y dyfodol barhau i ddarparu ar gyfer y niwed hwnnw na ellir ei osgoi, bod angen gwneud llawer mwy i leihau a dileu niwed nad oedd angen iddo ddigwydd o gwbl. Atal yr hyn y gellir ei atal, meddai Dr Hussey, ddylai fod yr arwyddair ar gyfer y dyfodol.

The report provides clear recommendations for action. It calls on the UK Government to take legislative action to reduce sugar intake. The responsibility deal with the food industry has produced real gains in reducing salt intake in processed foods. But, with obesity continuing to contribute to so many chronic illnesses, the report calls for urgent mandatory action at the UK level to reduce sugar levels in processed foods and introduce curbs on advertising—especially where children are concerned—and for continued exploration of taxation on sugary drinks.

Mae'r adroddiad yn darparu argymhellion clir ar gyfer gweithredu. Mae'n galw ar Lywodraeth y DU i gymryd camau deddfwriaethol i leihau cymeriant siwgr. Mae'r fargen cyfrifoldeb gyda'r diwydiant bwyd wedi cynhyrchu enillion gwirioneddol o ran lleihau cymeriant halen mewn bwydydd wedi'u prosesu. Ond, gyda gordewdra yn parhau i gyfrannu at gymaint o salwch cronig, mae'r adroddiad yn galw am weithredu gorfodol brys ar lefel y DU i leihau lefelau siwgr mewn bwydydd wedi'u prosesu a chyflwyno ffrwynau ar hysbysebu—yn enwedig lle mae plant yn y cwestiwn—ac ar gyfer archwilio parhaus ar drethu diodydd llawn siwgr.

At the devolved level, the report draws out the importance of both the Well-being of Future Generations (Wales) Bill and the intended public health Bill for Wales. The former will enable a long-term preventative approach across all policy areas. The latter will provide a set of practical measures to address the major public health challenges of today. The chief medical officer specifically draws attention to the set of actions, legislative and otherwise, that are being taken in relation to tobacco. She endorses the Faculty of Public Health's advice that a precautionary approach should be adopted to e-cigarettes and provides explicit support for minimum unit pricing in relation to alcohol. All of these are measures that legislators can take that will help materially to avoid harms to health that need never have happened. But when we have acted collectively to create the conditions in which individuals are better able to take care of their own health, the report is also clear that we each have our individual responsibility to take those actions that can only be taken by individuals.

Ar y lefel ddatganoledig, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Bil iechyd cyhoeddus arfaethedig ar gyfer Cymru. Bydd y cyntaf yn galluogi ymagwedd ataliol tymor hir ar draws pob maes polisi. Bydd yr olaf yn darparu cyfres o fesurau ymarferol i fynd i'r afael â phrif heriau iechyd y cyhoedd heddiw. Mae'r prif swyddog meddygol yn tynnu sylw yn benodol at y gyfres o gamau gweithredu, deddfwriaethol ac eraill, sy'n cael eu cymryd ynglŷn â thybaco. Mae hi'n cefnogi cyngor Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y dylai dull rhagofalus gael ei fabwysiadu at e-sigaréts ac yn darparu cefnogaeth benodol ar gyfer isafswm pris uned o ran alcohol. Mae'r rhain i gyd yn fesurau y gall deddfwyr eu cymryd a fydd yn helpu'n ymarferol i osgoi niwed i iechyd na ddylai fyth fod wedi digwydd. Ond pan fyddwn wedi gweithredu ar y cyd i greu'r amodau lle mae unigolion yn gallu gofalu am eu hiechyd eu hunain yn well, mae'r adroddiad yn glir hefyd bod gan bob un ohonom ein cyfrifoldeb unigol i gymryd y camau gweithredu hynny na ellir ond eu cymryd gan unigolion.

This year, the chief medical officer's report draws out the lessons of the Caerphilly cohort study, which William Graham highlighted in the Chamber earlier this afternoon, with its remarkable confirmation of the impact that health behaviours have on wellbeing later in life: a 50% reduction in diabetes, a 60% reduction in dementia and so on for those adhering consistently to four or five of the healthy behaviours identified as contributing towards an individual's healthy lifestyle.

Eleni, mae adroddiad y prif swyddog meddygol yn ymhelaethu ar y gwersi o astudiaeth carfan Caerffili, a amlygwyd gan William Graham yn y Siambr yn gynharach y prynhawn yma, gyda'i gadarnhad rhyfeddol o'r effaith y mae ymddygiad iechyd yn ei gael ar les yn ddiweddarach mewn bywyd: 50% o ostyngiad mewn diabetes, 60% yn llai o ddementia ac yn y blaen ar gyfer rhai sy'n glynu yn gyson i bedwar neu bum ymddygiad iach y nodwyd eu bod yn cyfrannu tuag at ffordd iach o fyw unigolyn.

Preventing the preventable goes beyond legislation, of course, and the report focuses on other forms of collective action that are key to achieving our shared ambitions in reducing air pollution, sustaining high immunisation rates and tackling anti-microbial resistance. Dr Hussey refers to this as ‘shared responsibility’, in which best outcomes are jointly produced by services and individuals, each making a necessary contribution, rooted in genuine reciprocity and high levels of trust. These characteristics are important in all parts of the health service, but nowhere more so than in primary care, to which the chief medical officer devotes a whole chapter in her annual report. It sets out the preventative purpose of the primary care service of the future. A primary healthcare service for Wales, based on the principles of prudent healthcare, will become the mainstay of the NHS, the report says. It will tackle the root cause of ill health; prevent people from being admitted to hospital unnecessarily; help those who have been admitted to get home quickly with the right support and motivate and support people with chronic conditions and long-term illnesses to self-manage their health at home.

Mae atal yr hyn y gellir ei atal yn mynd y tu hwnt i ddeddfwriaeth, wrth gwrs, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar fathau eraill o weithredu ar y cyd sydd yn allweddol i gyflawni ein huchelgeisiau a rennir o ran lleihau llygredd aer, cynnal cyfraddau imiwneiddio uchel a mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrth-ficrobaidd. Mae Dr Hussey yn cyfeirio at hyn fel 'cyfrifoldeb ar y cyd', lle mae’r canlyniadau gorau yn cael eu cynhyrchu ar y cyd gan wasanaethau ac unigolion, pob un yn gwneud cyfraniad angenrheidiol, wedi’i wreiddio mewn dwyochredd gwirioneddol a lefelau uchel o ymddiriedaeth. Mae'r nodweddion hyn yn bwysig ym mhob rhan o'r gwasanaeth iechyd, ond yn enwedig yn y maes gofal sylfaenol, ac mae’r prif swyddog meddygol yn neilltuo pennod gyfan i hyn yn ei hadroddiad blynyddol. Mae'n nodi diben ataliol gwasanaeth gofal sylfaenol y dyfodol. Bydd gwasanaeth gofal iechyd sylfaenol ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd doeth, yn dod yn sylfaen y GIG, yn ôl yr adroddiad. Bydd yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol afiechyd; yn atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen; yn helpu'r rhai sydd wedi cael eu derbyn i fynd adref yn gyflym gyda'r gefnogaeth gywir ac yn cymell a chefnogi pobl â chyflyrau cronig a salwch hirdymor i hunan-reoli eu hiechyd gartref.

I would like to put on record my thanks to Dr Hussey both for her report and for the leadership that she provides to the medical profession in Wales. This year’s annual report reminds us of the challenges that we face—persistent inequalities, workforce pressures, shifting public health messages from education to motivation—but it also identifies a series of successes and further opportunities for the future. Realising those opportunities, the chief medical officer concludes, relies on,

Hoffwn gofnodi fy niolch i Dr Hussey am ei hadroddiad ac am yr arweiniad y mae’n ei ddarparu i'r proffesiwn meddygol yng Nghymru. Mae adroddiad blynyddol eleni yn ein hatgoffa o'r heriau sy'n ein hwynebu—anghydraddoldebau parhaus, pwysau ar y gweithlu, symud negeseuon iechyd y cyhoedd o addysg i gymhelliant—ond mae hefyd yn nodi cyfres o lwyddiannau a chyfleoedd eraill ar gyfer y dyfodol. Mae gwireddu’r cyfleoedd hynny, yn ôl casgliad y prif swyddog meddygol, yn dibynnu ar,

‘a full partnership between the public and public services at every level.’

bartneriaeth lawn rhwng y cyhoedd a gwasanaethau cyhoeddus ar bob lefel.

That is a message, Dirprwy Lywydd, that I believe should resonate with us all.

Mae honno'n neges, Ddirprwy Lywydd, a ddylai gyseinio gyda phob un ohonom, yn fy marn i.

16:36

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. Indeed, I want to put on record my thanks to Dr Hussey on the publication of her second annual report. I am very pleased to see that there is a significant emphasis in it on prevention and, indeed, on patient responsibility—something that the Minister will know I return to on a regular basis in this Chamber.

Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad. Yn wir, yr wyf am gofnodi fy niolch i Dr Hussey ar gyhoeddi ei hail adroddiad blynyddol. Rwy'n falch iawn o weld bod pwyslais sylweddol ynddo ar atal ac, yn wir, ar gyfrifoldeb cleifion—rhywbeth y bydd y Gweinidog yn gwybod fy mod yn dychwelyd ato yn rheolaidd yn y Siambr hon.

As you would expect, Minister, I have a number of questions that I would like to ask. There are parts of the report that make for worrying reading, particularly in terms of the number of avoidable deaths in 2013-14—there were over 7,000 of them here in Wales. Obviously, it is important that we reduce that number; that is the number of deaths that could have been prevented had there been more timely medical intervention, or different decisions taken about individuals' care. I know that the mortality reviews that are under way, whenever there is a death in hospitals across Wales, have been drawing out some interesting evidence on those things, but I am a little concerned, Minister, that there is little reference to mortality data in the CMO's report. There is a small sentence that suggests that it is not always necessarily the best piece of information that can be used to determine the quality of services. However, we know from evidence just this morning in the Public Accounts Committee that it was the risk adjusted mortality index figures that were published by ABMU health board that helped it, with other information as well, to triangulate those data and focus on some of the problems in terms of the care of elderly, frail people in the Princess of Wales Hospital. I think, Minister, that it would be helpful if you could outline your current thinking in terms of the use of mortality data by the Welsh NHS for the future.

Fel y byddech yn disgwyl, Weinidog, mae gennyf nifer o gwestiynau yr hoffwn eu gofyn. Mae rhannau o'r adroddiad sy'n peri pryder, yn enwedig o ran nifer y marwolaethau y gellid eu hosgoi yn 2013-14—roedd dros 7,000 ohonyn nhw yma yng Nghymru. Yn amlwg, mae'n bwysig ein bod yn lleihau'r nifer hwnnw; dyna'r nifer o farwolaethau y gellid bod wedi eu hatal pe byddai ymyrraeth feddygol fwy prydlon wedi digwydd, neu wahanol benderfyniadau wedi eu gwneud am ofal unigolion. Gwn fod yr adolygiadau marwolaethau sydd ar y gweill, pryd bynnag y mae marwolaeth mewn ysbytai ledled Cymru, wedi bod amlygu rhywfaint o dystiolaeth ddiddorol ar y pethau hynny, ond rwyf braidd yn bryderus, Weinidog, nad oes fawr o gyfeiriad at ddata marwolaethau yn adroddiad y Prif Swyddog Meddygol. Ceir brawddeg fer sy'n awgrymu nad hynny yw'r darn gorau o wybodaeth o reidrwydd y gellir ei ddefnyddio i benderfynu ar ansawdd gwasanaethau. Fodd bynnag, gwyddom o dystiolaeth y bore yma ddiwethaf yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mai'r ffigurau mynegai marwolaethau wedi'i addasu yn ôl risg a gyhoeddwyd gan fwrdd iechyd PABM a'i helpodd, ynghyd â gwybodaeth arall yn ogystal, i driongli'r data hynny a chanolbwyntio ar rai o'r problemau o ran gofalu am bobl oedrannus a bregus yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Rwy'n credu, Weinidog, y byddai'n ddefnyddiol pe gallech amlinellu eich syniadau cyfredol o ran y defnydd o ddata marwolaethau gan y GIG yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

I was very pleased to see that the CMO made reference to the need for greater transparency in information sharing in her report. It is quite right that there should be information available to the public and other interested stakeholders. Obviously, the innovation of the My Local Health Service website has been a very positive development here in Wales and I want to see that used to a greater extent in the future. You will be aware, Minister, of the concerns that have been expressed by some in this Chamber, even today, at the lack of transparency that there appears to be regarding the information that is available to the public on the escalation and intervention by the Welsh Government that is taking place in a number of health boards around Wales at present. Could you give a commitment today to the publication of that information on the My Local Health Service website, so that members of the public and other stakeholders, like Assembly Members, can refer to that and see what action is being taken by the Welsh Government to hold health boards to account and to support them in achieving their performance and quality and safety objectives?

Roeddwn yn falch iawn o weld bod y Prif Swyddog Meddygol yn cyfeirio at yr angen am fwy o dryloywder mewn rhannu gwybodaeth yn ei hadroddiad. Mae'n hollol iawn y dylai fod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb. Yn amlwg, mae arloesedd y wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol iawn yma yng Nghymru ac rwyf am weld hynny'n cael ei ddefnyddio i raddau helaethach yn y dyfodol. Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, o'r pryderon a fynegwyd gan rai yn y Siambr hon, hyd yn oed heddiw, am y diffyg tryloywder y mae'n ymddangos sy'n bodoli ynghylch y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar yr uwchgyfeirio a'r ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru sy'n digwydd mewn nifer o fyrddau iechyd ledled Cymru ar hyn o bryd. A allech chi roi ymrwymiad heddiw i gyhoeddi'r wybodaeth honno ar wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol, er mwyn i aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, fel Aelodau Cynulliad, allu cyfeirio at hynny a gweld pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i ddwyn byrddau iechyd i gyfrif ac i'w cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion perfformiad ac ansawdd a diogelwch?

The CMO's report makes reference to vaccination levels in Wales and, of course, there is nothing like a measles outbreak to drive vaccination levels up. It is pleasing to see that there has been progress against those. There is also a suggestion, Minister, that consideration be given to introducing the meningitis B vaccine in Wales. I would be very grateful if you could put on record your current thinking around that. It would be great to see that available in Wales. We know that there are many preventable deaths that could be avoided if such a vaccine were available.

Mae adroddiad y Prif Swyddog Meddygol yn cyfeirio at lefelau brechu yng Nghymru ac, wrth gwrs, nid oes dim byd tebyg i achosion o'r frech goch i gynyddu lefelau brechu. Mae'n braf gweld y bu cynnydd yn erbyn y rheini. Mae yna awgrym hefyd, Weinidog, i ystyriaeth gael ei rhoi i gyflwyno'r brechlyn llid yr ymennydd B yng Nghymru. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi ar gofnod eich syniadau presennol ynglŷn â hynny. Byddai'n wych gweld hynny ar gael yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod llawer o farwolaethau y gellir eu hatal y gellid ei osgoi pe byddai brechlyn o'r fath ar gael.

I am disappointed to note that, while there was reference to the influenza vaccine take-up among NHS staff and the fact that that had increased over the past few years, there were no comparisons to be made in the CMO's report between the take-up rates in Wales and other parts of the UK. Minister, you will know that it has been a cause of concern for members of the Public Accounts Committee in particular that the take-up levels in Wales are lower than elsewhere, and that we do not have the same ambition in terms of targets for influenza vaccination among NHS Wales front-line staff as elsewhere in the UK. I wonder whether you could advise the Chamber today whether you have reviewed your current position on that and whether there will be more ambitious targets in the current winter period.

Rwy'n siomedig i nodi, er bod cyfeiriad at fanteisio ar y brechlyn ffliw ymysg staff y GIG a'r ffaith bod hynny wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, nad oedd unrhyw gymariaethau i gael eu gwneud yn adroddiad y Prif Swyddog Meddygol rhwng y cyfraddau manteisio yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Weinidog, byddwch yn gwybod ei fod wedi bod yn achos o bryder i aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn arbennig bod y lefelau manteisio yng Nghymru yn is nag mewn mannau eraill, ac nad oes gennym yr un uchelgais o ran targedau ar gyfer brechu ffliw ymhlith staff rheng flaen y GIG yng Nghymru fel mewn mannau eraill yn y DU. Tybed a allech chi roi gwybod i'r Siambr heddiw o ba un a ydych wedi adolygu eich sefyllfa bresennol o ran hynny a pha un a fydd targedau mwy uchelgeisiol yng nghyfnod y gaeaf presennol.

Workforce challenges were also referred to in the report. It was a very interesting statistic that the CMO highlighted regarding the percentage of the population in Wales that finds it difficult to make GP appointments. I think that she said that four in 10 or around 38% of patients find it difficult. I wonder whether you can provide us with an update on what action you are taking to hold health boards to account to ensure that they are requiring GPs to fulfil their contractual obligations. One thing that we know is that, even within the current contracts, which may not be perfect, there are opportunities to get more and improved access to GPs for patients. I wonder what support you are giving to health boards to see just that.

Cyfeiriwyd hefyd at heriau i'r gweithlu yn yr adroddiad. Roedd yn ystadegyn diddorol iawn y tynnodd y prif swyddog meddygol sylw ato ynglŷn â chanran y boblogaeth yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd gwneud apwyntiadau meddyg teulu. Rwy'n credu ei bod wedi dweud bod pedwar o bob 10 claf neu tua 38% o gleifion yn ei chael hi'n anodd. Tybed a allwch chi roi diweddariad ar ba gamau yr ydych yn eu cymryd i ddwyn byrddau iechyd i gyfrif er mwyn sicrhau eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i feddygon teulu gyflawni eu rhwymedigaethau cytundebol. Un peth yr ydym yn ei wybod, hyd yn oed o fewn y contractau presennol, nad ydynt yn berffaith efallai, yw bod cyfleoedd i gael mwy a gwell mynediad at feddygon teulu ar gyfer cleifion. Tybed pa gymorth yr ydych yn ei roi i fyrddau iechyd er mwyn gweld yn union hynny.

Finally, on patient responsibility, I wonder whether you can give us an update on the Choose Well campaign and how successful, or otherwise, that has been in encouraging patients to be more responsible about the decisions that they take in terms of accessing information and advice on their own healthcare. I know that that programme has been subject to an evaluation, but I have not seen the outcome of it. It would be helpful to know what the current situation is.

Yn olaf, ar gyfrifoldeb cleifion, tybed a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch Dewis Doeth, a pha mor llwyddiannus, neu fel arall, y mae wedi bod wrth annog cleifion i fod yn fwy cyfrifol am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud o ran cael gafael ar wybodaeth a chyngor ar eu gofal iechyd eu hunain. Gwn fod y rhaglen honno wedi bod yn destun gwerthusiad, ond nid wyf wedi gweld canlyniad hynny. Byddai'n ddefnyddiol gwybod beth yw'r sefyllfa bresennol.

16:42 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Darren Millar for those questions. I will take them in order. The CMO's report provides information on preventable, amenable and avoidable deaths. She points out that it is encouraging to note that avoidable, preventable and amenable mortality have fallen year on year in Wales since 2001. Since 2001, rates of avoidable deaths in Wales have been lower than those in the north-west and the north-east of England. While the figure that the CMO quotes is the most recent one, there is a pattern here that is helpful to us. Data are important in this area. The future, I believe, lies in the development of the mortality case note review system, which we are well advanced on in Wales and to which the CMO makes reference in her report. I believe that as that develops further it will provide members of the public with a better insight into the relationship between care received and avoidable mortality. Of course, it is very important to repeat what the CMO says: the figure that she provides is not of deaths that could have been avoided by care within the health system when people become ill; it also includes all those deaths that could have been avoided by better public health measures much earlier in the system. In many ways, that is where the maximum gains are most likely to be achieved.

Diolch i Darren Millar am y cwestiynau yna. Byddaf yn ymdrin â nhw yn eu trefn. Mae adroddiad y Prif Swyddog Meddygol yn rhoi gwybodaeth am farwolaethau y gellir eu hatal, hydrin ac y gellir eu hosgoi. Mae hi'n tynnu sylw at y ffaith ei bod yn galonogol nodi bod marwolaethau y gellir eu hosgoi, y gellir eu hatal a hydrin wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn yng Nghymru ers 2001. Ers 2001, mae cyfraddau marwolaethau y gellir eu hosgoi yng Nghymru wedi bod yn is na'r rhai yng ngogledd-orllewin a gogledd-ddwyrain Lloegr. Er mai'r ffigwr y mae'r Prif Swyddog Meddygol yn ei ddyfynnu yw'r un mwyaf diweddar, mae patrwm yma sy'n ddefnyddiol i ni. Mae data yn bwysig yn y maes hwn. Mae'r dyfodol, rwy'n credu, yn ymwneud â datblygu'r system adolygu nodiadau achos marwolaethau. Rydym yn gwneud cynnydd da ar hyn yng Nghymru ac y mae'r prif swyddog meddygol yn cyfeirio ato yn ei hadroddiad. Credaf wrth i hynny ddatblygu ymhellach y bydd yn rhoi gwell syniad i aelodau'r cyhoedd o'r berthynas rhwng gofal a dderbyniwyd a marwolaethau y gellir eu hosgoi. Wrth gwrs, mae'n bwysig iawn ailadrodd yr hyn y mae'r Prif Swyddog Meddygol yn ei ddweud: nid yw'r ffigur y mae'n ei ddarparu yn un o farwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi drwy ofal o fewn y system iechyd pan fydd pobl yn mynd yn sâl; mae hefyd yn cynnwys pob marwolaeth y gellid bod wedi'i hosgoi drwy well mesurau iechyd cyhoeddus yn llawer cynharach yn y system. Mewn llawer ffordd, dyna ble mae'r enillion mwyaf yn fwyaf tebygol o gael eu cyflawni.

I am grateful to Darren Millar for what he said on the My Local Health Service website. I wish that it were used more. It is now a very rich source of information for members of the public and it manages to combine information with explanation. I think that as people find out more about it, so the use of it will go up.

Rwy'n ddiolchgar i Darren Millar am yr hyn a ddywedodd ar wefan Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol. Hoffwn weld mwy o ddefnydd ohoni. Mae bellach yn ffynhonnell gyfoethog iawn o wybodaeth i aelodau'r cyhoedd ac mae'n llwyddo i gyfuno gwybodaeth gydag esboniad. Wrth i bobl ddysgu mwy amdani, bydd y defnydd ohoni yn cynyddu yn fy marn i.

On vaccination, where meningitis B is concerned, we will follow the advice of the joint committee on vaccination and immunisation, which operates at the UK level. It has recommended the introduction of meningitis B vaccination, provided that it can be supplied by the manufacturer at a cost-effective price. It is the Department of Health in London that is leading on behalf of all four nations in the negotiations with the manufacturer, and they are not, as yet, concluded. I was pleased to see in the report that the incidence of meningitis B in Wales has fallen every year from 2005 onwards, and is now in single figures. That does not mean to say that we do not want to follow the advice of the JCVI.

O ran brechu, lle mae llid yr ymennydd B yn y cwestiwn, byddwn yn dilyn cyngor y cydbwyllgor ar frechu ac imiwneiddio, sy'n gweithredu ar lefel y DU. Mae wedi argymell cyflwyno brechiad llid yr ymennydd B, ar yr amod y gellir ei gyflenwi gan y gwneuthurwr am bris cost-effeithiol. Yr Adran Iechyd yn Llundain sy'n arwain ar ran y pedair gwlad yn y trafodaethau gyda'r gwneuthurwr, ac nid ydynt, hyd yma, wedi dod i ben. Roeddwn yn falch o weld yn yr adroddiad bod nifer yr achosion o lid yr ymennydd B yng Nghymru wedi gostwng bob blwyddyn o 2005 ymlaen, ac mae bellach mewn ffigurau sengl. Nid yw hynny'n golygu nad ydym yn dymuno dilyn cyngor y cydbwyllgor ar frechu ac imiwneiddio.

Staff uptake of flu immunisation is not where we would like it to be, but the rate of improvement among staff in Wales has been by far the fastest of any of the four home nations. We have now overtaken some other parts of the United Kingdom. I have spoken at length with representatives of staff groups as to whether this is the right year to change the target figure. By and large, their advice to me is that it would be demotivating, in this year, to move the goalposts further forward just as we look as though we are about to reach them. However, I understand that we need a target that is stretching and challenging, as well as one that motivates people. I am clear that this is the last year in which we will rely entirely on persuasion and making it easier for staff to take up the flu vaccination. We need a different sort of message in the system as well, and I will keep the whole issue of targets under review.

Nid yw manteisio gan staff ar imiwneiddiad ffliw ble yr hoffem iddo fod, ond mae cyfradd y gwelliant ymhlith staff yng Nghymru wedi bod o bell ffordd y cyflymaf o unrhyw un o'r pedair o wledydd cartref. Rydym bellach wedi mynd ar y blaen i rai rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Rwyf wedi siarad yn helaeth â chynrychiolwyr grwpiau staff ynglŷn â'r cwestiwn o ba un ai hon yw'r flwyddyn iawn i newid y ffigur targed. Ar y cyfan, eu cyngor i mi yw na fyddai'n ysgogol, yn y flwyddyn hon, i symud pyst y gôl ymhellach ymlaen ar yr union adeg y mae’n edrych yn debygol ein bod ar fin eu cyrraedd. Fodd bynnag, rwy’n deall bod angen targed sy'n ymestynnol a heriol, yn ogystal ag un sy'n ysgogi pobl. Rwy’n glir mai hon yw'r flwyddyn olaf y byddwn yn dibynnu'n gyfan gwbl ar berswâd a'i gwneud yn haws i staff fanteisio ar y brechiad rhag y ffliw. Mae arnom angen gwahanol fath o neges yn y system yn ogystal, a byddaf yn cadw’r holl fater o dargedau o dan adolygiad.

As far as the workforce is concerned, it is very important that GPs fulfil their contractual obligations, and there has been a great deal of progress in making sure that they open for their contracted hours, right across Wales. To improve access in primary care, the chief medical officer is clear that the workforce of tomorrow will not be the workforce of yesterday, but will rely on a broader range of contributions from different professional groups, all able to make a contribution to seeing patients effectively and providing effective care at primary care level.

Cyn belled ag y mae’r gweithlu yn y cwestiwn, mae'n bwysig iawn bod meddygon teulu yn cyflawni eu rhwymedigaethau cytundebol, a bu llawer iawn o gynnydd wrth sicrhau eu bod yn agor ar gyfer eu horiau contract, ar hyd a lled Cymru. Er mwyn gwella mynediad mewn gofal sylfaenol, mae'r prif swyddog meddygol yn glir nad gweithlu ddoe fydd gweithlu yfory, ond bydd yn dibynnu ar ystod ehangach o gyfraniadau gan grwpiau proffesiynol gwahanol, pob un yn gallu gwneud cyfraniad at weld cleifion yn ymarferol a darparu gofal effeithiol ar lefel gofal sylfaenol.

Finally, on the point of responsibility, the report echoes the position that I think that I would take: Government has a responsibility to create the conditions in which people are better able to look after their own health, and the Choose Well campaign is about creating those conditions. Then individuals have a responsibility to take advantage of the opportunities that have been afforded. Once the Choose Well evaluation is available for publication, I will make sure that it is shared with Members.

Yn olaf, ar y pwynt o gyfrifoldeb, mae’r adroddiad yn adleisio safbwynt yr wyf yn meddwl y byddwn i’n ei gymryd: mae gan Lywodraeth gyfrifoldeb i greu'r amodau lle mae pobl yn gallu gofalu am eu hiechyd eu hunain yn well, ac mae'r ymgyrch Dewis Doeth yn ymwneud â chreu’r amodau hynny. Mae gan unigolion wedyn gyfrifoldeb i fanteisio ar y cyfleoedd sydd wedi eu cynnig. Pan fydd y gwerthusiad Dewis Doeth ar gael ar gyfer ei gyhoeddi, byddaf yn sicrhau ei fod yn cael ei rannu gydag Aelodau.

16:48

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolchaf i’r prif swyddog meddygol am ei hadroddiad blynyddol, ac mae adroddiad blynyddol o’r math hwn yn ffon fesur ddefnyddiol i asesu cynnydd a pherfformiad y Llywodraeth yn gwella iechyd y cyhoedd a pherfformiad cenedl o unigolion yn gwella ein hiechyd hefyd. Mae camau a chynnydd cadarnhaol wedi eu cyflawni ond mae mwy eto i’w wneud ac mae sialensiau newydd yn wynebu ein cymdeithas a Llywodraeth o flwyddyn i flwyddyn hefyd yn y maes hwn.

I thank the chief medical officer for her annual report, and such an annual report is a useful yardstick to assess progress and Government performance in terms of improving public health and the performance of a nation of individuals in improving our own health as well. There are positive steps and progress but there is more still to be done and there are new challenges facing our society and Government year on year in this particular area.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau penodol. Yn gyntaf, Weinidog, mae’r adroddiad yn glir iawn bod y linc rhwng lefelau afiechyd a thlodi yn para yn linc anodd iawn i’w dorri. Yn ystod cwestiynau'r prynhawn yma ar raglenni a chynlluniau gwrthdlodi’r Llywodraeth, fe glywsom ni restrau o gynlluniau sydd yn cael eu cyflawni gan y Llywodraeth, a Cymunedau yn Gyntaf, o bosibl, yw’r mwyaf sylweddol o’r rheiny, wedi ei dargedu at ardaloedd o amddifadedd. A ydych chi’n hyderus bod y cynlluniau hynny yn ddigon gweithredol ym maes iechyd cyhoeddus i sicrhau bod y cynlluniau hynny hefyd yn gweithio i geisio torri’r linc rhwng lefelau afiechyd a thlodi? A ydych chi’n hyderus bod gan y prif swyddog meddygol, er enghraifft, gysylltiad digon agos â rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf i sicrhau hynny?

I have a few specific questions. First of all, Minister, the report is very clear that the link between levels of ill health and poverty continues to be a link that is very difficult to break. During questions this afternoon on the Government’s anti-poverty plans and programmes, we heard mention of a range of schemes that are delivered by the Government, and Communities First, perhaps, is the most significant of those, targeted at areas of deprivation. Are you confident that those schemes are sufficiently active in the public health sphere to ensure that they too work towards endeavouring to break the link between levels of ill health and poverty? Are you confident that the CMO, for example, has sufficiently close links with programmes such as Communities First in order to ensure that that happens?

Yn ail, mae'r prif swyddog meddygol yn glir iawn yn ei hadroddiad hi am yr angen i leihau faint o siwgr sydd yn neiet yr unigolyn ac yn gweld yn glir bod angen edrych ar drethiant ar ddiodydd melys fel modd i hyrwyddo hyn. Mae eich datganiad chi tipyn bach yn fwy amwys ynglŷn â safbwynt y Llywodraeth ar drethiant ar ddiodydd melys, felly efallai gallaf eich temtio i esbonio'n gliriach eich safbwynt polisi chi a pha gamau yr ydych yn eu cymryd, os ydych o blaid trethiant ar ddiodydd melys, i annog Llywodraeth San Steffan, gan mai yn y fan honno mae'r pwerau yn bodoli ar hyn o bryd, edrych o ddifrif ar drethiant o'r math hwnnw.

Secondly, the CMO is very clear in her report on the need to reduce the amount of sugar in individuals' diets and clearly sees that there is a need to look at taxation of sugary drinks as a means of promoting this. Your statement is a little more ambiguous perhaps as to the Government's stance on taxation of sugary drinks, so perhaps I could tempt you to explain a little more clearly your policy stance on this issue and what steps you are taking, if you are in favour of taxation of sugary drinks, to encourage the Westminster Government, as the powers currently reside there, to look seriously at such a tax.

Yn olaf, a gaf dynnu sylw at hyn? Mae'r prif swyddog meddygol yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau gweithlu digonol yn y gymuned er mwyn cwrdd ag anghenion iechyd ein cymunedau, ac mae'n cyfeirio'n benodol at yr ystadegyn hwnnw fod 23% o'n meddygon teulu dros 55 oed, ac, yn gynyddol, mae yna bractisiau mewn gwahanol leoedd yng Nghymru sydd yn ei ffeindio'n anodd iawn recriwtio GPs newydd. Mae Plaid Cymru yn glir iawn yn ein barn fod angen agwedd llawer mwy rhagweithiol wrth hyfforddi a recriwtio gweithlu meddygol, a gweithlu iechyd ehangach na hynny, i'r dyfodol. Felly, mae'r cwestiwn olaf, Weinidog, yw: pa gamau yr ydych yn mynd i'w cymryd i fod yn fwy rhagweithiol er mwyn sicrhau bod gweithlu digonol i'r dyfodol? Gweithlu'r dyfodol a wnaethoch ei alw, yn hytrach na gweithlu'r gorffennol, ond, er mwyn cyflawni hynny a chyflawni'r hyn y mae'r prif swyddog meddygol eisiau gweld yn cael ei gyflawni, mae'n rhaid bod cynllunio o'r gweithlu yn digwydd, a hynny'n rhagweithiol ar eich rhan chi fel Gweinidog iechyd.

Finally, may I just highlight this? The chief medical officer highlights the need to ensure an adequate workforce in the community to meet the health needs of our communities and makes specific reference to the statistic that 23% of our GPs are over the age of 55, and, increasingly, practices in various areas of Wales are finding it very difficult to recruit new GPs. Plaid Cymru is very clear in our view that we need a far more proactive approach in training and recruiting a medical workforce, and a wider health workforce, for the future. Therefore, the final question, Minister, is: what steps are you taking to be more proactive in order to ensure that there is an adequate workforce in place for the future? You called it the workforce of the future rather than the workforce of the past, but, in order to achieve that and to achieve what the chief medical officer wants to see achieved, there must be workforce planning happening, and that must be proactive from your point of view as Minister for health.

16:51 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolchaf yn fawr i Elin Jones am y cwestiynau. I ddechrau gyda'r un cyntaf, wrth gwrs, mae addroddiad y prif swyddog meddygol yn canolbwyntio ar yr hyn yr ydym yn trio ei wneud i dorri'r berthynas rhwng tlodi ac afiechyd. Mae hi'n dweud yn glir:

I thank Elin Jones very much for the questions. To start with the first question, of course, the chief medical officer's report concentrates on what we are trying to do to break the link between poverty and poor health. She states clearly:

'the gap between the most and least deprived…of areas…has been stabilising…the gap has been stable or decreasing for males since around 2005-07, and for females since around 2007-09'.

mae'r bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ...... wedi bod yn sefydlogi ... mae'r bwlch wedi bod yn sefydlog neu'n gostwng ar gyfer dynion ers tua 2005-07, ac ar gyfer menywod ers tua 2007-09.

Wrth gwrs, mae hi'n cyfeirio at bethau eraill yr ydym yn gallu eu gwneud. Rwy'n hollol hyderus. Mae Dr Hussey yn canolbwyntio ar bethau yr ydym yn gallu eu gwneud, y berthynas rhwng yr hyn yr ydym yn gallu ei wneud ym maes iechyd a phethau yr ydym yn eu gwneud fel Llwyodraeth—Communities First, er enghraifft. Mae hi'n gwneud lot o waith ym maes iechyd y cyhoedd i drio tynnu pethau at ei gilydd a chael yr effaith mwyaf ar y berthynas rhwng tlodi ac afiechyd. Mae pethau newydd yr ydym yn eu gwneud ym myrddau iechyd lleol Aneurin Bevan a Chwm Taf, ac mae'r adroddiad yn cyfeirio at y cynlluniau hynny hefyd.

Of course, she refers to other things that we can do. I am entirely confident. Dr Hussey is concentrating on things that we can do, the relationship between what we can do in relation to health and other things that we do as a Government—Communities First, for example. She is doing a great deal of work in the field of public health to try to draw things together and to have the greatest possible effect on the link between poverty and ill health. There are new things that we are doing in the Aneurin Bevan and Cwm Taf local health boards, and the report also refers to those schemes.

O ran y maes trethi, wrth gwrs mae rôl i drethi ym maes iechyd y cyhoedd. Mae’r prif swyddog meddygol wedi canolbwyntio ar siwgr a’r effaith y mae’r siwgr yn ei chael ar iechyd pobl ifanc. Mae hi’n glir bod y pwerau yn dal ar lefel y Deyrnas Unedig, ac mae hi’n dweud wrthynt wneud mwy o waith o ran gwneud ymchwil i’r achos a’r effaith y bydd trethi yn ei chael. Ym maes diodydd melys, er enghraifft, mae hi’n tynnu sylw at y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn Iwerddon yn y maes hwn, ac mae hi’n dweud wrth y Gweinidogion yn Llywodraeth San Steffan bod yna fwy y maent yn gallu ei wneud i’n helpu ni yng Nghymru drwy wneud pethau fel hynny.

In terms of taxation, there is a role for taxation, of course, in public health. The chief medical officer has focused on sugar and the effect that sugar has on the health of younger people. She is clear that the powers remain at the United Kingdom level, and she is passing on that message to do more work in terms of carrying out research into the cause and the effect that taxation will have. In terms of soft drinks, for example, she draws attention to the work that has been done in Ireland already in this area, and she is passing on the message to Westminster Ministers that there is more that they can do to help us in Wales by doing things such as that.

Yn olaf, ar y gweithlu, wrth gwrs, mae’r adroddiad yn tynnu sylw at broblemau. Rydym yn ymwybodol amdanynt. Yr hyn sy’n glir o’r adroddiad yw nad yw canolbwyntio ar GPs yn unig yn mynd i fod yn ddigonol. Os ydym yn mynd i roi’r gwasanaethau yr ydym eisiau eu rhoi mewn gofal sylfaenol, mae’n rhaid i ni dynnu mewn y pethau y mae pobl eraill yn y maes yn gallu eu gwneud, a thrwy wneud hynny, mae’r Dr Hussey yn dweud ei bod hi’n hyderus ein bod yn gallu wynebu’r sialensiau sydd gennym yn y maes hwnnw.

Finally, on the workforce, of course, the report draws attention to the issues. We are aware of them. What the report states clearly is that just concentrating on GPs is not going to be sufficient. If we are going to place the services that we want to place in primary care, we have to draw in the things that other people in the field can do, and, by doing that, Dr Hussey says that she is confident that we can face the challenges that we have in that area.

16:55 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, may I also thank Dr Hussey for the report? She did come before the committee just before the half-term recess and we were able to ask her questions on that report. However, as the report identifies, there are many issues that are the responsibility of, and are recommendations to, the Welsh Government. May I also thank you for your response to Darren Millar? I was concerned about the immunisation and flu vaccination area in relation to front-line staff in the workforce, and you have highlighted the moves to take that forward. I hope that you continue at the speed you are talking about so that we can hit the targets we want to hit.

Weinidog, a gaf innau hefyd ddiolch i Dr Hussey am yr adroddiad? Fe wnaeth hi ddod gerbron y pwyllgor ychydig cyn y toriad hanner tymor ac roeddem yn gallu gofyn cwestiynau iddi ar yr adroddiad hwnnw. Fodd bynnag, fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae llawer o faterion sy'n gyfrifoldeb, ac sy’n argymhellion, i Lywodraeth Cymru. A gaf i hefyd ddiolch i chi am eich ateb i Darren Millar? Roeddwn yn pryderu am faes imiwneiddio a brechu rhag ffliw o ran staff rheng flaen yn y gweithlu, ac rydych wedi tynnu sylw at y camau i fwrw ymlaen â hynny. Rwy'n gobeithio y byddwch yn parhau ar y cyflymder yr ydych yn sôn amdano fel y gallwn gyrraedd y targedau yr ydym yn dymuno eu cyrraedd.

On immunisation, may I also talk about the measles issue, because my region was clearly the centre of the measles outbreak? We saw that increase, but that was the first dose and there is a question about the second dose. What action is the Welsh Government taking to ensure that the second dose is taken up, so that the numbers continue to rise, and to particularly target the 10 to 16-year-olds who missed that in the initial period because of the scare at that point in time?

Ar imiwneiddio, efallai y byddaf hefyd yn siarad am fater y frech goch, gan fod fy rhanbarth yn amlwg yng nghanol yr achosion o’r frech goch? Gwelsom y cynnydd hwnnw, ond y dos cyntaf oedd hwnnw ac mae cwestiwn ynghylch yr ail ddos. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau derbyn yr ail ddos, fel bod y niferoedd yn parhau i gynyddu, ac i dargedu yn arbennig y rhai 10 i 16 mlwydd oed a gollodd hynny yn y cyfnod cychwynnol oherwydd yr ofn ar yr adeg honno?

I welcome the comments on sugar and on the issues in relation to sugar to address obesity, but there is no reference to any physical activity and the promotion of physical activity to tackle the obesity issue as well—it is not just about a tax on sugar as a way of tackling diet, but also about ways to encourage people to be more active in life. What is the Welsh Government going to do to promote physical activity as much as other actions on diet?

Croesawaf y sylwadau ar siwgr ac ar y materion yn ymwneud â siwgr i fynd i'r afael â gordewdra, ond nid oes cyfeiriad at unrhyw weithgarwch corfforol a hybu gweithgarwch corfforol i fynd i'r afael â phroblem gordewdra hefyd—nid mater o dreth ar siwgr yn unig fel ffordd o fynd i'r afael â diet yw hyn, ond mae’n ymwneud hefyd â ffyrdd o annog pobl i fod yn fwy gweithgar mewn bywyd. Beth mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i hyrwyddo gweithgaredd corfforol i’r un graddau â chamau gweithredu eraill ar ddeiet?

You mentioned health inequalities and, as has been mentioned already this afternoon, our most deprived areas have some of the issues that need to be tackled most and the hard-to-reach groups. So, again, how are we tackling and getting to hard-to-reach groups? In relation to that, I welcome the programme that has been established to look at tackling the inverse care law, which obviously affects those areas. However, how are we going to monitor the effectiveness of that programme, particularly the effectiveness of health boards in delivering that programme, so that, when we are talking about the primary care services and community services in those groups, we are actually saying how we are assessing the effectiveness of that work?

Soniasoch am anghydraddoldebau iechyd ac, fel y crybwyllwyd eisoes y prynhawn yma, mae gan ein hardaloedd mwyaf difreintiedig rai o'r problemau y mae angen mynd i'r afael â nhw fwyaf a'r grwpiau anodd eu cyrraedd. Felly, unwaith eto, sut yr ydym ni'n mynd i'r afael ac yn cael at grwpiau anodd eu cyrraedd? Ynglŷn â hynny, rwy'n croesawu'r rhaglen sydd wedi ei sefydlu i edrych ar fynd i'r afael â'r ddeddf gofal gwrthgyfartal, sy'n amlwg yn effeithio ar y meysydd hynny. Fodd bynnag, sut yr ydym ni'n mynd i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen honno, yn enwedig effeithiolrwydd y byrddau iechyd i gyflawni'r rhaglen honno, er mwyn sicrhau, pan fyddwn yn sôn am y gwasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol yn y grwpiau hynny, ein bod mewn gwirionedd yn dweud sut yr ydym yn asesu effeithiolrwydd y gwaith hwnnw?

Prudent healthcare is obviously something that I welcome. We talked about patient responsibility and Darren Millar asked about the Choose Well programme. I will be honest: it took me a while to get my head around the concept of prudent healthcare, but, once I had got it, I fully agreed with it and I think it is a marvellous move forward. However, how are we promoting that strategy to the wider population to ensure that everyone understands the way in which we wish to move forward? That is not just the service, but also the public and those who are going to be the patients.

Mae gofal iechyd doeth yn amlwg yn rhywbeth yr wyf yn ei groesawu. Rydym yn siarad am gyfrifoldeb cleifion a gofynnodd Darren Millar am y rhaglen Dewis Doeth. Byddaf yn onest: cymerodd beth amser i mi ddeall y cysyniad o ofal iechyd darbodus, ond, ar ôl i mi ei ddeall, roeddwn yn cytuno'n llwyr ag ef ac rwy'n credu ei fod yn gam gwych ymlaen. Fodd bynnag, sut yr ydym ni'n hyrwyddo'r strategaeth honno i'r boblogaeth ehangach er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y ffordd yr ydym yn dymuno symud ymlaen?  Nid dim ond y gwasanaeth yw hynny, ond hefyd y cyhoedd a'r rhai sydd yn mynd i fod y cleifion.

I want to talk about screening. Clearly, we talked about the cancer delivery plan, and I await the Government's response to the committee's report on that. However, how are we tackling screening? We have three areas, but there is also the prostate cancer risk management programme. Are we looking at introducing additional programmes to help early diagnosis and to deal with the issues very early on? It has been recognised that the earlier we catch something, the more chance we have of people surviving.

Rwyf eisiau siarad am sgrinio. Yn amlwg, rydym wedi siarad am y cynllun cyflawni canser, ac rwy'n aros am ymateb y Llywodraeth i adroddiad y pwyllgor ar hynny. Fodd bynnag, sut yr ydym ni'n mynd i'r afael â sgrinio? Mae gennym dri maes, ond mae rhaglen rheoli risg canser y prostad hefyd. A ydym ni'n ystyried cyflwyno rhaglenni ychwanegol i helpu diagnosis cynnar ac i ymdrin â'r problemau yn gynnar iawn? Mae wedi cael ei gydnabod mai'r cynharaf yr ydym yn dal rhywbeth, y mwyaf o siawns sydd gennym o bobl yn goroesi.

My final point, Minister, is on chronic conditions, which were highlighted by the chief medical officer. We have several delivery plans that the Government has introduced, and I welcome them—they are effective and they are good. However, one of the figures identified in the report was on arthritis: 12% of the population suffers with arthritis. I looked up the musculoskeletal action plan and the foreword was by my predecessor, Dr Brian Gibbons, when he was Minister for health, and I just want to know when the Government updates these plans to ensure that we are still tackling the chronic conditions that clearly affect a large proportion of our communities.

Fy mhwynt olaf, Weinidog, yw ar gyflyrau cronig, a amlygwyd gan y prif swyddog meddygol. Mae gennym nifer o gynlluniau cyflenwi y mae'r Llywodraeth wedi'u cyflwyno, ac rwy'n eu croesawu —maen nhw'n effeithiol ac maen nhw'n dda. Fodd bynnag, un o'r ffigurau a nodwyd yn yr adroddiad oedd ar arthritis: mae 12% o'r boblogaeth yn dioddef gydag arthritis. Edrychais ar y cynllun gweithredu cyhyrysgerbydol ac roedd y rhagair oedd gan fy rhagflaenydd, Dr Brian Gibbons, pan oedd ef yn Weinidog iechyd, ac rwyf eisiau gwybod pryd y bydd y Llywodraeth yn diweddaru'r cynlluniau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fynd i'r afael â'r cyflyrau cronig sydd yn amlwg yn effeithio ar gyfran fawr o'n cymunedau.

16:58 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank David for all of those points. I will try to pick out the ones that I have not addressed already.

Diolch i David am bob un o'r pwyntiau yna. Byddaf yn ceisio dewis y rhai nad wyf wedi mynd i'r afael â nhw eisoes.

In relation to measles and the second dose, there is more to be done to persuade people to bring children forward for the second dose. The first dose provides the major immunity against measles, but the second dose is important as well. We do still have a cohort aged between 10 and 16 who missed out during the period of controversy about the MMR. We were very successful in catching up with that cohort in those places where the measles outbreak was most apparent. However, you only had to go 10 miles away from the epicentre of it to find that, when clinics were put on, there was still a trickle rather than a rush of people into them. I am afraid that it is one of those areas that people respond to when they think the risk is really on their doorstep. If they do not think that, they think it is not going to happen to them. So, it is not an easy area to make as much progress in as we would like.

O ran y frech goch a'r ail ddos, mae mwy i'w wneud i berswadio pobl i ddod â phlant ymlaen ar gyfer yr ail ddos. Mae'r dos cyntaf yn darparu'r prif imiwnedd rhag y frech goch, ond mae'r ail ddos yn bwysig hefyd. Mae gennym garfan o hyd rhwng 10 a 16 oed sydd wedi eu methu yn ystod y cyfnod o ddadlau am yr MMR. Roeddem yn llwyddiannus iawn wrth ddal i fyny â'r garfan honno yn y mannau hynny lle'r oedd yr achosion o'r frech goch yn fwyaf amlwg. Fodd bynnag, nid oedd ond yn rhaid i chi fynd 10 milltir i ffwrdd oddi wrth ei uwchganolbwynt i weld, pan oedd clinigau yn cael eu cynnal, mai diferiad a gafwyd yn hytrach na rhuthr o bobl i mewn iddynt. Rwy'n ofni ei fod yn un o'r meysydd hynny y mae pobl yn ymateb iddynt pan fyddant yn credu bod y risg yn wirioneddol ar garreg eu drws. Os nad ydynt yn credu hynny, maent yn meddwl nad yw'n mynd i ddigwydd iddyn nhw. Felly, nid yw'n faes hawdd i wneud cymaint o gynnydd ynddo ag yr hoffem ei wneud.

The chief medical officer's report does refer at some length to physical activity. She refers to the very considerable achievements of Sport Wales in increasing the number of young people taking part in sport or physical activity, and in the active adults survey, which showed a 10% increase in the number of adults reporting themselves as taking part three times or more a week in sport—up to 39% in 2013, and on an upward trail but with definitely more to do.

Mae adroddiad y prif swyddog meddygol yn cyfeirio yn helaeth at weithgaredd corfforol. Mae hi'n cyfeirio at gyflawniadau sylweddol iawn Chwaraeon Cymru i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol, ac yn yr arolwg oedolion egnïol, a oedd yn dangos cynnydd o 10% yn nifer yr oedolion sy'n adrodd eu bod yn cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos mewn chwaraeon—hyd at 39% yn 2013, ac ar lwybr tuag at i fyny, ond yn bendant mae mwy i'w wneud.

The inverse care law programmes in Aneurin Bevan and Cwm Taf have got evaluations built into them. They are an integral part of that work. We will look to see the lessons that they draw in trying to reach those groups that are hardest to reach, and then to try and universalise those lessons elsewhere. Screening is a very important tool in the public health box. It is there alongside immunisation. We take advice from national screening committees. They do not yet recommend a national screening programme in relation to prostate cancer, but we continue to take their advice as it arrives. We are just about completing a review of the musculoskeletal service, and we will be doing things to update the way in which it implements some plans and protocols, which the review is suggesting have stood the test of time but there is more to be done in terms of implementation.

Mae gan raglenni'r ddeddf gofal gwrthgyfartal yn Aneurin Bevan a Chwm Taf werthusiadau yn rhan ohonynt. Maent yn rhan annatod o'r gwaith hwnnw. Byddwn yn edrych i weld y gwersi y maent yn eu tynnu wrth geisio cyrraedd y grwpiau hynny sydd fwyaf anodd eu cyrraedd, ac yna'n ceisio cyffredinoli'r gwersi hynny mewn mannau eraill. Mae sgrinio yn offeryn pwysig iawn ym mlwch iechyd y cyhoedd. Mae yno ochr yn ochr ag imiwneiddio. Rydym yn cymryd cyngor gan bwyllgorau sgrinio cenedlaethol. Nid ydynt hyd yma yn argymell rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser y prostad, ond rydym yn parhau i gymryd eu cyngor fel y mae'n cyrraedd. Rydym ar fin cwblhau adolygiad o'r gwasanaeth cyhyrysgerbydol, a byddwn yn gwneud pethau i ddiweddaru'r ffordd y mae'n gweithredu rhai cynlluniau a phrotocolau, y mae'r adolygiad yn awgrymu eu bod wedi gwrthsefyll prawf amser, ond mae mwy i'w wneud o ran gweithredu.

17:01

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I welcome the statement, Minister, and also the report? The report has stark figures on health inequality in Wales, with mortality over twice as high in the most deprived groups, compared with the least. That is a quote from the report. The health service can and should promote good health, and we know that the determinants of health include many other issues such as economic status, level of income, educational standards, and standards of accommodation. These will have a direct impact on life expectancy levels.

A gaf i groesawu'r datganiad, Weinidog, a hefyd yr adroddiad? Mae gan yr adroddiad ffigyrau moel ar anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru, gyda marwolaethau dros ddwywaith yn uwch yn y grwpiau mwyaf difreintiedig, o'i gymharu â'r lleiaf. Dyfyniad o'r adroddiad yw hynny. Gall y gwasanaeth iechyd hyrwyddo iechyd da a dylai wneud hynny, a gwyddom fod y penderfynyddion iechyd yn cynnwys llawer o faterion eraill fel statws economaidd, lefel incwm, safonau addysgol, a safonau llety. Bydd gan y rhain effaith uniongyrchol ar lefelau disgwyliad oes.

Could I therefore ask the Minister, do you expect to see a fall in inequality in avoidable mortality rates in the next CMO report, and what can you do to directly influence that particular issue? I notice also that, in your statement and in the report, there is a lot of reference to preventative health action, which is very welcome. I understand that, in your evidence to the health committee on the budget, you said that only 2% of your budget is actually spent on preventative action. Could you clarify that and say whether you are intending to increase that spend on preventative action in your budget to try to turn around some of these statistics?

A gaf fi, felly, ofyn i'r Gweinidog, a ydych chi'n disgwyl gweld gostyngiad mewn anghydraddoldeb mewn cyfraddau marwolaethau y gellir eu hosgoi yn adroddiad nesaf y Prif Swyddog Meddygol, a beth allwch chi ei wneud i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y mater penodol hwnnw? Rwy'n sylwi hefyd, yn eich datganiad ac yn yr adroddiad, bod llawer o gyfeirio at gamau iechyd ataliol, sydd i'w groesawu'n fawr. Rwy'n deall, yn eich tystiolaeth i'r pwyllgor iechyd ar y gyllideb, eich bod wedi dweud mai dim ond 2% o'ch cyllideb sy'n cael ei wario mewn gwirionedd ar gamau ataliol. A allech chi egluro hynny a dweud pa un a ydych yn bwriadu cynyddu'r gwariant hwnnw ar gamau ataliol yn eich cyllideb i geisio gwrthdroi rhai o'r ystadegau hyn?

The 2012-13 chief medical officer report recommended that NHS Wales and the Welsh Government should drive improved health at work by providing support for individuals to maintain healthy lifestyles and by designing health services that reduce lost productivity. What action has the Welsh Government taken since that recommendation, and how successful has it been?

Argymhellodd adroddiad 2012-13 y prif swyddog meddygol y dylai GIG Cymru a Llywodraeth Cymru sbarduno gwell iechyd yn y gwaith drwy ddarparu cefnogaeth i unigolion gynnal ffyrdd iach o fyw a thrwy gynllunio gwasanaethau iechyd sy'n lleihau colli cynhyrchiant. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ers yr argymhelliad hwnnw, a pha mor llwyddiannus fuon nhw?

Finally, Minister, in relation to GPs, we know that GP services across Wales are crucial as more and more people suffer chronic disease and long-term issues such as mental illness, high blood pressure, arthritis or diabetes. I think that the chief medical officer has reiterated concerns about problems in recruiting GPs as many near retirement. GPs aged 55 or over make up nearly a quarter of the workforce, and that proportion is increasing, up by 5 percentage points in the last decade. What are you doing to resolve the poor responses to recruitment initiatives, in terms of tackling that problem, which is particularly acute in rural areas? I note also that the CMO says that she wants communities to work with health boards to improve primary healthcare, and yet, in a recent example, the Oxford Street surgery in Aberaeron was closed with little or no public consultation. The bulk of the surgery's 1,500 patients are expected to transfer to Aberaeron's Tanyfron surgery. So, how is the Government making sure that that consultation is taking place, and that people are being involved in those decisions?

Yn olaf, Weinidog, ynglŷn â meddygon teulu, rydym yn gwybod bod gwasanaethau meddygon teulu ledled Cymru yn hanfodol wrth i fwy a mwy o bobl ddioddef clefydau cronig a phroblemau hirdymor fel salwch meddwl, pwysedd gwaed uchel, arthritis neu ddiabetes. Credaf fod y prif swyddog meddygol wedi ailadrodd pryderon am broblemau wrth recriwtio meddygon teulu wrth i lawer nesáu at ymddeol. Mae meddygon teulu 55 oed a hŷn yn cyfrif am bron i chwarter y gweithlu, ac mae'r gyfran honno'n cynyddu, i fyny gan 5 pwynt canran yn ystod y degawd diwethaf. Beth ydych chi'n ei wneud i ddatrys yr ymatebion gwael i fentrau recriwtio, o ran mynd i'r afael â'r broblem honno, sydd yn arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd gwledig? Nodaf hefyd fod y Prif Swyddog Meddygol yn dweud ei bod yn dymuno i gymunedau weithio gyda byrddau iechyd i wella gofal iechyd sylfaenol, ac eto, mewn enghraifft ddiweddar, cafodd meddygfa Stryd Rhydychen yn Aberaeron ei chau gydag ychydig neu ddim ymgynghori cyhoeddus. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r 1,500 o gleifion y feddygfa i drosglwyddo i feddygfa Tanyfron Aberaeron. Felly, sut y mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod yr ymgynghoriad hwnnw yn cael ei gynnal, a bod pobl yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau hynny?

17:04

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Peter Black for those questions. Of course, health inequalities are persistent and very difficult to shift. I do not think that you can look for year-on-year changes. You could look at patterns over a longer period of time, and, as I quoted earlier, the report shows that, for nearly a decade now, the gap between the most and the least deprived areas, in terms of health for men, has been decreasing. I do look to that to continue.

Diolch i Peter Black am y cwestiynau yna. Wrth gwrs, mae anghydraddoldebau iechyd yn barhaus ac yn anodd iawn cael gwared arnynt. Nid wyf yn credu y gallwch ddisgwyl newidiadau o flwyddyn i flwyddyn. Gallech edrych ar batrymau dros gyfnod hwy o amser, ac, fel y dyfynnais yn gynharach, dengys yr adroddiad, am bron i ddegawd erbyn hyn, bod y bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, o ran iechyd i ddynion, wedi bod yn lleihau. Rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n parhau.

The budget issues, I think, are misleading. The 2% relates to activity that is exclusively devoted to prevention. I think that the whole system has to be preventative. It is not a matter of increasing exclusive preventative spend, but of persuading those who spend the vast bulk of the money in the health service to have a preventative purpose in it from the beginning. There is more that we have done in the workplace. We have done more in occupational health this year. We have a very direct interest in doing that, because of sickness levels among NHS staff, which we know, with our trade union colleagues, we need to bear down on in order to help us to address some of the other challenges that we face.

Mae materion y gyllideb, rwy'n meddwl, yn gamarweiniol. Mae'r 2% yn ymwneud â gweithgaredd sy'n cael ei neilltuo'n benodol i atal. Credaf fod yn rhaid i'r system gyfan fod yn ataliol. Nid yw'n fater o gynyddu gwariant ataliol unigryw, ond o berswadio'r rhai sy'n gwario'r rhan helaethaf o'r arian yn y gwasanaeth iechyd i gael diben ataliol ynddo o'r cychwyn. Mae mwy yr ydym wedi'i wneud yn y gweithle. Rydym wedi gwneud mwy mewn iechyd galwedigaethol eleni. Mae gennym ddiddordeb uniongyrchol iawn mewn gwneud hynny, oherwydd lefelau salwch ymhlith staff y GIG, a gwyddom, gyda'n cydweithwyr yn yr undebau llafur, bod angen i ni ganolbwyntio arnynt, er mwyn ein helpu ni i fynd i'r afael â rhai o'r heriau eraill a wynebwn.

As far as GP profiles are concerned, the profile of ages in Wales is almost identical to that in England, better than that in Northern Ireland, and slightly more adverse than that in Scotland, but we are right there in the middle of the pack. We share the same problem with others. There are many things that we are doing to try to make it easier to retain and recruit GPs. I list them here regularly in the Chamber and will not repeat them this afternoon, but I will repeat the general point that the chief medical officer makes, namely that the primary care workforce of the future, in which GPs will have an absolutely central place, will not rely simply on them but will rely on that wider team. Where changes take place, consultation is important. I am not sure that the account that Elin Jones gave to me of a public meeting in Aberaeron, when changes there were being discussed, completely bears out Peter Black's notion that consultation had not happened. It seemed a particularly lively occasion to me. However, where changes happen, he is right to make the general point that consultation with the wider public is extremely important.

Cyn belled ag y mae proffiliau meddygon teulu yn y cwestiwn, mae'r proffil oedran yng Nghymru bron yn union yr un fath â'r un yn Lloegr, yn well na'r un yng Ngogledd Iwerddon, ac ychydig yn fwy anffafriol na'r un yn yr Alban, ond rydym yno yng nghanol y pac. Rydym yn rhannu'r un broblem â phobl eraill. Mae llawer o bethau yr ydym yn ei wneud i geisio'i gwneud yn haws i gadw a recriwtio meddygon teulu. Rwy'n eu rhestru yma'n rheolaidd yn y Siambr, ac ni fyddaf yn eu hailadrodd y prynhawn yma, ond rwyf am ailadrodd y pwynt cyffredinol y mae'r prif swyddog meddygol yn ei wneud, sef na fydd gweithlu gofal sylfaenol y dyfodol, lle y bydd meddygon teulu yn cael lle cwbl ganolog, yn dibynnu arnynt hwy yn unig, ond bydd yn dibynnu ar y tîm ehangach. Pan fo newidiadau yn digwydd, mae ymgynghori yn bwysig. Nid wyf yn siŵr bod yr hanes a roddodd Elin Jones i mi o gyfarfod cyhoeddus yn Aberaeron, pan oedd newidiadau yno yn cael eu trafod, yn gyfan gwbl yn cadarnhau syniad Peter Black nad oedd ymgynghori wedi digwydd. Yr oedd yn ymddangos yn achlysur arbennig o fywiog i mi. Fodd bynnag, pan fo newidiadau yn digwydd, mae'n iawn iddo wneud y pwynt cyffredinol bod ymgynghori â'r cyhoedd ehangach yn eithriadol o bwysig.

17:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Ac yn olaf, Jenny Rathbone.

And finally, Jenny Rathbone.

17:06

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am delighted to hear, Minister, that all of the health budget needs to be focusing on prevention. That is very welcome to hear. I just want focus momentarily on the 26% of four to five-year-olds who are overweight or obese and what we could do to tackle that figure. Is it about having better breastfeeding support? Is it about having better weaning support? How do we prevent parents from giving their child sugary drinks in a bottle simply because, presumably, they are unaware of just how harmful that is to their child? That is as well obviously as doing simple things like walking their child to school, where possible, which is also about the role of Government in ensuring that there are safe routes to school. It is also about changing the culture to ensure that it is the expected norm that children and young people should walk to school where possible, or cycle, or, if the parent has to use the car for their work, that they walk their child at least a small part of the distance to school to make them more ready to learn in the morning.

Rwyf wrth fy modd o glywed, Weinidog, bod angen i'r cyfan o'r gyllideb iechyd fod yn canolbwyntio ar atal. Mae clywed hynny i'w groesawu'n fawr. Rwyf eisiau canolbwyntio am ennyd ar y 26% o blant pedair i bum mlwydd oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew a beth y gallem ei wneud i fynd i'r afael â'r ffigur hwnnw. A yw'n ymwneud â chael gwell cymorth bwydo ar y fron? A yw'n ymwneud â chael cefnogaeth well gyda diddyfnu? Sut y gallwn ni atal rhieni rhag rhoi diodydd llawn siwgr mewn potel i'w plentyn yn syml oherwydd, yn ôl pob tebyg, nad ydynt yn ymwybodol o ba mor niweidiol yw hynny i'w plentyn? Mae hynny'n amlwg yn ogystal â gwneud pethau syml fel cerdded eu plant i'r ysgol, pan fo hynny'n bosibl, sydd hefyd yn ymwneud â swyddogaeth y Llywodraeth wrth sicrhau bod llwybrau diogel i'r ysgol ar gael. Mae hefyd yn ymwneud â newid y diwylliant er mwyn sicrhau ei fod yn norm disgwyliedig y dylai plant a phobl ifanc gerdded i'r ysgol pan fo hynny'n bosibl, neu feicio, neu, os bydd y rhiant yn gorfod defnyddio'r car ar gyfer eu gwaith, eu bod yn cerdded eu plentyn o leiaf am ran fechan o'r pellter i'r ysgol i'w gwneud yn fwy parod i ddysgu yn y bore.

So, there is a very complex set of figures. Obviously, I would be keen to see how we can use the model of the responsibility deal with the food industry on reducing the amount of salt in processed food. Could we get the industry to also reduce the amount of sugar and fat in processed food, and stop them targeting small children as one of the primary purchasers of their products, which are clearly unsuitable for small children? You will be particularly aware, Minister, of my concern about caffeine drinks and the link with the reduction in calcium intake, which, obviously, in children whose bones are growing, is very dangerous.

Felly, mae yna set gymhleth iawn o ffigurau. Yn amlwg, byddwn yn awyddus i weld sut y gallwn ddefnyddio model y fargen cyfrifoldeb gyda'r diwydiant bwyd ar leihau faint o halen sydd mewn bwyd wedi'i brosesu. A allem ni gael y diwydiant hefyd i leihau faint o siwgr a braster sydd mewn bwyd wedi'i brosesu, a'u hatal rhag targedu plant bach fel un o brif brynwyr eu cynnyrch, sydd yn amlwg yn anaddas i blant bach? Byddwch yn arbennig o ymwybodol, Weinidog, am fy mhryder am ddiodydd caffein a'r cysylltiad â'r gostyngiad mewn cymeriant calsiwm, sydd, yn amlwg, mewn plant y mae eu hesgyrn yn tyfu, yn beryglus iawn.

Secondly, I just wanted to—

Yn ail, roeddwn eisiau—

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I have been very indulgent, and we need to quicken this up.

Trefn. Rwyf wedi bod yn oddefgar iawn, ac mae angen i ni gyflymu hyn.

17:09 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, just quickly, on the public being unaware of what constitutes a unit of alcohol, there has been some publicity in the press recently about highlighting the calorie content of alcohol and its link to obesity. How can we make it clearer to people what is a safe drinking level and also the impact on their weight levels?

Iawn, dim ond yn gyflym, ar fater y cyhoedd heb fod yn ymwybodol o beth yw uned o alcohol, bu rhywfaint o gyhoeddusrwydd yn y wasg yn ddiweddar am dynnu sylw at faint o galorïau sydd mewn alcohol a'i gysylltiad â gordewdra. Sut y gallwn ni ei gwneud yn gliriach i bobl beth yw lefel yfed diogel a hefyd yr effaith ar eu lefelau pwysau?

Lastly, there are 40 to 50 deaths from carbon monoxide poisoning a year, and much of that is to do with landlords who do not test the products in the homes that they are renting out. How can we improve that?

Yn olaf, ceir 40 i 50 o farwolaethau oherwydd gwenwyno carbon monocsid bob blwyddyn, ac mae llawer o hynny'n ymwneud â landlordiaid nad ydynt yn cynnal profion ar yr offer yn y cartrefi y maent yn eu rhentu. Sut y gallwn ni wella hynny?

17:09 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you to Jenny Rathbone for those questions. On her first, and major, question, I do not think that there is any one single action or form of action that Governments are able to take that will solve some of the major public health challenges that we face. It is a combination, I believe. There is mandatory action—and I have said many times here that I am in favour of greater mandatory action, and that includes taxation measures in some places and it includes actions to prevent advertising aimed at children, as Jenny has said. So, there are mandatory things we can do and advisory things we can do in making available opportunities for people in terms of exercise. There are also individual things, the cultural things that she mentioned. We have to persuade people that there is a new bargain needed between what the state can do and what they need to do, and when they do what they can do in the way that the Caerphilly cohort study so amply demonstrates, the pay-off in their own lives is absolutely enormous.

Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiynau yna. O ran ei chwestiwn cyntaf, a'i phrif gwestiwn, nid wyf yn credu bod unrhyw un weithred unigol na'r math o gamau y mae Llywodraethau yn gallu eu cymryd a fydd yn datrys rhai o'r heriau sylweddol o ran iechyd y cyhoedd a wynebwn. Mae'n gyfuniad, rwy'n credu. Ceir camau gorfodol—ac rwyf wedi dweud lawer gwaith yma fy mod o blaid mwy o weithredu gorfodol, ac mae hynny'n cynnwys mesurau trethu mewn rhai mannau ac mae'n cynnwys camau gweithredu i atal hysbysebion sy'n targedu plant, fel y dywedodd Jenny. Felly, mae yna bethau gorfodol y gallwn eu gwneud a phethau cynghori y gallwn eu gwneud i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl o ran ymarfer corff. Mae yna hefyd bethau unigol, y pethau diwylliannol y soniodd amdanynt. Mae'n rhaid i ni ddarbwyllo pobl bod angen bargen newydd rhwng yr hyn y gall y wladwriaeth ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt hwy ei wneud, a phan fyddant yn gwneud yr hyn y maent yn gallu ei wneud yn y ffordd y mae astudiaeth carfan Caerffili yn ei ddangos yn glir, mae'r buddiannau yn eu bywydau eu hunain yn enfawr.

As far as alcohol is concerned, I am not absolutely certain myself that the problem is people not knowing that drinking to excess brings with it damage to your health. It is more the public health challenge of turning what people know into how they act on the knowledge that they have: moving from education to motivation. We are good at education, and people know that alcohol is bad for them in excess, so how do we persuade them to act on that knowledge?

Cyn belled ag y mae alcohol yn y cwestiwn, nid wyf yn gwbl sicr fy hun mai'r broblem yw pobl ddim yn gwybod bod yfed yn ormodol yn dod â niwed i'ch iechyd. Mae'n ymwneud yn fwy â'r her iechyd y cyhoedd o droi'r hyn y mae pobl yn ei wybod i sut y maent yn gweithredu ar y wybodaeth sydd ganddynt: symud o addysg i gymhelliant. Rydym yn dda am addysg, ac mae pobl yn gwybod bod gormod o alcohol yn ddrwg iddyn nhw, felly sut yr ydym am eu perswadio i weithredu ar y wybodaeth honno?

Finally, in relation to carbon monoxide, Public Health Wales has a Wales working group on carbon monoxide, which incorporates all the relevant agencies. It is working to co-ordinate action that will prevent, wherever possible, exposure to carbon monoxide, to improve the response to incidents where carbon monoxide poisoning happens and, by improving intelligence, surveillance and information sharing, to do whatever we can to bear down on the figures that the chief medical officer's report contains.

Yn olaf, o ran carbon monocsid, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru weithgor Cymru ar garbon monocsid, sy'n cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol. Mae'n gweithio i gydlynu camau gweithredu a fydd yn atal, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, dod i gysylltiad â charbon monocsid, gwella'r ymateb i ddigwyddiadau pan fo gwenwyniad carbon monocsid yn digwydd a, thrwy wella gwybodaeth, gwyliadwriaeth a rhannu gwybodaeth, gwneud popeth yn ein gallu i ganolbwyntio ar y ffigurau y mae adroddiad y prif swyddog meddygol yn eu cynnwys.

17:12

## Adroddiad Blynyddol 2013-14 Comisiynydd y Gymraeg

## The Welsh Language Commissioner's Annual Report 2013-14

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Galwaf ar y Prif Weinidog i gynnig y cynnig.

I call on the First Minister to move the motion.

Cynnig NDM5609 Jane Hutt

Motion NDM5609 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2013-14, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 26 Medi 2014, sy'n tynnu sylw at y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Notes the Welsh Language Commissioner's Annual Report for 2013-14, laid before the Assembly on 26 September 2014, which highlights the work undertaken by the Commissioner to promote and facilitate the use of the Welsh language.

17:12

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Rwy'n falch iawn o'r cyfle i arwain y ddadl ar adroddiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2013-14. Mae'r ddadl hon yn amserol yn dilyn llawer o waith mewn perthynas â'r safonau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â chyhoeddi datganiad polisi Bwrw Mlaen yn ôl ym mis Awst eleni.

I am very pleased to have the opportunity to lead the debate on the Welsh Language Commissioner's annual report for 2013-14. This debate is timely as it comes in the wake of a great deal of work done in relation to the standards during the past year, in addition to the publication of the Moving Forward policy statement in August of this year.

Mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynyddu, a hynny ar draws nifer o sectorau: llywodraeth, addysg, chwaraeon, y cyfryngau a'r gyfraith. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, mae heriau sylweddol i'w goresgyn os yw'r Gymraeg am ffynnu yn yr hir dymor. Mae'n rhaid inni ymateb i ganlyniadau cyfrifiad 2011 gan anelu at gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg a'r defnydd a wneir ohoni gan bobl ar draws Cymru. Mae deddfwriaeth a rheoleiddio yn rhan bwysig o'r broses hon. Fodd bynnag, mae annog unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau yn bwysig hefyd.

The opportunities to use the Welsh language are increasing across a number of sectors: government, education, sports, media and the law. That said, of course, there are significant challenges to be overcome if the language is to prosper in the long term. We must respond to the results of the 2011 census, with a view to increasing the number of people able to speak Welsh and its use by people across Wales. Legislation and regulation are an important part of this process. However, encouraging individuals to use the Welsh language in all aspects of their lives is also important.

Heddiw, dyma osod ail adroddiad blynyddol y comisiynydd gerbron y Cynulliad. Yn ystod ei blwyddyn gyntaf, prif weithgarwch y comisiynydd oedd dehongli a deall potensial Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sefydlu strwythurau'r sefydliad newydd. Gwelir ffrwyth y gwaith hwnnw yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2013-14, gyda datblygiadau pwysig ar draws nifer o feysydd o ran sicrhau statws y Gymraeg a hawliau i bobl Cymru.

Today, I present the commissioner's second annual report to the Assembly. During her first year, the commissioner's main activity was to interpret and understand the potential of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and establishing the structures of the new organisation. The fruits of that labour can be seen in the annual report for 2013-14 with important developments across a number of areas in securing the status of the language and the rights of the people of Wales.

Yn gyntaf, cynhaliwyd adolygiad barnwrol o dan adran 8 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol. Dyfarnwyd bod y penderfyniad i ddod â'i gynllun iaith i ben yn anghyfreithlon, a diddymwyd y penderfyniad. Dyma'r achos cyntaf yn ymwneud â gwasanaeth Cymraeg sydd wedi'i ystyried mewn adolygiad barnwrol, a'r cyntaf erioed a glywyd yn yr iaith Gymraeg. Mae hwn yn gam nodedig wrth inni symud tuag at y safonau.

First, a judicial review was held under section 8 of the Welsh language Measure in relation to National Savings and Investments. The decision to bring its language scheme to an end was held to be illegal and the decision was reversed. This is the first case involving a Welsh service to have been considered in a judicial review, and the first ever to be heard in the Welsh language. This is a notable step as we move towards the standards.

Yn ail, aethpwyd ati i weithredu rhaglen cynnal ymchwiliadau safonau. Ym mis Ionawr, anfonodd y comisiynydd hysbysiad rhag-ymchwilio ffurfiol at y 26 sefydliad sy'n cael eu cynnwys yng nghylch 1 y rhaglen, yn datgan bwriad i gynnal yr ymchwiliad. Cyhoeddwyd tri adroddiad safonau a nodyn cyngor i Weinidogion Cymru yn sgîl yr ymchwiliad hwn.

Secondly, work was undertaken to implement a programme of standards inspections. In January, the commissioner sent formal pre-inspection notices to the 26 organisations included in round 1 of the programme, stating her intention to carry out an inspection. Three standards reports were published as well as an advice note for the Welsh Ministers following this inquiry.

Yn drydydd, lansiwyd yr ymholiad gofal sylfaenol o dan adran 7 y Mesur. Sefydlwyd panel o arbenigwyr i dderbyn a chraffu ar dystiolaeth ar gyfer yr ymholiad ac i ddarparu cyngor ar gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad terfynol. Byddwn yn ymateb yn ffurfiol i'r ymholiad hwn maes o law.

Thirdly, the primary care inquiry was launched under section 7 of the Measure. A panel of experts was established to receive and scrutinise evidence for the inquiry and to provide advice on the findings and recommendations of the final report. We will respond formally to this inquiry in due course.

Mae llawer o waith hefyd wedi'i wneud o safbwynt ymateb i—

A great deal of work has also been done from the point of view of responding to—

17:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

Will you accept an intervention on that point?

17:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Iawn.

Yes.

17:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Byddwn yn licio cadarnhad o bryd yn union y byddwch chi fel Llywodraeth yn ymateb i'r adroddiad ar y Gymraeg ym maes gofal.

I would like confirmation as to when exactly you as a Government will respond to the report on the Welsh language in primary care.

17:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei ystyried ar hyn o bryd, a bydd ateb cyn gynted â phosibl.

That is something that we are considering at present, and there will be a response as soon as possible.

Mae llawer o waith hefyd wedi'i wneud o safbwynt ymateb i ymgynghoriadau, cynnal astudiaethau a darparu cyngor i sefydliadau, yn arbennig yn y maes cynllunio. Mae'r gwaith hwn yn allweddol wrth i ni edrych tuag at y cyfnod nesaf.

A great deal of work has also been done in terms of responding to consultations, undertaking studies and providing advice to institutions, especially on planning. This work is crucial as we look towards the future.

I droi yn awr at y safonau, yr her nesaf i'r comisiynydd fydd rhoi'r safonau ar waith. Bydd y safonau yn adlewyrchu prif egwyddorion Mesur y Gymraeg, sef gwella gwasanaethau drwy'r Gymraeg, rhoi hawliau clir i ddefnyddwyr, ac adeiladu ar yr hyn a ddarperir drwy'r cynlluniau iaith. Fel y gwyddom, bydd y set gyntaf o safonau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, y parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru i hybu'r Gymraeg.

Turning now to the standards, the next challenge for the commissioner will be implementing the standards. The standards will reflect the main principles of the Welsh language Measure: improving Welsh-medium services, giving clear rights to users, and building on the provision through the language schemes. As we know, the first set of standards will place a duty on local authorities, the national parks and Welsh Ministers to promote the Welsh language.

Yn ôl ym mis Ionawr, cyhoeddwyd dogfen safonau drafft a fu'n sail i ymchwiliad safonau statudol y comisiynydd gyda chyrff y set gyntaf. Hoffwn ddiolch i'r cyrff hynny am eu cyfraniad cadarnhaol i'r gwaith pwysig hwn. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y comisiynydd adroddiadau a nodyn cyngor. Rhoddais sylw dyladwy i'r adroddiadau, a bydd nifer fawr o'r argymhellion i'w gweld yn y rheoliadau drafft.

Back in January, a draft standards document was published, which was the basis of the commissioner's statutory standards inquiry with the first set of bodies. I wish to thank those bodies for their positive contribution to this important work. Following the consultation, the commissioner published reports and an advice note. I gave due attention to the reports, and there will be a great number of recommendations to be seen in the draft regulations.

Yn ei nodyn cyngor, awgrymodd y comisiynydd fod y Llywodraeth yn cynnal ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft i wneud y safonau. Yn dilyn y cyngor hwn, ymrwymais i gynnal ymgynghoriad pedair wythnos ar y rheoliadau drafft i wneud y safonau. Rwyf yn falch o ddweud y bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 7 Tachwedd, sef dydd Gwener. Edrychaf ymlaen at dderbyn sylwadau ar y rheoliadau drafft gan sefydliadau, mudiadau a'r cyhoedd fel ei gilydd. Byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn i ymatebion yr ymgynghoriad hwnnw cyn cyflwyno'r rheoliadau terfynol i wneud safonau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

In her advice note, the commissioner suggested that the Government should hold a consultation on the draft regulations to set the standards. Following this advice, I committed to holding a four-week consultation on the draft regulations to set the standards. I am pleased to say that the consultation will start on 7 November, which is this Friday. I look forward to receiving comments on the draft regulations from institutions, organisations and the public. I will be giving full consideration to the responses to that consultation before tabling the final regulations to bring forward the standards for the National Assembly.

Mae gennym ni fel Llywodraeth rôl bwysig i'w chwarae o ran gosod y cyfeiriad strategol, ac rwy'n ffyddiog y bydd y system newydd o safonau a sefydlu tribiwnlys y Gymraeg yn allweddol i'n hymdrech i ehangu a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.

We, as a Government, have an important role to play in setting the strategic direction, and I am confident that the new system of standards and establishing a Welsh tribunal will be crucially important to our efforts to expand and normalise the use of the Welsh language in Wales.

Hoffwn gadarnhau hefyd ein bod yn disgwyl i'r safonau cyntaf gael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2015, gyda'r tribiwnlys yn weithredol o'r dyddiad hynny yn ogystal. Yn dilyn hynny, bydd y cyfrifoldeb o reoleiddio yn eistedd gyda'r comisiynydd, ac ar ôl i'r set gyntaf o safonau ddod i rym, rwy'n disgwyl iddi fwrw ati i osod hysbysiadau cydymffurfio ar y cyrff sy'n ddarostyngedig i'r cylch cyntaf. Bydd gan Gomisiynydd y Gymraeg swyddogaeth allweddol o bwysig o safbwynt goruchwylio'r broses o weithredu'r safonau. Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd am y gwaith paratoadol trylwyr sydd wedi digwydd hyd yma gyda'r cyrff dan sylw.

I would also like to confirm that we expect the first set of standards to be laid before the National Assembly in March 2015, with the tribunal in operation from that date, too. Following that, the responsibility to regulate will sit with the commissioner, and after the first set of standards comes into force, we expect her to start that work and to issue compliance notices to those bodies that are subject to the first round. The Welsh Language Commissioner will have a key function from the point of view of overseeing the process of implementing the standards. I would like to thank the commissioner for the thorough preparatory work that has been done with the bodies in question.

Mae dadl wedi bod ynglŷn â chyllid y comisiynydd. Rydym yn gwybod fod cyllid yn anodd ar hyn o bryd gyda thoriad o 8%, ond, yn gyffredinol, bu toriad o 10% yng nghyllideb y Llywodraeth ac felly bu'n anodd cadw'r lefel ar yr un peth dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r comisiynydd wedi gorfod derbyn toriad. Fodd bynnag, rydym wedi ail-flaenoriaethu'r arian hwnnw er mwyn sicrhau ein bod yn gweld mwy o ddefnydd mewn cymunedau ac yn enwedig gan bobl ifanc.

There has been a debate in terms of the budget for the commissioner. We know that this is a very difficult period with a cut of 8%, but, generally, there has been a cut of 10% in the Government's budget, so it has been very difficult to maintain the budget over the past few years and the commissioner has had to accept a cut. However, we have reprioritised that funding to ensure that we see greater use in communities and especially by young people.

Ym mis Awst cyhoeddais y datganiad polisi 'Bwrw Mlaen'. Mae'r datganiad hwnnw yn adeiladu ar ein strategaeth 'Iaith fyw: iaith byw' ac yn gosod ein hamcanion polisi o ran y Gymraeg ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r ddogfen yn nodi bod angen gwella cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n rhaid i ni fel Llywodraeth, ac eraill yng Nghymru, ymgorffori egwyddorion cynllunio ieithyddol ym mhob agwedd ar ein gwaith.

In August, I announced the 'Bwrw Mlaen' policy statement. That statement builds on our strategy, 'A living language: a language for living', and sets our policy intentions in terms of the Welsh language for the next three years. That document notes that there is a need to improve strategic planning for the Welsh language over the coming years. We, as a Government, and others in Wales, have to incorporate language planning principles in all aspects of our work.

O dan y safonau hybu newydd, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol hybu'r Gymraeg drwy ystyried mewn ffordd strategol sefyllfa'r iaith yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd disgwyl yn ogystal y bydd cydweithio rhwng sefydliadau megis yr awdurdodau lleol a'r mentrau iaith i fynd i'r afael â hyn, ac, wrth gwrs, bydd gan y comisiynydd rôl hefyd.

Under the new promotion standards, there will a requirement on Welsh Ministers, local authorities and national parks to promote the Welsh language by considering, in a strategic manner, the situation of the Welsh language in the communities that they serve. There will also be an expectation that there will be collaboration between those institutions such as local authorities and the 'mentrau iaith' to get to grips with this issue, and, of course, there will be a role for the commissioner.

I gloi, felly, fel rhan o'r targedu yn 'Bwrw Mlaen', roeddwn yn falch o gyhoeddi rhaglen fuddsoddi gwerth £1.25 miliwn er mwyn datblygu a chefnogi canolfannau a mannau dysgu newydd a fydd yn hybu defnydd o'r Gymraeg, neu—i ddefnyddio gair nad wyf yn ei ddefnyddio'n naturiol, ond dyma'r gair sy'n cael ei ddefnyddio—yn trochi pobl yn y Gymraeg. Rydym hefyd yn mo'yn sicrhau bod ymdrechion pobl a chyrff ar draws Cymru i hybu a chefnogi'r Gymraeg yn cael yr help y dylent ei gael. Bydd y gronfa, rwy'n siŵr, yn rhywbeth calonogol iawn iddyn nhw, wrth iddynt allu defnyddio'r arian i sicrhau mwy o ddefnydd a mwy o fywoliaeth yn y Gymraeg yn eu hardaloedd nhw.

In closing, in terms of the targets in 'Bwrw Mlaen', I was pleased to announce an investment programme worth £1.25 million to develop and support new centres and learning spaces that will promote the use of the Welsh language, or—to use a word that I do not use very naturally, but which is the word that is used in Welsh—'trochi' or 'immerse' people in the language. We also want to ensure that the efforts of people and bodies across Wales to use and promote the Welsh language receive the support they need. This fund will be something that I am sure will be very encouraging for them, as they will be able to use the funding to ensure greater use and a greater livelihood through the medium of Welsh in their areas.

A gaf i ddweud bod yr ymateb lan at 'nawr wedi bod yn ardderchog? O achos hynny, rwy'n falch iawn o gyhoeddi heddiw y bydd £1 filiwn ychwanegol ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ac y bydd y gronfa hon yn agor cyn y Nadolig. Rydym ni i gyd yn gwybod beth yw'r heriau ynglŷn â sicrhau dyfodol iawn a dyfodol cryf ar gyfer yr iaith Gymraeg, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r comisiynydd am ei hadroddiad. Rwy'n edrych ymlaen, wrth gwrs, i weithio gyda hi yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cryfhau yn y blynyddoedd i ddod. Diolch.

May I say that the response up to now has been excellent? Because of that, I am very pleased to announce today that an additional £1 million will be available for the next financial year. This fund will open before Christmas. We all know, of course, what the challenges are in terms of ensuring an appropriate and strong future for the Welsh language, and I am very grateful to the commissioner for her report. I look forward, of course, to collaborating with her in future to ensure that the language grows stronger in the years ahead. Thank you.

17:22 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd am ei hadroddiad clir a syml. A gaf i hefyd ddiolch i'w thîm am ei waith parhaus? Mae'n dîm llai, er gwaethaf y gofynion cynyddol. Nid yw hi'n amhosibl i wneud mwy am lai, ond mae'n rhaid imi fynegi ar y dechrau fy mhryder y bydd y toriadau sylweddol i gyllideb y comisiynydd yn cael effaith sylweddol ar ei gwaith anstatudol. Dyna oedd y dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ddiweddar. Mae pob gwaith anstatudol hyd yma, yn ôl yr adroddiad blynyddol, wedi bod mor ddefnyddiol wrth baratoi'r sector preifat a'r trydydd sector i gymhwyso safonau maes o law. Mae rhai cynrychiolwyr o'r sectorau hynny yn llugoer am yr agenda yma, ac ni allaf weld sut bydd hyn yn helpu'r comisiynydd i dawelu'r drwgdeimlad heb iddi allu parhau â'r diplomyddiaeth feddal a'r cymorth ymarferol y mae'n ei gynnig ar hyn o bryd.

I would like to thank the commissioner for her clear and simple report. May I also thank her team for its ongoing work? It is a smaller team, despite the enhanced demands. It is not impossible to do more for less, but I have to express my concern that the significant cuts to the commissioner's budget will have a significant impact on the non-statutory aspects of her work. That was the evidence provided to the Communities, Equality and Local Government Committee recently. Every non-statutory responsibility, according to the annual report, has been very useful in preparing the private sector and the third sector for the application of standards in future. Some representatives of those sectors have been lukewarm in terms of their response to this agenda, and I cannot see how it will help the commissioner to actually deal with this bad feeling if she cannot continue with the soft diplomacy and the practical support that she provides at present.

Ond, nid dim ond reolaeth Llywodraeth Cymru dros gyllideb y comisiynydd a all fod yn anfantais o ran defnyddio'i phwerau. Mae paragraff agoriadol yr adroddiad blynyddol yn cyfeirio at lithriad yn amserlen y safonau ac, yn ystod y cyfnod adrodd, mae wedi bod yn ansicr ynghylch pryd y byddwn yn gweld cyflwyno rheoliadau ar ganiatáu i rowndiau 2 a 3 y broses i fynd yn eu blaen. Mae'r comisiynydd yn dal i fod yn y tywyllwch ynglŷn â rownd 3, ond rwyf wedi clywed yr hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud. Mae ei swyddfa hi wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau rowndiau 2 a 3, ac mae hi'n barod i symud ymlaen, ond mae'n ymddangos nad yw'r Llywodraeth yn barod. Brif Weinidog, yn y ddadl y llynedd, fe wnaethoch chi wrthod gwelliant Plaid Cymru ar gyfer amserlen safonau, ac fe glywais i beth ddywedoch chi, ond, eleni, mae'r ffaith nad oes amserlen gyflawn ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth eilaidd wedi cyfyngu ar effeithlonrwydd y comisiynydd ac wedi arwain at ansicrwydd.

However, it is not just the Welsh Government's control over the commissioner's budgets that can be a hindrance to the use of her powers. The opening paragraphs of the annual report referred to slippage in the timetable for the standards and, during the reporting period, there has been uncertainty as to when we will see the regulations brought forward that will allow for rounds 2 and 3 of the process to continue. The commissioner is still in the dark in terms of round 3, although I have heard the comments made by the First Minister on that. Her office has been working with organisations involved in rounds 2 and 3, and she is ready to progress, but it appears that the Government is not. First Minister, in the debate last year, you rejected a Plaid Cymru amendment for a timetable for standards, and I heard what you said at that point, but, this year, the fact that there is no full timetable in place for the introduction of the secondary legislation has had an impact on the effectiveness of the commissioner and has led to uncertainty.

Wrth gwrs, mae'r comisiynydd yn ffynhonnell annibynnol o gyngor ar y ffordd orau i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth. Fe'i penodwyd ar gyfer yr union bwrpas. Felly, pam mae amharodrwydd i ddilyn y cyngor hwnnw? Rydym yn cytuno y dylai unrhyw ddeddfwriaeth fod yn angenrheidiol ac yn ymarferol, ond nid yw hi y tu hwnt i sgiliau cyfreithwyr drafftio i ddod o hyd i fath o eiriau ar wyneb y Bil cynllunio a fyddai'n bodloni'r comisiynydd yn ogystal ag aelodau'r wrthblaid am roi sylw priodol i'r iaith Gymraeg mewn penderfyniadau cynllunio.

Of course, the commissioner is an independent source of advice on the best means of giving consideration to the Welsh language as we develop policy and legislation. She was appointed for this very purpose. So, why is there an unwillingness to actually adhere to that advice? We agree that any legislation should be practical and required, but it is not beyond the wit of drafting lawyers to actually find a form of words on the face of the planning Bill that would satisfy the demands of the commissioner as well as the demands of opposition parties for an appropriate focus on the Welsh language in planning decisions.

Gan fod yr adroddiad yn cadarnhau taw methiant awdurdodau lleol o ran eu rhwymedigaethau o safbwynt yr iaith Gymraeg yw prif achos cwynion, mae'r comisiynydd yn sicr yn iawn i geisio creu dyletswydd yn hytrach na gwneud cais i ddilyn canllawiau. Mae gwrthwynebiad eich Gweinidog i hyn yn broblem polisi, yn hytrach nag un o ddrafftio, mae'n ymddangos i mi.

As the report confirms that the failure of local authorities in terms of their responsibilities towards the Welsh language is the main cause of complaints, then certainly the commissioner is right to try to create a duty rather than simply guidance to follow. Your Minister's objection to this is a policy problem rather than a drafting problem, it would appear to me.

Yn anffodus, ym Mil llesiant cenedlaethau'r dyfodol, mae problemau sylfaenol gyda rheidrwydd ac ymarferoldeb, felly, mae'n ddoniol bod unrhyw Weinidog yn ystyried y Bil hwn fel ffordd o gefnogi'r iaith. Ar y llaw arall, ble mae sôn am yr iaith yn y Bil addysg uwch, sef mesur sy'n deddfu ar gyfer mynediad ehangach at addysg uwch a mynediad ehangach at gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg? Wel, mae'r Bil yn osgoi'r cwestiwn yn gyfan gwbl.

Unfortunately, in the well-being of future generations Bill, there are significant problems in terms of requirements and practicality, therefore, it is strange that any Minister would consider this Bill as a means of supporting the Welsh language. On the other hand, where is there mention of the Welsh language in the higher education Bill, which is a Bill that would legislate for enhanced access to higher education and enhanced access to courses through the medium of Welsh? Well, the Bill evades that question entirely.

Ar lefel bersonol, roeddwn yn falch o weld sylwadau'r comisiynydd ar doriadau i gludiant i'r ysgol ôl-16. Mae'n drueni nad yw rhai cynghorwyr yn fy rhanbarth i'n rhoi sylw i hyn, ac rwy'n pryderu bod y Llywodraeth yn cymeradwyo cynlluniau strategol nad ydynt yn mynd i'r afael â'r risg hon. Rwyf hefyd yn falch o weld yr uchelgais i gasglu tystiolaeth ar sgiliau iaith yn y gweithlu, ond rwy'n cydnabod bod hyn yn cael ei beryglu gan y toriadau ariannol.

On a personal level, I was pleased to see the commissioner's comments on cuts to post-16 school transport. It is a shame that some councillors in my region do not pay attention to this issue, and I am concerned that the Government is approving strategic plans that do not tackle this particular risk. I am also pleased to see the ambition to gather evidence on language skills in the workforce, but I also acknowledge that this is being put at risk by the financial cuts.

Yn olaf, rwyf am edrych yn fyr ar yr hyn sydd wedi'i golli ers y llynedd. Nid yw'n glir beth sydd wedi digwydd i'r arsyllfa—syniad a oedd yn boblogaidd iawn y llynedd. A yw hyn wedi mynd oherwydd y toriadau? Y llynedd, eglurodd y comisiynydd ei bod yn disgwyl gallu gwneud arbedion pan ddaeth prydlesu adeiladau i ben. Mae hynny wedi digwydd, mae'n debyg, ond mae'r cyfrifon yn dangos bod costau eraill llety wedi codi £50,000 a bod costau teithio a chynhaliaeth wedi cynyddu 50%. Nid wyf yn credu bod yr adroddiad yn esbonio pam, nac ychwaith a yw'r arbedion costau eiddo wedi cael eu colli a'u disodli gan rwymedigaethau llety a theithio drutach. Er nad wyf yn cefnogi'r toriadau i gyllideb y comisiynydd, byddai'n fy helpu i ddeall yn llawn pam mae rhai meysydd gwariant wedi cynyddu mor sylweddol.

Finally, I want to look briefly at what has been lost since last year. It is not clear what has happened to the observatory—a very popular idea last year. Has this been put aside because of cuts? Also last year, the commissioner explained that she expected to be able to make savings when the leases on buildings lapsed. That has happened, it appears, but the accounts show that other accommodation costs have increased by £50,000 and that travel and subsistence costs have increased by 50%. I do not think that the report actually explains why or whether the property cost savings have been lost or displaced by higher accommodation and travel costs. Although I do not support the cuts to the commissioner's budget, it would help me to understand fully why some areas of expenditure have increased so significantly.

17:27

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i graffu ar waith y comisiynydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch iddi hi a'i staff am eu gwaith, ond rwy'n nodi'r bwlch a'r gwaith sydd angen ei wneud o hyd. Wrth gwrs, cefndir hyn yw ein bod angen i ddau beth ddigwydd: un yw ymateb i'r cyfrifiad a'r canfyddiad bod y Gymraeg ar drai mewn rhai o'n cymunedau; a'r ail yw sicrhau ein bod yn gweithredu'r ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad blaenorol, sef y Mesur i wneud yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol cydradd â Saesneg yng Nghymru ac i roi hawliau i siaradwyr Cymraeg drwy safonau'r iaith a gweithgareddau'r comisiynydd iaith.

I welcome this opportunity to scrutinise the work of the commissioner over the past year. I thank her and her staff for their work, but I also note the gap and the work that remains to be done. Of course, the background to this is that two things need to happen: the first is a response to the census and the finding that the Welsh language is in decline in some of our communities; and the second is to ensure that we implement the legislation passed by the previous Assembly, namely the Welsh language Measure, which had the aim of making Welsh an official language of equal status to the English language, and to give Welsh speakers rights through the standards and activities of the language commissioner.

Yn y cyd-destun hwnnw, er bod gwaith pwysig wedi cael ei adrodd yn yr adroddiad blynyddol hwn, nid yw prif waith y comisiynydd wedi dechrau eto, sef cael y safonau a'u gweithredu. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi cadarnhau y bydd yr ymgynghoriad byr a addawyd ar safonau iaith yn dechrau ar 7 Tachwedd. Rwy'n gobeithio bod hynny'n golygu bod modd i ni gael y safonau trwy'r Cynulliad ac yn gyfraith, felly, erbyn diwedd mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Pe bai'r Prif Weinidog yn gallu cadarnhau hynny wrth glou'r ddadl, byddai hynny o leiaf yn rhoi sicrwydd. Rydym hefyd eisiau clywed beth sy'n digwydd yn awr i gylchoedd 2 a 3 o ran y safonau, achos rydym ddim ond yn sôn am yr awdurdodau cyhoeddus hynny—y Llywodraeth, awdurdodau lleol ac ati—a ddylai fod yn hen gyfarwydd â gweithio fel hyn beth bynnag, ac, a bod yn onest, nid dyna le mae'r gwaith trwm, neu'r talcen caled, fel petai.

In that context, even though important work has been reported in this annual report, the main function of the commissioner has yet to begin, which is to have those standards and to implement them. I welcome the fact that the First Minister has confirmed that there will be a short consultation, as promised, on the language standards, starting on 7 November. I hope that this will mean an opportunity to get those standards through the Assembly and into statute by March of next year. If the First Minister could confirm that in closing this debate, that would at least give us an assurance. We also want to hear what will happen to rounds 2 and 3 in terms of the standards, because we are talking only about public authorities—the Government, local authorities, and so on—that should be used to working in this way anyway, and, truth be told, that is not where the hard work remains to be done.

Ail ran gwaith y comisiynydd yw i fod yn rhan o'r broses o hyrwyddo'r iaith yn ystyr ehangach y gair, fel sydd newydd gael ei amlinellu gan Suzy Davies, wrth weithio gyda'r trydydd sector a busnes er mwyn paratoi pobl ar gyfer y safonau, ond eu paratoi hefyd ar gyfer Cymru ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n rhannu'r siom o weld y toriadau yng nghyllideb y comisiynydd iaith, sy'n golygu, i bob pwrpas, erbyn i'r comisiynydd fod yn ei swydd am bedair blynedd, bydd chwarter o'i chyllideb ar gyfer ei swyddfa wedi ei dorri. Naill ai roedd y gyllideb wedi'i goramcangyfrif yn y lle cyntaf, neu fe fydd chwarter o'i gwaith hi'n cael ei effeithio. Rwy'n ofni mai yn y rôl honno, lle mae'r comisiynydd yn cymryd rôl flaenllaw yn arwain ar faterion iaith, y bydd y toriadau'n digwydd.

The second part of the commissioner's work is to be a part of the process of promoting the Welsh language in the wider sense of the word, as has just been outlined by Suzy Davies, by working with the third sector and businesses in order to prepare people for the standards, and to also prepare them for a bilingual Wales. In that context, I share the disappointment at seeing the cuts to the commissioner's budget, as they mean, to all intents and purposes, that by the time the commissioner will have been in post for four years, a quarter of the budget for her office will have been cut. Now, either the budget was overestimated in the first place, or a quarter of her work will be affected. I think that it is on that side of things, where the commissioner takes a prominent role in leading on language issues, that the cuts will happen.

Rwy'n meddwl ei bod yn ddeuoliaeth gau gan y Llywodraeth i sôn ei bod yn rhoi pwyslais ar gymunedau a siaradwyr Cymraeg a phobl ifanc ac nad yw hynny, rywsut, yn golygu eich bod yn rhoi pwyslais ar ddeddfwriaeth a sicrhau bod yr hyn y mae'r Cynulliad wedi'i basio yn cael ei weithredu'n iawn. Mae'n ddeuoliaeth gau achos dyna ddwy ochr yr un geiniog—gweld yr hawliau yn cael eu rhoi i siaradwyr Cymraeg, yr hyder yn dychwelyd i rai o'r cymunedau hynny, a buddsoddiad yn y cymunedau yn eu tro.

I think that it is a false dichotomy by the Government to say that is it going to focus on communities and Welsh speakers and young people but that that does not mean, somehow, putting an emphasis on legislation and ensuring that what the Assembly has passed is implemented properly. It is a false dichotomy because it is two sides of the same coin—rights given to Welsh speakers, confidence returning to some of those communities, and then investment in those communities.

Mae rhai pethau penodol y mae'r comisiynydd wedi sôn amdanynt yn yr adroddiad sydd wedi cael eu crybwyll ond y byddwn yn hoffi clywed mwy amdanynt. Roedd rhybudd clir gan y comisiynydd yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil cynllunio bod angen gweld yr iaith Gymraeg ar wyneb y Bil a bod angen gweld yr iaith Gymraeg a chymunedau Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn y Bil. Mae wedi atgyfnerthu hynny ymhellach drwy ddatganiad adeg cyhoeddi'r Bil sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd yn dweud ei fod yn ddiffygiol yn hynny o beth.

Some specific things that the commissioner has mentioned in the report have been mentioned already but I would like to hear more about them. There was a clear warning by the commissioner in her response to the consultation on the planning Bill that there is a need to see the Welsh language on the face of the Bill and that there is a need to see the Welsh language and Welsh communities reflected in the Bill. She reinforced that further in a statement when the Bill was published before the Assembly, saying that it was deficient in that regard.

Roeddwn yn siomedig bod y Llywodraeth yn dweud mai maes o law y daw'r ateb i argymhellion y comisiynydd am y Gymraeg mewn gofal iechyd. Mae'r adroddiad hwn bellach yn bum mis oed. Mae'n ddyletswydd o dan Fesur y Gymraeg i'r Llywodraeth dalu sylw dyledus i adroddiad o'r fath. Rhai o'r pethau a all ddeillio o'r adroddiad hwn, er enghraifft, yw cwota ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn cael eu recriwtio yn y gwasanaeth iechyd ac, yn wir, yn ein colegau meddygol, lle rwy'n gweld diffyg penodol ar hyn o bryd o ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd.

I was disappointed that the Government said that its response to the commissioner's recommendations on Welsh in healthcare will follow. This report is now five months old. There is a duty, under the Welsh language Measure, for the Government to pay due regard to such a report. Some things that could result from this report, for example, are a quota for the number of Welsh speakers recruited in the health service and within our medical colleges, where I see a specific lack at the moment in terms of teaching through the medium of Welsh as well as in promoting the Welsh language in the field of health.

Fel mae Suzy Davies newydd grybwyll hefyd, rydym yn gweld diffyg yn y ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer addysg ôl-16 ar draws y sector, ond mae'n cael effaith benodol ar y Gymraeg oherwydd y tueddiad i feddwl bod angen codi arian ychwanegol ar gyfer teithio i ysgolion Cymraeg. Nid oes unrhyw beth penodol wedi digwydd eto, ond mae llawer o sôn ar lawr gwlad y bydd yn effeithio'n drwm ar y bobl hynny sy'n dewis dilyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

As Suzy Davies has just mentioned, we see a deficiency in the current legislative provision for post-16 education across the sector, but it has a particular impact on the Welsh language because of the tendency to think that there is a need to raise additional money for travel to Welsh schools. Nothing specific has happened yet, but there is a lot of talk on the ground of it impacting heavily on those people who choose to pursue education through the medium of Welsh.

Felly, yn gyffredinol, dyma adroddiad sy'n bwysig i ni, sy'n dangos lle gall y Gymraeg ddatblygu, lle mae gwaith y comisiynydd yn gallu cefnogi ein cymunedau Cymraeg, ond sydd yn dal yn ddiffygiol o safbwynt ymateb y Llywodraeth i rai o'r argymhellion, a hefyd o safbwynt arafwch y broses ddeddfu a chraffu yn y lle hwn.

So, in general, this is a report that is important to us, which shows where the Welsh language can develop, where the work of the commissioner is able to support our Welsh-speaking communities, but that remains deficient from the point of view of the Government's response to some of the recommendations, and also the slow nature of the legislative and scrutiny process in this place.

17:32

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf i hefyd yn croesawu'r adroddiad blynyddol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2013-14. Mwynheais ddarllen am symud gwaith yr ail flwyddyn i dir cryfach o ran polisi, hawliau a chyngor. I mi, mae paragraff olaf y comisiynydd yn y rhagair yn cipio'r weledigaeth yr hoffwn ei gweld, sef symud ymlaen i'r drydedd flwyddyn yn rhagweithiol gyda rôl driphlyg o bwyso, herio a hybu.

I also welcome the annual report of the Welsh Language Commissioner for 2013-14. I enjoyed reading about the moving of work in the second year to firmer policy ground in terms of policy, rights and advice. For me, the final paragraph of the commissioner's foreword encapsulates the vision that I want to see, namely moving proactively in the third year with a role in three areas of pressing, challenging and encouraging.

Mesur am statws swyddogol i'r iaith: rhaid sylweddoli faint o ddatganiad yw hynny'n gyfreithiol. Dyna ddywedodd y comisiynydd yn ein cyfarfod grŵp trawsbleidiol diwethaf. Dyna sydd wedi siapio'i gwaith—y craidd deddfwriaethol a'r gallu i orchymyn, fel yr ydych chi, Brif Weinidog, wedi sôn amdano'n barod, yn yr Uchel Lys.

A measure of official status for the Welsh language: we must understand how much of a statement that is in legal terms. That is what the commissioner told us in our last cross-party group meeting. That is what has shaped her work—the legislative core and the ability to enforce, as you, First Minister, have already mentioned, in the High Court.

Roeddwn am ddweud ychydig eiriau am y safonau. Yr unig beth yr wyf am ei godi'n awr, gan fod pobl eraill eisoes wedi'u codi, yw fy mod yn credu ein bod am gael ymgynghoriad ar bolisi gorfodi y tymor hwn. Mae angen iddo fod yn ei le erbyn i'r safonau cyntaf ddod ymlaen, ac rydych yn dweud y byddant yn barod erbyn diwedd mis Mawrth.

I was going to say a few words about the standards. The only thing that I will say now, because other people have already mentioned them, is that I thought that we were going to have a consultation on enforcement policy this term. That needs to be in place by the first round of standards, and you say that it will be ready by the end of March.

Felly, symudaf ymlaen at bwnc arall. Yn y grŵp trawsbleidiol ar y Gymraeg diwethaf, clywsom am waith y comisiynydd yn Llundain. Ers hynny, wrth i mi ddarllen, gwelaf fod problemau gydag adrannau Whitehall o ran cyflawni eu cyfrifoldebau ieithyddol. Mae'n bwynt a godir mewn adroddiad gan Gyngor Ewrop ar y siarter ar ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol. Dim ond gan rai o sefydliadau'r Goron mae cynlluniau iaith. Yn amlwg, nid yw gwaith hybu wedi'i gyfyngu i diroedd Cymru. Mae cynyddu dealltwriaeth o arwyddocâd statws swyddogol yn bwysig. Hoffwn wybod faint o ddylanwad sydd wedi bod ar y bobl yn San Steffan, gan amlinellu'n glir nad dewis yw rhoi hwb i'r Gymraeg.

So, I will move on to another topic. In the last cross-party group on the Welsh language, we heard about the commissioner's work in London. Since then, from what I have read, I see that there are problems with Whitehall departments adhering to their responsibilities for the language. It is a point raised in a report by the Council of Europe on the regional and minority languages charter. Only some Crown bodies have language schemes. Clearly, promotion work is not limited to the territory of Wales. Enhancing the understanding of the significance of official status is important. I would like to know how much influence has been brought to bear on people in Westminster, outlining clearly that it is not optional to support the Welsh language.

Rwy'n croesawu'r hyn a glywsom yr wythnos diwethaf am yr arian sy'n dod o Ewrop, sy'n rhoi'r drafodaeth ar flaen ein meddwl. Rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedodd y comisiynydd am le'r iaith o ran cydraddoldeb a'r angen i wthio datblygiad economaidd lle mae'r iaith yn dirywio, fel cynlluniau'r Llywodraeth sydd ar waith yn awr yn Rhydaman, Gwauncaegurwen a Dyffryn Teifi. Mae'r cyswllt ieithyddol-economaidd yn graidd i'r amcanion. Yn hanesyddol, bu diwydiannau lleol yn cadw pobl ifanc yr ardal mewn gwaith, ond yn awr mae angen buddsoddiad yn yr ardaloedd hynny fel bod gan siaradwyr Cymraeg swyddi lleol da. Clywais am Dunbia, cwmni newydd yn Llanybydder, sydd yn awr yn cyflogi dros 600 o bobl; dywedwyd wrthyf mai iaith y swyddfa yw'r Gymraeg. Roeddwn yn falch o glywed hynny. Y cwestiwn sydd gennyf yw: mae'r trafodaethau cyfredol ar gyllid Ewropeaidd o safbwynt yr iaith yn hollbwysig, felly beth yw'r cynlluniau i sicrhau bod mwy o ystyriaeth i'r iaith mewn unrhyw gynnig am gyllid o Ewrop?

I welcome what we heard last week about European funding, which puts this discussion at the forefront of our minds. I agree with what the commissioner said about the place of the language in terms of equality and the need to enhance economic development where the language is on the wane, as with Government plans in Ammanford, Gwauncaegurwen and the Teifi Valley. The link between the economy and the language is at the heart of the objectives. Historically, local industries retained young people in work in those areas, but we now need investment in those areas so that Welsh speakers find good jobs locally. I heard about Dunbia, a new company in Llanybydder, which now employs over 600 people; I was told that the language spoken in the office is Welsh. I was pleased to hear that. My question is: current discussions on European funding in terms of the language are crucial, so what are the plans to ensure that greater consideration is given to the language in any application for funding from Europe?

17:35 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf i hefyd yn diolch i'r comisiynydd a'i staff am yr adroddiad. Mae'n debyg bod canlyniadau'r cyfrifiad wedi creu sefyllfa lle mae llawer iawn mwy o ddiddordeb yn adroddiad y comisiynydd iaith, ond, yn fwy na hynny, hwyrach, ddiddordeb yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r holl sefyllfa. Felly, rwyf am ategu rai o'r pethau sydd eisoes wedi cael eu dweud ynglŷn â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn creu argraff o lusgo traed o ran ei hymateb. Cafodd adroddiad ei gyhoeddi eleni am deulu o'r gogledd yn cael cais i siarad yn Saesneg yn yr ysbyty, ac eto rydym ni yma yn creu rhyw fath o argraff ein bod yn fodlon â'r sefyllfa ar lawr gwlad. Mae'n iawn cael strategaeth ac i ddweud bod hyn a'r llall yn digwydd, ond y realiti ar lawr gwlad yw bod rhai pobl broffesiynol yn dal i ddweud wrth bobl ifanc nad yw'n dderbyniol eu bod yn sgwrsio efo'u mam yn eu hiaith eu hunain. Felly, nid wyf yn credu—. Rwy'n credu y dylai'r Llywodraeth fod wedi ymateb o fewn chwe mis i'r adroddiad ar ofal sylfaenol. Nid yw'n dderbyniol bod y Llywodraeth a'r Prif Weinidog yn dweud bod ymateb yn mynd i ddod maes o law.

I, too, thank the commissioner and her staff for the report. I suppose that the results of the census have created much more of an interest in the commissioner's report, but, more than that, perhaps, there is greater interest in the Welsh Government's response to the whole situation. So, I want to endorse some of the things that have already been said about the fact that the Welsh Government is creating the impression of dragging its feet on its response. A report has been published this year about a family from north Wales being asked to speak English in hospital, yet we are here creating an impression that we are satisfied with the situation on the ground. It is right to have a strategy and to say that this and that is happening, but the reality on the ground is that there are some professional people still telling young people that it is not acceptable for them to speak with their mother in their own language. So, I do not believe—. I think that the Government should have responded within six months to the report on primary care. It is not acceptable that the Government and the First Minister say that a response will come in due course.

Hefyd, rwy'n meddwl erbyn hyn bod hyd yn oed arweinydd Cyngor Sir Gâr yn dweud ei fod yn disgwyl gweld rhywbeth ynglŷn â'r iaith Gymraeg yn y Bil cynllunio. Mae'n ddiddorol bod memorandwm esboniadol y Bil cynllunio yn sôn am y Gymraeg a'i phwysigrwydd ym maes cynllunio ac, eto, wrth symud i'r Bil ei hun, nid oes dim byd o gwbl am y Gymraeg.

Also, I think that even the leader of Carmarthenshire County Council now says that he expects to see something about the Welsh language in the planning Bill. It is interesting that the planning Bill explanatory memorandum mentions the Welsh language and its importance in the field of planning, yet, when we move to the Bill itself, there is nothing whatsoever about the Welsh language.

Rwyf i hefyd yn rhannu rhai o'r pryderon ynglŷn â'r toriadau i'r gyllideb. Rwy'n sylweddoli bod sefyllfa'r Llywodraeth yn eithaf anodd, ond o ystyried y cynhelir adolygiad o bwerau Comisiynydd Plant Cymru, hwyrach bod yn rhaid inni ddechrau gofyn a yw'n briodol neu'n iach bod comisiynydd sydd yn rheoleiddio a barnu gweithredoedd y Llywodraeth yn cael ei reoli o ran arian gan yr un Llywodraeth. Hwyrach bod yn rhaid inni ystyried a oes rhaid newid hynny.

I also share some of the concerns about the budget cuts. I realise that the position of the Government is quite difficult, but given that there is a review of the powers of the Children's Commissioner for Wales, perhaps we need to start asking whether it is appropriate or healthy that a commissioner who regulates and passes judgment on the actions of the Government is managed in terms of funding by the same Government. Perhaps we now need to consider whether we need to change that arrangement.

Fodd bynnag, rwyf eisiau cloi drwy godi dau gwestiwn penodol ynglŷn â'r llythyr a gafodd ei ddanfon gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol at y Prif Weinidog ar 29 Hydref yn gofyn am gyfeiriad strategol y Llywodraeth o ran yr iaith Gymraeg a hefyd yn gofyn sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio yn holl weithgareddau'r Llywodraeth. Mae'n ddigon teg dweud bod yr adran hon a'r adran arall yn ymateb i bryderon ynglŷn â defnydd neu weithredu yn y Gymraeg, ond mae cwestiwn sylfaenol yn codi ynglŷn â chyfeiriad strategol y Llywodraeth. Rwyf i am gyfeirio at un esiampl. Mae nifer ohonom wedi derbyn copïau o'r cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Mae'n anodd iawn gweld, hyd yn oed ar ôl i'r cynlluniau gwreiddiol gael eu gwrthod, sut maent wedi newid yn dilyn ymateb y Llywodraeth. Er enghraifft, yn Wrecsam ar hyn o bryd, mae'r cyngor sir yn ymgynghori ar gynnig bod holl arian y cyngor i'r Mudiad Meithrin yn diflannu, ac eto, o fewn y WESP, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r cyngor sicrhau darpariaeth ychwanegol cyn ysgol. Eto, mae'r holl arian yn cael ei dynnu yn ôl. Yn yr un modd, rwy'n meddwl bod y Gweinidog trafnidiaeth wedi dweud wrth bob un ohonom bod angen i gynghorau edrych ar gludiant ôl 16, ac eto mae rhyw fath o ddiffyg cydweithredu rhwng yr adran addysg, sy'n delio â'r WESP, a'r adran drafnidiaeth, sy'n delio â pholisi cludiant. Felly, nid wyf yn siŵr a yw un adran o fewn y Llywodraeth sy'n gyfrifol am un cynllun yn sicrhau bod adrannau eraill yn cydweithio neu'n darparu'n ddigonol.

However, I want to conclude by raising two specific questions about the letter that was sent by the Communities, Equality and Local Government Committee to the First Minister on 29 October asking about the strategic direction of the Government in terms of the language and also how the language is being mainstreamed in all of the Government's activities. It is fair enough to say that this department and that department are responding to concerns about the use of the Welsh language or are operating in Welsh, but a fundamental question arises regarding the strategic direction of the Government. I want to refer to one example. Many of us have received copies of the Welsh in education strategic plans. It is very difficult to see, even after the original plans were rejected, how they have changed following the Government's response. For example, in Wrexham, at present, the county council is consulting on a proposal that all its funding for Mudiad Meithrin should disappear, yet within the WESP, the Welsh Government is asking that additional pre-school provision be made. Yet all of that funding is being withdrawn. In the same manner, I think that the Minister for transport has said to all of us that councils need to look at post-16 transport, yet there is a lack of collaboration between the education department, which deals with the WESP, and the department for transport, which deals with transport policy. So, I am not entirely sure whether one Government department responsible for one scheme ensures collaboration or sufficient provision by other departments.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

I call the First Minister to reply to the debate.

17:41

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Diolch i bawb am eu cyfraniadau heddiw. Un o'r pethau a godwyd oedd y safonau. A gaf i ddweud mai nod y Llywodraeth yw sicrhau bod rhan un y safonau o flaen y Cynulliad ym mis Mawrth? Hefyd, bydd rhan dau o flaen y Cynulliad, gobeithio, erbyn diwedd y flwyddyn nesaf. Dyna'r amserlen ar hyn o bryd.

I thank everyone for their contributions today. One of the issues raised was the issue of standards. May I say that the Government's aim is to ensure that round one of the standards will be before the Assembly in March? Round two, hopefully, will be before the Assembly before the end of next year. That is the timetable at present.

Mae sawl un wedi sôn, wrth gwrs, am doriadau i gyllideb y comisiynydd. Mae'n wir, wrth gwrs, bod yn rhaid i'r comisiynydd weithio o dan amgylchiadau lle mae llai o arian ar gael. Ond, fel y dywedais ar y dechrau, rydym wedi ailflaenoriaethu'r arian at bobl ifanc ac at gymunedau, er mwyn sicrhau bod cynnydd yn nifer y bobl sydd nid yn unig yn siarad Cymraeg ond yn ei defnyddio hefyd. Mae'n bwysig dros ben os bydd rhagor o hawliau, sy'n bwysig dros ben yng Nghymru, i ddefnyddio'r Gymraeg, bod gan ddigon o bobl yr hyder i ddefnyddio'r hawliau hynny. Ar hyn o bryd, rydym i gyd yn gwybod, oherwydd y cwymp yn y nifer sy'n siarad Cymraeg yn y cyfrifiad diwethaf, ei bod yn bwysig dros ben i sicrhau bod y nifer yn codi. Credaf mai'r hyn sydd wedi digwydd hefyd yw bod sawl un wedi dweud yn y cyfrifiad eu bod yn deall Cymraeg ond ddim yn siarad Cymraeg, er eu bod yn siarad Cymraeg, oherwydd bod ganddynt broblem gyda'u hyder eu hunain yn yr iaith. Mae'n rhaid inni, wrth gwrs, sicrhau bod eu hyder yn codi er mwyn iddynt ddweud eu bod yn siarad Cymraeg yn y cyfrifiad nesaf.

Several Members have mentioned cuts to the commissioner's budget. It is true to say, of course, that the commissioner does have to work in circumstances where there is reduced funding available. However, as I said at the outset, we have re-prioritised the funding, targeting young people and communities, in order to ensure that there is an increase not only in the number of people who speak Welsh, but an increase in the number of people who use Welsh. If there are to be enhanced rights, which are very important in terms of using the Welsh language, it is important to have sufficient numbers of people who have the confidence to take advantage of those rights. At present, we all know, due to the decline in the number of people speaking Welsh in the last census, that it is very important to ensure an increase in the number. I think that what also happened is that many people stated in the census that they understood Welsh but did not speak it, although they do speak Welsh, because of a problem in terms of their own self-confidence in speaking Welsh. We must ensure that their confidence is enhanced so that they too can mark themselves as Welsh-speakers in the next census.

Ynglŷn â'r Bil cynllunio, yr heriau yw'r rhain: yn gyntaf, wrth gwrs, mae unrhyw Fil cynllunio yn delio â strwythur, ac nid gyda pholisi. Mae polisi ynglŷn â'r byd cynllunio wastad wedi bod mewn canllawiau ac nid mewn Bil. Felly, mae sawl un wedi dweud bod rhaid cael rhyw fath o sôn am y Gymraeg ar wyneb y Bil. Ond, fel y dywedodd Aled Roberts, mae'n rhaid cael 'rhywbeth'. Y broblem yw: beth yw'r 'rhywbeth' hwnnw? Os yw'r Bil yn dweud bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn y system gynllunio, beth mae hynny'n ei olygu o ran manylion? Byddai awdurdodau lleol yn gofyn sut y dylent weithredu hynny. A yw hynny'n golygu bod rhaid ystyried yr iaith Gymraeg ym mhob cais cynllunio? Nid wyf yn credu mai dyna'r nod, beth bynnag.

In terms of the planning Bill, the challenges are as follows: first, any planning Bill deals with structure rather than policy. The policy in terms of planning has always been in guidance rather than in legislation. Many people have mentioned the fact that we must have some mention of the Welsh language on the face of the Bill, but as Aled Roberts said, we must have 'something'. The problem is: what is that 'something'? If the Bill says that the Welsh language must be considered in the planning system, what does that actually mean in terms of the detail? Local authorities would then ask how they should implement it. Does it mean giving due regard to the Welsh language in all planning applications? I do not think that that is the aim.

17:43 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r pwynt rydych yn ei wneud yn un digon dilys, ond mae honno'n broblem hyd yn oed yn y canllawiau presennol. Mae'n amhosibl bron iawn defnyddio'r cyfeiriadau yn y canllawiau presennol i wneud dim byd ymarferol o safbwynt y Gymraeg fel rhan o'r broses gynllunio. Felly, nid problem unigryw i'r Bil hwn yw'r hyn rydych yn cyfeirio ato.

The point that you make is a valid one, but that is a problem in terms of the present guidance. It is impossible to use the references in the current guidance to do anything practical in terms of the Welsh language as part of the planning process. What you are referring to is not a problem that is unique to this Bill.

17:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n wir. Yr hyn sy'n anodd, wrth gwrs, yw gweld ar hyn o bryd sut y byddai'r Bil yn gwneud pethau'n fwy eglur. Mae pawb yn deall nad nod y system gynllunio yw cael rhyw fath o asesiad o impact pob cais ar yr iaith Gymraeg. Ond y cwestiwn wedyn yw: a ydych yn asesu cais i godi pump tŷ, 10 tŷ neu 15 tŷ? Ble mae'r ffin? Sut ydych yn stopio datblygwyr rhag cyflwyno sawl cais am lai o dai er mwyn dod mewn o dan y ffin? Dyna'r broblem ar hyn o bryd a dyna pam yr ydym wedi cymryd y safbwynt ar hyn o bryd y dylid ystyried yr iaith Gymraeg mewn cynlluniau datblygu lleol. Ond, fel y dywedais, rydym yn dal i ystyried sut y gallwn gryfhau'r iaith drwy'r system gynllunio, ac, wrth gwrs, rydym yn gweithio gyda grwpiau eraill i weld pa fath o argymhellion ymarferol sydd ganddynt i gryfhau'r iaith. Ar hyn o bryd, mae pawb yn dweud bod yn rhaid cael rhywbeth, ond nid oes neb yn dweud beth. Wrth gwrs, dyna'r hyn mae'n rhaid inni ei ystyried yn fwy manwl.

That is true. What is difficult, of course, is to actually identify how the Bill could actually clarify things. Everyone realises that the aim of the planning system is not to have some sort of impact assessment on the Welsh language in terms of all planning application. Everyone understands that. The question then is: do you carry out an assessment of applications to build five, 10 or 15 houses? Where is that boundary? How do you prevent developers from putting in numerous applications for smaller numbers of houses to get over that hurdle? That is the problem at present, and is why I am taking the stance at present that consideration of the Welsh language should be in local development plans. However, as I said, we are still considering how we can strengthen the position of the Welsh language through the planning system, and we are working with other groups in order to see what kinds of practical recommendations they have to strengthen the Welsh language. At present, everyone is saying that we must have something, but no-one actually says what that should be. That, of course, is what we must consider in greater detail.

O ran y pwyntiau eraill sydd wedi cael eu codi, ynglŷn ag Ewrop, yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn ystyried beth yw sefyllfa'r iaith o ran ceisiadau cyllido o Ewrop. Mae'r comisiynydd, fel rwy'n deall, wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar hynny.

In terms of the other points raised, on Europe, it is important that we consider the position of the Welsh language in terms of applications for European funding. The commissioner, as I understand it, has responded to the consultation on that issue.

Ynglŷn â'r dylanwad rydym yn ei gael ar y Deyrnas Unedig, wel, mae hynny yn digwydd ar hyn o bryd. A gaf i roi enghraifft i Aelodau lle mae hynny wedi digwydd? Bydd pob Aelod yn gwybod beth sydd wedi digwydd ynglŷn â'r 'limit' sydd wedi cael ei roi o ran hala arian mewn etholiadau. Wrth gwrs, petai'r 'limit' yn ei le heb unrhyw fath o newid, byddai hynny wedi meddwl, wrth gwrs, y byddai cost wedi bod ar y rheini a oedd eisiau cyflwyno dogfennau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hynny wedi newid oherwydd ein dylanwad. Wrth gwrs, un o'r pethau sydd wedi digwydd yn y gorffennol yw sicrhau bod y Gymraeg 'nawr ar flaen pasportau, a hefyd y Gaeleg.

In terms of the influence that we have within the UK, well, that is happening at present. May I give Members an example of where that has happened? Every Member will be aware of what has happened in terms of the limits set on spending money on elections. Of course, had those limits been in place without any sort of change, that would have meant that it would have penalised those who wanted to present leaflets in Welsh and in English. That has changed because of the influence that we brought to bear. Of course, one of the things that has happened in the past is ensuring that the Welsh language can now be seen on the front of passports, along with Gaelic.

Mae cwestiwn arall yn codi hefyd, a gallaf ddweud wrth Aelodau fod hyn yn rhywbeth sydd wedi codi gyda Banc Lloegr. Arian Banc Lloegr, wrth gwrs, yw'r unig arian swyddogol yn Lloegr a Chymru, ond nid oes Cymraeg ar yr arian. Felly, rwyf wedi bod yn siarad â Banc Lloegr i ofyn iddo ym mha ffordd y gall ddweud fod hynny'n iawn, o gofio, wrth gwrs, y ddeddfwriaeth sydd gennym yng Nghymru. Rwy'n credu ei fod yn wir i ddweud bod eithaf stŵr wedi bod ynglŷn â hynny, ond os taw dyna yw arian swyddogol Cymru, pam felly nad oes Cymraeg ar yr arian papur ei hun? Mae hynny'n rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol.

Another question arises as well, and I can tell Members that this is something that I have raised with the Bank of England. Bank of England currency is the only official currency in England and Wales, but there is no Welsh included on the bank notes. So, I have spoken to the Bank of England to ask how it can justify that, bearing in mind the legislation that we have in Wales. I think that it is true to say that there was quite some disquiet about that, but if that is the official currency in Wales, then why does the Welsh language not appear on the bank notes themselves? That is something that we can consider for the future.

Ynglŷn â beth ddywedodd Aled Roberts, mae'n hollol annerbyniol bod rhywun yn siarad Cymraeg â rhywun o'r teulu a bod rhywun yn dweud wrthynt eu bod yn ffaelu defnyddio'r Gymraeg. Mae ymddiheuriad wedi'i roi ynglŷn â hynny. Mae'n dangos, efallai, fod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod mwy o flaenoriaeth i'r Gymraeg mewn sefyllfa fel honno.

In terms of Aled Roberts' comments, it is quite unacceptable that an individual should be asked not to speak Welsh with a member of their own family. An apology has been made in that case. It does show that there is more work to be done in terms of ensuring that there is greater priority for the Welsh language in a circumstance such as that.

Roedd dau gwestiwn arall y gwnaeth Aled Roberts eu codi. O ran cyfeiriad strategol y Llywodraeth, nid wyf wedi gweld y llythyr eto, felly byddaf am roi ateb i'r llythyr yn fanwl pan fyddaf yn ei weld. Fe wnaeth e sôn hefyd am drafnidiaeth i blant dros 16. Y broblem, wrth gwrs, yw nad oes dyletswydd statudol i wneud hynny. Lan hyd 'nawr, mae hynny wedi digwydd ymhob awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae cludiant wedi'i roi i blant dros 16 oed. Byddem yn gobeithio y byddai hynny'n parhau yn y dyfodol. Mae dyletswydd, wrth gwrs, ar awdurdodau lleol i hybu'r iaith Gymraeg o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a roddwyd mewn lle sawl blwyddyn yn ôl. Wrth gwrs, byddem yn erfyn arnynt i gadw at ysbryd y ddeddfwriaeth honno pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau.

There were two other questions that Aled Roberts raised. On the strategic direction of Government, I have not yet seen the letter that he referred to, so what I would prefer to do is to respond in detail to that letter when I read it. He also asked a question on transport for pupils over the age of 16. The problem is that there is no statutory duty to make that provision. Up until now, that has been available in all local authorities in Wales, and transportation has been provided for those in the post-16 sector. I would hope that that would continue for the future. There is a duty upon local authorities to promote the Welsh language under the Learner Travel (Wales) Measure 2008 that was put in place some years ago. Of course, I would urge them to adhere to the spirit of that legislation when they make their decisions.

Rwy'n gweld fy mod wedi rhedeg mas o amser, Ddirprwy Lywydd. Diolch am eich amynedd. Gobeithio y gwelwn fod y Gymraeg wedi tyfu eto wrth inni ystyried adroddiad y comisiynydd y flwyddyn nesaf.

I see that I have run out of time, Deputy Presiding Officer. Thank you for your patience. I hope that we see the Welsh language prospering yet more as we consider the next report by the Welsh language commissioner.

17:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The proposal is to agree the motion. Are there any objections? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:48*

*The meeting ended at 17:48.*